# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **PWYLLGOR SAFONAU** | **STANDARDS COMMITTEE** |
| **DYDD MERCHER, 14 MEDI 2016 am 2.00 o'r gloch y.p.** | **WEDNESDAY, 14 SEPTEMBER, 2016 at 2.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |
|---|---|---|

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Mrs. Denise Harris Edwards
Mr. Islwyn Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**
Mr. Leslie Lord
Mrs. Dilys Shaw
Mr. Michael Wilson **(Cadeirydd/Chair)**

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cynghorydd/Councillor Trefor Lloyd Hughes
Y Cynghorydd/Councillor Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Y Cynghorydd/Councillor John Chorlton
Y Cynghorydd/Councillor John Roberts

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ac unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 4)

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth, 2016.

3 **DIWEDDARIAD AR GOFRESTRAU AR-LEIN YR AELODAU**

Pensaer Gwasanaethau Digidol i fynychu i roi diweddariad ar lafar ar y gwaith o symud datganiadau o ddiddordeb / rhoddion a lletygarwch ar-lein.

4 **RHAGLEN HYFFORDDIANT DDRAFFT AR GYFER AELODAU NEWYDD YM MIS MAI 2017** (Tudalennau 5 - 16)

Cyflwynir adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol.

5 **CANLLAWIAU DIWYGIEDIG GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU AR Y CÔD YMDDYGIAD I AELODAU** (Tudalennau 17 - 112)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i aelodau (a) cynghorau sir a bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol, a (b) cynghorau cymuned.

6 **NODYN BRIFFIO I AELODAU AR Y NEWIDIADAU STATUDOL I'R CÔD YMDDYGIAD I AELODAU** (Tudalennau 113 - 116)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn amgáu nodyn brifo y bwriedir ei gylchredeg i Aelodau ar y newidiadau statudol i'r Côd Ymddygiad.

7 **CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 117 - 120)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi ei ddiweddaru ar gyfer (a) Cynghorwyr Sir, a (b) Cynghorau Tref a Chymuned. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau.

8 **PENDERFYNIADAU PANEL DYFARNU CYMRU** (Tudalennau 121 - 136)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) yn cynnwys crynodeb o'r penderfyniadau diweddaraf. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau.

9 **FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU** (Tudalennau 137 - 142)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y trefniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

10 **CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 143 - 198)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y newidiadau y bwriedir eu gwneud i Gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau

11 **MABWYSIADU'R CÔD YMDDYGIAD STATUDOL DIWYGIEDIG A'R GOFYNION**

**HYSBYSEBU** (Tudalennau 199 - 210)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) i roi gwybod i aelodau am y drefn o ran mabwysiadu'r Côd Ymddygiad diwygiedig sydd wedi ei gynnwys yn y Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Model o Gôd Ymddygiad) (Cymru) (Diwygiad) 2016 a'r gofynion o ran hysbysebu yn dilyn ei fabwysiadu.

**12** **Y GOFYNION SYDD AR GYNGHORWYR CYMUNED O RAN DATGAN DIDDORDEBAU** (Tudalennau 211 - 216)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar y gofynion cyfredol sydd ar Gynghorwyr Cymuned o ran datgan diddordeb.

**13** **ADOLYGIAD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU O'R COFRESTRAU DIDDORDEB AR GYFER CYNGHORAU TREF A CHYMUNED** (Tudalennau 217 - 222)

Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol) ar yr adolygiad a gynhelir gan y Pwyllgor Safonau o'r Cofrestrau Diddordeb a gedwir gan gynghorau tref a chymuned.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2016

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | **Aelodau Annibynnol**<br><br>Mr. Michael Wilson (Cadeirydd)<br>Mr. Islwyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Mrs. Denise Harris Edwards<br>Mr Leslie Lord<br>Mrs. Dilys Shaw<br><br>**Yn Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned**<br><br>Y Cynghorydd John Chorlton<br>Y Cynghorydd John Roberts |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Adran 151,<br>Swyddog Polisi (ar gyfer Eitem 3),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr T. Ll.Hughes, Dafydd R. Thomas |

Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd John Chorlton, cynrychiolydd Cyngor Tref / Cymuned, i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Safonau.

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION CYFARFODYDD**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfodydd canlynol fel rhai cywir:-

- Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 16 Medi, 2015.

**YN CODI O'R COFNODION**

- **Eitem 3 – Adolygiad o'r Rheolau Gweithdrefn Cynllunio – Rhan 4.6 y Cyfansoddiad**

  Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau i beidio â chymryd unrhyw gamau hyd nes y bydd drafft o'r Rheolau Gweithdrefn Cynllunio Cenedlaethol ar gael. Mae'r rhain yn destun ymgynghoriad tan fis Mai.

**CYTUNWYD y bydd y Swyddog Monitro yn cylchredeg y drafft i Aelodau'r Pwyllgor a fydd yn cyflwyno eu sylwadau arnynt i'r Swyddog Monitro yn ystod y cyfnod ymgynghori. (cyflwynwyd ar 15/3/2016)**

- **Eitem 4 – Canllawiau Diwygiedig ar y Côd Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cymuned**

  Roedd y Swyddog Monitro wedi ysgrifennu at y Cynghorau Cymuned ar 23 Medi, 2015 gan amgáu copi o'r Canllawiau Diwygiedig ynglŷn â'r Côd Ymddygiad a dolen i'r canllawiau ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

- **Eitem 5 – Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Gorchymyn Cychwyn Rhif 2) 2015**

  Dywedodd y Swyddog Monitro y bydd y mater hwn yn cael ei drafod o dan eitem 4 – Adolygiad o Dair Cofrestr Diddordeb yr Aelodau.

- **Eitem 6 – Ffeithlenni a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – Ymchwiliadau a Chyfweliadau – Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.**

  Dywedodd y Swyddog Monitro fod y ffeithlenni uchod wedi cael eu hanfon ymlaen at y Cynghorau Cymuned ar 23 Medi, 2015.

- **Eitem 7 – Canllawiau Lleol Drafft ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion**

  Dywedodd y Swyddog Monitro fod y Pwyllgor Safonau yn cefnogi'r Canllawiau Lleol Drafft ar y Côd Ymddygiad i Swyddogion a'i fod yn argymell eu cymeradwyo er mwyn ymgynghori. Codwyd materion yn ystod y broses ymgynghori mewn perthynas â rheolwyr yn prynu busnesau ac roedd diwygiadau sylweddol wedi'u gwneud i'r ddogfennaeth. Ymgynghorwyd ymhellach felly ar y ddogfen a rhagwelir y bydd y Canllawiau Lleol Drafft yn cael eu cyhoeddi cyn bo hir. (Cyhoeddwyd 14/3/2016)

- Cofnodion y Panel Caniatâd Arbennig a gynhaliwyd ar 24 Medi, 2015.

  **YN CODI O'R COFNODION**

  Dywedodd yr Is-gadeirydd ei fod ef a rhai Aelodau o'r Pwyllgor Safonau wedi mynychu Panel Caniatâd Arbennig yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Dywedodd ei fod o'r farn y dylid trefnu sesiwn hyfforddi ar gyfer y Pwyllgor Safonau ar Ganiatadau Arbennig a Gweithdrefnau.

  **PENDERFYNWYD bod y Swyddog Monitro yn trefnu sesiwn hyfforddi ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Safonau ar Ganiatadau Arbennig.**

  **GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

- Cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 19 Chwefror, 2016.

  Mynegodd Aelodau'r Pwyllgor bryder fod "penderfyniad" y Pwyllgor Safonau ynghylch atal y Cynghorydd Peter Rogers i'w weld ar wefan y Daily Post bron i awr cyn cychwyn y cyfarfod ar 19 Chwefror, 2016. Dywedodd y Swyddog Monitro ei bod wedi cysylltu â'r Daily Post yn gofyn iddynt dynnu'r stori oddi ar y wefan.

  **PENDERFYNWYD bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at y Daily Post ar ran y Pwyllgor Safonau yn mynegi pryder mewn perthynas â'r mater hwn ac yn gofyn am eglurhad / unioni'r mater.**

**GWEITHREDU: Fel y nodir uchod.**

**3 CYNGHORAU TREF A CHYMUNED – GWEFANNAU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro mewn perthynas â'r gofyniad statudol i bob Cyngor Cymuned gael presenoldeb ar y we a chyhoeddi gwybodaeth ar eu gwefannau.

Diweddarwyd yr adroddiad gan y Swyddog Polisi a dywedodd fod Cyngor Cymuned Bodedern bellach wedi hawlio'r grant datblygu gwefan. Fodd bynnag, nid yw Cynghorau Cymuned Bodorgan a Llaneugrad dal wedi hawlio'r grant ac maent wedi dweud nad ydynt yn bwriadu sefydlu gwefannau. Adroddwyd bod gan 26 o Gynghorau Cymuned wefan a bod 6 ohonynt yn y broses o ddatblygu gwefan.

Dywedodd y Swyddog Monitro ei fod yn ofyniad statudol i Gynghorau Tref / Cymuned fod â gwefannau a bod rhaid i'w cofrestrau o ddiddordebau fod ar gael arnynt.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor am i'r Swyddog Monitro ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ganfod y camau a gymerir ganddo pan nad oes gan Gynghorau Cymuned wefan.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Monitro yn ysgrifennu at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i sefydlu'r camau a gymerir ganddo mewn perthynas â Chynghorau Cymuned nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofyniad i gael gwefan.**

**GWEITHREDU: Fel y nodwyd uchod.**

**4 ADOLYGIAD O'R TAIR COFRESTR O DDIDDORDEB SYDD GAN AELODAU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro mewn perthynas â'r broses a'r amserlen ar gyfer yr Adolygiad Blynyddol o Gofrestrau.

Adroddodd y Swyddog Monitro fod yr adolygiad o'r cofrestrau yn rhan o raglen waith y Pwyllgor Safonau a chan bod 30 o Gynghorwyr, y trefniant arferol yw bod yr aelodau annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn adolygu cofrestrau unrhyw chwech o Gynghorwyr a ddewisir ar hap.

Y Cofrestrau yw: -

- Y Gofrestr Sefydlog h.y cyn-gofrestr o ddiddordebau
- Datganiadau mewn Cyfarfodydd
- Rhoddion a Lletygarwch

Dywedodd y Swyddog Monitro fod Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau yn awr ar wefan y Cyngor Sir a'u bod hefyd yn cynnwys gwybodaeth am aelodaeth o gyrff allanol, gan gynnwys cyrff llywodraethu ysgolion.

Dywedodd y Swyddog Monitro ymhellach y bydd cofrestrau Cynghorau Tref / Cymuned yn cael eu hadolygu hefyd. Nododd ymhellach ei fod yn ofyniad statudol i Gynghorau Tref / Cymuned gael gwefan a dylai Diddordebau'r Aelodau gael eu cynnwys arni. Roedd Aelodau'r Pwyllgor Safonau o'r farn y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at y Cynghorau Tref / Cymuned yn amlinellu'r gofyniad a'r broses i'w dilyn ar gyfer cynnal adolygiad o diddordebau eu Haelodau. Nodwyd y bydd y broses yn cael ei chynnal ym mis Medi 2016 gan Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn cynnal yr Adolygiad Blynyddol o'r Tair Cofrestr o Ddiddordeb fel yr aseiniwyd y llynedd;**
- **Bod yr Aelodau sy'n cynrychioli'r Cynghorau Tref / Cymuned yn cynnal yr Adolygiad Blynyddol o Ddiddordebau'r Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau ac o ddiddordebau Aelodau Cyfetholedig y ddau Bwyllgor Sgriwtini ac Aelodau Cyfetholedig y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;**
- **Cwblhau'r broses o Adolygu'r Cofrestrau erbyn diwedd mis Ebrill 2016 a threfnu Cyfarfod Anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau i drafod canfyddiadau'r adolygiad;**
- **Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys prif ganfyddiadau'r adolygiad yn ei Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Sir llawn ym mis Mai 2016;**
- **Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gynghorau Cymuned yn amlinellu'r broses o adolygu Cofrestrau Diddordebau'r Aelodau a nodi y bydd y broses yn dechrau ym mis Medi 2016.**

**5 CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro.

Dywedodd y Swyddog Monitro bod un gŵyn am Gynghorydd Sir yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd. Nododd nad oes unrhyw fater angen sylw o ran Cynghorwyr Tref / Cymuned.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**6 ADRODD O GYNHADLEDD SAFONAU CYMRU 2015**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd ar eu presenoldeb yng Nghynhadledd Safonau Cymru a gynhaliwyd gan Gyngor Dinas Caerdydd.

Amlinellodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd y 'gweithdai' yr oeddent wedi eu mynychu.

Dywedwyd bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi mynegi ei fod yn bwriadu canolbwyntio ar faterion Iechyd yn hytrach na delio â mân gwynion am Gynghorau.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**7 CYFARFODYDD Y PWYLLGOR SAFONAU YN Y DYFODOL**

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac y cynhelir cyfarfodydd anffurfiol yn rheolaidd. Bydd y Swyddog Monitro yn adrodd i'r Pwyllgor Gwaith a bydd y Cadeirydd yn mynychu cyfarfod o Arweinyddion Grwpiau'r Cyngor i ofyn am eu cefnogaeth.**

**MR. MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN** | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGORAU SAFONAU A GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD:** | **14 Medi, 2016 & 24 Hydref, 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYNLLUN DATBLYGU AELODAU -**<br>**Ebrill 2016 - Mawrth 2017** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **RHOI DIWEDDARIAD AR GYNLLUN DATBLYGU 2016/17 AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG A CHYNNIG AR GYFER CYFNOD CYNEFINO I AELODAU ETHOLEDIG YN DILYN ETHOLIADAU'R CYNGOR SIR YM MIS MAI 2017** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **MIRIAM WILLIAMS, RHEOLWR DATBLYGU ADNODDAU DYNOL** |

Mae dyletswydd ar yr Awdurdod i ddarparu cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer ei Aelodau ac i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r Cyngor yn flynyddol. Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â Hyfforddi a Datblygu Aelodau.

Yn sylfaenol, mae'r Cynllun Datblygu Aelodau yn ceisio ymdrin ag anghenion Aelodau er mwyn iddynt gael eu cefnogi'n well yn eu swyddogaethau trwy ddarparu cynllun datblygu priodol sy'n cael ei fonitro, ei werthuso a'i adolygu'n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn "addas i'r pwrpas" ac o'r ansawdd iawn. Caiff adborth parhaus gan Aelodau Etholedig, ynghyd â gwybodaeth a gesglir o Adolygiadau Datblygiad Personol ei chasglu er mwyn llunio'r cynllun datblygu ac i ddiweddaru'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn.

Mae holl Aelodau'r Cyngor wedi derbyn disgrifiadau swydd a manylebau person generig sy'n cynnwys cyfeiriad at y cyfleoedd y mae'r Awdurdod yn eu darparu o ran datblygiad personol a datblygu rôl.

Paratowyd y Cynllun Datblygu sydd ynghlwm (atodiad 1) ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017 er mwyn tynnu sylw at y prif gyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. Mabwysiadwyd y cynllun yn y cyfarfod o'r Cyngor Llawn ym mis Mai 2016, ond ers hynny, mae wedi'i ddiweddaru i gymryd i ystyriaeth sesiynau hyfforddi ychwanegol ac ati.

I’r graddau y mae hynny’n bosibl, mae'r rhaglen yn ceisio darparu ar gyfer anghenion yr aelodau e.e. cymysgedd o sesiynau ac amrywio fformat yr hyfforddiant, gan gynnig sesiynau dysgu cymysg e.e. gweithdai, mentora, e-ddysgu a sesiynau un-i-un ac ati.

Ers i'r cynllun gael ei gyflwyno i'r cyngor llawn, mae swyddog E-Ddysgu wedi'i recriwtio a bydd yn cychwyn yn ei swydd ar ddechrau mis Medi.  Rhan o rôl y swyddog hwn fydd cymryd cyfrifoldeb am hyrwyddo a chyfeirio Swyddogion ac Aelodau Etholedig fel ei gilydd  i becynnau hyfforddi amrywiol sydd ar gael ac yn benodol, y rhai sydd ar gael ar lwyfan E-Ddysgu Cymru Gyfan.  Dylid nodi bod Aelodau Etholedig, yn ychwanegol at yr anghenion a nodwyd yn y cynllun datblygu, yn mynychu sesiynau briffio yn rheolaidd sy'n canolbwyntio ar flaenoriaethau busnes yr Awdurdod. Cedwir manylion am y sesiynau briffio hyn gan y tîm Trawsnewid Corfforaethol.

Mae'r cynllun datblygu yn "rhaglen dreigl" o sesiynau gyda'r bwriad o barhau i atgyfnerthu mewn modd cadarnhaol y gefnogaeth a roddir i aelodau yn eu swyddogaethau, gwella safonau a datblygu arferion da a fu o gymorth i’r Cyngor ennill statws Siarter Datblygu Aelodau.

Yn ogystal, mae rhaglen Gynefino 12 mis wedi cael ei datblygu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (gweler atodiad 2) mewn cydweithrediad â phob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae hyn yn dangos y modd y gellid integreiddio hyfforddiant gorfodol ac adnoddau hyfforddi sydd ar gael ar gyfer datblygu’r  holl Aelodau Etholedig yn dilyn etholiadau 2017. Bydd hyn yn sicrhau rhywfaint o gysondeb ar draws yr Awdurdodau o ran y sesiynau sydd ar gael a nod y rhaglen yw cynnig dull cymysg o gyflwyno cyfleoedd  dysgu.

Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd sy’n gyfrifol am fonitro’r cynnydd mewn perthynas â Datblygu Aelodau Etholedig a bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn cyflwyno diweddariadau’n rheolaidd i’r Pwyllgor.

**ARGYMHELLION:**

- Ceisir eich barn mewn perthynas ag unrhyw hyfforddiant pellach y gellid ei nodi ar gyfer ei gynnwys yn y cynllun hyfforddi sydd ynghlwm yn atodiad 1
- Cyflwyno sylwadau ar y Cynllun Hyfforddiant Cynefino arfaethedig ar ôl etholiadau 2017 fel y’i gwelir yn atodiad 2.

**Miriam Williams**
**Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol**
**23/08/2016**

# CYNLLUN DATBLYGU AR GYFER AELODAU ETHOLEDIG/

# DEVELOPMENT PLAN FOR ELECTED MEMBERS

# EBRILL /APRIL 2016 – MAWRTH/MARCH 2017



**Mae'r Cynllun yma yn seiliedig ar wybodaeth wedi ei gasglu gan Swyddogion/Cynlluniau Datblygu Personol, Aelodau Etholedig/Anghenion Siarter Aelodau ac yn ychwanegol I'r sesiynau briffio misol a drefnir i'r Aelodau.**

**Bwriedir i'r cynllun gael ei ddiwygio'n briodol fel mae blaenoriaethau/deddfwriaeth yn newid/ ac bydd yn ddibynol ar argaeledd cyllidebau i'w gefnogi.**

**This Plan is based on information collated from Officers/Elected Member Personal Development Plans/Member Charter requirements and in addition to the monthly briefing sessions arranged for Elected Members.**

**The intention is that the plan is amended appropriately as priorities/legislation changes. The plan is also dependent on availability of budgets to support.**

| **PWNC**<br><br>**SUBJECT** | **CYNULLEIDFA**<br><br>**AUDIENCE** | **DYDDIAD**<br><br>**DATE** |
|---|---|---|
| **Canllaw y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a Chraffu/Older People's Commissioner WalesPCW Guidance on EHR Impact Assessments & Scrutiny** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | 11 Mai/May 2016 |
| **Cyfres o sesiynau Cyllid/Archwilio i gynnwys:/ Series of Finance/Audit sessions to include:**<br><br>• **Datganiad Cyfrifon/Statement of Accounts**<br><br>• **Fframwaith y Drefn Lywodraethol Newydd ar gyfer Llywodraeth Leol/ New Governance Framework for Local Government'**<br><br>• **Rheoli Trysorlys/Treasury Management** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members<br><br>Pwyllgor Archwilio/Audit Committee<br><br>Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | I'w drefnu/To be arranged<br><br>Medi/September 2016<br><br>9 Tachwedd/November 2016 |
| **Sesiwn Caffael/<br>Procurement Session** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Medi/September 2016 |

| | | |
|---|---|---|
| **Diweddariad Trwyddedu/<br>Licencing Update** | Pwyllgor Trwyddedu/<br>Licencing Committee Members | 20 Mehefin/June<br>2016 |
| **Trwyddedu Tacsis/Taxi Licencing** | Pwyllgor Trwyddedu/<br>Licencing Committee Members | Tachwedd/November 2016 |
| **Cyfres o Hyfforddiant & Diweddariad Materion/<br>Series of Planning Training & Updates** | Pwyllgor Cynllunio/<br>Planning Committee | Fel bô'r angen/<br>As and when required |
| **Cyfres o sesiynau ar faterion Tai a Cymuned i gynnwys:/<br>Series of sessions relating to Housing and Community to include:** | | |
| • **Deddf Tai (Cymru) 2014 gan gynnwys Newidiadau mewn deddfwriaeth Digartrefedd a'r Cynydd mewn Treth Cyngor ar dai gwag tymor hir ag ail-gartrefi** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Tachwedd/November 2016 |
| • **Diwygio Lles – newidiadau sydd ar y ffordd gyda'r Credyd Unedol [Universal Credit] : darparwr posib ydi Cyngor Sir y Fflint [dan gytundeb LLC]** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Hydref/October 2016 |
| • **Diogelu a Rhiant Corfforaethol/<br>Safeguarding and Corporate Parenting** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | 17 Tachwedd/November<br>2016 |

| | | |
|---|---|---|
| • **Sesiynau Ymwybyddiaeth Diogelu/Safeguarding Awareness Sessions**<br>• **Sesiynau dilyniant - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 / Follow on sessions - Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014**<br>• **Sesiwn Ymwybyddiaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)/ Well-being of Future Generations (Wales) Act Awareness Session** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members<br><br>Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members<br><br>Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | I'w gadarnhau/To be confirmed<br><br>I'w gadarnhau/To be confirmed<br><br>Chwefror/February 2017 |
| **Cyfres o sesiynau ar faterion Addysg i gynnwys:/ Series of sessions relating to Education to include:**<br>• **Cynefino a Sgiliau i Lywodraethwyr/Governor Induction and Skills** | Aelodau Etholedig sy'n Lywodraethwyr Ysgolion/ Elected Members who are School Governors | Mae Cyrff Llywodraethol yn derbyn manylion am gwrs e ddysgu cenedlaethol i Lywodraethwyr newydd; hyn wedi ei drefnu drwy Cynnal. |

| | | |
|---|---|---|
| • **Diogelu/Safeguarding** | Aelodau Etholedig sy'n Lywodraethwyr Ysgolion/ Elected Members who are School Governors | Cwrs yn cael ei gynnal yn flynyddol mis Chwefror i Lywodraethwyr sydd gyda chyfrifoldeb Diogelu Plant ar y Corff Llywodraethol. |
| • **Sesiwn diweddariad Llywodraethu Gwybodaeth/Information Governance refresher training** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | Ionawr/January 2017 |
| • **Hyfforddiant Cyfryngau Cymdeithasol/ Social Media Training** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | I'w gadarnhau/To be confirmed |
| • **Sgiliau Cadeirio/ Chairing Skills** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | Fel yr adnabyddir/ As and when identified |
| • **Sgiliau TG/ IT Skills** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | Fel yr adnabyddir/ As and when identified |
| • **Sgiliau Iaith/Language Skills** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | Fel yr adnabyddir/ As and when identified |
| • **Mentora/Mentoring** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | Fel yr adnabyddir/ As and when identified |
| • **Cyfansoddiad/Constitution** | Holl Aelodau Etholedig/ All Elected Members | I'w gadarnhau/To be arranged |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfres o hyfforddiant E-Ddysgu ar gael drwy Academi Cymru Gyfan, i gynnwys:/ Suite of E-Learning training available via All Wales Academy, to include:**<br>• **Moesau & Safonau/Ethics& Standards**<br>• **Penderfyniadau i Genedlaethau'r Dyfodol/Decisions for Future Generations**<br>• **Cadeirio Cyfarfodydd/Chairing Meetings**<br>• **Sgiliau Siarad Cyhoeddus/Public Speaking Skills**<br>• **Cynefino a Sgiliau i Lywodraethwyr/Governor Induction and Skills**<br>**Cyngor Gofal Cymru/Care Council for Wales:**<br>• **Diogelu/Safeguarding** | Holl Aelodau Etholedig/<br>All Elected Members | Fel yr adnabyddir/<br>As and when identified |



- Trefnir sesiynau ar gyfer Cynghorau Bro a Thref lle bô'r angen/
  Sessions for Town and Community Councils will be arranged as/when identified

- Bydd Aelodau o’r Pwyllgor Safonau ac Aelodau Lleyg yn cael gwahoddiad i rai sesiynau lle’n briodol / Where appropriate, Members of the Standards Committee and Lay Members will be invited to sessions

Miriam Williams
Rheolwr Datblygu Adnoddau Dynol/
Human Resource Development Manager

## Rhaglen cyflwyno CSYM i gynghorwyr (ar sail model CLILC) dros flwyddyn gan ddangos cyfleoedd i gyfuno hyfforddiant gorfodol yn ôl argaeledd adnoddau.

| Gweithgaredd | Cynulleidfa | Dull | Deunyddiau hyfforddi ar gael/angenrheidiol | Pryd |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynefino (swyddfeydd y cyngor a chyfleusterau'r sir) | Pob aelod | Taith | Gwybodaeth, mapiau ac ati yn rhan o raglen pob awdurdod. Dylai copïau caled o lawlyfr WLGA i gynghorwyr fod ar gael. | Wythnos 1 |
| Cyflwyno'r cyngor, ei rôl a threfn ei lywodraethu. | Pob aelod | Prif Weithredwr | I'w llunio gan staff yn lleol. | Wythnos 1 |
| **Cyflwyno TGCh a'r offer** | **Pob aelod (G)** | Swyddogion TGCh, sesiynau unigol. | Sesiwn a chanllawiau i'w llunio gan staff yn lleol. | Wythnos 1 |
| Cyflwyno'r amryw wasanaethau | Pob aelod | Pob uwch swyddog | Dylai gwybodaeth sylfaenol fod yn y pecyn cyflwyno ac ati. | Wythnos 1 |
| **Côd ymddwyn a moeseg** | **Pob aelod (G)** | Swyddog Monitro. Fideo'r Ombwdsmon a ffyn data. | Mae tri cyfreithiwr yn helpu CLILC i baratoi deunyddiau a diweddaru'r dysgu electronig. | Wythnos 1 |
| **Materion cyfansoddiadol megis cymryd rhan mewn cyfarfodydd** | **Pob aelod (G)** | Swyddog Monitro | Cwrs Mewnol | Y chwe mis cyntaf |
| **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru** | **Pob aelod (G)** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | Mae modiwl dysgu electronig a deunyddiau lleol ar gael bellach. | Y chwe mis cyntaf |
| **Penderfynu er lles cenedlaethau'r dyfodol (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol)** | **Pob aelod (G)** | Gweithdy – Uwch swyddogion ac aelodau profiadol. Dysgu electronig. | Mae dysgu electronig ar gael trwy wefan Academi Cymru. | Y chwe mis cyntaf |
| **Cyflwyno cydraddoldeb** | **Pob aelod (G)** | Gweithdy swyddogion cydraddoldeb a dysgu electronig. | Mae dysgu electronig ar gael trwy wefan Academi Cymru ac mae deunyddiau ar gyfer y gweithdy ar gael ym mhob awdurdod. | Y chwe mis cyntaf |
| **Diogelu** | **Pob aelod (G)** | Gweithdy - Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ogystal â dysgu electronig. | Dysgu electronig trwy wefan Academi Cymru ac mae deunyddiau ar gyfer y gweithdy ar gael ym mhob awdurdod. Llawlyfr SSIA i gynghorwyr. | Y chwe mis cyntaf |
| **Rheoli data a Deddf Mynnu Gwybodaeth** | **Pob aelod (G)** | Gweithdy a dysgu electronig. | Mae dau fodiwl ar gael trwy Academi Cymru – Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth. | Y chwe mis cyntaf |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhiantu Corfforaethol** | **Pob aelod (G)** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. | Mae deunyddiau ar gyfer y gweithdy ar gael ym mhob awdurdod. Llawlyfr SSIA i gynghorwyr. | Y chwe mis cyntaf |
| **Materion ariannol megis pennu cyllidebau a rheoli'r trysorlys** | **Pob aelod (G)** | Cyfarwyddwr Cyllid a dysgu electronig | Mae deunyddiau ar gyfer y gweithdy ar gael ym mhob awdurdod. Mae angen dysgu electronig. | Y chwe mis cyntaf |
| **Trefniadau newydd pwyllgorau cynllunio yn sgîl Deddf Cynllunio** | **Pwyllgor cynllunio (G)** | Swyddog Cynllunio | Mae WLGA yn comisiynu deunyddiau i'r wlad gyfan trwy gylch cynghori. | Cyn y cyfarfod cyntaf |
| **Safonau** | **Pwyllgor safonau (G)** | Swyddog Monitro | Cwrs Mewnol | Cyn y cyfarfod cyntaf |
| **Trwyddedu** | **Pwyllgor trwyddedu (G)** | Swyddog Trwyddedu | Cwrs Mewnol | Cyn y cyfarfod cyntaf |
| **Archwilio** | **Pwyllgor archwilio (G)** | Swyddog Cyllid | Cwrs Mewnol | Cyn y cyfarfod cyntaf |
| **Penodiadau, apeliadau a medrau cyfweld** | **Aelodau paneli penodi (G)** | Cyfarwyddwr AD | Cwrs Mewnol | Cyn cymryd rhan |
| **Rôl pwyllgorau craffu** | **Pob aelod (G)** | Pennaeth y gwasanaethau democrataidd/swyddogion craffu | Cwrs Mewnol. Mae WLGA yn llunio'r dysgu electronig ar y cyd â rheolwyr materion craffu. | Cyn y cyfarfodydd craffu cyntaf |
| **Materion cynllunio i gynghorwyr nad ydyn nhw'n ymwneud â'r maes hwnnw – protocolau** | **Pob aelod (G)** | Swyddogion cynllunio/aelod profiadol | Deunyddiau i'w comisiynu gan gylch cynghori o dan nawdd Llywodraeth Cymru, gyda chymorth swyddogion cynllunio. | Y chwe mis cyntaf |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Arwain cymuned a thrin a thrafod achosion | Pob aelod | Pennaeth Gwasanaeth Democrataidd /aelod profiadoluchelradd/e-ddysgu | Mae modiwl am waith cynghorydd yn y ward ar y gweill – bydd ar gael trwy Academi Cymru. | Yr ail chwe mis |
| Datblygu cabinet newydd | Cabinet | Hwyluswyr allanol | Deunyddiau hwyluswyr allanol. | Yr ail chwe mis |
| Gofynion newydd o ran polisïau, gwasanaethau a'r gyfraith | Pwyllgorau perthnasol | Penaethiaid Gwasanaethau | Gan staff lleol yn ôl yr angen.<br>Papurau hysbysu gan Lywodraeth Cymru? | Yn ystod yr ail chwe mis a'r brif raglen hyfforddi |
| Llywio pwyllgor a chyfarfodydd craffu | Cadeirydd pob pwyllgor craffu | Hwyluswyr allanol | Deunyddiau hwyluswyr allanol. | Yr ail chwe mis |
| Medrau cadeirydd pwyllgor | Pob cadeirydd | Hwyluswyr allanol/e-ddysgu | Dysgu electronig trwy wefan Academi Cymru | Yr ail chwe mis |
| Cyfryngau cymdeithasol | Pob aelod | Swyddogion cyfathrebu/TGCh yn ôl ymagwedd y cyngor. | Mae angen deunyddiau dysgu electronig. | Yr ail chwe mis |
| Gwaith consortia addysg | Pob aelod | Staff Consortia | Manylion i'w cadarnhau | Yr ail chwe mis |
| Cynghorwyr Newydd, Heriau Newydd | Pob aelod | Pum gweithdy rhanbarthol gan WLGA<br>Ymddygiad cynghorwyr llwyddiannus. Cynghorwyr digidol. Rheoli'r arian.<br>Cwrdd â'r aelodau (Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Cynulliad, WLGA) | | Hydref/ Tachwedd 2017 |

**(M) = Mandadol** **Bydd hyfforddiant pellach ar wybodaeth a sgiliau'n cael ei benderfynu o CDP pan fydd anwytho wedi ei gwblhau**

**LLC – Llywodraeth CymruWelsh Government**
**CLILC – Cymdeithas Llywordraeth Leol Cymru**
**ACG – Academi Cymru Gyfan**
**SSIA – Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Medi 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Canllawiau Diwygiedig ar y Côd Ymddygiad i Aelodau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd i'r Pwyllgor Safonau ar y Canllawiau Diwygiedig ar y Côd Ymddygiad** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Mared Wyn Yaxley, mwycs@ynysmon.gov.uk 01248 752566** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

1.1 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a chynghorau cymuned / tref yng Nghymru fabwysiadu côd ymddygiad statudol sy'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau ac aelodau cyfetholedig. Gofynnir i aelodau o'r fath ddarparu addewid ysgrifenedig i gadw at ofynion y Côd ymddygiad yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

1.2 Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol )(Cymru) (Diwygiad) 2016" a "Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygiad) 2016 wedi gwneud newidiadau i'r Côd Ymddygiad Enghreifftiol a gyflwynwyd yn 2008. Mabwysiadwyd y newidiadau hyn i'r Côd gan y Cyngor hwn ar 12 Mai 2016.

1.3 Mae rôl Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn cynnwys darparu arweiniad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol a chynghorau cymuned er mwyn sicrhau bod ganddynt well dealltwriaeth o'u hymrwymiadau o dan y côd ymddygiad ac i adlewyrchu unrhyw newidiadau cyfreithiol a phrofiadau sy'n esblygu.

1.4 Ynghlwm yn **Atodiadau 1 a 2** yn ôl eu trefn mae'r Canllawiau diwygiedig sy'n berthnasol i aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r Cyngor a'r Canllawiau diwygiedig ar gyfer aelodau cyngor cymuned. Mae'r rhain yn ddyddiedig Awst 2016 a Gorffennaf 2016.

1.5 Dyma bedwerydd fersiwn y Canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Ombwdsmon ac mae'n disodli'r fersiynau blaenorol.

## 2. ARWYDDOCÂD Y CANLLAWIAU

Wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i honiad o dorri'r côd neu a ddylid parhau ag ymchwiliad parhaus neu a ddylid cyfeirio ymchwiliad i bwyllgor safonau lleol, neu i Banel Dyfarnu Cymru (h.y. y pwyllgor safonau cenedlaethol i bob pwrpas) bydd yr Ombwdsmon yn ystyried y wybodaeth berthnasol sydd wedi'i chynnwys yn y canllawiau hyn.

Yn ychwanegol at hynny, mae’r Canllawiau yn helpu aelodau ddeall y lefel o ymddygiad a ddisgwylir ganddynt o dan y Côd ac mae’n darparu mesur o degwch a chysondeb ar gyfer yr holl aelodau ar draws yr holl gyrff perthnasol.

## 3. CRYNODEB O’R NEWIDIADAU

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r newidiadau sy'n codi o'r Canllawiau newydd:-

3.1 Isod, rydw i wedi adolygu’r canllawiau ar gyfer aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol:-

### 3.1.1 **COSBAU**

Mae’r cyfnod gwaharddiad a bennir gan bwyllgor safonau yn parhau i fod wedi ei gyfyngu i gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis. Y newid yw bod y cyfnod yn gyfyngedig i weddill cyfnod yr aelod yn y swydd, os yw’r cyfnod hwnnw yn llai na 6 mis.

[paragraff 3 (9) o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Trwyddedau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygiad) 2016]

### 3.1.2 **CANIATÂD I APELIO**

Mae gofyniad newydd wedi’i gyflwyno sef bod yn rhaid i aelod ofyn am ganiatâd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau. Mae’n debyg mai bwriad hyn yw diddymu apeliadau annheilwng neu ddisylwedd.

Mae rôl Panel Dyfarnu Cymru felly wedi’i diwygio oherwydd yn ogystal ag ystyried apeliadau, bydd hefyd yn awr yn ystyried a fydd caniatâd yn cael ei roi ar gyfer yr hawl i apelio.

[paragraff 3 (10) o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygiad) 2016]

### 3.1.3 **RHOI GWYBOD AM ACHOS O DORRI’R CÔD**

Lle bydd aelod yn credu’n rhesymol bod y Côd wedi ei dorri, mae'n rhaid iddo/iddi roi gwybod am hynny i’r Swyddog Monitro. Mae'r rheidrwydd arno/arni i roi gwybod am achos posib o dorri'r Côd i'r Ombwdsmon wedi ei ddileu. Penderfyniad i’r Swyddog Monitro fydd cyfeirio’r mater at yr Ombwdsmon, neu i gynghori’r aelod i gyfeirio’r mater yn uniongyrchol, yn ddibynnol ar ddifrifoldeb y mater neu os bydd unrhyw broses datrysiad lleol yn methu neu’n cael ei hystyried yn anaddas.

### 3.1.4 **DIDDORDEB PERSONOL – MATERION WARD AC AWDURDOD**

Mae'r ddarpariaeth diddordeb personol ynghylch gwrthdaro ymddangosiadol rhwng rôl yr aelod yn ei ward a’r penderfyniadau a wneir ar ran yr Awdurdod (paragraff 10(2)(b) y Côd) wedi cael ei dileu. O ran dod i benderfyniadau mewn ffordd wrthrychol, atgoffir aelodau bod rheidrwydd arnynt o hyd i benderfyniadau gyda meddwl agored ac i wneud penderfyniadau ar sail y ffeithiau sydd o’u blaenau. Mae'r gofyniad i beidio â bod wedi penderfynu ar fater ymlaen llaw wedi ei ymestyn i gynnwys materion mewn perthynas â wardiau hefyd.

### 3.1.5 DIDDORDEB PERSONOL A DIDDORDEB SY'N RHAGFARNU – ENGHRAIFFT NEWYDD

Mae enghraifft newydd wedi'i darparu er mwyn egluro'r mater hwn o ddiddordeb personol a rhagfarnus. Mae wedi'i ailadrodd isod:

*Penderfynwyd bod aelod o Gyngor Cymuned wedi torri'r Côd am ei fod wedi methu â datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn cyfarfod a oedd yn trafod cydnabyddiaeth ariannol y Clerc; roedd yr aelod a'r Clerc mewn perthynas ac wedi dyweddïo ar y pryd. Penderfynodd y Panel Dyfarnu y dylai'r aelod fod wedi datgan buddiant personol yn yr eitem busnes oherwydd ei gysylltiad personol agos â'r Clerc. Roedd hefyd o'r farn bod natur y berthynas rhwng yr aelod a'r Clerc yn achosi buddiant rhagfarnus gan ei fod yn golygu mantais sylweddol i'w ddarpar briod. Roedd y Panel Dyfarnu yn credu y byddai'r buddiant yn effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd o allu'r aelod i wneud penderfyniad er budd y cyhoedd. Roedd y Panel Dyfarnu wedi nodi eto mai'r cwestiwn hanfodol oedd nid a oedd yr aelod wedi gwneud y penderfyniad heb ragfarn ond a oedd yn ymddangos ei fod wedi gwneud hynny. Cafodd yr aelod ei atal o'i swydd am 3 mis*

### 3.1.6 DIDDORDEB PERSONOL A DIDDORDEB SY'N RHAGFARNU - SYLWADAU YSGRIFENEDIG

Pan fydd gan aelod ddiddordeb sy'n rhagfarnu, gall yr aelod barhau i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r cyfarfod mewn perthynas â'r busnes hwnnw ar yr amod bod y cyhoedd yn gyffredinol yn cael cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau am y mater yn y cyfarfod hwnnw. Mae hyn wedi'i gynnwys fel paragraffau newydd 2A a 2B yn y Côd. Mae'r rheolau presennol yn dal i fod mewn grym o ran eich presenoldeb yn y cyfarfod; ar ôl gwneud cyflwyniadau rhaid i chi adael yr ystafell neu'r siambr cyn i unrhyw drafodaeth gychwyn ar yr eitem. Rhaid i aelodau nodi os nad yw'r cyhoedd yn cael siarad am fater, ni chaniateir aelod i wneud hynny chwaith nac i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

### 3.1.7 DIDDORDEB PERSONOL A DIDDORDEB SY'N RHAGFARNU – ENGHRAIFFT YCHWANEGOL

Mae enghraifft bellach wedi'i darparu er mwyn egluro'r mater hwn o ddiddordeb rhagfarnus. Ailadroddir hwn isod:

*Penderfynwyd bod aelod o Gyngor Cymuned wedi torri'r Cod drwy fethu â datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn cyfarfod a oedd yn ystyried cais cynllunio am fferm wynt ar dir cyfagos i fferm yr oedd yn berchen arni. Roedd yr aelod wedi gwneud cytundeb Lesio Hawliau ar ei thir i hwyluso mynediad at y datblygiad arfaethedig. Ar y dechrau, roedd yr aelod yn dibynnu ar y ffaith bod cymal cyfrinachedd yn y cytundeb hwn i egluro ei gweithredoedd. Er hynny, roedd yr aelod wedi cymryd rhan mewn pleidlais gudd a gynhaliwyd i benderfynu a fyddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cais. Yn union cyn y gwrandawiad gerbron y Panel Dyfarnu, derbyniodd yr aelod fod ganddi fuddiant personol yn yr eitem ac wedyn ei fod yn fuddiant rhagfarnus. Cafodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 11(1) a 14(1) o'r Cod. Roedd o'r farn bod yr aelod wedi gadael i'w buddiannau personol gael y llaw uchaf a bod cadw'r buddiannau hynny'n breifat yn groes i'w dyletswyddau a chyfrifoldebau fel aelod etholedig. Cafodd ei hatal o'i swydd am 3 mis.*

### 3.1.8 CANIATADAU ARBENNIG

Mae categori caniatâd cyffredinol newydd wedi ei gyflwyno. Mae'r ddarpariaeth newydd yn rhoi grym i bwyllgor safonau roi caniatâd arbennig i adael i aelod gymryd rhan mewn cyfarfod os oes ganddo ef / hi ddiddordeb sy'n rhagfarnu os yw'r pwyllgor safonau yn ystyried bod hynny'n briodol o dan yr holl amgylchiadau. Mae'r arweiniad yn nodi y gellir rhoi caniatâd "os yn briodol ym mhob sefyllfa, lle nad oedd yn bosibl fel arall, i wneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer anabledd unigolyn". Fodd bynnag, mae paragraff 4 (3) o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Newidiad) 2016 yn nodi y gellir rhoi caniatâd arbennig "os yw'n ymddangos i'r pwyllgor ei fod fel arall yn briodol i roi caniatâd arbennig" (os yw'n parhau'n weithredol, rhaid i'r pwyllgor safonau adolygu'r penderfyniad unwaith ym mhob cyfnod o 12 mis o pan roddwyd y caniatâd yn y lle cyntaf). Felly, ymddengys fod y ddeddfwriaeth yn mynd ychydig yn bellach na'r canllawiau yn y cyswllt hwn.

Bydd y ffurflen safonol ar gyfer ymgeisio am ganiatâd yn cael ei diwygio i gynnwys yr ychwanegiadau. Gall Aelodau ddibynnu arno rŵan, wrth gwrs, gan fod y newid statudol eisoes wedi digwydd.

### 3.1.9 COFRESTR O DDIDDORDEBAU

Mae'r gofynion ar gyfer cofrestru diddordebau yn cael eu hegluro, i'w gwneud yn ofynnol bod unrhyw ddiddordeb a ddatgelir am y tro cyntaf yn cael ei gofnodi yn y gofrestr o ddiddordebau aelodau cyn pen 28 diwrnod. Mae'r gofyniad hwn yn ychwanegol at unrhyw newidiadau i ddiddordebau sydd eisoes wedi eu cofrestru ac y mae'n rhaid hefyd eu diweddaru cyn pen 28 niwrnod i unrhyw newid. Gweler y ddolen. Mae hyn wedi'i gynnwys fel paragraff 15 yn y Côd.

3.2 Isod, rydw i wedi adolygu'r canllawiau i aelodau cynghorau cymuned.

Mae mwyafrif y newidiadau sy'n ymddangos yn y canllawiau a drafodir uchod yn debyg i'r newidiadau yn y canllawiau hyn (3.1.1, 3.1.2, 3.1.5, 3.1.6, 3.1.8). Fodd bynnag, rydw i wedi crynhoi'r prif wahaniaethau isod:-

### 3.2.1 RHOI GWYBOD AM ACHOS O DORRI'R CÔD

Fel yn 3.1.3 uchod, mae'r ymrwymiad ar aelod i roi gwybod i'r Ombwdsmon am achos posibl o dorri'r Côd wedi ei ddiddymu (paragraff 6(c) o'r Côd). Fodd bynnag, mae'n eglur, lle mae aelod yn ystyried yn rhesymol bod y Côd wedi'i dorri, bod yn rhaid i'r aelod hysbysu Swyddog Monitro'r Sir o hynny.

3.2.2 Ni fydd y newidiadau mewn perthynas â phenderfyniad o fewn Ward (a drafodir yn 3.1.4 uchod), sy'n berthnasol i aelodau o'r Cyngor Sir, yn berthnasol i aelodau Cynghorau Cymuned. O ganlyniad, nid ydynt yn ymddangos yn y canllawiau hyn.

### 3.2.3 DIDDORDEB PERSONOL A RHAGFARNUS – ENGHRAIFFT NEWYDD

Trafodir enghraifft newydd yn 3.1.7 uchod mewn perthynas â buddiannau personol a rhagfarnus. Mae'r un enghraifft wedi'i chynnwys o fewn y canllawiau hyn hefyd ond mae enghraifft flaenorol wedi'i dileu.

### 3.2.4 COFRESTR O DDIDDORDEBAU

Cafwyd rhai newidiadau pwysig o ran cofnodi diddordebau aelodau cynghorau cymuned. Mae'r rhain wedi eu cynnwys ym mharagraff diwygiedig rhif 15 y Côd ac yn y geiriad ychwanegol i baragraffau 16 a 17 y Côd. Gofynnir i gynghorau cymuned gadw cofnod o ddiddordebau eu haelodau mewn cofrestr o ddiddordebau cyhoeddus a bod cofnod yn cael ei gadw gan y 'swyddog priodol' h.y. Clerc y cyngor cymuned hwnnw. Rhaid bod y gofrestr honno ar gael i'w harchwilio ar wefan y Cyngor Cymuned*. Wrth ddatgan diddordebau personol am y tro cyntaf, rhaid i aelodau cyngor cymuned gofrestru eu diddordeb drwy roi rhybudd ysgrifenedig i Glerc eu cyngor cymuned er bod y ddarpariaeth sy'n eithrio cynghorwyr cymunedol rhag gorfod cofrestru ymlaen llaw (yn achos rhai diddordebau ariannol a diddordebau eraill) yn parhau. Rhaid hysbysu'r Clerc yn ysgrifenedig, o fewn 28 diwrnod, o unrhyw newid i'r diddordebau personol hynny sydd wedi'u cofrestru fel y gellir cofrestru'r newidiadau yn ôl yr angen.

* [Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ac Arweiniad Statudol Llywodraeth Cymru ar Fynediad i Wybodaeth am Gynghorau Cymuned a Thref Mai 2015]

## 4. ARGYMHELLIAD

1. Nodi'r canllawiau diwygiedig sydd wedi eu cyhoeddi gan yr Ombwdsmon.

2. Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i sicrhau bod yr arweiniad newydd, a'r newidiadau cyfreithiol perthnasol a ddisgrifir ym mharagraff 3, yn cael eu tynnu at sylw aelodau'r Cyngor Sir.

3. Cyfarwyddo'r Swyddog Monitro i sicrhau bod y canllawiau newydd, a'r newidiadau cyfreithiol perthnasol a ddisgrifir ym mharagraff 3, yn cael eu tynnu at sylw Clercod y Cynghorau Cymuned a gofyn iddynt gadarnhau'n ysgrifenedig bod yr arweiniad wedi'i rannu â'u haelodau.

**ATODIAD / ENCLOSURE**

**1**

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Y Cod Ymddygiad

## ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru

## Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

ar gyfer aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol

# Rhagair

Mae'r canllawiau diwygiedig hyn a ddarparwyd gennyf i, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn cynnig trosolwg ar y Cod Ymddygiad Enghreifftiol ("y Cod") a gyflwynwyd yn 2008 (fel y'i diwygiwyd ar 1 Ebrill 2016). Eu pwrpas yw'ch helpu chi fel aelod i ddeall eich rhwymedigaethau o dan y Cod. Mae'r Cod yn gymwys i'r holl aelodau ac aelodau cyfetholedig o awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru. Fel aelod, mae'n ofynnol i chi ymrwymo iddo wrth ddatgan eich bod yn derbyn eich swydd. Nid yw'r Cod yn gymwys i weithredoedd awdurdodau cyfan nac i ymddygiad eu swyddogion a'u cyflogeion. Mae cod ymddygiad ar wahân ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru.

Hon yw pedwaredd fersiwn y canllawiau hyn a'r ail gennyf fi fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r fersiwn hon yn egluro'r prawf dau gam diwygiedig y byddaf yn ei ystyried wrth benderfynu a fyddaf yn ymchwilio neu'n parhau i ymchwilio i doriad ar y Cod hyd at y cam lle bydd y mater yn cael ei gyfeirio at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Mae hefyd yn cynnwys canllawiau pellach ar ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a mynegiant gwleidyddol, ac yn ceisio helpu aelodau ar fater buddiannau sy'n peri anhawster i rai aelodau. Yn yr un modd ag o'r blaen, nid yw'n cynnwys canllawiau sy'n ymwneud â chynghorwyr tref a chymuned yn unig. Mae'n cynnwys enghreifftiau sydd wedi'u codi o achosion diweddar a ystyriwyd gan fy swyddfa i, pwyllgorau safonau ledled Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru.

Ar y tudalennau sy'n dilyn rwyf yn egluro hanfodion y Cod a'i ofynion. Mae Rhan 1 yn cynnwys cyflwyniad, a Rhan 2 yn amlinellu'ch rhwymedigaethau o dan y Cod, gan gyfeirio at baragraffau penodol lle mae rhagor o wybodaeth. Mae Rhannau 3 a 4 yn ymdrin â materion cyffredinol sy'n ymwneud â buddiannau. Gallwch gael copi o'r Cod drwy ei lawrlwytho o wefan eich awdurdod neu gysylltu â'ch Swyddog Monitro.

Mae'r canllawiau hyn yn ceisio'ch helpu i ddeall y Cod a sut mae'n gweithio, ond ni allant ddelio â phob amgylchiad posibl. Eich cyfrifoldeb chi yn y pen draw yw cymryd cyngor penodol gan eich Swyddog Monitro a phenderfynu ar y cwrs gweithredu mwyaf addas.

Rwyf wedi cyfeirio at enghreifftiau ym mhob rhan o'r canllawiau er mwyn eu hegluro. Mae'r enghreifftiau hyn wedi'u codi o achosion penodol a ystyriwyd gan fy swyddfa ac maent hefyd yn cynnwys penderfyniadau a wnaed gan bwyllgorau safonau lleol a Phanel Dyfarnu Cymru. Bydd rhai o'r penderfyniadau hyn wedi'u gwneud gan fy rhagflaenydd ond, er hwylustod, byddaf yn cyfeirio atynt fel fy mhenderfyniadau fy hun ym mhob achos. Cyhoeddir rhagor o enghreifftiau o achosion diweddar bob chwarter yn "Coflyfr y Cod Ymddygiad" sydd ar fy ngwefan yn www.ombudsman-wales.org.uk

Fel aelod cynigir hyfforddiant i chi ar y Cod gan Swyddog Monitro neu gan gorff cynrychiadol. Rwyf yn disgwyl i bob aelod fanteisio ar hyfforddiant o'r fath, gan gynnwys cyrsiau diweddaru, i sicrhau eu bod yn llwyr ymwybodol o ddarpariaethau'r Cod a'r safonau

a ddisgwylir ganddynt mewn bywyd cyhoeddus.  Rwyf hefyd yn annog aelodau i barhau i wneud defnydd o drefniadau lleol i ddelio â chwynion gan aelodau yn erbyn ei gilydd gan fod y trefniadau hyn wedi bod yn effeithiol iawn wrth ddatrys nifer mawr o achosion o'r fath.

Rwyf yn bryderus o hyd ynghylch nifer y cwynion lefel isel yr wyf yn eu cael.  Er ei bod yn ymddangos bod y cwynion hyn yn deillio o nifer bach o aelodau, mae'n fwyfwy pwysig yn y cyfnod hwn o gyni cyhoeddus, ein bod yn sicrhau bod adnoddau fy swyddfa yn cael eu defnyddio'n effeithiol a bod pob ymchwiliad a gynhelir yn gymesur ac yn angenrheidiol er budd y cyhoedd yn gyffredinol.

Dylem barhau i gydweithio er mwyn codi safonau mewn bywyd cyhoeddus a chreu diwylliant lle mae aelodau'n ennyn parch am fod yn anhunanol, yn wrthrychol ac yn barchus eu hymddygiad.  Os gwnawn hynny, gallwn feithrin ymddiriedaeth y cyhoedd yn ein sefydliadau democrataidd a hyrwyddo llywodraethu da er budd y bobl ym mhob un o'n cymunedau.



Nick Bennett

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Awst 2016

Mae'r canllawiau statudol hyn wedi'u dyroddi gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Adran 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar gyfer rhai sydd wedi'u hethol, eu cyfethol a'u penodi'n aelodau o'r cyrff canlynol:

- cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- awdurdodau tân ac achub
- awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru.

## Cydnabyddiaeth

Mae'r canllawiau hyn yn gwneud defnydd o ganllawiau a gafodd eu paratoi a'u dyroddi gan Standards for England ar y Cod Ymddygiad blaenorol ar gyfer Lloegr.  Maent wedi'u hymestyn a'u newid i gyfeirio at y Cod ar gyfer Cymru a'r cyd-destun Cymreig.  Hoffwn ddiolch i adran gwasanaethau cyfreithiol Cyngor Sir Ceredigion am gael cynnwys ei siartiau llif ar fuddiannau sydd wedi'u hatodi i'r canllawiau hyn.

Mae canllawiau ar wahân ar gael i aelodau cynghorau cymuned.  Cyhoeddwyd gyntaf Ebrill 2010.  Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn Awst 2016.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhan 1 – Cyflwyniad** | **6** |
| • Yr Egwyddorion | 9 |
| • Penderfynu pryd mae'r Cod yn gymwys i chi | 11 |
| **Rhan 2 – Rhwymedigaethau cyffredinol o dan y Cod** | **14** |
| • Cydraddoldeb | 14 |
| • Trin pobl eraill gyda pharch ac ystyriaeth | 15 |
| • Bwlio ac aflonyddu | 17 |
| • Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod | 18 |
| • Datgelu gwybodaeth gyfrinachol | 19 |
| • Atal mynediad at wybodaeth | 20 |
| • Anfri | 21 |
| • Rhoi gwybod am dorri gofynion y Cod | 22 |
| • Cwynion blinderus | 23 |
| • Cydweithredu ag ymchwiliadau | 24 |
| • Camfanteisio ar eich swydd | 24 |
| • Adnoddau'r awdurdod | 25 |
| • Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig | 26 |
| • Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol | 27 |
| • Ystyried cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau | 27 |
| • Treuliau | 29 |
| • Rhoddion a lletygarwch | 29 |
| **Rhan 3 – Buddiannau personol a rhagfarnus** | **30** |
| • Buddiannau Personol | 30 |
| • Beth i'w wneud os oes gennych fuddiant personol | 35 |
| • Buddiannau Rhagfarnus | 36 |
| • Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu | 39 |
| • Beth i'w wneud os oes gennych fuddiant rhagfarnus | 39 |
| • Rolau gweithredol neu rolau cabinet | 41 |
| • Goddefebau | 42 |
| **Rhan 4 – Cofrestru Buddiannau** | **44** |
| • Gwybodaeth sensitif | 45 |
| • Rhoddion a lletygarwch | 45 |
| **Atodiadau – Siartiau llif** | **47** |
| • Atodiad 1 Buddiannau Personol | 47 |
| • Atodiad 2 Buddiannau Rhagfarnus | 48 |

# 1. Cyflwyniad

Crëwyd fframwaith moesegol newydd i lywodraeth leol yng Nghymru drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Creodd bŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyroddi cod ymddygiad enghreifftiol a fyddai'n gymwys i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr holl awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Trosglwyddwyd y pŵer hwn i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar 1 Ebrill 2016, dyroddwyd y Cod Ymddygiad Enghreifftiol presennol gan Weinidogion Cymru y mae'n ofynnol i'r holl awdurdodau perthnasol ei fabwysiadu.

Fe'i gwnaed yn ofynnol i awdurdodau fabwysiadu'r Cod enghreifftiol yn gyfan, ond gallant wneud ychwanegiadau i'r Cod, ar yr amod bod y rhain yn gyson â'r Cod enghreifftiol. Y bwriad wrth wneud hyn oedd rhoi sicrwydd i aelodau a'r cyhoedd o ran pa safonau a ddisgwylir. Mae'n helpu i sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau perthnasol, gan osgoi dryswch i aelodau sydd ar fwy nag un awdurdod ac i'r cyhoedd.

Mae'n ofynnol bod pwyllgorau safonau'r prif gynghorau'n helpu aelodau ac aelodau cyfetholedig o'u hawdurdodau, ynghyd ag aelodau cynghorau tref a chymuned yn eu hardal, i gydymffurfio â'r Cod ac yn trefnu i ddarparu cyngor a hyfforddiant. Rwyf yn argymell yn gryf fod pob aelod yn dilyn hyfforddiant ac yn cymryd cyngor pan gaiff ei gynnig. Rwyf yn cefnogi awdurdodau unigol sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelodau ddilyn hyfforddiant ar y Cod cyn ymuno â chyrff penderfynu penodol fel pwyllgorau cynllunio.

Fel aelod, wrth lofnodi'r datganiad i dderbyn eich swydd, byddwch yn cadarnhau'ch ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod. Eich cyfrifoldeb personol chi yw sicrhau'ch bod yn deall eich rhwymedigaethau o dan y Cod ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n dangos eich bod wedi ymrwymo i gyrraedd y safonau ymddygiad uchel a ddisgwylir gennych fel aelod. Chi sy'n gyfrifol yn y pen draw am y penderfyniadau a wnewch a gellir eich dal yn atebol amdanynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y gallwch wneud penderfyniadau sy'n torri'r Cod neu'n mynd yn groes i gyngor dim ond am mai chi sy'n gyfrifol am y penderfyniad. Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r cyfyngiadau y disgwylir i chi weithredu o danynt er mwyn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu ymddiried yn y ffordd y mae awdurdodau yng Nghymru'n gwneud eu penderfyniadau.

Fy rôl i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ymchwilio'n annibynnol i gwynion difrifol bod aelodau o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi torri'r Cod. Wrth benderfynu a fyddaf yn ymchwilio i gŵyn neu a fyddaf yn parhau i ymchwilio i doriad ar amodau'r Cod, byddaf yn defnyddio prawf dau gam. Yn y cam cyntaf, byddaf yn ceisio darganfod a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi'i dorri. Lefel y prawf sydd ei angen yw 'yn ôl pwysau tebygolrwydd'. Os bodlonir y prawf am dystiolaeth, yn yr ail gam byddaf yn ystyried a oes angen ymchwilio neu gyfeirio'r gŵyn at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er budd y cyhoedd. Mae rhai o'r ffactorau budd cyhoeddus y byddaf yn eu

hystyried wedi'u dangos isod. Nid yw'r rhestr o'r ffactorau hyn yn gyflawn a bydd y pwys a roddir ar bob un ohonynt yn amrywio yn ôl y ffeithiau a'r rhinweddau ym mhob achos. Mae'r ffactorau budd cyhoeddus yn cynnwys:

- difrifoldeb y toriad
- a oedd yr aelod wedi ceisio cael elw personol yn fwriadol iddo'i hun neu i berson arall ar draul y cyhoedd
- a yw amgylchiadau'r toriad yn golygu bod yr aelod wedi camfanteisio ar safle o ymddiriedaeth neu awdurdod ac wedi achosi niwed i berson
- a oedd y toriad wedi'i ysgogi gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn cefndir ethnig neu genedlaethol y dioddefwr, neu ei rywedd, anabledd, oed, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth ryweddol
- a oes tystiolaeth o ymddygiad tebyg blaenorol ar ran yr aelod
- a oes angen ymchwilio neu gyfeirio'r gŵyn at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd mewn aelodau etholedig yng Nghymru
- a yw ymchwilio neu gyfeirio at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn ymateb cymesur, hynny yw, a yw'n debygol y byddai'r toriad yn arwain at osod sancsiwn ar yr aelod (byddaf yn ystyried y canlyniadau i achosion blaenorol a ystyriwyd gan bwyllgorau safonau ledled Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru), ac a fyddai'r defnydd o adnoddau wrth gynnal ymchwiliad neu wrandawiad gan bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn cael ei ystyried yn ormodol o'i gymharu ag unrhyw sancsiwn tebygol.

Mae gennyf ddisgresiwn sylweddol o ran a fyddaf yn cychwyn neu'n parhau ag ymchwiliad. Rwyf wedi diwygio'r prawf dau gam a fabwysiadwyd gan fy rhagflaenydd er mwyn dangos yn gliriach sut y byddaf yn arfer fy nisgresiwn fel arfer ac er mwyn sicrhau elfen o gysondeb a sicrwydd yn y penderfyniadau rwyf yn eu gwneud.

Mae crynodeb o'r broses y byddaf yn ei dilyn i ymchwilio i gwynion ar fy ngwefan yn www.ombwdsmon-cymru.org.uk

**Proses Ddatrys Leol**

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru wedi rhoi gweithdrefnau datrys lleol ar waith i ddelio â chwynion lefel isel sydd wedi'u gwneud gan aelod yn erbyn cyd-aelod. Mae'r trefniadau hyn yn profi'n effeithiol wrth ddatrys nifer o gwynion o'r math hwn. Fel arfer, mae'r cwynion hyn yn ymwneud o hyd â honiadau o fethu â dangos parch ac ystyriaeth at eraill yn unol â pharagraff 4(b) o'r Cod neu'r ddyletswydd i beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu ddibwys yn erbyn aelodau eraill o dan baragraff 6(1)(ch) o'r Cod. Er bod modd o hyd i aelod ddod â chŵyn ataf yn uniongyrchol am gyd-aelod, os yw'r gŵyn yn ymwneud â mater sy'n dod o dan baragraffau 4(b) a 6(1)(ch), mae'n debygol iawn y byddaf yn cyfeirio'r mater hwn yn ôl at Swyddog Monitro'r Cyngor i'w ystyried o dan y broses

hon. Yn fy marn i, mae'n fwy priodol bod cwynion o'r fath yn cael eu datrys yn anffurfiol yn lleol er mwyn cyflymu'r broses gwyno a sicrhau bod fy adnoddau'n cael eu rhoi at ymchwil i gwynion difrifol.

Nod y broses ddatrys leol yw datrys materion yn gynnar fel na fydd y sefyllfa'n gwaethygu'n ddiangen gan wneud drwg, o bosibl, i gysylltiadau personol o fewn yr awdurdod ac i enw da'r awdurdod. Gall y broses arwain at ymddiheuriad gan yr aelod y gwnaed y gŵyn amdano. Fodd bynnag, os bydd aelod wedi torri protocol lleol ei awdurdod dro ar ôl tro, yna byddwn yn disgwyl i'r Swyddog Monitro gyfeirio'r mater yn ôl ataf i. Os gwelaf fod patrwm yn codi o gyflwyno cwynion tebyg i mi gan yr un aelodau, byddaf yn ei ystyried yn fater difrifol ac yn penderfynu a yw cyflwyno cwynion o'r fath yn ddi-baid yn ymddygiad y dylid ymchwilio iddo ar ei ben ei hun am ei fod o bosibl yn torri'r Cod.

Pan fyddaf wedi ymchwilio i gŵyn, gallaf gyfeirio'r mater at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Bydd hyn yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau penodol y toriad honedig.

**Pwyllgorau Safonau**

Mae pwyllgorau safonau'n cynnwys aelodau lleyg annibynnol ac aelodau etholedig yr awdurdod. Pan fyddaf yn cyfeirio achos at bwyllgor safonau, ei rôl yw penderfynu a yw aelod wedi torri'r Cod ac a ddylid gosod sancsiwn. Yn fy marn i, dylid cynnal gwrandawiadau'n gyhoeddus oni bai fod rhesymau dilys dros beidio â gwneud hynny er mwyn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn safonau bywyd cyhoeddus. Os bydd pwyllgor safonau yn dod i'r casgliad bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol, gall benderfynu:

- nad oes angen cymryd camau mewn perthynas â'r methiant hwnnw
- y dylid ceryddu'r aelod neu aelod cyfetholedig drwy roi cerydd cyhoeddus, neu
- y dylid atal yr aelod neu aelod cyfetholedig, neu ei atal yn rhannol, rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod nad yw'n fwy na chwe mis neu, os yw'n fyrrach, gweddill cyfnod yr aelod yn ei swydd.

Gall aelod ofyn am ganiatâd gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru i apelio iddo yn erbyn penderfyniad gan bwyllgor safonau.

Panel Dyfarnu Cymru

Pan fyddaf yn cyfeirio achos at Banel Dyfarnu Cymru, ei rôl ef hefyd yw penderfynu a yw aelod wedi torri'r Cod ac a ddylid gosod sancsiwn. Yn ogystal â hyn, bydd yn ystyried unrhyw apelau, os cafwyd caniatâd i'w cyflwyno, yn erbyn penderfyniad gan bwyllgor safonau. Y pwerau sydd ar gael i'r Panel wrth benderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig

wedi methu â chydymffurfio â'r Cod yw:

- anghymhwyso'r ymatebydd rhag bod, neu rhag dod, yn aelod o'r awdurdod perthnasol cysylltiedig neu o unrhyw awdurdod perthnasol arall am gyfnod o hyd at bum mlynedd

- atal yr ymatebydd, neu ei atal yn rhannol, rhag bod yn aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol cysylltiedig am hyd at 12 mis, neu

- beidio â chymryd camau mewn perthynas â thorri'r Cod. Mewn achosion o'r fath, gall y Panel dybio ei bod yn briodol rhybuddio'r aelod o ran ei ymddygiad yn y dyfodol. Os cofnodwyd rhybudd o'r fath, mae'n debygol o gael ei ystyried yn ystod unrhyw wrandawiad yn y dyfodol lle cafwyd eto fod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau'r Cod.

Lle mae pwyllgor safonau neu'r Panel wedi atal aelod neu aelod cyfetholedig, neu ei atal yn rhannol, bydd yn ofynnol o hyd fod yr aelod hwnnw'n cydymffurfio â'r Cod, yn enwedig y darpariaethau sydd ym mharagraff 6(1)(a) (dwyn anfri ar swydd aelod neu awdurdod) a pharagraff 7 (defnyddio safle aelod yn amhriodol).

## Yr Egwyddorion

Mae Deddf Llywodraeth Leol wedi rhoi pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddyroddi egwyddorion y mae'n rhaid i chi roi sylw iddynt wrth ymgymryd â'ch rôl fel aelod. Mae'r Cod wedi'i seilio ar yr egwyddorion hyn, sy'n ceisio hyrwyddo'r safonau uchaf posibl. Mae'r egwyddorion hyn yn deillio o 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a amlinellwyd yn Adroddiad Nolan "Standards of Conduct in Local Government in England, Scotland and Wales". Ychwanegwyd tair egwyddor bellach at y rhain: dyletswydd i gynnal y gyfraith, stiwardiaeth briodol dros adnoddau'r Cyngor a chydraddoldeb a pharch at eraill.

Mae aelodau a etholir i awdurdodau lleol yn rhoi'n hael o'u hamser a'u hymroddiad er budd eu cymunedau. Mae'r egwyddorion yn gosod fframwaith ar gyfer sianelu'ch ymroddiad mewn ffordd a fydd yn adlewyrchu'n dda arnoch chi a'ch awdurdod, ac a fydd yn rhoi hyder i'ch cymunedau yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cael ei reoli.

Pwrpas y gwahanol Adrannau o'r Cod yw'ch helpu i roi'r Egwyddorion ar waith. Er enghraifft, mae egwyddor Anhunanoldeb yn cael ei thrafod yn Adran 7 o'r Cod – Anhunanoldeb a Stiwardiaeth. Mae'r egwyddorion presennol wedi'u nodi mewn offeryn statudol[1] ac maent wedi'u disgrifio isod.

1 Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 OS 2001 Rhif 2276 (Cy.166)

**1. Anhunanoldeb**

Rhaid i aelodau weithredu'n llwyr er lles y cyhoedd.  Rhaid iddynt beidio byth â defnyddio eu safle fel aelodau'n amhriodol i roi mantais, neu osgoi anfantais, iddyn nhw eu hunain, neu i roi mantais neu anfantais yn amhriodol i eraill.

**2. Gonestrwydd**

Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

**3. Uniondeb a Gwedduster**

Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae amheuaeth yn codi ynghylch eu huniondeb oherwydd unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau a all geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau.  Rhaid i aelodau bob amser osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly.

**4. Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith**

Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith a gweithredu bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi iddynt.

**5. Stiwardiaeth**

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau eu hawdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon a darbodus.

**6. Penderfynu'n Wrthrychol**

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys penodi i swyddi, dyfarnu contractau, neu argymell bod unigolion yn cael gwobrau neu fuddion, rhaid i aelodau benderfynu ar sail teilyngdod.  Er bod rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol gan swyddogion ac er ei bod yn briodol iddynt ystyried barn pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu ar eu safbwynt ac, os yw'n briodol, sut y byddant yn pleidleisio ar fater penodol.

**7. Cydraddoldeb a Pharch**

Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag fo'u rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill.

**8. Bod yn Agored**

Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch eu holl weithredoedd a gweithredoedd

eu hawdurdod.  Rhaid iddynt geisio sicrhau mai'r unig gyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth fydd hynny sy'n unol â'r gyfraith.

**9. Atebolrwydd**

Mae aelodau'n atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod.  Rhaid iddynt fod yn barod i dderbyn unrhyw graffu ar eu gweithredoedd sy'n briodol.

**10. Arweinyddiaeth**

Rhaid i aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arwain a gosod esiampl er mwyn hybu ymddiriedaeth y cyhoedd yn eu rôl ac yn yr awdurdod.  Rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a'i gyflogeion eraill.

Nid yw'r egwyddorion yn rhan o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, felly nid yw methu â chydymffurfio â'r Egwyddorion yn gyfystyr â thorri'r Cod.  Er hynny, mae'n debygol y byddai methu â chydymffurfio ag egwyddor ynghylch cydraddoldeb a pharch, er enghraifft, yn golygu bod gofynion paragraffau 4(a) a 4(b) o'r Cod wedi'u torri mewn perthynas â chyfle cyfartal a pharch.

Fodd bynnag, mae'r Egwyddorion yn cynnig sylfaen gadarn i'ch ymddygiad yn eich swydd ac rwyf yn annog aelodau i roi sylw iddynt bob amser.

**Ystyriwch eich ymddygiad yn eich bywyd cyhoeddus a phreifat**

## Penderfynu pa bryd y bydd y Cod yn gymwys i chi
## Gweler paragraffau 2 a 3

Mae gan aelodau hawl i breifatrwydd yn eu bywyd personol, ac mae nifer o'r darpariaethau yn y Cod yn gymwys i chi dim ond pan fyddwch yn cyflawni'ch rôl fel aelod neu'n cynrychioli'ch awdurdod.  Fodd bynnag, gan fod amgylchiadau lle byddai'ch ymddygiad yn eich bywyd preifat yn gallu effeithio ar uniondeb ac enw da'ch awdurdod, mae rhai darpariaethau yn y Cod a fydd yn gymwys i chi **bob amser**.

Wrth benderfynu a yw'r Cod yn gymwys i chi ar adeg benodol, byddaf yn rhoi sylw i'r amgylchiadau penodol ac i natur eich ymddygiad ar y pryd.

Cyn ystyried eich rhwymedigaethau o dan y Cod, dylech ystyried yn gyntaf a yw'r Cod yn gymwys ac, os yw'n gymwys, pa ddarpariaethau ynddo.

**Pryd fydd y Cod yn gymwys?**

- **Pryd bynnag rydych yn gweithredu yn rhinwedd eich swydd**, gan gynnwys pryd bynnag rydych yn cyflawni busnes eich awdurdod neu'n gweithredu, yn honni gweithredu,

neu'n rhoi'r argraff o weithredu yn rhinwedd eich swydd fel aelod neu gynrychiolydd i'ch awdurdod

- **Bob amser,** os ydych yn ymddwyn mewn modd y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn dwyn **anfri** ar eich swydd neu'ch awdurdod neu os ydych yn defnyddio neu'n **ceisio defnyddio'ch safle i gael mantais neu osgoi anfantais** i chi'ch hun neu i unrhyw berson arall neu os ydych yn **camddefnyddio adnoddau'ch awdurdod**.

Os ydych yn gweithredu fel cynrychiolydd i'ch awdurdod ar awdurdod perthnasol arall, neu unrhyw gorff arall, rhaid i chi gydymffurfio, wrth weithredu ar ran yr awdurdod arall, â chod ymddygiad yr awdurdod hwnnw. Os yw'ch awdurdod wedi'ch enwebu'n ymddiriedolwr i elusen, wrth weithredu yn y swydd honno rhaid i chi wneud hynny er budd pennaf yr elusen honno, yn unol â chyfraith elusennau a'r canllawiau sydd wedi'u llunio gan y Comisiwn Elusennau (gweler ei wefan: www.charity-commission.gov.uk).

Os ydych yn gweithredu fel cynrychiolydd i'ch awdurdod ar gorff arall, er enghraifft ar fwrdd cymdeithas dai, sydd heb god ymddygiad sy'n ymwneud â'i aelodau, rhaid i chi gydymffurfio â Chod eich awdurdod eich hun oni bai ei fod yn gwrthdaro ag unrhyw ofynion cyfreithiol y mae'r corff arall yn gorfod cydymffurfio â nhw.

Os byddwch yn cyfeirio atoch chi'ch hun fel cynghorydd, bydd y Cod yn gymwys i chi. Mae hyn yn gymwys i sgyrsiau, ysgrifennu, neu'ch defnydd o gyfryngau electronig. Mae nifer y cwynion yr wyf wedi'u cael ynghylch y defnydd o Facebook, blogiau a Twitter wedi cynyddu'n sylweddol. Os byddwch yn cyfeirio at eich rôl fel cynghorydd mewn unrhyw ffordd neu os yw'n glir bod eich sylwadau'n ymwneud â'ch rôl, yna bydd y Cod yn gymwys i'r sylwadau hynny. Hyd yn oed os na fyddwch yn cyfeirio at eich rôl fel cynghorydd, fe allai'ch sylwadau gael yr effaith o ddwyn anfri ar eich swydd neu awdurdod ac felly gallent dorri'r gofynion ym mharagraff 6(1)(a) o'r Cod.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio canllawiau defnyddiol ar gyfryngau cymdeithasol o'r enw "Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr". Mae'r canllawiau'n ceisio rhoi syniad cliriach i chi ynghylch sut y gallwch ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, y peryglon posibl a sut i'w hosgoi. Maent ar gael ar ei gwefan yn www.wlga.gov.uk neu drwy ffonio 029 2046 8600.

Os bydd eich awdurdod yn eich enwebu'n gyfarwyddwr cwmni (cymdeithas dai ar gyfer trosglwyddo stoc, er enghraifft), rhaid i chi weithredu er budd pennaf y cwmni. Os oes ganddo god ymddygiad ar gyfer ei gyfarwyddwyr, rhaid i chi gydymffurfio ag ef. Os nad oes ganddo god o'r fath, rhaid i chi gydymffurfio â Chod eich awdurdod, ac eithrio ar adegau prin pan fydd yn gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol sydd gan y cwmni.

Os cewch eich atal o'ch swydd am unrhyw reswm, rhaid i chi barhau i gydymffurfio â'r elfennau hynny yn y Cod sy'n gymwys i chi, yn enwedig y rheini sydd ym mharagraff 2(1)(ch), tra byddwch wedi'ch atal.

**Enghraifft**

Cafodd Cynghorydd B ei enwebu gan gyngor bwrdeistref sirol i fod yn aelod o fwrdd cymdeithas dai ar gyfer trosglwyddo stoc. Roedd Prif Weithredwr y gymdeithas dai wedi anfon neges e-bost gyfrinachol at Brif Weithredwr y Cyngor yn enw holl aelodau'r bwrdd. Cyfaddefodd Cynghorydd B ei fod wedi anfon y neges e-bost i'r wasg leol a dywedodd ei fod wedi gwneud hynny am ei fod yn teimlo bod ei ddyletswydd fel cynghorydd yn drech na'i ddyletswydd fel aelod o fwrdd y gymdeithas dai. Cafwyd bod Cynghorydd B wedi torri gofynion paragraff 3(a) o God y Cyngor drwy ddatgelu'r neges e-bost yn groes i god ymddygiad y bwrdd ei hun. Cafwyd hefyd ei fod wedi dwyn anfri ar ei swydd a'r awdurdod drwy wneud datganiad camarweiniol iddo "orfod tynnu'n ôl yn ddiweddar" o fod yn aelod o fwrdd y gymdeithas dai ac yntau wedi cael ei ddiswyddo'n syth am y tor-cyfrinachedd difrifol.

**Enghraifft**

Roedd pleidlais ar-lein wedi'i chychwyn am rywun a gyhuddwyd o lofruddiaeth. Roedd yn cynnwys iaith amhriodol ac wedi'i lansio gan ddefnyddio gliniadur Cynghorydd B, a ddarparwyd gan y cyngor, ei gysylltiad â'r rhyngrwyd a'i gyfeiriad e-bost yn y cyngor. Dywedodd Cynghorydd B nad ef yn bersonol a oedd wedi lansio'r bleidlais. Fodd bynnag, gan mai'r Cyngor oedd wedi darparu'r gliniadur iddo, ef oedd yn gyfrifol amdano. Roedd hefyd wedi gwneud sylwadau dilornus am bobl sy'n hawlio budd-dal tai ar ei dudalen Facebook wrth ymateb i gais am gyngor yn ei rôl fel cynghorydd. Cafodd y Panel Dyfarnu fod Cynghorydd B wedi gweithredu yn rhinwedd ei swydd gan ei fod wedi defnyddio cyfarpar a chyfeiriad e-bost a ddarparwyd iddo gan y Cyngor.

Felly, gellid ystyried yn rhesymol ei fod wedi'i ddatgan ei hun yn gynghorydd.

# 2. Rhwymedigaethau cyffredinol o dan y Cod Ymddygiad

Os byddwch yn meddwl bod y Cod yn gymwys i chi ar adeg benodol, yna rhaid i chi ystyried pa ddarpariaethau a all fod yn gymwys a'ch rhwymedigaethau o dan y Cod. Rwyf wedi cyfeirio at bob un o baragraffau'r Cod isod er mwyn rhoi arweiniad i chi ar eich rhwymedigaethau cyffredinol.

## Cydraddoldeb

### Gweler paragraff 4(a)

Rhaid i chi gyflawni'ch dyletswyddau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid cael cyfle cyfartal i bawb beth bynnag fo'u rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd.

Dylech geisio osgoi gwahaniaethu bob amser. Mae pedwar prif fath o wahaniaethu:

- Gwahaniaethu uniongyrchol: trin pobl yn wahanol oherwydd eu rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd
- Gwahaniaethu anuniongyrchol: triniaeth nad yw'n ymddangos ei bod yn gwahaniaethu rhwng pobl oherwydd eu rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd, ond sy'n eu rhoi o dan anfantais anghymesur
- Aflonyddu: ymddwyn mewn ffordd nas dymunir ar sail rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd, sy'n amharu ar urddas rhywun arall neu'n creu amgylchedd gelyniaethus, diraddiol, sarhaus neu fychanol
- Erledigaeth: trin rhywun yn llai ffafriol am ei fod wedi cwyno am wahaniaethu, wedi dod ag achos ar sail gwahaniaethu, neu wedi bod yn gysylltiedig â chwyno neu ddwyn achos am wahaniaethu.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (fel y'i diwygiwyd) yn cadarnhau pwysigrwydd y rhan hon o'r Cod. Mae'n gosod dyletswyddau cadarnhaol i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. O dan gyfreithiau cydraddoldeb, gall eich awdurdod fod yn atebol am unrhyw weithredu gwahaniaethol rydych yn ei gyflawni. Bydd hyn yn gymwys os byddwch yn gwneud rhywbeth yn rhinwedd eich swydd mewn modd gwahaniaethol.

Rhaid i chi fod yn ofalus i beidio â gweithredu mewn ffordd a all fod yn gyfystyr ag unrhyw un o'r mathau o wahaniaethu a waharddwyd, neu wneud rhywbeth sy'n atal eich awdurdod rhag cyflawni ei ddyletswyddau cadarnhaol o dan gyfreithiau cydraddoldeb. Gall ymddygiad o'r fath beri i'ch awdurdod dorri'r gyfraith, a gallech fod yn destun cwyn am dorri gofynion y paragraff hwn yn y Cod.

Rhaid i chi gofio bob amser, gan gynnwys adegau pan fyddwch yn gweithredu'n breifat, fod rhaid peidio ag ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n dwyn anfri ar eich Cyngor. Mae'n debygol y byddai ymddwyn mewn ffordd sy'n cael ei hystyried yn groes i'r Ddeddf Cydraddoldeb wrth weithredu'n breifat yn perthyn i'r categori hwn.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor sir yn un o aelodau Panel Recriwtio'r Cyngor ar gyfer penodi Prif Weithredwr newydd. Roedd pum ymgeisydd ar y rhestr fer. Wedi i un ymgeisydd orffen ei gyflwyniad a gadael yr ystafell, dywedodd Cynghorydd A "ymgeisydd da, mae'n drueni ei fod yn ddu". Penderfynodd Panel Dyfarnu Cymru fod paragraff 4(a) o'r Cod wedi'i dorri a bod Cynghorydd A wedi dwyn anfri ar ei swydd fel aelod o'r cyngor ac ar ei awdurdod (yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod).

## Trin pobl eraill gyda pharch ac ystyriaeth

## Gweler paragraff 4(b)

**Gall hawliau Erthygl 10 fod yn berthnasol i sylwadau gwleidyddol**

Mae rhyddid mynegiant yn hawl sy'n berthnasol i syniadau a gwybodaeth o bob math, nid y rheini sy'n cael eu gweld yn ffafriol yn unig. Fodd bynnag, mae'n hawl y gellir cyfyngu arni o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, er mwyn gwarchod hawliau a buddiannau pobl eraill. Mae rhyddid mynegiant aelod yn cael ei amddiffyn ymhellach pan fydd y sylwadau o natur wleidyddol. Felly, mae beirniadu syniadau a barn gwrthwynebydd yn cael ei ystyried yn rhan o ddadl ddemocrataidd, ac nid yw'n debygol y byddai sylwadau o'r fath byth yn cael eu hystyried yn rhai sy'n torri'r Cod.

Nid sylwadau a wneir yn siambr y Cyngor yn unig yw sylwadau "gwleidyddol". Er enghraifft, maent yn cynnwys sylwadau y gall aelodau eu gwneud yn gyffredinol am bolisïau eu hawdurdod neu am eu gwrthwynebwyr gwleidyddol. Felly, os nad yw'r sylwadau'n sarhaus neu'n dramgwyddus iawn, nid yw'n debygol y byddwn yn ymchwilio a byddwn yn dod i'r farn bod angen i'r aelod fod yn fwy "croendew".

Mae'n bosibl hefyd y byddaf yn gwrthod ymchwilio i gŵyn lle mae'r aelod wedi codi materion "gwleidyddol" gyda swyddogion. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n cynnwys bygythiadau i safle neu les swyddog. Mae cyfraith achosion diweddar wedi cadarnhau y dylai swyddogion cyngor gael eu hamddiffyn rhag sylwadau di-sail a all gael effaith niweidiol ar weinyddu da. Nodwyd ei bod yn bwysig, er lles y cyhoedd, na fydd swyddogion yn destun sylwadau di-sail sy'n tanseilio eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau neu'n tanseilio hyder y cyhoedd yn y weinyddiaeth. Wedi dweud hynny, bydd disgwyl i swyddogion mewn swyddi uwch, fel Prif Weithredwyr neu Benaethiaid Gwasanaethau, er enghraifft, fod yn fwy cydnerth.

Rwyf yn disgwyl i aelodau ddangos yr un cwrteisi ac ystyriaeth at gydweithwyr, gwrthwynebwyr a swyddogion ag y maent yn eu dangos i bobl eraill yn eu bywyd pob dydd. Er fy mod yn cydnabod y gall dadlau gwleidyddol fod yn danbaid ar brydiau, ni ddylid defnyddio'r hawl i ryddid mynegiant yn esgus dros ymddwyn yn wael yn gyffredinol. Bydd

ymddygiad gwael o'r fath yn sicr o ddwyn anfri ar rôl aelodau yng ngolwg y cyhoedd.

Wrth ystyried cwynion o'r fath, byddaf yn ystyried amgylchiadau penodol yr achos, a oedd hawl gan yr aelod, yn fy marn i, i gwestiynu'r swyddog dan sylw, a oedd ymgais i godi ofn ar y swyddog neu ei danseilio, a chynnwys a chyd-destun yr hyn a ddywedwyd.

**Enghraifft**

Roedd tribiwnlys apêl Panel Dyfarnu Cymru yn ystyried apêl gan Gynghorydd X yn erbyn penderfyniad gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi cael bod Cynghorydd X wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at aelod arall drwy ei wahardd rhag anfon e-bost at y clerc a mynd ar wefan y Cyngor. Hefyd roedd Cynghorydd X wedi gwneud sylwadau mewn neges e-bost i aelodau eraill ynghylch arferion ei gyd-aelod wrth gymryd cawod. Am ei fod wedi gwneud hyn, penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod Cynghorydd X wedi dwyn anfri ar y Cyngor.

Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod sylwadau Cynghorydd X o natur wleidyddol ac yn cael eu hamddiffyn ymhellach gan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Cafodd penderfyniad y Pwyllgor Safonau ei wrthdroi a chafodd y sancsiwn ei ddiddymu. Gellir gweld penderfyniad y Panel Dyfarnu yma.

**Enghraifft**

Roedd y Panel Dyfarnu wedi cadarnhau canfyddiad gan bwyllgor safonau fod cynghorydd wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill drwy wneud sylwadau ar-lein am aelodau eraill a'r ffordd roedd y Cyngor yn cael ei redeg. Gofynnodd yr aelod am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwn. Er bod Llys wedi cael bod y sylwadau'n wawdlyd ac yn watwarus a bod eu tôn yn bychanu ei gyd-aelodau, penderfynodd y Llys fod y sylwadau'n "Fynegiant Gwleidyddol" gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â'r ffordd roedd y Cyngor yn cael ei redeg, sut roedd ei benderfyniadau'n cael eu cofnodi a chymhwysedd yr aelodau. Yn ôl y dyfarniad, ni roddwyd ystyriaeth i'r angen i wleidyddion fod yn fwy "croendew". Wrth ystyried rhyddid mynegiant yr aelod a'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r sylwadau'n cyfeirio at gyd-gynghorwyr, roedd y casgliad bod gofynion wedi'u torri yn yr achos hwn yn ymyrryd yn anghymesur â hawliau'r aelod o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Felly cafodd penderfyniad y Pwyllgor Safonau i geryddu'r aelod ei roi o'r neilltu.

**Enghraifft**

Ysgrifennodd aelod o gyngor tref lythyr at un o Ddirprwy Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru am un o'r gweithwyr ("Mr Smith") a oedd yn gweithio mewn cyngor sir. Anfonwyd copi o'r llythyr i'r Cyngor hefyd. Yn y llythyr roedd yr aelod yn amau cymhwysedd a chymhelliant Mr Smith a gwnaeth nifer o sylwadau dilornus a phersonol ynghylch Mr Smith a phobl roedd yn ymwneud â nhw. Cododd fater gwrywgydiaeth a chyfeirio ato fel "anabledd anfad" a bod

"gwrywgydiaeth yn ddim ond cythraul y gellir ei fwrw allan". Cyfeiriwyd yr aelod at Banel Dyfarnu Cymru.

Penderfynodd y Panel fod yr aelod wedi torri gofynion paragraff 4(b) o'r Cod gan ei fod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill. Cafodd hefyd fod y geiriau roedd wedi'u defnyddio wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod.

Cafodd yr aelod ei anghymwyso am 12 mis rhag bod, na dod, yn aelod o awdurdod lleol.

## Bwlio ac aflonyddu

## Gweler paragraff 4(c)

**Ystyriwch eich ymddygiad o safbwynt y person arall**

Rhaid i chi beidio â bwlio nac aflonyddu ar neb, gan gynnwys aelodau eraill, swyddogion y cyngor neu aelodau o'r cyhoedd.

Ystyr aflonyddu ("harasio") yw ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd sy'n cynhyrfu neu'n gwylltio pobl. Mae bwlio'n gallu golygu ymddygiad tramgwyddus, bygythiol, maleisus, sarhaus neu fychanol. Gall ymddygiad o'r fath ddigwydd unwaith neu gall fod yn rhan o batrwm ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at rywun gwannach neu rywun y mae gennych ddylanwad gwirioneddol neu ymddangosiadol drosto. Y bwriad wrth fwlio yw tanseilio unigolyn neu grŵp o unigolion; mae'n niweidio eu hyder a'u galluogrwydd a gall amharu ar eu hiechyd. Gellir cyferbynnu hyn â'r heriau dilys y gall aelod eu codi wrth gwestiynu polisi neu wrth graffu ar berfformiad. Rhai enghreifftiau o hyn yw dadleuon yn y siambr am bolisi, neu ofyn i swyddogion egluro'r sail resymegol i'r farn broffesiynol y maent wedi'i chynnig. Mae gennych hawl i herio cynghorwyr eraill a swyddogion ynghylch eu rheswm dros arddel eu safbwyntiau.

Wrth ystyried honiadau o fwlio ac aflonyddu, byddaf yn ystyried safbwynt y dioddefwr honedig, ac a oedd yr aelod drwy ei weithredoedd yn bwriadu ei fwlio. Byddaf hefyd yn ystyried a oedd gan yr unigolyn le rhesymol i gredu ei fod yn cael ei fwlio. Mae bwlio'n digwydd wyneb yn wyneb yn aml, ond mae hefyd yn digwydd fwyfwy mewn print neu drwy ddefnyddio cyfryngau electronig. Yr un yw'r safonau ymddygiad a ddisgwylir, pa un a ydych yn eich mynegi'ch hun ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Bydd angen i chi sicrhau nad yw'ch ymddygiad yn croesi'r ffin o fod yn rymus i fod yn fwlio. Ni ellir cael rheolau pendant ar gyfer pob math o amgylchiadau ond bydd lefel awdurdod y swyddog yn ffactor mewn rhai achosion. Fel y nodwyd o dan baragraff 4(b) o'r Cod, gellir cael trafod plaen rhwng y swyddogion uchaf ac aelodau a bydd y swyddogion hynny'n gallu cyfleu eu safbwynt yn rymus. Nid yw'r un peth yn wir yng nghyswllt swyddogion is ac mae angen i aelodau fod yn ymwybodol o hyn. Nid yw hyn yn golygu fy mod yn goddef bwlio uwch swyddogion, ond po fwyaf yw'r gwahaniaeth rhwng pŵer y swyddog a phŵer yr aelod, mwyaf tebygol yw hi y bydd y swyddog yn ystyried bod yr ymddygiad yn fwlio.

Yn ddiweddar, penderfynodd yr Uchel Lys fod budd cyhoeddus mewn diogelu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn gweision cyhoeddus anetholedig, a bod angen pwyso hyn yn erbyn y budd o gael trafodaeth agored ar faterion sy'n bwysig i'r cyhoedd. Penderfynodd hefyd y dylai pob

aelod ddangos yr un parch at yr ymddiriedaeth sydd rhyngddo a'r swyddogion, gan fod hyn yn hanfodol i sicrhau gweinyddu da.

Mae gan awdurdodau lleol sianeli priodol ar gyfer mynegi pryder ynghylch perfformiad swyddog ac mae'n bwysig eich bod yn codi materion sy'n ymwneud â pherfformiad gwael yn y ffordd gywir ac mewn fforwm priodol.  Nid yw'n dderbyniol codi materion o'r fath mewn cyfarfod lle mae pobl eraill yn bresennol, yn enwedig os ydynt o gyrff allanol neu'n aelodau o'r cyhoedd.  Nid yw ychwaith yn dderbyniol gwneud hynny yn y cyfryngau, yn eich cyhoeddiadau eich hun neu drwy ddefnyddio blog, Twitter, Facebook nac unrhyw ddulliau electronig eraill.  Os yw eich beirniadaeth yn ymosodiad personol neu'n dramgwyddus, rydych yn debygol o groesi'r terfyn o ran yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol.

**Enghraifft**

Cafodd aelod o gyngor sir ei anghymwyso o'i swydd am 2 flynedd a 6 mis gan Banel Dyfarnu Cymru yn dilyn honiadau o fwlio, aflonyddu, amarch a dwyn anfri ar swydd yr aelod.  Roedd y digwyddiadau honedig wedi para dros gyfnod o ddwy flynedd.  Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd yr aelod wedi gwneud sylwadau bygythiol wrth swyddogion ar raddau is ac uwch.  Er enghraifft, gwnaeth sylwadau i'r perwyl bod nifer o reolwyr y Cyngor wedi colli eu swyddi a bod mwy i fynd eto a "Fyddech chi ddim yn hoffi gweld sut un ydw i os na cha i fy ffordd ... Does dim angen i mi eich bygwth, rydych chi'n fenyw ddeallus ac rwy'n gwybod eich bod yn gwrando arnaf i".

Apeliodd yr aelod yn erbyn y penderfyniad a chyfeiriwyd y mater i'r Uchel Lys.  Yno cadarnhawyd pob achos o dorri'r Cod heblaw tri.  Gellir gweld y penderfyniad yma.

## Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod

## Gweler paragraff 4(ch)

Rhaid i chi beidio â pheryglu na cheisio peryglu didueddrwydd unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.  Ni ddylech fynd at unrhyw un sy'n gweithio i'r awdurdod neu ar ei ran gyda'r bwriad o bwyso arno i gyflawni ei ddyletswyddau mewn ffordd dueddol neu bleidiol.  Rhaid iddo fod yn ddiduedd ac ni ddylid ei orfodi na'i berswadio i weithredu mewn ffordd a fyddai'n tanseilio ei allu i fod yn ddiduedd.  Er enghraifft, ni ddylech gael swyddogion i'ch helpu i baratoi deunydd plaid wleidyddol, na'ch helpu gyda materion sy'n ymwneud â'ch busnes preifat.  Ni ddylech roi na chynnig unrhyw gymhelliant na gwobr yn gyfnewid am weithredu mewn ffordd benodol neu wneud penderfyniad penodol, na bygwth neb os nad yw'n bwriadu gweithredu mewn ffordd benodol.  Yn ogystal â pheidio â rhoi pwysau ar swyddogion yn bersonol, rhaid i chi beidio â gwneud hynny ar bapur, drwy gyfryngau electronig nac yn y wasg.

Er eich bod yn cael holi swyddogion yn daer er mwyn cael gwybod, er enghraifft, eu rhesymau dros gynnig gweithredu mewn ffordd benodol, neu ddeall cynnwys adroddiad

y maent wedi'i ysgrifennu, rhaid i chi beidio â cheisio eu gorfodi i weithredu'n wahanol, newid eu cyngor neu addasu cynnwys yr adroddiad hwnnw, os byddai hynny'n tanseilio eu huniondeb proffesiynol.

Os bydd aelod yn datblygu perthynas bersonol agos â swyddog, bydd hyn yn fuddiant personol o dan y Cod a gall fod yn fuddiant rhagfarnus.  Byddwn yn eich annog i lynu wrth unrhyw brotocol sydd wedi'i ddatblygu gan eich awdurdod sy'n delio â pherthnasoedd rhwng aelodau a swyddogion.

**Enghraifft**

Roedd mab a merch yng nghyfraith i aelod o gyngor bwrdeistref sirol yn gymdogion i deulu a oedd yn denantiaid i'r Cyngor.  Cafwyd cwynion am ymddygiad y teulu.  Roedd yr aelod wedi cysylltu droeon â swyddogion y Cyngor ynghylch meddiannaeth y teulu o eiddo'r Cyngor ac effaith hynny ar deulu ei fab, weithiau y tu allan i oriau swyddfa.  Cafodd y galwadau eu gwneud yn rhinwedd ei swydd yn aelod etholedig ac roedd yn gallu cysylltu â swyddogion yn uniongyrchol am ei fod yn aelod.  Cafodd rybudd gan y Dirprwy Swyddog Monitro ynghylch ei ymddygiad, a oedd yn pwysleisio pa mor bwerus yw aelodau etholedig wrth ddelio ag aelodau staff.

Er gwaethaf hyn, parhaodd i gysylltu â swyddogion am y mater gan gynnwys, ymysg pethau eraill, gofyn i swyddog ymweld â'i deulu "y funud honno" a chyhuddo swyddog o "roi gwybod" i'r teulu y cwynwyd amdano fod offer monitro sŵn yn cael eu gosod.

Penderfynodd Panel Dyfarnu Cymru fod ymddygiad yr aelod yn ymddygiad parhaus dros gyfnod o 6 mis gyda'r bwriad o roi pwysau gormodol ar swyddogion y cyngor.  Penderfynodd ei fod wedi ceisio tanseilio didueddrwydd swyddogion y Cyngor drwy ei weithredoedd.  Cafodd hefyd fod yr aelod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill a bod ei weithredoedd yn gyfystyr ag aflonyddu a'i fod wedi defnyddio ei swydd yn amhriodol i hybu buddiannau ei deulu ei hun.  Am fod ei ymwneud â swyddogion wedi dwysáu dros y cyfnod dan sylw a'i fod wedi gwneud honiad anwir bod swyddog wedi "rhoi gwybod" i'r teulu, roedd hefyd wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod.  Cafodd yr aelod ei atal o'i swydd am 12 mis.

## Datgelu gwybodaeth gyfrinachol
## Gweler paragraff 5(a)

Rhaid i chi beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol na gwybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heblaw mewn un o'r amgylchiadau canlynol:

- rydych wedi cael caniatâd gan y person sydd ag awdurdod i'w roi
- mae'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau defnyddiol ar Ddeddf Rhyddid

Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data sydd ar gael ar ei wefan yn www.ico.gov.uk neu drwy ffonio 0303 123 1113. Fel aelod, mae'n bosibl y byddwch yn gweld gwybodaeth gyfrinachol am unigolion neu sefydliadau gan gynnwys materion sy'n bersonol neu'n fasnachol sensitif. Gall hyn gynnwys gwybodaeth am gyflogaeth neu faterion personol sy'n codi o waith gwasanaethau cymdeithasol, er enghraifft. Mewn rhai achosion bydd y wybodaeth hon wedi'i marcio i ddangos ei bod yn gyfrinachol. Hyd yn oed os nad yw'r wybodaeth wedi'i marcio, rhaid i chi beidio â'i datgelu. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch Swyddog Monitro.

Yn gyffredinol, dylech drin yr eitemau a drafodir yn y rhannau cyfrinachol o gyfarfodydd (eitemau esempt) fel rhai cyfrinachol. Fel arfer, bydd awdur yr adroddiadau hyn wedi pennu eu bod yn cynnwys gwybodaeth sensitif, ar sail cyngor cyfreithiol arbenigol. Efallai y bydd y wybodaeth yn mynd yn llai sensitif dros amser, ond byddwn yn eich annog i gymryd cyngor cyfreithiol priodol cyn ei datgelu. Yn yr un modd, mae cyngor cyfreithiol a gafwyd gan gyfreithwyr allanol neu staff cyfreithiol mewnol yr awdurdod, bron bob amser yn dod o dan fraint gyfreithiol ac felly ni ddylid ei ddatgelu.

Os darperir gwybodaeth i aelodau yn ystod ymchwiliad, byddwn yn disgwyl iddi gael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, ac ni ddylid ei datgelu i neb arall heblaw rhywun sy'n darparu cyngor cyfreithiol i'r aelod neu gyngor o fath arall. Os datgelir y wybodaeth i bobl eraill, gallwn ystyried bod hyn yn torri'r gofynion yn y paragraff hwn o'r Cod. Ar ben hynny, ni ddylai aelodau drafod y gŵyn ag unrhyw dystion, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol: gellid ystyried bod cysylltiad o'r fath hefyd yn torri gofynion y Cod.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor bwrdeistref sirol a oedd yn eistedd ar banel mabwysiadu'r Cyngor wedi datgelu'n gyhoeddus fanylion unigolyn a oedd wedi gwneud cais i'r panel i fabwysiadu plentyn. Dim ond am ei fod yn aelod o'r panel y byddai wedi gallu gwybod am y manylion a ddatgelwyd. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol yn groes i'r Cod. Ataliodd yr aelod o'r Cyngor am 6 mis.

## Atal mynediad at wybodaeth

## Gweler paragraff 5(b)

Rhaid i chi beidio â rhwystro unrhyw berson rhag cael gwybodaeth y mae ganddo hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu gopïau o gofnodion, agendâu, adroddiadau a dogfennau eraill eich awdurdod y mae ganddo hawl i'w gweld. I gael gwybod mwy am y mathau o wybodaeth y mae gan y cyhoedd hawl i'w gweld, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i www.ico.gov.uk neu drwy ffonio 0303 123 1113 neu, os oes gennych ymholiad penodol, dylech holi'r Swyddog Monitro.

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth rydych yn ei chynhyrchu yn rhinwedd eich swydd yn rhwym wrth ofynion datgelu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a gallai fod yn ofynnol i'ch awdurdod ei rhyddhau mewn ymateb i gais. Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth i'r swyddog perthnasol yn eich awdurdod ar gais, byddwch yn torri'r Cod.

Bydd yn rhaid i'ch awdurdod benderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth ynteu a yw wedi'i hesemptio. Hyd yn oed os ydych yn meddwl bod y wybodaeth sydd gennych yn esempt, rhaid i chi ei darparu i'r swyddog perthnasol yn eich awdurdod er mwyn caniatáu i'r awdurdod wneud penderfyniad. Yn ogystal â bod yn groes i'r Cod, mae dinistrio gwybodaeth ar ôl cael cais Rhyddid Gwybodaeth yn drosedd.

**Enghraifft**

Roedd arweinydd cyngor sir wedi gwrthod rhoi llythyr i Swyddog Gwybodaeth y Cyngor a yrrwyd ganddo i Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Gweithrediaeth y Cyngor. Oherwydd hynny, ni allai'r Cyngor ymateb yn briodol i gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac, o ganlyniad, cyflwynwyd cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd yr aelod yn parhau i wrthod datgelu'r llythyr er iddo gael cyngor clir a diamwys gan y Swyddog Gwybodaeth. Arweiniodd hyn at ddyfarniad anffafriol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi torri gofynion paragraffau 5(b) a 6(1)(a) (dwyn anfri) yng nghyswllt y mater hwn a materion cysylltiedig eraill. Erbyn i'r achos gael ei ystyried gan y Panel, roedd yr aelod wedi ymddiswyddo. Cafodd ei anghymwyso rhag dal swydd am 12 mis.

## Anfri

## Gweler paragraff 6(1)(a)

**Mae unrhyw ymddygiad sy'n annheilwng o aelod yn gallu dwyn anfri**

Rhaid i chi beidio ag ymddwyn ar unrhyw adeg mewn ffordd y byddai'n rhesymol ystyried ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu awdurdod. Fel aelod, bydd mwy o graffu ar eich gweithredoedd a'ch ymddygiad nag yn achos aelodau cyffredin o'r cyhoedd. Dylech gofio y bydd eich gweithredoedd yn eich bywyd cyhoeddus a phreifat yn gallu cael effaith anffafriol ar eich swydd neu ar eich awdurdod. Dylech sicrhau hefyd nad ydych yn ymddwyn mewn modd a allai amharu ar ymchwiliad a gynhelir gennyf fi neu'ch Swyddog Monitro: gellid ystyried bod hyn hefyd yn dwyn anfri.

Bydd ymddygiad anonest a thwyllodrus yn dwyn anfri ar eich awdurdod, yn yr un modd ag ymddygiad sy'n arwain at gollfarn am drosedd, yn enwedig os yw'n ymwneud ag ymddygiad anonest, bygythiol neu dreisgar, hyd yn oed os yw'r ymddygiad yn digwydd yn eich bywyd preifat. Gellir ystyried bod beirniadu'ch awdurdod yn anghywir neu'n annheg yn gyhoeddus yn dwyn anfri ar eich awdurdod. Gall negeseuon e-bost amhriodol neu negeseuon amhriodol ar gyfryngau cymdeithasol ddwyn anfri ar swydd yr aelod.

Fel y nodwyd yn yr achos enghreifftiol ar dudalen 16 uchod, rhaid i chi hefyd ymddwyn yn briodol gyda phobl eraill o fewn adeilad cyngor, pa un a yw'ch ymddygiad yn debygol o fod yng ngŵydd y cyhoedd neu beidio.

**Enghraifft**

Roedd cynghorydd cymuned wedi bod yn sarhaus wrth berchennog siop a dau aelod o'i staff ac wedi ceisio cael disgownt ar rywbeth roedd yn ei brynu'n breifat drwy ddweud ei fod yn ei brynu ar ran y Cyngor Cymuned. Pan wrthodwyd ei gais am ddisgownt, gwnaeth fygythiadau yn erbyn y busnes. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod a chafodd ei atal am 9 mis.

## Rhoi gwybod am dorri gofynion y Cod

## Gweler paragraff 6(1)(c)

Os ydych yn credu'n rhesymol bod y Cod wedi cael ei dorri, rhaid i chi roi gwybod am hynny i'ch Swyddog Monitro. Nid oes angen rhoi gwybod i mi am y mater bellach. Er mwyn credu'n rhesymol bod y Cod wedi cael ei dorri, bydd yn rhaid i chi gael tystiolaeth uniongyrchol i gadarnhau hyn. Os nad ydych yn sicr a yw'r Cod wedi cael ei dorri ai peidio, dylech holi'ch Swyddog Monitro ar y cyfle cyntaf. Os cafodd y Cod ei dorri mewn modd technegol neu fach, neu os nad oes tystiolaeth glir i'r Cod gael ei dorri, gall y Swyddog Monitro awgrymu ei bod yn fwy priodol delio â'r mater drwy broses ddatrys leol yr awdurdod.

Yn yr achosion mwyaf difrifol neu lle mae'r broses ddatrys leol yn methu neu lle mae'n anaddas, gall y Swyddog Monitro benderfynu, fel eithriad, y bydd yn eu cyfeirio ataf i'n uniongyrchol neu ar eich rhan. Yn y rhan fwyaf o achosion eraill, byddwch chi'n cael eich cynghori i wneud hynny.

Er hynny, fi sy'n gyfrifol am benderfynu a fyddaf yn ymchwilio i achos o dorri'r Cod. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a yw'r Cod wedi'i dorri, dylid rhoi gwybod bob tro. Bydd o gymorth os gallwch nodi pa elfen o'r Cod rydych yn credu sydd wedi'i thorri.

Wrth benderfynu a fyddaf yn ymchwilio i gŵyn ynghylch torri'r Cod ai peidio, byddaf yn defnyddio'r prawf dau gam rwyf wedi'i amlinellu ar dudalennau [insert] a [insert] uchod. Dylech sicrhau eich bod yn rhoi unrhyw dystiolaeth sydd gennych pan fyddwch yn cwyno, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd, gohebiaeth, nodiadau a wnaed ar y pryd neu negeseuon e-bost. Os oes unigolion eraill sydd yn dystion i'r toriad honedig ar y Cod, dylech ddweud wrthym pwy ydynt. Mae'r pwynt olaf yn bwysig iawn oherwydd os wyf yn dibynnu ar air un person yn erbyn gair person arall, mae'n bosibl na fyddaf yn gallu dod i gasgliad sicr bod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau ymchwilio i'r mater.

I roi gwybod am faterion o'r fath, gallwch gysylltu â'm swyddfa drwy ffonio 0845 6010987, drwy'r e-bost yn holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk neu drwy'r wefan yn www.

ombwdsmon-cymru.org.uk Mae taflen arbennig am wneud cwynion am honiadau o dorri'r Cod ar gael ar gais neu ar y wefan.

## Cwynion blinderus
## Gweler paragraff 6(1)(ch)

Rhaid i chi beidio â chwyno yn erbyn aelodau eraill, aelodau staff neu bobl sy'n gweithio ar ran eich awdurdod os nad yw'r gŵyn yn seiliedig ar ffeithiau ac os yw wedi'i hysgogi gan falais (dymuniad i'w niweidio) neu gystadleuaeth wleidyddol. Gwaetha'r modd, cafwyd achosion lle mae aelodau wedi ceisio cyflwyno cwynion am gystadleuwyr gyda'r bwriad o'u rhoi dan anfantais, weithiau cyn etholiad, a lle nad oes tystiolaeth o dorri'r gofynion neu ddim ond tystiolaeth wan. Rwyf yn credu y dylid ystyried ymddygiad o'r fath drwy broses ddatrys leol yr awdurdod perthnasol yn y lle cyntaf.

Os bydd manylion penodol am gwynion o'r fath yn cael eu trosglwyddo i'r wasg a'r cyfryngau lleol, gall hyn wneud niwed i ymchwiliad a gall hyn ynddo'i hun hefyd fod yn groes i'r Cod fel rwyf wedi esbonio. Rhaid i chi roi gwybod i'ch Swyddog Monitro am honiadau cadarn o dorri gofynion y Cod, nid i'r papur newydd neu orsaf radio leol. Bydd y wasg yn rhoi sylw priodol i fusnes unrhyw wrandawiadau a'u canlyniadau, ac ni ddylai aelodau sy'n gwneud honiadau greu unrhyw gyhoeddusrwydd cyn y rhain.

Ni ddylai aelodau ddefnyddio'r Cod i geisio ennill mantais yng nghyd-destun anghytundeb gwleidyddol neu breifat. Felly ni ddylech wneud cwynion sydd heb ddim neu nemor ddim sylwedd (cwynion gwacsaw) sydd â'r prif amcan o wylltio'r person y maent yn cael eu gwneud yn ei erbyn, er enghraifft, lle rydych yn anghytuno ag agwedd aelod at fusnes eich awdurdod neu at ei rôl fel aelod. Os byddaf yn gweld tystiolaeth sy'n awgrymu bod cwyn wedi'i gwneud i'm swyddfa nad yw'n seiliedig ar ffeithiau a'i bod wedi'i hysgogi gan falais neu gystadleuaeth wleidyddol, byddaf yn ystyried bod hyn yn fater difrifol ac mae'n bosibl y byddaf yn ymchwilio i hyn. Mae gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn mynd yn groes i'r paragraff hwn ac mae'n bosibl hefyd ei fod yn mynd yn groes i'ch rhwymedigaethau eraill o dan y Cod fel y gofyniad i beidio â dwyn anfri ar eich swydd fel cynghorydd neu beidio â defnyddio'ch safle mewn modd amhriodol.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor bwrdeistref sirol wedi honni bod arweinydd y Cyngor wedi cynnig rhoi cyfleusterau swyddfa i gynghorydd arall a'i grŵp o aelodau pe byddai'r cynghorydd hwnnw'n cefnogi dewis arweinydd y Cyngor ar gyfer swydd y Prif Weithredwr. Roedd y dystiolaeth yn cefnogi safbwynt yr arweinydd nad oedd cysylltiad rhwng y ddau fater ac felly bod y gŵyn yn un faleisus. Ataliodd y Panel Dyfarnu yr aelod a wnaeth y gŵyn am 12 mis.

## Cydweithredu ag ymchwiliadau
## Gweler paragraff 6(2)

Rhaid i chi gydweithredu ag unrhyw ymchwiliad sy'n cael ei gynnal gennyf i neu gan eich Swyddog Monitro gan ddefnyddio ein pwerau statudol. Mae peidio â gwneud hynny'n torri gofynion y Cod. Mae hyn yn golygu y dylech ymateb yn brydlon i bob gohebiaeth a galwad ffôn, trefnu i fod ar gael ar gyfer cyfweliadau os oes angen a darparu copïau o unrhyw ddogfennau y gofynnir amdanynt. Byddai'n fuddiol pe gallech nodi unrhyw bryderon sydd gennych yn ystod yr ymchwiliad fel bod modd eu datrys yn ddi-oed. Bydd fy swyddfa a'ch Swyddog Monitro yn ystyried unrhyw bwysau brys sydd arnoch chi ac unrhyw drefniadau a wnaed o'r blaen, er enghraifft, ar gyfer gwyliau. Fodd bynnag, disgwylir i chi roi blaenoriaeth i'w hymchwiliadau, er mwyn peidio â llusgo materion yn ddiangen. Mae'r gofyniad i gydweithredu ag ymchwiliad yn gymwys pa un a ydych yn dyst neu'n destun yr ymchwiliad.

Rwyf yn gwybod am enghreifftiau lle mae aelodau sydd wedi'u cyhuddo o dorri'r Cod wedi ceisio rhoi pwysau ar yr unigolion sydd wedi gwneud y gŵyn neu ar dystion eraill. Rwyf yn ystyried bod ymddygiad o'r fath yn hollol annerbyniol. Rhaid i chi beidio â bygwth na cheisio codi ofn ar unrhyw un sydd, neu sy'n debygol o fod, yn achwynydd, yn dyst, neu'n ymwneud â gweinyddu unrhyw ymchwiliad neu achos sy'n ymwneud â methu â chydymffurfio â'r Cod.

Ni waeth faint rydych chi'n pryderu am honiadau eich bod chi neu gynghorydd arall wedi methu â chydymffurfio â'r Cod, peth drwg bob amser yw bwlio, bygwth neu geisio codi ofn ar rywun sy'n ymwneud â'r ymchwiliad neu'r gwrandawiad. Hyd yn oed os nad ydych wedi torri'r Cod, cewch ddweud eich dweud yn ystod unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad annibynnol, a dylech adael i'r prosesau hyn ddilyn eu cwrs naturiol.

Os byddwch yn bygwth tyst mewn ymchwiliad i'ch ymddygiad, er enghraifft, gallech fod yn destun cwyn arall am fynd yn groes i baragraff 4(c) o'r Cod ynghylch bwlio neu aflonyddu, neu baragraff 6(1)(a) ynghylch dwyn anfri ar swydd yr aelod.

## Camfanteisio ar eich swydd
## Gweler paragraff 7(a)

Rhaid i chi beidio â defnyddio na cheisio defnyddio'ch safle'n amhriodol i roi mantais neu anfantais i chi'ch hun nac i unrhyw un arall. **Mae'r paragraff hwn yn gymwys bob amser** ac nid pan ydych yn cyflawni'ch dyletswyddau fel aelod yn unig. Ni ddylech ddefnyddio na cheisio defnyddio eich swydd gyhoeddus ychwaith er eich budd neu eich colled eich hun na budd na cholled eraill. Er enghraifft, byddai'ch ymddygiad yn amhriodol pe byddech yn ceisio hyrwyddo eich buddiannau preifat eich hun drwy eich safle fel aelod. Mae hyn yn gymwys hefyd os ydych yn defnyddio'ch swydd i wella eich lles ar draul pobl eraill.

Os yw aelod yn berchen ar dir, neu os yw rhywun y mae ganddo gysylltiad personol agos

ag ef yn berchen ar dir, rhaid iddo fod yn ofalus iawn yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â chynllunio. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, dylech ofyn am gyngor. Mae hyn yr un mor gymwys i aelodau cynghorau cymuned pan ymgynghorir â'ch Cyngor ar faterion sy'n ymwneud â chynllunio. Yn yr un modd, er ei bod yn rhesymol disgwyl i aelodau helpu etholwyr i wneud cais i'r Cyngor, er enghraifft, ar gyfer tai, mae'n gwbl amhriodol ceisio dylanwadu ar y penderfyniad a wneir gan y swyddogion.

Mae darpariaethau Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn gymwys i aelodau sy'n cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus. Os ceir aelod yn euog o drosedd o dan y Ddeddf hon, yna mae'n debygol y bydd hefyd wedi defnyddio ei safle'n amhriodol (yn groes i baragraff 7(a)) a dwyn anfri ar swydd yr aelod neu ar ei awdurdod gan dorri gofynion paragraffau 6(1)(a) a (b). Os caf unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ymddygiad a all fod yn drosedd, yna rwyf yn debygol o gyfeirio'r mater at yr heddlu.

**Enghraifft**
Roedd aelod o gyngor sir wedi gofyn bod tir roedd yn berchen arno ym Mhentref A yn cael ei gynnwys fel tir addas ar gyfer datblygu yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLl) y Cyngor. Pan oedd y Cyngor yn ystyried rhannau addas o aneddiadau i'w cynnwys yn y CDLl, roedd swyddogion wedi argymell cynnwys tir yn y pentref cyfagos (Pentref B) yn y cynllun drafft yn ei le. Er bod yr aelod wedi cael cyngor clir iawn gan Swyddog Monitro'r Cyngor ar ei fuddiant rhagfarnus, anfonodd yr aelod neges e-bost at swyddog polisi cynllunio'r Cyngor gan amlinellu nifer o ddadleuon a honni eu bod yn ffafrio cynnwys ei dir ef ym Mhentref A yn hytrach na'r tir ym Mhentref B. Ar yr adeg berthnasol roedd y cynllun drafft wedi cael ei ddatgelu i aelodau'r Cyngor yn gyfrinachol ac nid oedd wedi cael ei ddatgelu'n gyhoeddus.

Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod, drwy anfon y neges e-bost, wedi torri gofynion paragraff 7(a) o'r Cod drwy geisio defnyddio ei safle yn amhriodol er budd personol. Yn y gwrandawiad ceisiodd roi'r bai ar Swyddog Monitro'r Cyngor am beidio â'i hyfforddi a'i gynghori'n iawn ar y Cod, ond roedd yn amlwg nad oedd hyn yn wir. Roedd ei weithredoedd hefyd wedi dwyn anfri ar ei swydd ac ar y Cyngor. Cafodd yr aelod ei anghymhwyso rhag dal swydd am 18 mis am hyn ac am dorri'r Cod mewn ffyrdd eraill.

## Adnoddau'r awdurdod
## Gweler paragraff 7(b)

Dim ond yn unol â'i ofynion y cewch chi ddefnyddio adnoddau'r awdurdod neu awdurdodi pobl eraill i wneud hynny. **Mae'r paragraff hwn hefyd yn gymwys bob amser.** Os bydd eich awdurdod yn darparu adnoddau i chi (er enghraifft, ffôn, cyfrifiadur a chyfleusterau TG eraill, cludiant neu gymorth gan weithwyr y cyngor), dim ond ar gyfer cyflawni'ch busnes awdurdod lleol ac unrhyw weithgarwch arall y mae'r awdurdod wedi'ch awdurdodi i'w defnyddio ar eu cyfer y cewch ddefnyddio'r rhain.

Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r rheolau ar gyfer defnyddio'r adnoddau hyn a wnaed gan eich awdurdod.

Mae methu â chydymffurfio â rheolau'ch awdurdod yn debygol o fod yn groes i'r Cod.  Os byddwch yn awdurdodi rhywun (er enghraifft, aelod o'ch teulu) i ddefnyddio adnoddau'ch awdurdod, rhaid i chi ofalu bod rheolau'ch awdurdod yn caniatáu hyn.

## Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig

## Gweler paragraffau 7(b)(v) a 7(b)(vi)

Rhaid i chi wneud yn siŵr mai dim ond at ddibenion priodol rydych chi'n defnyddio adnoddau'r awdurdod.  Nid yw'n briodol defnyddio'r adnoddau at ddibenion gwleidyddol, gan gynnwys dibenion pleidiau gwleidyddol, nac awdurdodi pobl eraill i'w defnyddio yn y fath fodd.  Wrth ddefnyddio adnoddau'r awdurdod, rhaid i chi roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan eich awdurdod.

Ni ddylech byth ddefnyddio adnoddau'r awdurdod at ddibenion cwbl wleidyddol, gan gynnwys dylunio a dosbarthu deunyddiau pleidiau gwleidyddol a gynhyrchwyd at ddibenion cyhoeddusrwydd.  Fodd bynnag, gall eich awdurdod eich awdurdodi i ddefnyddio ei adnoddau a'i gyfleusterau at ddibenion gwleidyddol yng nghyswllt eich busnes yn yr awdurdod, er enghraifft, cynnal cyfarfodydd eich grŵp gwleidyddol.  Yn yr achos hwn, rhaid i chi fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau a roddir ar ddefnydd o'r fath at y dibenion hyn. Dylai aelodau hefyd ystyried y ffaith bod cyfnodau cyn etholiadau llywodraeth leol yn hynod sensitif yn hyn o beth.  Mae defnyddio adnoddau'ch awdurdod y tu allan i'r cyfyngiadau hyn yn debygol o fod yn gyfystyr â thorri'r Cod.  Bydd rhai awdurdodau'n caniatáu i aelodau ddefnyddio offer TG a ddarparwyd gan yr awdurdod, fel gliniaduron at ddefnydd atodol. Ar yr amod bod defnydd o'r fath yn unol â gofynion yr awdurdod, ni fyddai'r Cod yn cael ei dorri, ond ni fyddai'n briodol anfon negeseuon e-bost at nifer mawr o bobl fel rhan o ymgyrch etholiadol, er enghraifft.

Fodd bynnag, os nad oes polisi neu os yw'r polisi'n fud ar y mater hwn, ni chewch ddefnyddio'r adnoddau hyn at unrhyw ddibenion gwleidyddol na phreifat.

### Enghraifft

Cafwyd bod aelod o gyngor sir wedi torri gofynion y Cod drwy ddefnyddio ei offer cyfrifiadurol, a roddwyd iddo gan y Cyngor, yn amhriodol at ddibenion preifat drwy lawrlwytho delweddau pornograffig amhriodol o oedolion ac anfon nifer o lythyrau i bapur newydd lleol, gan honni'n anwir mai aelodau o'r cyhoedd oedd yn eu hanfon.  Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi camddefnyddio offer y Cyngor gan dorri'r Cod a'i fod wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod. Cafodd ei anghymwyso am 2 flynedd a 6 mis rhag bod, na dod, yn aelod o awdurdod lleol.

**Enghraifft**

Cafwyd bod aelod o gyngor bwrdeistref sirol wedi torri'r Cod drwy ddefnyddio gormod ar ei ffôn symudol, a roddwyd iddo gan y Cyngor, at ddibenion preifat. Er bod polisi TG y Cyngor yn caniatáu rhywfaint o ddefnydd personol, cafwyd bil o dros £1000 am alwadau preifat roedd yr aelod wedi'u gwneud. Penderfynodd y Panel Dyfarnu atal yr aelod am 9 mis am hyn ac am dorri'r Cod mewn ffyrdd eraill.

## Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol

## Gweler paragraff 8(a)

Wrth gymryd rhan yng nghyfarfodydd eich awdurdod, neu wrth wneud penderfyniadau ynghylch busnes yr awdurdod, rhaid i chi wneud hynny â meddwl agored ac yn wrthrychol. Yn ystod y broses penderfynu rhaid i chi weithredu'n deg ac ystyried budd y cyhoedd yn briodol.

Wrth wneud rhai penderfyniadau, fel penderfyniadau mewn pwyllgor cynllunio, neu wrth gymryd rhan mewn trafodaeth ar fater sy'n ymwneud â'ch ward, rhaid i chi bob amser wneud eich penderfyniadau ar sail y ffeithiau sydd o'ch blaen, a pheidio â phenderfynu ymlaen llaw i'r graddau eich bod yn hollol anfodlon ystyried yr holl dystiolaeth a chyngor a gewch chi. Rhagderfyniad yw'r enw ar fod â meddwl hollol gaeedig. Mae gennych hawl i arddel safbwynt ymlaen llaw am fater penodol cyn cyfarfod (rhagdueddiad) ar yr amod eich bod yn cadw meddwl agored a'ch bod yn fodlon ystyried rhinweddau'r holl ddadleuon a phwyntiau a wneir ynghylch y mater a drafodir cyn i chi wneud penderfyniad.

Rhagderfynu, ar y llaw arall, yw sefyllfa lle mae'n amlwg eich bod wedi penderfynu ar gwrs gweithredu cyn y cyfarfod ac yn gwbl amharod i ystyried y dystiolaeth a'r dadleuon a gyflwynir ar y mater hwnnw yn ystod y cyfarfod. Gallai rhagderfynu olygu bod y penderfyniad yn annilys, a byddai hefyd yn groes i'r Cod.

Mae Adran 78 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gwahardd aelod o bwyllgor craffu neu bwyllgor trosolwg rhag pleidleisio ar gwestiwn mewn cyfarfod os yw chwip plaid wedi cyfarwyddo'r aelod yng nghyswllt y cwestiwn cyn y cyfarfod.

Er mwyn i mi ymchwilio i gwynion am gyfarwyddo pleidleisio gan grwpiau gwleidyddol, rhaid cael tystiolaeth ysgrifenedig neu dystiolaeth ategol arall am gyfarwyddyd y chwip. Ni fydd tybiaethau ar sail patrymau pleidleisio grwpiau penodol yn ddigon o dystiolaeth o gyfarwyddyd gan chwip.

## Ystyried cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau

## Gweler paragraff 8(b)

Rhaid i chi ddal sylw ar yr holl gyngor a gewch gan swyddogion eich awdurdod, yn enwedig y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, y Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Cyfreithiol pan

fyddant yn rhoi eu cyngor o dan eu dyletswyddau statudol.  Gellir cael cyngor o'r fath hefyd mewn dogfennau polisi a chanllawiau a gynhyrchir gan eich awdurdod.  Mae hwn yn faes cymhleth a cheir darpariaethau mewn deddfwriaeth arall sy'n sail iddo ond, yn gyffredinol, mae'n gofyn am lawer mwy na dim ond ystyried cyngor a'i wrthod os nad ydych yn ei groesawu.  Rwyf yn disgwyl i aelodau ddilyn y cyngor oni bai fod rhesymau cryf dros beidio â gwneud ac, os gwneir penderfyniad yn groes i'r cyngor, y peth doethaf fydd cofnodi'r rhesymau dros wneud hynny.

Mae'n werth cofio hefyd fod hyn yn rhoi swyddogion statudol o dan ddyletswydd sylweddol i ystyried eu cyngor ffurfiol yn ofalus, a hefyd, os ydynt yn credu ei fod yn debygol o fod yn ddadleuol, i gadw cofnod ohono.  Gellir cael ambell achos lle mae cyngor wedi'i roi i aelod, a'r aelod wedi torri'r Cod o ganlyniad i ddilyn y cyngor hwnnw.  Wrth ymchwilio i achosion o'r fath, os yw'r dystiolaeth yn awgrymu bod y Cod wedi'i dorri, byddwn fel arfer yn ystyried y cyngor diffygiol yn ffactor lliniaru, yn hytrach na'i weld yn dystiolaeth nad oedd y Cod wedi'i dorri.

Bydd hefyd yn fuddiol cael cyngor mor gynnar â phosibl bob amser.  Os gallwch, gofynnwch am gyngor mewn da bryd cyn cyfarfod, yn hytrach nag yn y cyfarfod neu'n union cyn iddo ddechrau.  Gofalwch eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth y bydd angen i'r swyddog cysylltiedig ei hystyried cyn rhoi cyngor i chi.

Os byddwch yn gofyn am gyngor, neu os cynigir cyngor i chi, er enghraifft, ynghylch a ddylech gofrestru buddiant personol, dylech ystyried y cyngor hwn cyn i chi benderfynu. Byddai methu â gwneud hynny'n gallu bod yn groes i'r Cod.

Rhaid i chi roi rhesymau am bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol a osodir gan eich awdurdod.  Mae'n bwysig iawn rhoi rhesymau am benderfyniadau ynghylch rheoliadau ac am benderfyniadau sy'n effeithio ar hawliau pobl, ymysg pethau eraill.

Fel mater o arfer da, lle rydych yn anghytuno ag argymhellion gan swyddog wrth wneud penderfyniad, dylech roi rhesymau clir dros eich penderfyniad.  Mae hyn yn gymwys i benderfyniadau i bleidleisio yn erbyn cyngor y swyddogion statudol, hyd yn oed os byddwch yn colli'r bleidlais.  Os byddwch yn penderfynu pleidleisio yn erbyn eu cyngor, dylech sicrhau bod eich rhesymau dros wneud hynny'n cael eu cofnodi yn y cofnodion perthnasol.  Dylech gofio y gall pleidleisio yn erbyn cyngor y swyddogion statudol heb reswm da fod yn groes i'r Cod.

Wrth wneud penderfyniadau lle nad yw cyngor yn cael ei roi gan y swyddogion statudol, dylech roi sylw i'r cyngor a roddir gan swyddogion, er hynny, a'i ystyried wrth wneud eich penderfyniad.  Mae'n bosibl y byddwch hefyd am roi sylw i gyngor arall a gawsoch ac, wrth gwrs, y safbwynt sy'n cael ei arddel gan grŵp gwleidyddol rydych yn aelod ohono.  O dan rai amgylchiadau, wrth wneud penderfyniadau cynllunio, er enghraifft, rhaid i chi beidio â phleidleisio ar sail cyfarwyddyd gan eich grŵp.  O dan amgylchiadau eraill, mae'n rhesymol gwneud hynny ond mae'n bwysig nad ydych yn cau'ch meddwl yn gyfan gwbl cyn dadl. Unwaith eto, beth bynnag yw'r rhesymau dros bleidleisio yn erbyn y cyngor gan swyddog, y

peth doethaf fydd eu cofnodi.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor sir wrth gadeirio un o gyfarfodydd y Cyngor wedi gwrthod caniatáu i Swyddog Monitro'r Cyngor gynghori aelodau yn ystod dadl ynghylch "Llythyr Blynyddol" y Cyngor oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru.  Hefyd, pan lwyddodd y Swyddog Monitro i dorri ar draws i fynegi pryderon difrifol am y ffordd roedd y trafodion yn cael eu cynnal, methodd yr aelod ag ystyried yr ychydig gyngor roedd y Swyddog Monitro wedi cael ei roi, a'r cyfan a ddywedodd oedd ei fod wedi "nodi ei sylwadau".

Penderfynwyd bod yr aelod wedi torri gofynion paragraff 8(a)(iii) o'r Cod.  Roedd y Panel Dyfarnu wedi ystyried ymddiheuriad llawn yr aelod a'i eiriau o edifeirwch am ei ymddygiad a nododd, pe na bai'r aelod eisoes wedi derbyn ei fod wedi gwneud rhywbeth o'i le, y byddai wedi gosod sancsiwn mwy na'i atal am 4 mis.

## Treuliau

## Gweler paragraff 9(a)

Rhaid i chi gydymffurfio â'r gyfraith a gofynion eich awdurdod wrth hawlio treuliau a lwfansau.  Os nad ydych yn gwbl sicr ynghylch eich hawliau, neu'r ffordd briodol o hawlio, dylech ofyn am gyngor.  Mae angen i chi gadw cofnodion priodol o wariant wedi'u hategu gan dderbynebau pan fydd hynny'n briodol, er mwyn i chi allu cyflwyno tystiolaeth briodol i ategu'ch hawliadau.  Hyd yn oed os nad yw'r cynllun penodol yn gofyn i chi gyflwyno derbynebau, fe'ch cynghorir yn gryf i gadw'r rhain er mwyn gallu profi faint rydych wedi'i wario ar yr eitemau rydych yn hawlio amdanynt, er enghraifft, gofal plant.

**Enghraifft**

Honnwyd bod aelod o gyngor bwrdeistref sirol wedi defnyddio'r Lwfans Gofal Plentyn/ Dibynnydd i dalu ei wraig i ofalu am eu merch.  Yn ystod yr ymchwiliad daeth i'r amlwg ei fod wedi talu incwm wythnosol rheolaidd i'w fab sy'n oedolyn (o briodas flaenorol) i ofalu am y plentyn yn ôl yr angen.  Roedd yr aelod yn gallu darparu prawf o'r taliadau drwy dderbynebau a bonion sieciau.  Oherwydd hyn, nid oedd tystiolaeth o unrhyw fethiant ar ran yr aelod i gydymffurfio â'r Cod.

## Rhoddion a lletygarwch

## Gweler paragraff 9(b)

Mae'n bwysig nad ydych yn derbyn unrhyw roddion na lletygarwch i chi'ch hun, nac ar ran pobl eraill, a fyddai'n eich rhoi o dan rwymedigaeth neu'n rhoi argraff o hynny.  Gellid

ystyried bod derbyn rhoddion neu letygarwch o’r fath yn tanseilio’ch gallu i fod yn wrthrychol wrth wneud penderfyniadau neu gyflawni gwaith eich Cyngor.  Mae hyn hefyd yn wir am dderbyn unrhyw wasanaethau neu roddion mewn nwyddau.

Nid yw hyn yn eich rhwystro rhag mynychu digwyddiadau swyddogol fel derbyniadau dinesig neu giniawau gwaith pan fydd y rhain wedi’u hawdurdodi gan eich awdurdod.  (Gweler hefyd yr adran ar gofrestru rhoddion a lletygarwch ar dudalen 47)

# 3. Buddiannau personol a rhagfarnus

Mae elfennau yn y Cod sy'n ymwneud â buddiannau personol a rhagfarnus yn arwain at nifer o gwestiynau gan aelodau. Pwrpas yr elfennau hyn yw diogelu egwyddorion anhunanoldeb a gwrthrychedd. Eu nod yw rhoi hyder i'r cyhoedd fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er y lles pennaf iddyn nhw, nid er y lles pennaf i aelodau awdurdodau neu bobl y mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw.

Mae buddiannau personol yn ymwneud â materion lle mae gennych chi neu rywun y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef ryw gyswllt â mater sy'n cael ei drafod. Bydd y buddiannau hyn yn rhai rhagfarnus pan fyddai sylwedydd annibynnol gwybodus yn gallu dod i'r casgliad y byddai'r buddiant yn dylanwadu ar eich pleidlais, neu ar eich penderfyniad.

Yn fy mhrofiad i, y gwahaniaeth rhwng buddiant personol a buddiant rhagfarnus, a'r camau y dylai aelod eu cymryd yn ôl natur ei fuddiant, sy'n achosi'r anhawster mwyaf i aelodau.

Mae'r paragraffau isod yn cynnig canllawiau yn y maes hwn. Rwyf yn argymell yn gryf, os nad ydych yn sicr a oes gennych fuddiant personol neu ragfarnus, neu, os oes gennych fuddiannau o'r fath, pa gamau y dylech eu cymryd, y dylech ofyn i'ch Swyddog Monitro am gyngor. Fodd bynnag, chi fydd yn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd.

Er mwyn rhoi mwy o gymorth i chi, rwyf wedi cynnwys dwy siart llif yn Atodiadau 1 a 2 sydd wedi'u cynllunio gan gyn Swyddog Monitro Cyngor Sir Ceredigion i'ch helpu i fynd drwy'r cwestiynau y dylech ofyn i chi'ch hun wrth benderfynu a oes gennych fuddiant. Mae'r siartiau llif yn rhai esboniadol yn unig ac nid ydynt yn rhai swyddogol. Mae canllawiau ar gofrestru buddiannau yn Rhan 4.

## Buddiannau Personol

**Oes gennych chi gyswllt neu gysylltiad agos â'r eitem dan sylw?**

## Gweler paragraff 10

Wrth i chi gyflawni'ch dyletswyddau, bydd angen i chi benderfynu a oes gennych fuddiant personol ac, os felly, a oes angen i chi ei ddatgelu. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'n gwybod bod angen datgelu buddiannau personol mewn cyfarfodydd, ond mae adegau eraill, er enghraifft, wrth siarad â swyddogion eich awdurdod ynghylch y mater dan sylw, pan fydd angen i chi wneud hynny hefyd.

Isod mae rhestr o gwestiynau y dylech eu gofyn wrth benderfynu a oes gennych fuddiant.

### Oes gennyf i fuddiant personol?

Bydd gennych fuddiant personol mewn rhan o fusnes eich awdurdod, gan gynnwys penderfyniadau sydd i'w gwneud, pan fydd honno'n ymwneud â neu'n debygol o effeithio ar:

1. eich swydd neu eich busnes
2. eich cyflogwr, neu unrhyw ffyrm rydych yn bartner neu'n gyfarwyddwr sy'n cael tâl ynddo

3. unrhyw un sydd wedi talu am gostau'ch ethol neu'ch treuliau fel aelod

4. unrhyw gwmni y mae gennych gyfrannau ynddo sydd â gwerth nominal o fwy na £25,000 neu lle mae eich daliad yn fwy nag 1% o gyfanswm y cyfalaf cyfrannau a ddyroddwyd, sydd ag eiddo neu dir yn ardal eich awdurdod

5. unrhyw gontract y mae'ch awdurdod yn ei wneud â chwmni rydych yn bartner, yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu'n dal cyfrannau ynddo fel y nodwyd yn 4

6. unrhyw dir y mae gennych fuddiant ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod (mae hyn yn bwysig iawn ym mhob mater cynllunio gan gynnwys cynlluniau strategol)

7. unrhyw dir a osodir gan eich awdurdod i gwmni rydych yn bartner neu'n gyfarwyddwr sy'n cael tâl ynddo neu gorff fel y nodwyd yn 4

8. unrhyw gorff rydych chi wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod

9. unrhyw:

- awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus
- cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen neu gorff a gyfarwyddir at ddibenion elusennol
- corff ac iddo'r brif swyddogaeth o ddylanwadu ar bolisi neu farn gyhoeddus
- undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol
- clwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod, yr ydych yn aelod ohono neu lle rydych mewn swydd reoli gyffredinol

10. unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded i'w feddiannu am o leiaf 28 diwrnod.

Mae bob amser yn fwy diogel datgan buddiant. Fodd bynnag, holwch eich Swyddog Monitro os nad ydych yn sicr.

**Materion sy'n effeithio ar eich lles neu eich sefyllfa arianno**

Os gellid ystyried bod penderfyniad yn effeithio ar eich lles neu eich sefyllfa ariannol chi neu les neu sefyllfa ariannol unrhyw un sy'n byw gyda chi neu rywun y mae gennych **gysylltiad personol** agos ag ef, yn fwy na phobl eraill yn eich ward neu, ar gyfer aelodau awdurdodau lle nad oes wardiau (er enghraifft, parciau cenedlaethol), yn ardal eich awdurdod, mae gennych fuddiant personol. Enghreifftiau o benderfyniadau o'r math hwn yw materion amlwg fel dyfarnu contractau i gwmni'ch partner yn ogystal â materion sy'n ymwneud â lleoli datblygiadau, lle gallai hynny wneud gwahaniaeth mawr i le rydych chi neu bobl y mae gennych gysylltiad agos â nhw yn byw. Un enghraifft a gafwyd oedd lleoli meysydd chwarae, lle mae aelodau etholedig wedi gwrthwynebu eu lleoli ger eu tai oherwydd materion yn ymwneud â sŵn.

**Beth yw "corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus"?**

Mae'r ymadrodd "corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus" wedi cael ei ddehongli'n eang gan y llysoedd at nifer o ddibenion gwahanol. Er nad yw'n bosibl gwneud rhestr derfynol o gyrff o'r fath, dyma rai o'r meini prawf i'w hystyried wrth benderfynu a yw corff yn cwrdd â'r diffiniad hwnnw:

- A yw'r corff hwnnw'n cyflawni gwasanaeth cyhoeddus?
- A yw'r corff yn cymryd lle llywodraeth ganolog neu leol wrth gyflawni'r swyddogaeth, er enghraifft, cartref gofal gyda phreswylwyr sy'n cael cymorth gan wasanaethau cymdeithasol?
- A yw'r corff (gan gynnwys corff yn y sector preifat sydd ar gontract allanol) yn arfer swyddogaeth a ddirprwywyd iddo gan awdurdod cyhoeddus, er enghraifft, cwmni preifat sy'n casglu sbwriel ar ran yr awdurdod?
- A yw'r swyddogaeth yn cael ei harfer o dan ddeddfwriaeth neu'n unol â phŵer statudol?
- A ellir cael adolygiad barnwrol o'r corff?

Oni bai eich bod yn ateb un o'r cwestiynau uchod yn gadarnhaol, mae'n annhebygol bod y corff yn eich achos chi yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus. Dyma enghreifftiau o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn: cyrff iechyd, cwmnïau sy'n eiddo i'r cyngor sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus a chyrff llywodraethu ysgolion. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch neu gyngor penodol am y mater hwn, cysylltwch â'ch Swyddog Monitro.

**Beth yw ystyr "effeithio ar lesiant neu sefyllfa ariannol"?**

Un diffiniad posibl o'r term 'llesiant' yw bod yn fodlon a hapus. Mae unrhyw beth sy'n effeithio ar eich ansawdd bywyd, yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn debygol o effeithio ar eich llesiant. Gall buddiant personol effeithio'n gadarnhaol ac yn negyddol arnoch chi neu ar bobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw. Felly, os yw'n bosibl i chi neu iddyn nhw ennill neu golli oherwydd mater sy'n cael ei ystyried, mae angen i chi ddatgan buddiant personol yn y naill sefyllfa a'r llall.

**Mae pobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw'n cynnwys ffrindiau, perthnasau, rhai rydych yn ymwneud â nhw drwy fusnes a rhai rydych wedi bod mewn anghydfod â nhw**

**Beth yw'r diffiniad o rywun y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef?**

Mae pobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw yn cynnwys pobl fel ffrindiau agos, cydweithwyr y mae gennych gysylltiadau cryf iawn â nhw, pobl rydych yn ymwneud â nhw drwy fusnes a pherthnasau agos. Nid yw'n cynnwys cydnabod achlysurol, perthnasau pell neu bobl nad ydych ond yn dod i gysylltiad â nhw drwy'ch swydd fel aelod neu eich gwaith yn y gymuned leol.

Gall pobl y mae gennych chi gysylltiad personol agos â nhw hefyd olygu rhywun rydych wedi bod mewn anghydfod ag ef, neu rywun y gellid credu bod gennych fuddiant mewn achosi anfantais iddo.  Er enghraifft, ni fyddai bod yn aelod o'r un clwb golff â rhywun arall ynddo'i hun yn golygu bod gennych gysylltiad personol agos ag ef ond, os oeddech yn bartner golff iddo bob wythnos, gallai hynny olygu bod gennych gysylltiad personol agos ag ef.  Os nad ydych yn siŵr, holwch eich Swyddog Monitro.

**Beth os ydw i'n perthyn i awdurdod sydd heb wardiau neu adrannau etholiadol?**

Os ydych yn aelod o awdurdod sydd heb wardiau nac adrannau etholiadol, bydd angen i chi ddatgan buddiant personol pan fyddwch yn ystyried mater yn un o gyfarfodydd eich awdurdod sy'n effeithio ar eich llesiant neu sefyllfa ariannol chi neu lesiant neu sefyllfa ariannol un neu ragor o'r bobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw, yn fwy nag y byddai'n effeithio ar bobl eraill yn ardal eich awdurdod.  Os ydych yn aelod dros awdurdod lleol ar awdurdod tân, er enghraifft, byddai angen i chi ddatgan buddiant o dan y pennawd hwn mewn materion sy'n ymwneud ag ardal yr awdurdod sydd wedi'ch enwebu.

**Aelodau sy'n "gwisgo dwy het"**

Os ydych yn aelod o gyngor cymuned ac o gyngor sir, ni chewch eich atal rhag trafod yr un materion yn y ddau le.  Er enghraifft, gallwch gymryd rhan mewn trafodaeth am gais cynllunio yr ymgynghorwyd â'ch Cyngor Cymuned yn ei gylch, a chymryd rhan wedyn mewn penderfynu ar y cais os ydych yn eistedd ar Bwyllgor Cynllunio eich Cyngor Sir.

Os byddwch yn gwneud hyn, fe'ch cynghorir yn gryf i ddweud yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned y byddwch yn edrych ar y mater o'r newydd wrth ei ystyried yn y Cyngor Sir, ac y byddwch yn ystyried yr holl wybodaeth a chyngor a roddir i chi.  Yn y Pwyllgor Cynllunio, dylech ddweud yn glir nad ydych wedi cael eich rhwymo gan farn y Cyngor Cymuned.  Mae'r cyngor ynghylch gwneud penderfyniadau gwrthrychol yng nghyd-destun paragraffau 8 a 10(2)(b) o'r Cod yn berthnasol yma hefyd.

Wrth gwrs, os oedd y cais wedi cael ei gyflwyno gan y Cyngor Cymuned, yna byddai gennych fuddiant personol a buddiant rhagfarnus, a byddai'n ofynnol i chi ei ddatgan a thynnu'n ôl yn unol â'r canllawiau isod ynghylch "beth i'w wneud os oes gennych fuddiant rhagfarnus".

**Enghraifft**

Penderfynwyd bod aelod o Gyngor Cymuned wedi torri'r Cod am ei fod wedi methu â datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn cyfarfod a oedd yn trafod cydnabyddiaeth ariannol y Clerc; roedd yr aelod a'r Clerc mewn perthynas ac wedi dyweddïo ar y pryd.  Penderfynodd y Panel Dyfarnu y dylai'r aelod fod wedi datgan buddiant personol yn yr eitem busnes oherwydd ei gysylltiad personol agos â'r Clerc.  Roedd hefyd o'r farn bod natur y berthynas

rhwng yr aelod a'r Clerc yn achosi buddiant rhagfarnus gan ei fod yn golygu mantais sylweddol i'w ddarpar briod. Roedd y Panel Dyfarnu yn credu y byddai'r buddiant yn effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd o allu'r aelod i wneud penderfyniad er budd y cyhoedd.

Roedd y Panel Dyfarnu wedi nodi eto mai'r cwestiwn hanfodol oedd nid a oedd yr aelod wedi gwneud y penderfyniad heb ragfarn ond a oedd yn ymddangos ei fod wedi gwneud hynny. Cafodd yr aelod ei atal o'i swydd am 3 mis.

**Beth os nad ydw i'n gwybod am fy muddiant personol?**

Dim ond os ydych yn ymwybodol o fuddiant personol neu os byddai'n rhesymol disgwyl i chi fod yn ymwybodol ohono y bydd y ddyletswydd i ddatgan buddiant personol mewn cyfarfod yn gymwys. Wrth reswm, nid oes disgwyl i chi ddatgan rhywbeth nad ydych yn ymwybodol ohono. Ni fyddai'n ymarferol disgwyl i chi ymchwilio i gyflogaeth, buddiannau busnes a gweithgareddau eraill eich holl berthnasau a phawb y mae gennych gysylltiad agos â nhw. Fodd bynnag, ni ddylech anwybyddu bodolaeth buddiannau y dylech wedi bod yn ymwybodol ohonynt, o safbwynt sylwedydd rhesymol a gwrthrychol.

## Beth i'w wneud os oes gennych fuddiant personol

## Gweler paragraff 11

**Ar ôl datgelu buddiant, cewch aros a chymryd rhan os nad yw'n fuddiant rhagfarnus**

Os byddwch yn penderfynu bod gennych fuddiant personol, yna rhaid i chi gymryd y camau canlynol cyn i'r mater gael ei drafod neu cyn gynted ag y daw'n amlwg i chi ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig:

- datgan bod gennych fuddiant personol, a natur y buddiant hwnnw
  - mewn cyfarfodydd
  - wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig (gan gynnwys negeseuon e-bost, ffacs etc)
  - wrth wneud sylwadau ar lafar, hyd yn oed os yw'ch buddiant ar y gofrestr buddiannau
- cadarnhau'ch buddiant drwy neges e-bost neu mewn llythyr i'r swyddog cysylltiedig ac i'r Swyddog Monitro cyn pen 14 diwrnod
- ystyried a oes gennych fuddiant rhagfarnus (gweler isod).

Os byddwch yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig i aelod arall neu i swyddog, rhaid i chi gynnwys manylion unrhyw fuddiannau personol sydd gennych. Yn yr un modd, os ydych yn siarad â swyddog neu aelod yn bersonol, dros y ffôn neu mewn cynhadledd fideo, dylech ddweud wrtho am unrhyw fuddiant personol sydd gennych cyn cyflwyno'ch sylwadau neu

pan ddaw'r buddiant yn amlwg. Fel arfer, byddai'r Ombwdsmon yn disgwyl i swyddogion gadw cofnod o unrhyw sgwrs lle mae aelod wedi datgan buddiant a'i atodi i'r ffeil briodol.

Os ydych yn gwneud penderfyniad fel rhan o weithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi sicrhau bod y cofnod ysgrifenedig o'r penderfyniad hwnnw (er enghraifft, cofnodion o gyfarfod cabinet) yn cynnwys manylion eich buddiant. Os ydych wedi datgan buddiant mewn cyfarfod nad yw wedi cael ei gofnodi o'r blaen, rhaid i chi ei gyflwyno ar bapur i'ch awdurdod yn unol â'r trefniadau a bennwyd gan eich Swyddog Monitro. Fel arfer, bydd hyn yn golygu cyn neu'n syth ar ôl y cyfarfod dan sylw neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Rhaid i chi nodi ar bapur beth yw'r buddiant, pa fusnes a ystyriwyd gan y cyfarfod y mae'n berthnasol iddo, ac mae angen i chi ei lofnodi.

Os ydych wedi cytuno â'ch Swyddog Monitro fod y wybodaeth am eich buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yna dylech ddatgan bodolaeth y buddiant personol, a chadarnhau bod y Swyddog Monitro wedi cytuno bod y wybodaeth amdano'n sensitif. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran isod.

Os ydych yn datgan buddiant personol, cewch aros yn y cyfarfod, siarad a phleidleisio ar y mater, **oni bai fod eich buddiant personol hefyd yn fuddiant rhagfarnus**. Mae'r adran nesaf yn amlinellu'r hyn sy'n fuddiant rhagfarnus.

## Buddiannau Rhagfarnus

## Gweler paragraff 12

**Peidiwch â phenderfynu ar sail eich barn eich hun yn unig - meddyliwch beth fyddai aelod o'r cyhoedd yn ei feddwl**

### Oes gennyf i fuddiant rhagfarnus?

Bydd eich buddiant personol hefyd yn fuddiant rhagfarnus mewn mater penodol os yw unrhyw rai o'r amodau canlynol yn gymwys:

- nid yw'r mater yn perthyn i un o'r categorïau busnes esempt (gweler isod), neu
- mae'r mater yn ymwneud â mater rheoleiddio neu drwyddedu (gweler paragraff 12 (3)), a

byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod am y ffeithiau perthnasol, feddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o liwio'ch barn am y budd i'r cyhoedd.

### Beth sydd mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o liwio'ch barn?

Os byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd sy'n gwybod yr holl ffeithiau perthnasol yn meddwl y gallai'ch barn am y budd i'r cyhoedd fod wedi'i rhagfarnu, yna mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. **Prawf gwrthrychol** yw hwn. Rhaid i chi benderfynu ar hyn - nid a fyddech yn gwneud y penderfyniad heb ragfarn, ond a ellid gweld eich bod yn gwneud hynny.

Rhaid i chi ofyn i chi'ch hun a fyddai **aelod o'r cyhoedd,** os oedd yn gwybod yr holl

ffeithiau perthnasol, yn meddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o liwio'ch barn.  Mewn geiriau eraill, rhaid i'r buddiant ymddangos fel pe bai'n gallu niweidio neu amharu ar eich gallu i farnu budd y cyhoedd.

Fel arfer, ni fydd bodolaeth gwybodaeth leol, neu gysylltiadau o fewn y gymuned leol, yn ddigon ar eu pen eu hunain i fodloni'r prawf.  Rhaid cael rhyw ffactor a all niweidio'ch gallu i farnu budd y cyhoedd yn wrthrychol.  Mae natur y mater hefyd yn bwysig, gan gynnwys a yw'n effeithio ar nifer mawr o bobl yn yr un modd ynteu a oes effaith benodol arnoch chi neu ar grŵp llai.

Rhaid cofio egwyddorion cyffredinol wrth gymhwyso'r prawf hwn.  Mae'n amlwg y dylech weithredu er budd y cyhoedd ac nid er budd pobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw.  Rydych yn gwarchod y pwrs cyhoeddus a budd y cyhoedd a dylai'ch ymddygiad a'ch penderfyniadau adlewyrchu'r cyfrifoldeb hwn.

Byddai gennych fuddiant rhagfarnus mewn cais cynllunio os oedd rhywun y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef (er enghraifft, eich mab neu gyfaill agos) yn byw y drws nesaf i'r safle dan sylw.  Y rheswm am hyn yw y byddai'r cais yn debygol o gael mwy o effaith ar y sawl y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef nag ar y rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn y ward neu'r adran etholiadol y bydd y penderfyniad yn effeithio arni (neu'r awdurdod, os nad oes wardiau yn eich awdurdod).  Mae hyn yn golygu bod gennych fuddiant personol yn y mater.  Mae bodolaeth y cyswllt personol agos yn golygu y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd yn gallu meddwl y byddai hyn yn lliwio'ch barn am fudd y cyhoedd wrth ystyried y cais cynllunio.  **Nid oes gwahaniaeth a fyddai'n gwneud hynny mewn gwirionedd ai peidio.**

Mewn achosion eraill, lle cafwyd anghydfod rhyngoch chi ac unigolyn y byddai penderfyniad yn gallu bod o anfantais iddo, gallai aelod gwybodus rhesymol o'r cyhoedd gasglu y byddech yn tueddu i bleidleisio'n unol â hynny, boed hynny'n wir ai peidio.

**A yw'r mater yn perthyn i un o'r categorïau esempt?**

**Gweler paragraff 12(2)**

Ni fydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu os yw'r mater yn dod o dan un o'r esemptiadau isod.

Mae'r mater yn ymwneud â'r canlynol:

- awdurdod perthnasol arall rydych hefyd yn aelod ohono
- awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle mae gennych swydd rheoli gyffredinol
- corff rydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod
- eich rôl fel llywodraethwr ysgol os na chawsoch eich penodi neu'ch enwebu gan eich awdurdod (er enghraifft, rhiant-lywodraethwr) oni bai fod y mater yn ymwneud yn benodol

â'ch ysgol

- eich rôl fel aelod o fwrdd iechyd lle na chawsoch eich penodi gan eich awdurdod
- tai - os oes gennych les neu denantiaeth gyda'r awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch ôl-ddyledion rhent o fwy na 2 fis, ac ar yr amod nad yw'r mater yn ymwneud â'ch tenantiaeth neu â'ch les chi
- prydau ysgol neu gludiant ysgol a threuliau teithio, os ydych yn rhiant, yn warcheidwad, yn nain/mam-gu neu'n daid/tad-cu, neu â chyfrifoldeb rhiant am blentyn mewn addysg amser llawn oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol y mae'ch plentyn yn ei mynychu
- penderfyniadau ynghylch tâl salwch statudol os ydych yn ei gael neu os oes gennych hawl i'w gael gan eich awdurdod
- lwfans neu daliad i aelodau. Nid wyf o'r farn bod buddiant rhagfarnus gan aelod a gyflwynir i'w ethol i swydd yn y cyngor sydd â Lwfans Cyfrifoldeb Arbennig gan fy mod yn credu bod yr oddefeb hon yn berthnasol iddo.

Ni fydd yr esemptiadau hyn yn gymwys os yw'r mater rydych yn ei ystyried yn ymwneud â phenderfynu ar gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu reoliad.  Rwyf yn ystyried bod y disgrifiadau hyn yn cyfeirio at gategori cyfyng o benderfyniadau, fel rhai i roi caniatâd cynllunio a rhoi trwyddedau.  Pe byddai'r dehongliad o gymeradwyaeth, er enghraifft, yn fwy eang, byddai'n cynnwys bron pob agwedd ar fusnes eich awdurdod ac mae'n amlwg nad hynny oedd y bwriad.

Os oes un o'r esemptiadau'n gymwys, **ni fyddwch** yn cael eich ystyried yn un sydd â buddiant rhagfarnus.  Er hynny, rhaid i chi ddatgelu'ch buddiant personol **ond fe fyddwch yn cael cymryd rhan yn yr eitem sy'n cael ei thrafod.**

**Enghraifft**

Penderfynodd Pwyllgor Safonau'r Cyngor fod dau aelod o gyngor bwrdeistref sirol, a oedd yn chwiorydd, wedi methu â datgan buddiant personol a buddiant rhagfarnus wrth benderfynu dyrannu arian o Gynllun Taliadau Bach yr Aelodau i gwmni yr oedd un o'r aelodau yn gyfarwyddwr di-dâl arno.  Yn ystod fy ymchwiliad roedd un o'r aelodau wedi gwadu'r ffaith ei bod wedi cael cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch datgelu buddiannau o'r fath, ac roedd yr aelod arall, er cael cyngor ar ddatgan buddiannau, wedi datgan yn anwir ar y ffurflen enwebu nad oedd ganddi fuddiant yn y cwmni.  Roedd y Pwyllgor Safonau wedi barnu bod y toriadau ar y Cod yn rhai difrifol.  Penderfynodd geryddu'r ddwy aelod.

**Enghraifft**

Roedd pwyllgor safonau o'r farn bod yr amgylchiadau lle roedd aelodaeth aelod o sefydliad lleol wedi dod i ben gan arwain at anghydfod chwerw a pharhaus rhyngddi hi a'r sefydliad (gan gynnwys llythyrau cyfreithwyr i adennill dyled) yn creu cysylltiad personol agos.

Penderfynodd fod natur y cysylltiad hwn yn golygu bod gan yr aelod fuddiant rhagfarnus a'i bod wedi methu â datgan hyn ac wedi peidio â thynnu'n ôl o nifer o gyfarfodydd lle trafodwyd rhodd ariannol i'r sefydliad. wyllgorau

## Trosolwg a Chraffu

## Gweler paragraff 13

**Sylwer: nid yw'r adran hon yn gymwys i awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parc cenedlaethol.**

Bydd gennych fuddiant rhagfarnus mewn mater sydd gerbron pwyllgor neu is-bwyllgor trosolwg a chraffu os yw'r ddau ofyniad canlynol wedi'u bodloni:

- bod y mater hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed (boed hwnnw wedi cael ei weithredu ai peidio) neu gamau a gymerwyd gan weithrediaeth neu fwrdd eich awdurdod neu unrhyw un o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cydbwyllgorau neu gyd is-bwyllgorau eraill eich awdurdod
- eich bod yn aelod o'r corff a wnaeth y penderfyniad hwnnw bryd hynny a'ch bod yn bresennol ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam gweithredu.

Os yw'r pwyllgor trosolwg a chraffu yn gwirio penderfyniad roedd gennych ran yn ei wneud, gellir gofyn i chi ddod i'r cyfarfod i roi tystiolaeth neu ateb cwestiynau am y mater, a chewch wneud hynny ar yr amod bod y pwyllgor yn gweithredu'n unol â'i bwerau statudol.

## Beth i'w wneud os oes gennych fuddiant rhagfarnus

**Rhaid i chi ddatgan eich buddiant a gadael yr ystafell**

## Gweler paragraff 14

Os ydych yn credu bod gennych fuddiant rhagfarnus ym musnes eich awdurdod, rhaid i chi gymryd camau penodol.

Er hynny, hyd yn oed os oes gennych fuddiant rhagfarnus, mae'r Cod yn cefnogi'ch rôl fel eiriolwr cymunedol ac yn eich galluogi, mewn rhai amgylchiadau, i gynrychioli'ch cymuned ac i siarad am faterion sy'n bwysig iddyn nhw ac i chi.

**Pwynt allweddol:** Os oes gennych fuddiant rhagfarnus mewn mater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod, ar ôl i chi ddatgan eich buddiant personol yn y mater, rhaid i chi adael yr ystafell (neu unrhyw leoliad arall lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal gan gynnwys, er enghraifft, lleoliad cyfarfod safle).

**Mae hyn yn berthnasol oni bai fod aelodau o'r cyhoedd yn cael cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau am y mater,** drwy hawl statudol neu fel arall. Os felly, cewch chi hefyd ddod i'r cyfarfod i wneud hynny neu gyflwyno sylwadau drwy lythyr i'r cyfarfod cyhoeddus. Fodd bynnag, os byddwch yn dod i'r cyfarfod, rhaid i chi adael yr ystafell neu'r siambr ar unwaith wedi i'r cyfnod ar gyfer ystyried sylwadau ddod i ben, a chyn dechrau

unrhyw drafodaeth am yr eitem, hyd yn oed os yw aelodau o'r cyhoedd yn cael aros. Ni chewch aros yn yr oriel gyhoeddus i wylio'r bleidlais ar y mater.

Ar ben hynny, **rhaid i chi beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad y mae gennych fuddiant rhagfarnus ynddo.** Mae'r rheol hon yn debyg i'ch dyletswydd gyffredinol i beidio â defnyddio'ch safle fel aelod yn amhriodol i roi mantais neu anfantais i chi'ch hun neu i rywun arall. Felly, yn ogystal â gadael cyfarfodydd lle mae'r eitem yn cael ei thrafod, ni ddylech ysgrifennu na gwneud sylwadau ar lafar am y mater.

### Oes gennyf hawl statudol i siarad yn y cyfarfod?

Nid yw'r Cod yn rhoi hawl gyffredinol i chi siarad mewn cyfarfod os oes gennych fuddiant rhagfarnus. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau prin, gall deddfwriaeth roi hawl i chi siarad (er enghraifft, gwrandawiadau trwyddedu a gwrandawiadau safonau) sy'n cael yn chydnabod gan y Cod. Os felly, byddwch yn cael arfer yr hawl honno i siarad. Dylai'ch Swyddog Monitro allu cadarnhau a yw hyn yn berthnasol yn eich achos chi ai peidio.

### Os nad oes gennyf hawl statudol, a fyddaf yn cael siarad yn y cyfarfod?

Mae'r Cod yn ceisio rhoi i aelodau'r un hawliau ag aelodau cyffredin o'r cyhoedd i siarad ar faterion penodol mewn cyfarfodydd, er gwaethaf y ffaith bod ganddynt fuddiant rhagfarnus. Fel arfer, mae'r hawliau hyn yn cael eu rheoli gan gyfansoddiad, rheolau gweithdrefn neu reolau sefydlog eich awdurdod, a gallent fod yn rhwym wrth amodau gan gynnwys terfynau amser neu'r ffaith mai dim ond yn ysgrifenedig y ceir cyflwyno sylwadau.

Os byddai aelod cyffredin o'r cyhoedd yn cael siarad mewn cyfarfod am eitem, dylech chi gael yr un cyfle. Mae newidiadau diweddar yn y Cod hefyd yn darparu'r hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r cyfarfod cyhoeddus yn yr amgylchiadau hyn. Byddwch yn gallu gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth, hyd yn oed os oes gennych fuddiant rhagfarnus yn yr eitem. Ni chewch gymryd rhan yn y drafodaeth na gwylio'r bleidlais.

### Pryd y bydd yn rhaid i mi adael man y cyfarfod?

Rhaid i chi adael ar unwaith wedi i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau ddod i ben, a chyn dechrau unrhyw drafodaeth.

### Beth mae dylanwadu ar benderfyniad yn ei olygu?

Rhaid i chi beidio â chyflwyno sylwadau na chymryd rhan mewn penderfyniadau y mae gennych fuddiant rhagfarnus ynddynt, ac eithrio lle mae gennych chi hawl i siarad fel yr eglurwyd uchod. Gallai'ch presenoldeb yn unig gael ei ystyried yn ffactor a all ddylanwadu ar y broses penderfynu.

**Beth os na chaiff y cyhoedd siarad yn y cyfarfod am y mater?**

Os na chaiff aelod cyffredin o'r cyhoedd siarad am y mater, ni chewch chi wneud hynny na chyflwyno sylwadau ysgrifenedig os oes gennych fuddiant rhagfarnus. Rhaid i chi adael y man lle cynhelir y ddadl a rhaid i chi beidio â cheisio dylanwadu ar y drafodaeth mewn unrhyw ffordd.

Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, pan fydd eich awdurdod yn trafod mater cyfrinachol mewn sesiwn gaeedig neu os nad oes ganddo reolau gweithdrefn neu reolau sefydlog ar waith sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd siarad yn un o gyfarfodydd eich awdurdod.  Yn yr un modd â'r cyhoedd, ni chewch chi gymryd rhan os oes gennych fuddiant rhagfarnus.  Fodd bynnag, os yw'r cyhoedd yn cael eistedd yn yr oriel gyhoeddus i wylio'r cyfarfod, bydd yn ofynnol i chi adael yr ystafell yn ystod y ddadl a'r bleidlais.

**Beth os caf fy ngalw i bwyllgor craffu i drafod mater y mae gennyf fuddiant rhagfarnus ynddo?**

Os bydd y pwyllgor yn gofyn i chi ddod i'r cyfarfod gan arfer ei bwerau statudol, yna cewch ddod i'r cyfarfod a chymryd rhan ynddo.

**Enghraifft**

Penderfynwyd bod aelod o Gyngor Cymuned wedi torri'r Cod drwy fethu â datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn cyfarfod a oedd yn ystyried cais cynllunio am fferm wynt ar dir cyfagos i fferm yr oedd yn berchen arni.  Roedd yr aelod wedi gwneud cytundeb Lesio Hawliau ar ei thir i hwyluso mynediad at y datblygiad arfaethedig.  Ar y dechrau, roedd yr aelod yn dibynnu ar y ffaith bod cymal cyfrinachedd yn y cytundeb hwn i egluro ei gweithredoedd.  Er hynny, roedd yr aelod wedi cymryd rhan mewn pleidlais gudd a gynhaliwyd i benderfynu a fyddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cais.

Yn union cyn y gwrandawiad gerbron y Panel Dyfarnu, derbyniodd yr aelod fod ganddi fuddiant personol yn yr eitem ac wedyn ei fod yn fuddiant rhagfarnus. Cafodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 11(1) a 14(1) o'r Cod.  Roedd o'r farn bod yr aelod wedi gadael i'w buddiannau personol gael y llaw uchaf a bod cadw'r buddiannau hynny'n breifat yn groes i'w dyletswyddau a chyfrifoldebau fel aelod etholedig.  Cafodd ei hatal o'i swydd am 3 mis.

## Rolau gweithredol neu rolau cabinet

**Sylwer: ni fydd yr adran hon yn gymwys i awdurdodau tân ac achub nac awdurdodau parc cenedlaethol, oni bai fod trefniadau gweithredol ar waith yn achos yr olaf.**

Os ydych yn arweinydd neu'n aelod cabinet mewn awdurdod sy'n dilyn trefniadau gweithredol, rhaid i chi ddilyn y rheolau arferol ar gyfer aelodau gweithredol sydd â buddiannau personol a rhagfarnus. Os yw'ch buddiant yn bersonol ond nid yn rhagfarnus, cewch roi gwybod i'r weithrediaeth am y mater a chymryd rhan mewn trafodaethau a phenderfyniadau gweithredol ar yr amod eich bod yn datgan eich buddiant. Cewch hefyd arfer pwerau dirprwyedig yn y mater ar yr amod eich bod yn cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant personol.

Os ydych yn aelod gweithredol sy'n gallu gwneud penderfyniadau unigol, a bod gennych fuddiant rhagfarnus mewn penderfyniad, gall eich awdurdod wneud trefniadau eraill fel y nodir yn adrannau 14-16 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Mae hyn yn golygu y gall swyddog, aelod arall o'r cabinet, y weithrediaeth lawn neu un o bwyllgorau'r weithrediaeth wneud y penderfyniad.

Er bod gennych fuddiant rhagfarnus mewn mater, mae'n bosibl y cewch gyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau a rhoi tystiolaeth ar yr amod y byddai gan aelod o'r cyhoedd yr un hawliau, ond ni chewch wneud penderfyniadau ynghylch y mater hwnnw'n unigol nac yn y cabinet. Ni ddylech ychwaith gymryd rhan mewn unrhyw ystyriaeth gynnar ohono, nac arfer unrhyw bwerau dirprwyedig mewn cysylltiad ag ef. Os oes gennych bwerau dirprwyedig yn y maes hwnnw, dylech gyfeirio'r dasg o ystyried a gwneud unrhyw benderfyniadau ar y mater i'r cabinet er mwyn osgoi'r canfyddiad eich bod yn cael dylanwad amhriodol.

## Goddefebau

**Os oes gennyf fuddiant rhagfarnus, a allaf gael goddefeb i ganiatáu i mi gymryd rhan yn y cyfarfod?**

Gallwch wneud cais ysgrifenedig i Bwyllgor Safonau eich awdurdod am oddefeb i siarad a/neu bleidleisio ar fater am un neu ragor o'r rhesymau canlynol:

- y byddai o leiaf 50 y cant o aelodau'r awdurdod neu'r pwyllgor yn cael eu hatal rhag cymryd rhan lawn mewn cyfarfod oherwydd buddiannau rhagfarnus
- y byddai o leiaf hanner y cabinet yn cael ei atal rhag gwneud hynny (dylid cynnwys yr arweinydd yn y cabinet wrth gyfrifo'r gyfran)
- yn achos cyngor sir/cyngor bwrdeistref sirol, y byddai'n amharu cymaint ar y cydbwysedd gwleidyddol yn y cyfarfod fel y byddai'n debygol o effeithio ar y canlyniad
- oherwydd natur eich buddiant, na fyddai'r ffaith eich bod yn cymryd rhan yn niweidio hyder y cyhoedd
- bod eich buddiant yn gyffredin ymysg cyfran sylweddol o'r cyhoedd
- bod gennych rôl neu arbenigedd penodol a fyddai'n cyfiawnhau eich cyfranogiad
- bod y mater yn cael ei ystyried gan bwyllgor trosolwg neu graffu ac nad oes gennych fuddiant ariannol; mae'r mater yn ymwneud â chyllid neu eiddo sefydliad gwirfoddol ac rydych chi'n aelod o'i fwrdd neu ei bwyllgor drwy'ch hawl eich hun ac nid oes gennych fuddiant arall, er na fydd goddefeb a roddir i chi yn yr enghraifft hon yn caniatáu i chi bleidleisio ar y mater, neu

- bod y pwyllgor yn credu y byddai er budd y bobl yn ardal yr awdurdod i chi gymryd rhan a bod y pwyllgor yn hysbysu Gweinidogion Cymru cyn pen saith niwrnod.
- bod y pwyllgor yn credu ei bod yn briodol yn yr holl amgylchiadau, lle nad oedd yn bosibl fel arall, er mwyn gwneud addasiadau rhesymol i ddarparu ar gyfer anabledd rhywun.

Gallwch wneud cais am oddefeb yn unigol ac, mewn rhai amgylchiadau, gallwch wneud ceisiadau ar y cyd os yw nifer o aelodau am gael goddefeb i siarad neu bleidleisio ar yr un mater. Os bydd y Pwyllgor Safonau'n cymeradwyo eich cais, rhaid iddo roi'r oddefeb yn ysgrifenedig a chyn cynnal y cyfarfod. Os oes angen goddefeb arnoch, dylech wneud cais am un cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl.

Dim ond y Pwyllgor Safonau a all roi'r oddefeb a bydd yn gwneud hynny yn ôl ei ddisgresiwn. Bydd angen i'r Pwyllgor Safonau gydbwyso budd y cyhoedd mewn atal aelodau sydd â buddiannau rhagfarnus rhag cymryd rhan mewn penderfyniadau, yn erbyn budd y cyhoedd mewn gwneud penderfyniadau gan grŵp o aelodau'r awdurdod sy'n weddol gynrychiadol. Pe byddai awdurdod neu bwyllgor yn methu â chael cworwm pe na byddai goddefeb yn cael ei rhoi, gall hyn fod yn rheswm dros roi goddefeb.

Os ydych wedi cael goddefeb, gallwch hefyd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig ond rhaid i chi roi manylion yr oddefeb ym mhob gohebiaeth. Os byddwch yn gwneud sylwadau llafar, yn bersonol neu dros y ffôn, rhaid i chi gyfeirio at yr oddefeb a chadarnhau hyn drwy lythyr cyn pen 14 diwrnod.

# 4. Cofrestru Buddiannau

## Gweler paragraff 15
## Pwyntiau allweddol

Rhaid i bob aelod o awdurdod ddarparu cofnod o'i fuddiannau mewn cofrestr buddiannau cyhoeddus. Os ydych yn aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, awdurdod tân neu awdurdod parc cenedlaethol, rhaid i chi hysbysu'ch Swyddog Monitro drwy lythyr cyn pen 28 diwrnod ar ôl cymryd eich swydd, neu cyn pen 28 diwrnod ar ôl unrhyw newid neu ychwanegiad newydd yn eich cofrestriad o fuddiannau, am unrhyw fuddiannau sy'n perthyn i'r categorïau a bennwyd yn y Cod, sydd wedi'u hamlinellu isod.

Mae'r gofrestr yn ddogfen y gellir ei chwilio pan fydd mater yn codi, neu cyn hynny, ac felly mae'n caniatáu i bobl eraill wybod pa fuddiannau sydd gennych, ac a allent arwain at wrthdaro posibl rhwng buddiannau.

Mae'r gofrestr hefyd yn eich amddiffyn chi. Chi sy'n gyfrifol am benderfynu a ddylech ddatgan buddiant mewn cyfarfod, ond gall fod o gymorth i chi wybod yn gynnar os yw eraill yn meddwl y gallai gwrthdaro posibl godi. Mae'n bwysig hefyd fod y cyhoedd yn gwybod am unrhyw fuddiant y gallai fod yn rhaid i chi neu aelodau eraill ei ddatgan, er mwyn i'r cyhoedd weld bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn agored ac yn onest. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod hyder y cyhoedd yng nghywirdeb llywodraethu lleol yn cael ei gynnal.

Fel y nodwyd o'r blaen, rhaid i chi hysbysu'ch Swyddog Monitro drwy lythyr cyn pen 28 diwrnod ar ôl cymryd eich swydd, neu cyn pen 28 diwrnod ar ôl unrhyw newid neu ychwanegiad newydd yn eich cofrestriad o fuddiannau, am unrhyw fuddiannau sy'n perthyn i'r categorïau sydd wedi'u pennu yn y Cod. Mae'r rhain yn cynnwys:

- eich swydd(i) neu'ch busnes(au)

- enw'ch cyflogwr neu bobl sydd wedi'ch penodi i weithio iddynt

- enw unrhyw un sydd wedi rhoi taliad i chi mewn perthynas â'ch ethol neu dreuliau rydych chi wedi'u cael wrth gyflawni eich dyletswyddau

- enw unrhyw berson, cwmni neu gorff arall sydd â lle busnes neu dir yn ardal yr awdurdod, yr ydych yn dal cyfran o fwy na £25,000 (gwerth nominal) ynddo neu'n dal cyfran o fwy na 1/100 o'i gyfalaf

- unrhyw gontractau rhwng yr awdurdod a chi, eich ffyrm (os ydych yn bartner) neu gwmni (os ydych yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu os ydych yn dal cyfrannau fel y disgrifiwyd uchod) gan gynnwys unrhyw les, trwydded gan yr awdurdod ac unrhyw gontractau am nwyddau, gwasanaethau neu waith. Os yw'r contract yn ymwneud â defnyddio tir neu eiddo, rhaid nodi'r tir ar y gofrestr

- unrhyw dir ac eiddo yn ardal yr awdurdod y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo (neu drwydded i'w feddiannu am fwy na 28 diwrnod) gan gynnwys, ond nid yn unig, y tir a'r tŷ lle rydych yn byw ac unrhyw randiroedd rydych yn berchen arnynt neu'n eu defnyddio

- eich aelodaeth neu safle rheoli mewn:
  - unrhyw gyrff eraill y cawsoch eich ethol, eich penodi neu'ch enwebu iddynt gan yr

awdurdod
- unrhyw gyrff sy'n arfer **swyddogaethau o natur gyhoeddus** (a ddisgrifiwyd uchod), neu a gyfarwyddir at ddibenion elusennol, neu y mae eu prif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar bolisi neu farn gyhoeddus, gan gynnwys unrhyw blaid wleidyddol neu undeb llafur
- unrhyw glwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod.

O ganlyniad i newidiadau diweddar yn y Cod, mae hefyd yn ofynnol i aelodau, wrth ddatgelu buddiant personol am y tro cyntaf, ei gofrestru yn y gofrestr buddiannau drwy hysbysu'r Swyddog Monitro drwy lythyr.

## Gwybodaeth sensitif
## Gweler paragraff 16
### Pwyntiau allweddol
Gallech gael eich esemptio rhag gorfod cynnwys gwybodaeth sensitif ar eich cofrestr buddiannau. Os yw'ch buddiant personol mewn mater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod yn wybodaeth sensitif, bydd angen i chi ddatgan bod gennych fuddiant personol ond ni fydd yn rhaid i chi roi manylion am natur y buddiant hwnnw.

Mathau posibl o wybodaeth sensitif yw eich cyflogaeth sensitif (er enghraifft, ymchwil wyddonol benodol neu'r Lluoedd Arfog Arbennig) neu fuddiannau eraill sy'n debygol o beri risg ddifrifol o drais neu fygwth i chi neu rywun sy'n byw gyda chi pe byddai'r cyhoedd yn gwybod amdanynt.

Dylech roi'r wybodaeth hon i'ch Swyddog Monitro ac egluro'ch pryderon ynghylch datgelu'r wybodaeth sensitif; gan gynnwys pam ei bod yn debygol o beri risg ddifrifol o drais neu fygwth i chi neu rywun sy'n byw gyda chi. Nid oes angen i chi gynnwys y wybodaeth hon yn eich cofrestr o fuddiannau os bydd eich Swyddog Monitro'n cytuno â hynny. Yn y pen draw, rhaid i chi benderfynu pa wybodaeth i'w chynnwys yn eich cofrestr o fuddiannau a fydd ar gael i'r cyhoedd. Os bydd gwybodaeth ar eich cofrestr yn peidio â bod yn sensitif, rhaid i chi roi gwybod i'ch Swyddog Monitro cyn pen 28 diwrnod a gofyn iddo ddiwygio'r wybodaeth yn unol â hynny.

## Rhoddion a lletygarwch
## Gweler paragraff 17
### Pwyntiau allweddol
Rhaid i chi gofrestru unrhyw roddion neu letygarwch sy'n werth mwy na'r swm a bennwyd gan eich awdurdod a gewch yng nghyswllt eich dyletswyddau swyddogol fel aelod, ynghyd â ffynhonnell y rhodd neu'r lletygarwch.

Rhaid i chi gofrestru'r rhodd neu'r lletygarwch a'i ffynhonnell cyn pen 28 diwrnod ar ôl ei dderbyn. Yn yr un modd â buddiannau eraill yn eich cofrestr buddiannau, gall fod gennych **fuddiant personol** mewn mater sy'n cael ei ystyried os yw'n debygol o effeithio ar berson a roddodd rodd neu letygarwch i chi sydd wedi'i gofrestru. Os felly, rhaid i chi ddatgan bodolaeth a natur y rhodd neu'r lletygarwch, y person a'i rhoddodd i chi, sut y mae'r mater dan sylw yn berthnasol i'r person hwnnw ac wedyn penderfynu a yw'r buddiant hwnnw hefyd yn **fuddiant rhagfarnus**. Mae hefyd yn arfer da darparu nodyn am unrhyw gynigion o roddion rydych wedi'u gwrthod.

### A yw'r rhodd neu'r lletygarwch yn gysylltiedig â'm dyletswyddau swyddogol fel aelod?
Dylech ofyn i chi'ch hun, a fyddwn i wedi cael y rhodd hon pe na bawn i ar y Cyngor?
Os nad ydych yn siŵr o'r cymhelliant y tu ôl i rodd neu letygarwch, rwyf yn argymell eich bod yn ei gofrestru neu'n siarad â'ch Swyddog Monitro.

Nid oes angen i chi gofrestru rhoddion a lletygarwch nad ydynt yn berthnasol i'ch rôl fel aelod, fel anrhegion Nadolig gan eich ffrindiau a'ch teulu, na rhoddion nad ydych yn eu derbyn.  Fodd bynnag, dylech bob amser gofrestru rhodd neu letygarwch os byddai modd i bobl ei weld yn rhywbeth a roddwyd i chi oherwydd eich safle neu os yw'ch awdurdod yn mynnu eich bod yn gwneud hynny.

**Beth os nad wyf yn gwybod beth yw gwerth rhodd neu letygarwch?**
Yn gyffredinol, os nad ydych yn siŵr o werth rhodd neu letygarwch, dylech ei gofrestru, fel mater o arfer da ac yn unol â'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol mewn bywyd cyhoeddus.  Efallai y bydd yn rhaid i chi amcangyfrif gwerth y rhodd neu'r lletygarwch.  Hefyd, os ydych wedi cael nifer o roddion bach o'r un ffynhonnell dros gyfnod byr sydd, gyda'i gilydd, yn cyrraedd y gwerth a bennwyd gan eich awdurdod, dylech gofrestru hynny.

Mae'r Cod hefyd yn cyfeirio at fuddiant neu fantais faterol.  Y ffordd o fesur hyn yw meddwl a fyddai sylwedydd annibynnol gwybodus yn gallu dod i'r casgliad y gellid gweld eich bod ar eich ennill o ganlyniad.

# Buddiannau Personol

**Cwestiynau i ofyn i chi'ch hun. Os nad ydych yn siŵr, holwch eich Swyddog Monitro.**

**CAM 1**
A yw'r Cod yn berthnasol?

**A ydych yn:**
- cynnal busnes eich awdurdod?
- gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu, neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu, yn rhinwedd eich swyddogaeth fel aelod neu fel cynrychiolydd o'ch awdurdod?
- gweithredu fel penodai neu enwebai eich awdurdod ar unrhyw gorff arall a hwnnw heb god ymddygiad ei hun?

**YDW** → **Mae'r** Cod yn berthnasol. Ewch i Gam 2.

**NAC YDW** → **Nid yw'r** Cod yn berthnasol. Nid oes angen cymryd camau pellach

**CAM 2**
Oes gennych fuddiant personol?

**Buddiant sydd yn Rhagfarnu**

**A yw'r busnes yn ymwneud â'r canlynol neu'n debygol o effeithio ar y canlynol:**
1. eich swydd neu eich busnes?
2. eich cyflogwr neu eich cwmni?
3. unrhyw un sydd wedi talu tuag at gostau eich etholiad neu'ch treuliau fel aelod?
4. unrhyw gwmni y mae gennych gyfranddaliadau ynddo gyda gwerth nominal dros £25000 neu pan mae eich daliad dros 1% o gyfanswm y cyfalaf cyfrannau, sydd ag eiddo neu dir yn ardal eich awdurdod?
5. unrhyw gontract mae'ch awdurdod yn ei lunio â'ch cwmni neu â chwmni mae gennych gyfranddaliadau ynddo? (fel y disgrifiwyd yn 4)
6. unrhyw dir y mae gennych fuddiant ynddo?
7. unrhyw dir a osodir gan eich awdurdod i'ch cwmni? (fel y disgrifiwyd yn 4)
8. unrhyw gorff rydych chi wedi cael eich ethol neu eich penodi iddo gan eich awdurdod?
9. unrhyw
   - awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n ymarfer swyddogaethau cyhoeddus eu natur?
   - cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen neu gorff a gyfarwyddir at ddibenion elusennol?
   - corff â'i brif rôl yw dylanwadu ar bolisïau neu farn gyhoeddus?
   - undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol?
   - clwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod, yr ydych yn aelod ohono neu lle mae gennych swyddogaeth reoli gyffredinol?

   neu
10. unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded i'w feddiannu am o leiaf 28 diwrnod?

**NEU**

**A fyddai'n rhesymol bod aelod o'r cyhoedd yn casglu, pan fyddwch yn gwneud penderfyniad, fod materion yn eich ward yn dylanwadu mwy arnoch chi nag y byddai buddiannau'r awdurdod yn ei gyfanrwydd?**

**NEU**

**A ellid ystyried yn rhesymol y byddai penderfyniad yn effeithio (mwy nag y byddai ar bobl eraill yn eich ward/ardal awdurdod) ar::**
- eich lles neu eich sefyllfa ariannol?
- lles neu sefyllfa ariannol unrhyw un sy'n byw gyda chi neu rywun y mae gennych gysylltiad agos â nhw?
- cyflogaeth/busnes, cyflogwr, neu gwmni unrhyw un sy'n byw gyda chi neu rywun y mae gennych gysylltiad agos â nhw?
- unrhyw gwmni y mae unrhyw un sy'n byw gyda chi neu rywun y mae gennych gysylltiad agos â nhw yn berchen ar gyfranddaliadau ynddo?

**Os YW,** mae gennych **FUDDIANT PERSONOL**

**Rhaid i chi:**
- ddatgan eich buddiant a natur y buddiant hwnnw:
- mewn cyfarfodydd
- wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig
- wrth wneud sylwadau ar lafar (a'i gadarnhau yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod)
- ystyried a oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu (gweler Atodiad 2)

**Os NAD** YW, nid oes gennych fuddiant personol

- Os yw'r busnes yn mynd gerbron Pwyllgor Trosolwg neu Graffu, rhaid i chi ystyried a oes gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu
- Fel arall, **nid oes angen cymryd camau pellach**

## Buddiannau sy’n rhagfarnu

**Cwestiynau i ofyn i chi’ch hun. Os nad ydych yn siŵr, holwch eich Swyddog Monitro.**

**CAM 3:** Oes gennyf fi fuddiant **sy’n rhagfarnu**

**A fyddai’n rhesymol i aelod o’r cyhoedd, sy’n gwybod am y ffeithiau perthnasol, feddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol ei fod yn debygol o liwio eich barn ynghylch budd y cyhoedd?**

**NEU**

A yw Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ystyried penderfyniad a wnaed neu gam a gymerwyd gan bwyllgor gwaith, bwrdd eich awdurdod neu unrhyw bwyllgor arall a chithau’n aelod o’r corff penderfynu hwnnw a’r corff presennol?

**BYDDAI** **NA FYDDAI** **NAC YDY** **YDY**

**Buddiant sydd yn Rhagfarnu**

A yw’r busnes yn ymwneud â’r canlynol:
- awdurdod perthnasol arall rydych hefyd yn aelod ohono?
- awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy’n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle mae gennych chi swyddogaeth rheoli?
- corff rydych chi wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod?
- eich swyddogaeth fel llywodraethwr ysgol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod (e.e., rhiant-lywodraethwr) oni bai fod y busnes yn ymwneud yn benodol â’ch ysgol?
- eich swyddogaeth fel aelod o fwrdd iechyd pan nad ydych chi wedi cael eich penodi gan eich awdurdod?
- tai, os oes gennych les neu denantiaeth gyda’r awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch chi ôl-ddyledion rhent o fwy na 2 fis i’ch awdurdod, ac ar yr amod nad yw’r swyddogaethau hynny’n ymwneud yn arbennig â’ch tenantiaeth neu â’ch les chi?
- prydau ysgol neu gludiant ysgol a threuliau teithio: os ydych chi’n rhiant, yn warcheidwad, yn nain/mam-gu neu’n daid/tad-cu, neu â chyfrifoldeb rhiant am blentyn mewn addysg amser llawn oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â’r ysgol mae’ch plentyn yn ei mynychu?
- penderfyniadau ynghylch tâl salwch statudol os ydych chi’n ei gael neu mae gennych hawl i’w gael gan eich awdurdod?
- lwfans neu daliad i aelodau (yn dibynnu ar amodau penodol)?

**Ydy, mae un o’r eithriadau yn berthnasol**

**Ni** ystyrir bod gennych fuddiant sy’n rhagfarnu. Rhaid i chi ddatgelu eich buddiant personol **ond mae gennych hawl i gymryd rhan yn yr eitem o dan sylw.**

(NA FYDDAI / NAC YDY:)

**Ni** ystyrir bod gennych fuddiant sy’n rhagfarnu. Rhaid i chi ddatgelu eich buddiant personol **ond mae gennych hawl i gymryd rhan yn yr eitem o dan sylw.**

**NAC YDY, nid oes dim o’r eithriadau yn berthnasol**

**Mae gennych chi FUDDIANT SY’N RHAGFARNU**

**Rhaid i chi:**
- ddatgan eich buddiant personol
- gadael yr ystafell neu unrhyw leoliad arall lle mae’r cyfarfod yn cael ei gynnal
- peidio â chymryd rhan yn y broses penderfynu na dylanwadu ar hynny

**ONI BAI**
- eich bod wedi cael goddefeb gan eich pwyllgor safonau i gymryd rhan a/neu bleidleisio
- Gall aelodau’r cyhoedd wneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth
- Rydych chi wedi cael eich galw i fynd i gyfarfod Pwyllgor Trosolwg neu Graffu

# Mwy o wybodaeth

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau
Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

**ATODIAD / ENCLOSURE**

**2**

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Y Cod Ymddygiad

ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru

## Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

ar gyfer aelodau cynghorau cymuned

# Rhagair

Mae'r canllawiau diwygiedig hyn a ddarparwyd gennyf fi, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn rhoi trosolwg ar y Cod Ymddygiad Enghreifftiol ("y Cod") a gyflwynwyd yn 2008 (fel y'i diwygiwyd 1 Ebrill 2016). Eu bwriad yw'ch helpu chi fel aelod i ddeall eich rhwymedigaethau o dan y Cod. Mae'r Cod yn gymwys i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol, cynghorau cymuned, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru. Fel aelod, mae'n ofynnol i chi ymrwymo iddo wrth ddatgan eich bod yn derbyn eich swydd. Nid yw'r Cod yn gymwys i weithredoedd awdurdodau yn eu cyfanrwydd, nac i ymddygiad eu swyddogion na'u cyflogeion. Mae cod ymddygiad ar wahân ar gyfer swyddogion awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae hon yn fersiwn ar wahân o'm hail ganllawiau fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned (a elwir drwy gydol y canllawiau hyn yn gynghorwyr cymuned). Mae sawl rhan o'r canllawiau hyn yn wahanol i'm canllawiau i gynghorwyr sir gan eu bod yn cydnabod y rôl wahanol y mae cynghorwyr cymuned yn ei chyflawni.

Fy amcan yn y tudalennau sy'n dilyn yw eich helpu i ddeall y Cod a'i ofynion yn gyffredinol. Mae Rhan 1 yn cynnwys cyflwyniad ac mae Rhan 2 yn amlinellu'ch dyletswyddau o dan y Cod, gan gyfeirio at baragraffau penodol lle ceir rhagor o wybodaeth. Mae Rhannau 3 a 4 yn delio â materion cyffredinol sy'n ymwneud â buddiannau, a'u nod yw egluro nifer o ddarpariaethau sydd yn Rhannau 3 a 4 o'r Cod. Gallwch gael copi o'r Cod drwy ofyn i'ch Clerc.

Bwriad y canllawiau hyn yw eich helpu i ddeall y Cod a sut i'w gymhwyso, ond ni ellir rhoi sylw i bob sefyllfa bosibl. Yn y pen draw, chi sy'n gyfrifol am gymryd cyngor penodol gan eich Clerc neu Swyddog Monitro a phenderfynu ar y cwrs gweithredu mwyaf priodol.

Rwyf wedi defnyddio enghreifftiau drwy gydol yr adroddiad i ddangos sut y mae'r canllawiau'n gweithio. Mae'r enghreifftiau hyn yn achosion gwirioneddol sydd wedi'u hystyried gan fy swyddfa, ac maent hefyd yn cynnwys penderfyniadau a wnaed gan bwyllgorau safonau lleol a Phanel Dyfarnu Cymru. Mae'n bosibl mai fy rhagflaenydd sydd wedi gwneud rhai o'r penderfyniadau hyn, ond er hwylustod, byddaf yn cyfeirio atynt drwy gydol y ddogfen fel fy mhenderfyniadau fy hun. Cyhoeddir rhagor o enghreifftiau o achosion diweddar bob chwarter yn "Coflyfr y Cod Ymddygiad" sydd ar fy ngwefan yn www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Fel aelod, cynigir hyfforddiant i chi ar y Cod, gan eich Clerc, gan Swyddog Monitro neu gan gorff cynrychiadol. Rwy'n disgwyl i bob aelod fanteisio ar hyfforddiant o'r fath, gan gynnwys cyrsiau diweddaru, i sicrhau ei fod yn gwbl ymwybodol o'r darpariaethau yn y Cod a'r safonau y disgwylir iddynt eu harddel mewn bywyd cyhoeddus. Rwyf yn annog aelodau i ddefnyddio unrhyw drefniadau lleol sydd ar waith i ddelio â chwynion am eu cyd-aelodau.

Rwyf yn bryderus o hyd ynghylch nifer y cwynion lefel isel sy'n dod i law. Er ei bod yn ymddangos bod y cwynion hyn yn deillio o nifer bach o aelodau, yn y cyfnod anodd hwn o gyni cyhoeddus, mae'n bwysicach fyth ein bod yn defnyddio adnoddau fy swyddfa yn

effeithiol a bod unrhyw ymchwiliad a wneir yn gymesur ac yn angenrheidiol er budd y cyhoedd yn gyffredinol.

Dylem barhau i gydweithio i godi safonau a chreu diwylliant lle caiff aelodau eu parchu am fod yn anhunanol, yn wrthrychol ac yn barchus eu hymddygiad.  Os gwnawn ni hynny, gallwn feithrin ymddiriedaeth y cyhoedd yn ein sefydliadau democrataidd a hyrwyddo llywodraethu da er budd pobl ein holl gymunedau.



Nick Bennett

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Gorffenaf 2016

Dyroddwyd y canllawiau statudol hyn gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o dan Adran 68 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ar gyfer aelodau etholedig, aelodau cyfetholedig ac aelodau a benodir ar gynghorau tref a chymuned yng Nghymru.

Mae canllawiau ar wahân ar gael i aelodau sydd wedi'u ethol, eu cyfethol a'u penodi i gynghorau sir, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol yng Nghymru.

**Cydnabyddiaeth**

Mae'r canllawiau hyn yn gwneud defnydd o'r canllawiau a gafodd eu paratoi a'u dyroddi gan Standards for England ar y Cod Ymddygiad blaenorol ar gyfer Lloegr. Maent wedi cael eu helaethu a'u diwygio i gyfeirio at God Cymru a'r cyd-destun Cymreig.

Hoffwn ddiolch i adran gwasanaethau cyfreithiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am gael defnyddio ei siartiau llif ar fuddiannau.  Cyhoeddwyd yr argraffiad cyntaf ym mis Ebrill 2010.  Cyhoeddwyd yr argraffiad hwn Gorffenaf 2016.

# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Rhan 1 – Cyflwyniad** | 6 |
| Yr Egwyddorion | 11 |
| Penderfynu pryd mae'r | 12 |
| Cod yn gymwys i chi | 12 |
| **Rhan 2 – Rhwymedigaethau cyffredinol o dan y Cod** | 14 |
| • Cydraddoldeb | 14 |
| • Trin pobl eraill gyda pharch ac ystyriaeth | 15 |
| • Bwlio ac aflonyddu | 17 |
| • Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod | 18 |
| • Datgelu gwybodaeth gyfrinachol | 19 |
| • Atal mynediad at wybodaeth | 20 |
| • Anfri | 21 |
| • Rhoi gwybod am dorri gofynion y Cod | 22 |
| • Cwynion blinderus | 22 |
| • Cydweithredu ag ymchwiliadau | 23 |
| • Camfanteisio ar eich swydd | 24 |
| • Adnoddau'r awdurdod | 25 |
| • Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig | 25 |
| • Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol | 26 |
| • Ystyried cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau | 27 |
| • Treuliau | 27 |
| • Rhoddion a lletygarwch | 27 |
| **Rhan 3 – Buddiannau personol a rhagfarnus** | 28 |
| • Buddiannau Personol | 28 |
| • Beth i'w wneud os oes gennych fuddiant personol | 32 |
| • Buddiannau Rhagfarnus | 32 |
| • Beth i'w wneud os oes gennych fuddiant rhagfarnus | 33 |
| • Goddefebau | 35 |
| **Rhan 4 – Cofrestru Buddiannau** | 36 |
| • Rhoddion a lletygarwch | 36 |
| **Atodiad – Siart Llif Buddiannau** | 38 |

## 1. Cyflwyniad

Crëwyd fframwaith moesegol newydd i lywodraeth leol yng Nghymru drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Creodd bŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddyroddi cod ymddygiad enghreifftiol a fyddai'n gymwys i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr holl awdurdodau perthnasol yng Nghymru. Trosglwyddwyd y pŵer hwn i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn 2008, dyroddwyd y Cod Ymddygiad Enghreifftiol presennol (fel y'i diwygiwyd 1 Ebrill 2016) gan Weinidogion Cymru ac mae'n ofynnol i bob awdurdod perthnasol ei fabwysiadu.

Fe'i gwnaed yn ofynnol i awdurdodau fabwysiadu'r Cod enghreifftiol yn gyfan, ond gallent wneud ychwanegiadau i'r Cod, ar yr amod bod y rhain yn gyson â'r Cod enghreifftiol. Y bwriad wrth wneud hyn oedd rhoi sicrwydd i aelodau a'r cyhoedd o ran pa safonau a ddisgwylir. Mae'n helpu i sicrhau cysondeb rhwng awdurdodau perthnasol, gan osgoi dryswch i aelodau sydd ar fwy nag un awdurdod ac i'r cyhoedd.

Mae'n ofynnol bod pwyllgorau safonau'r prif gynghorau'n helpu aelodau ac aelodau cyfetholedig o gynghorau tref a chymuned yn eu hardal i gydymffurfio â'r Cod, ac yn trefnu i ddarparu cyngor a hyfforddiant. Rwyf yn argymell yn gryf fod pob aelod yn dilyn hyfforddiant ac yn cymryd cyngor pan gaiff ei gynnig.

Er nad yw cynghorwyr cymuned yn gweithredu ar gyrff sy'n gwneud penderfyniadau fel pwyllgorau cynllunio, bydd gofyn i chi wneud penderfyniadau ar ddyrannu arian o'ch praesept a chynnig arweiniad, drwy ddefnyddio'ch gwybodaeth leol werthfawr, i'r Cyngor Sir am effaith ceisiadau cynllunio. Felly mae'n hanfodol eich bod yn gwbl ymwybodol o'r Cod a'i oblygiadau i'ch penderfyniadau ac a ddylech chi fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniad ai peidio. Gan ystyried hyn, rwyf yn argymell bod pob cynghorydd yn cael hyfforddiant ar y Cod cyn gynted â phosibl ar ôl dechrau yn ei swydd.

Fel aelod, wrth lofnodi'r datganiad i dderbyn eich swydd, byddwch yn cadarnhau'ch ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod. Eich cyfrifoldeb personol chi yw sicrhau'ch bod yn deall eich rhwymedigaethau o dan y Cod ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n dangos eich bod wedi ymrwymo i gyrraedd y safonau ymddygiad uchel a ddisgwylir gennych fel aelod. Chi sy'n gyfrifol yn y pen draw, fel aelod, am y penderfyniadau a wnewch a gellir eich dal yn atebol amdanynt. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu y gallwch wneud penderfyniadau sy'n torri'r Cod neu'n mynd yn groes i gyngor dim ond am mai chi sy'n gyfrifol am y penderfyniad. Mae'r canllawiau hyn yn egluro'r cyfyngiadau y disgwylir i chi weithredu o danynt er mwyn sicrhau bod aelodau o'r cyhoedd yn gallu ymddiried yn y ffordd y mae awdurdodau yng Nghymru'n gwneud eu penderfyniadau.

Fy rôl i fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw ymchwilio i gwynion bod aelodau o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi torri'r Cod. Wrth benderfynu a fyddaf yn ymchwilio i gŵyn neu a fyddaf yn parhau i ymchwilio i doriad ar ofynion y Cod, byddaf yn defnyddio prawf dau gam. Yn y cam cyntaf, byddaf yn ceisio darganfod a oes tystiolaeth uniongyrchol bod y Cod wedi'i dorri. Lefel y prawf sydd ei angen yw 'yn ôl pwysau tebygolrwydd'.

Os bodlonir y prawf am dystiolaeth, yn yr ail gam byddaf yn ystyried a oes angen ymchwilio neu gyfeirio'r gŵyn at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er budd y cyhoedd. Mae rhai o'r ffactorau budd cyhoeddus y byddaf yn eu hystyried wedi'u dangos isod. Nid yw'r rhestr o'r ffactorau hyn yn gyflawn a bydd y pwys a roddir ar bob un ohonynt yn amrywio yn ôl y ffeithiau a'r rhinweddau ym mhob achos.

Mae'r ffactorau budd cyhoeddus yn cynnwys:

- difrifoldeb y toriad
- a oedd yr aelod wedi ceisio cael elw personol yn fwriadol iddo'i hun neu i berson arall ar draul y cyhoedd
- a yw amgylchiadau'r toriad yn golygu bod yr aelod wedi camfanteisio ar safle o ymddiriedaeth neu awdurdod ac wedi achosi niwed i berson
- a oedd y toriad wedi'i ysgogi gan unrhyw fath o wahaniaethu yn erbyn cefndir ethnig neu genedlaethol y dioddefwr, neu ei rywedd, anabledd, oed, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth ryweddol
- a oes tystiolaeth o ymddygiad tebyg blaenorol ar ran yr aelod
- a oes angen ymchwilio neu gyfeirio'r gŵyn at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru er mwyn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd mewn aelodau etholedig yng Nghymru
- a yw ymchwilio neu gyfeirio at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn ymateb cymesur, hynny yw, a yw'n debygol y byddai'r toriad yn arwain at osod sancsiwn ar yr aelod (byddaf yn ystyried y canlyniadau i achosion blaenorol a ystyriwyd gan bwyllgorau safonau ledled Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru), ac a fyddai'r defnydd o adnoddau wrth gynnal ymchwiliad neu wrandawiad gan bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn cael ei ystyried yn ormodol o'i gymharu ag unrhyw sancsiwn tebygol.

Mae gennyf ddisgresiwn sylweddol o ran a fyddaf yn cychwyn neu'n parhau ag ymchwiliad. Rwyf wedi diwygio'r prawf dau gam a fabwysiadwyd gan fy rhagflaenydd er mwyn dangos yn gliriach sut y byddaf yn arfer fy nisgresiwn fel arfer ac er mwyn sicrhau elfen o gysondeb a sicrwydd yn y penderfyniadau rwyf yn eu gwneud.

Mae crynodeb o'r broses y byddaf yn ei dilyn i ymchwilio i gwynion ar fy ngwefan yn

www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Lle'r oedd hynny'n bosibl, rwyf wedi defnyddio enghreifftiau yn y canllawiau hyn o achosion a gyfeiriwyd ataf ac sy'n berthnasol i gynghorau cymuned. Os nad oedd hyn yn bosibl rwyf wedi rhoi enghreifftiau o sefyllfaoedd posibl sy'n dangos sut y gellid torri gofynion y Cod wrth gyflawni'ch rôl.

## Proses Ddatrys Leol

Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru wedi rhoi gweithdrefnau datrys lleol ar waith i ddelio â chwynion lefel isel sydd wedi'u gwneud gan aelod yn erbyn cyd-aelod. Mae'r trefniadau hyn yn profi'n effeithiol wrth ddatrys nifer o gwynion o'r math hwn. Rwyf o blaid ymestyn y trefniadau hyn i gynnwys cynghorau cymuned. Fel arfer, mae'r cwynion hyn yn ymwneud â honiadau o fethu â dangos parch ac ystyriaeth at eraill yn unol â pharagraff 4(b) o'r Cod neu'r ddyletswydd i beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu ddibwys yn erbyn aelodau eraill o dan baragraff 6(1)(ch) o'r Cod. Er bod modd o hyd i aelod ddod â chŵyn ataf yn uniongyrchol am gyd-aelod, os yw'r gŵyn yn ymwneud â mater sy'n dod o dan baragraffau 4(b) a 6(1)(ch), mae'n debygol iawn y byddaf yn cyfeirio'r mater hwn yn ôl at Swyddog Monitro'r Cyngor i'w ystyried o dan y broses hon. Yn fy marn i, mae'n fwy priodol bod cwynion o'r fath yn cael eu datrys yn anffurfiol yn lleol er mwyn cyflymu'r broses gwyno a sicrhau bod fy adnoddau'n cael eu rhoi at ymchwil i gwynion difrifol.

Nod y broses ddatrys leol yw datrys materion yn gynnar fel na fydd y sefyllfa'n gwaethygu'n ddiangen gan wneud drwg, o bosibl, i gysylltiadau personol o fewn yr awdurdod ac i enw da'r awdurdod. Gall y broses arwain at ymddiheuriad gan yr aelod y gwnaed y gŵyn amdano. Fodd bynnag, os bydd aelod wedi torri protocol lleol ei awdurdod dro ar ôl tro, yna byddwn yn disgwyl i'r Swyddog Monitro gyfeirio'r mater yn ôl ataf i. Os gwelaf fod patrwm yn codi o gyflwyno cwynion tebyg i mi gan yr un aelodau, byddaf yn ei ystyried yn fater difrifol ac yn penderfynu a yw cyflwyno cwynion o'r fath yn ddi-baid yn ymddygiad y dylid ymchwilio iddo ar ei ben ei hun am ei fod o bosibl yn torri'r Cod.

Pan fyddaf wedi ymchwilio i gŵyn, efallai y byddaf yn cyfeirio'r achos at bwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru i wneud penderfyniad. Bydd hyn yn dibynnu ar natur ac amgylchiadau unigol yr achos honedig o dorri'r Cod. Wrth gyhoeddi fy adroddiad byddaf yn pwyso a mesur ac yn dadansoddi'r dystiolaeth sydd wedi'i chasglu, ac yn llunio fy nghasgliadau ynghylch a oes awgrym bod y Cod wedi cael ei dorri. Serch hynny, y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru yn unig sydd â'r awdurdod i wneud penderfyniad.

## Pwyllgorau Safonau

Mae pwyllgorau safonau'n cynnwys aelodau lleyg annibynnol ac aelodau etholedig yr awdurdod. Pan fyddaf yn cyfeirio achos at bwyllgor safonau, ei rôl yw penderfynu a yw aelod wedi torri'r Cod ac a ddylid gosod sancsiwn. Yn fy marn i, dylid cynnal gwrandawiadau'n gyhoeddus oni bai fod rhesymau dilys dros beidio â gwneud hynny er mwyn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn safonau bywyd cyhoeddus. Os bydd pwyllgor safonau yn dod i'r casgliad bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol, gall benderfynu:

- nad oes angen cymryd camau mewn perthynas â'r methiant hwnnw
- y dylid ceryddu'r aelod neu aelod cyfetholedig drwy roi cerydd cyhoeddus, neu

- y dylid atal yr aelod neu aelod cyfetholedig, neu ei atal yn rhannol, rhag bod yn aelod o'r awdurdod hwnnw am gyfnod nad yw'n fwy na chwe mis neu, os yw'n fyrrach, gweddill cyfnod yr aelod yn ei swydd.

Gall aelod ofyn am ganiatâd gan Lywydd Panel Dyfarnu Cymru i apelio iddo yn erbyn penderfyniad gan bwyllgor safonau.

**Panel Dyfarnu Cymru**

Pan fyddaf yn cyfeirio achos at Banel Dyfarnu Cymru, ei rôl ef hefyd yw penderfynu a yw aelod wedi torri'r Cod ac a ddylid gosod sancsiwn. Yn ogystal â hyn, bydd yn ystyried unrhyw apelau, os cafwyd caniatâd i'w cyflwyno, yn erbyn penderfyniad gan bwyllgor safonau. Y pwerau sydd ar gael i'r Panel wrth benderfynu bod aelod neu aelod cyfetholedig wedi methu â chydymffurfio â'r Cod yw:

- anghymhwyso'r ymatebydd rhag bod, neu rhag dod, yn aelod o'r awdurdod perthnasol cysylltiedig neu o unrhyw awdurdod perthnasol arall am gyfnod o hyd at bum mlynedd
- atal yr ymatebydd, neu ei atal yn rhannol, rhag bod yn aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol cysylltiedig am hyd at 12 mis, neu
- beidio â chymryd camau mewn perthynas â thorri'r Cod. Mewn achosion o'r fath, gall y Panel dybio ei bod yn briodol rhybuddio'r aelod o ran ei ymddygiad yn y dyfodol. Os cofnodwyd rhybudd o'r fath, mae'n debygol o gael ei ystyried yn ystod unrhyw wrandawiad yn y dyfodol lle cafwyd eto fod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau'r Cod.

Lle mae pwyllgor safonau neu'r Panel wedi atal aelod neu aelod cyfetholedig, neu ei atal yn rhannol, bydd yn ofynnol o hyd fod yr aelod hwnnw'n cydymffurfio â'r Cod, yn enwedig y darpariaethau sydd ym mharagraff 6(1)(a) (dwyn anfri ar swydd aelod neu awdurdod) a pharagraff 7 (defnyddio safle aelod yn amhriodol).

**Rôl y Clerc**

Mae'r Clerc yn cael ei gyflogi gan eich Cyngor ac mae'n cyflawni nifer o dasgau gan gynnwys darparu cymorth gweinyddol i'r Cyngor, cynghori ar ddatblygu polisïau a gweithdrefnau ynghyd â chynghori'r Cyngor ar weithredu a defnyddio ei weithdrefnau. Darparu cymorth yw rôl y Clerc ac ato ef y dylech droi yn y lle cyntaf os bydd angen cyngor arnoch chi.

Mae rôl y Clerc yn gymhleth a bydd yn gallu cynghori cynghorwyr ar ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â'r Cod a rheolau sefydlog y Cyngor. Bydd y Clerc yn cydweithio'n agos â'r Cadeirydd i sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn mewn cyfarfodydd a bod yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gael i gynghorwyr er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Gall Clercod ofyn am gyngor gan Swyddog Monitro y cyngor sir perthnasol (gweler isod).

Mae'r Clerc yn cael ei gyflogi gan y Cyngor, ac nid yw'n ofynnol iddo ddilyn y Cod. Mae

unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad y Clerc yn faterion personél, a dylid dilyn gweithdrefnau cyflogaeth priodol i ddelio â'r materion hynny. Ni all yr Ombwdsmon ystyried cwynion sy'n ymwneud â pherfformiad y Clerc; mae hyn yn fater i'r Cyngor fel cyflogwr y Clerc.

**Rôl y Swyddog Monitro**

Mae'r Swyddog Monitro yn cael ei gyflogi gan y Cyngor Sir. Ymhlith nifer o bethau eraill, bydd yn cynghori ac yn helpu cynghorwyr sir. Gall Swyddogion Monitro gynnig rhywfaint o hyfforddiant i gynghorau cymuned.

Mae'r Swyddog Monitro yn cyflawni rôl bwysig yn y broses ddatrys leol a amlinellwyd uchod, a bydd hefyd yn cydweithio'n agos drwy gynghori'r Pwyllgor Safonau. Dylech bob tro ofyn i'ch Clerc yn gyntaf am unrhyw arweiniad neu wybodaeth. Mae'n bosibl y bydd y Swyddog Monitro yn gallu darparu gwybodaeth i chi os na fydd y Clerc ar gael.

## Yr Egwyddorion

Mae Deddf Llywodraeth Leol wedi rhoi pŵer i'r Cynulliad Cenedlaethol i ddyroddi egwyddorion y mae'n rhaid i chi roi sylw iddynt wrth ymgymryd â'ch rôl fel aelod. Mae'r Cod wedi'i seilio ar yr egwyddorion hyn sy'n ceisio hyrwyddo'r safonau uchaf posibl. Mae'r egwyddorion hyn yn deillio o 7 Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a amlinellwyd yn Adroddiad Nolan "Standards of Conduct in Local Government in England, Scotland and Wales". Ychwanegwyd tair egwyddor bellach at y rhain: dyletswydd i gynnal y gyfraith, stiwardiaeth briodol dros adnoddau'r Cyngor a chydraddoldeb a pharch at eraill.

Mae aelodau a etholir i awdurdodau lleol yn rhoi'n hael o'u hamser a'u hymroddiad er budd eu cymunedau. Mae'r egwyddorion yn gosod fframwaith ar gyfer sianelu'ch ymroddiad mewn ffordd a fydd yn adlewyrchu'n dda arnoch chi a'ch awdurdod, ac a fydd yn rhoi hyder i'ch cymunedau yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cael ei reoli.

Pwrpas y gwahanol Adrannau o'r Cod yw'ch helpu i roi'r Egwyddorion ar waith. Er enghraifft, mae egwyddor Anhunanoldeb yn cael ei thrafod yn Adran 7 o'r Cod – Anhunanoldeb a Stiwardiaeth. Mae'r egwyddorion presennol wedi'u nodi mewn offeryn statudol* ac maent wedi'u disgrifio isod.

**1. Anhunanoldeb**

Rhaid i aelodau weithredu'n llwyr er lles y cyhoedd. Rhaid iddynt beidio byth â defnyddio eu safle fel aelodau'n amhriodol i roi mantais, neu osgoi anfantais, iddyn nhw eu hunain, neu i roi mantais neu anfantais yn amhriodol i eraill.

**2. Gonestrwydd**

Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

*Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion) (Cymru) 2001 SI 2001 Rhif 2276 (W.166)

**3. Uniondeb a Gwedduster**

Rhaid i aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle mae amheuaeth yn codi ynghylch eu huniondeb oherwydd unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau a all geisio dylanwadu arnynt wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i aelodau bob amser osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly.

**4. Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith**

Rhaid i aelodau weithredu i gynnal y gyfraith a gweithredu bob amser yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi iddynt.

**5. Stiwardiaeth**

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, rhaid i aelodau sicrhau bod adnoddau eu hawdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon a darbodus.

**6. Penderfynu'n Wrthrychol**

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys penodi i swyddi, dyfarnu contractau, neu argymell bod unigolion yn cael gwobrau neu fuddion, rhaid i aelodau benderfynu ar sail teilyngdod. Er bod rhaid i aelodau roi sylw i gyngor proffesiynol gan swyddogion ac er ei bod yn briodol iddynt ystyried barn pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu ar eu safbwynt ac, os yw'n briodol, sut y byddant yn pleidleisio ar fater penodol.

**7. Cydraddoldeb a Pharch**

Rhaid i aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, beth bynnag fo'u rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill.

**8. Bod yn Agored**

Rhaid i aelodau fod mor agored â phosibl ynghylch eu holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Rhaid iddynt geisio sicrhau mai'r unig gyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth fydd hynny sy'n unol â'r gyfraith.

**9. Atebolrwydd**

Mae aelodau'n atebol i'r etholwyr ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i dderbyn unrhyw graffu ar eu gweithredoedd sy'n briodol.

**10. Arweinyddiaeth**

Rhaid i aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arwain a gosod esiampl er mwyn hybu ymddiriedaeth y cyhoedd yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a'i gyflogeion eraill.

Nid yw'r egwyddorion yn rhan o'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol, felly nid yw methu â chydymffurfio â'r Egwyddorion yn gyfystyr â thorri'r Cod. Er hynny, mae'n debygol y byddai

methu â chydymffurfio ag egwyddor ynghylch cydraddoldeb a pharch, er enghraifft, yn golygu bod gofynion paragraffau 4(a) a 4(b) o'r Cod wedi'u torri mewn perthynas â chyfle cyfartal a pharch.

Fodd bynnag, mae'r Egwyddorion yn cynnig sylfaen gadarn i'ch ymddygiad yn eich swydd ac rwyf yn annog aelodau i roi sylw **iddynt bob amser.**

**Ystyriwch eich ymddygiad yn eich bywyd cyhoeddus a phreifat**

### Penderfynu pa bryd y bydd y Cod yn gymwys i chi

**Gweler paragraffau 2 a 3**

Mae gan aelodau hawl i breifatrwydd yn eu bywyd personol, ac mae nifer o'r darpariaethau yn y Cod yn gymwys i chi dim ond pan fyddwch yn cyflawni'ch rôl fel aelod neu'n cynrychioli'ch awdurdod.  Fodd bynnag, gan fod amgylchiadau lle byddai'ch ymddygiad yn eich bywyd preifat yn gallu effeithio ar uniondeb ac enw da'ch awdurdod, mae rhai darpariaethau yn y Cod a fydd yn gymwys i chi bob amser.

Wrth benderfynu a yw'r Cod yn gymwys i chi ar adeg benodol, byddaf yn rhoi sylw i'r amgylchiadau penodol ac i natur eich ymddygiad ar y pryd.

Cyn ystyried eich rhwymedigaethau o dan y Cod, dylech ystyried yn gyntaf a yw'r Cod yn gymwys ac, os yw'n gymwys, pa ddarpariaethau ynddo.

### Pryd fydd y Cod yn gymwys?

- **Pryd bynnag rydych yn gweithredu yn rhinwedd eich swydd**, gan gynnwys pryd bynnag rydych yn cyflawni busnes eich awdurdod neu'n gweithredu, yn honni gweithredu, neu'n rhoi'r argraff o weithredu yn rhinwedd eich swydd fel aelod neu gynrychiolydd i'ch awdurdod
- **Bob amser**, os ydych yn ymddwyn mewn modd y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn dwyn **anfri** ar eich swydd neu'ch awdurdod neu os ydych yn defnyddio neu'n **ceisio defnyddio'ch safle i gael mantais neu osgoi anfantais** i chi'ch hun neu i unrhyw berson arall neu os ydych yn **camddefnyddio adnoddau'ch awdurdod**.

Os ydych yn gweithredu fel cynrychiolydd i'ch Cyngor ar awdurdod perthnasol arall, neu unrhyw gorff arall, rhaid i chi gydymffurfio, wrth weithredu ar ran yr awdurdod arall hwnnw, â chod ymddygiad yr awdurdod hwnnw.  Os yw'ch Cyngor wedi'ch enwebu'n ymddiriedolwr i elusen, wrth weithredu yn y swydd honno rhaid i chi wneud hynny er budd pennaf yr elusen honno, yn unol â chyfraith elusennau a'r canllawiau sydd wedi'u gosod gan y Comisiwn Elusennau (gweler ei wefan: www.charity-commission.gov.uk).

Os ydych yn gweithredu fel cynrychiolydd i'ch Cyngor ar gorff arall, er enghraifft ar bwyllgor sy'n cynnal digwyddiad penodol, sydd heb god ymddygiad sy'n ymwneud â'i aelodau, rhaid i chi gydymffurfio â Chod eich Cyngor eich hun oni bai ei fod yn gwrthdaro ag unrhyw ofynion

cyfreithiol y mae'r corff arall yn gorfod cydymffurfio â nhw.

Os byddwch yn cyfeirio atoch chi'ch hun fel cynghorydd, bydd y Cod yn gymwys i chi. Mae hyn yn gymwys i sgyrsiau, ysgrifennu, neu'ch defnydd o gyfryngau electronig. Mae nifer y cwynion yr wyf wedi'u cael ynghylch y defnydd o Facebook, blogiau a Twitter wedi cynyddu'n sylweddol. Os byddwch yn cyfeirio at eich rôl fel cynghorydd mewn unrhyw ffordd neu os yw'n glir bod eich sylwadau'n ymwneud â'ch rôl, yna bydd y Cod yn gymwys i'r sylwadau hynny. Hyd yn oed os na fyddwch yn cyfeirio at eich rôl fel cynghorydd, fe allai'ch sylwadau gael yr effaith o ddwyn anfri ar eich swydd neu awdurdod ac felly gallent dorri'r gofynion ym mharagraff 6(1)(a) o'r Cod.

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi llunio canllawiau defnyddiol ar gyfryngau cymdeithasol o'r enw "Cyfryngau Cymdeithasol: Canllaw i Gynghorwyr". Mae'r canllawiau'n ceisio rhoi syniad cliriach i chi ynghylch sut y gallwch ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, y peryglon posibl a sut i'w hosgoi. Maent ar gael ar ei gwefan yn www.wlga.gov.uk neu drwy ffonio 029 2046 8600.

Os cewch eich atal o'ch swydd am unrhyw reswm, rhaid i chi barhau i gydymffurfio â'r elfennau hynny yn y Cod sy'n gymwys i chi, yn enwedig y rheini sydd ym mharagraff 2(1)(ch), tra byddwch wedi'ch atal.

**Enghraifft**

Gwnaeth Cynghorydd A sylwadau am Gynghorydd B mewn cyfarfod o bwyllgor a oedd yn trefnu parêd ar lan y môr. Roedd y parêd yn cael ei drefnu gan grŵp o wirfoddolwyr a oedd wedi gofyn i'r Cyngor Cymuned ddarparu cynrychiolwyr i'w helpu i fod yn ymwybodol o faterion cymunedol wrth drefnu'r digwyddiad. Roeddwn wedi fy modloni bod Cynghorydd A yn gweithredu yn rhinwedd ei swydd fel cynghorydd yng nghyfarfod y Pwyllgor, gan mai cynrychioli'r Cyngor oedd ei rôl ar y Pwyllgor ac ni fyddai wedi bod yn bresennol yn y cyfarfod oni bai am y ffaith honno. Fodd bynnag, yn yr achos hwn roeddwn wedi fy modloni nad oedd y sylwadau a wnaed gan Gynghorydd A yn ddigon difrifol i olygu, petaent yn cael eu profi, y byddent yn arwain at osod sancsiwn gan bwyllgor safonau ar yr aelod a gyhuddwyd. Felly nid oeddwn wedi ymchwilio i'r gŵyn hon.

**Enghraifft**

Yn groes i hynny, cafwyd cwyn bod Cynghorydd J wedi meddwi ac wedi ymddwyn yn amhriodol mewn parti stryd. Cadarnhawyd nad oedd yn rhaid i Gynghorydd J weithredu ar ran y Cyngor yn y parti. Felly, yn fy marn i, roedd hi yn y parti fel aelod o'r cyhoedd a chan nad oedd wedi dibynnu ar ei statws fel cynghorydd mewn unrhyw ffordd, nid oedd y Cod yn gymwys (ac eithrio paragraff 6(1)(a)). Er y gallai rhai fod o'r farn bod ei hymddygiad yn amhriodol, nid oedd yn berthnasol i'w rôl fel cynghorydd ac yn fy marn i nid oedd yn dwyn anfri ar y Cyngor felly nid oedd paragraff 6(1)(a) yn gymwys. Nid oeddwn wedi ymchwilio i'r gŵyn hon.

## 2. Rhwymedigaethau cyffredinol o dan y Cod Ymddygiad

Os byddwch yn meddwl bod y Cod yn gymwys i chi ar adeg benodol, yna rhaid i chi ystyried pa ddarpariaethau a all fod yn gymwys a'ch rhwymedigaethau o dan y Cod. Rwyf wedi cyfeirio at bob un o baragraffau'r Cod isod er mwyn rhoi arweiniad i chi ar eich rhwymedigaethau cyffredinol.

### Cydraddoldeb
### Gweler paragraff 4(a)

Rhaid i chi gyflawni'ch dyletswyddau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid cael cyfle cyfartal i bawb beth bynnag fo'u rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd. Dylech geisio osgoi gwahaniaethu bob amser. Mae pedwar prif fath o wahaniaethu:

- Gwahaniaethu uniongyrchol: trin pobl yn wahanol oherwydd eu rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd
- Gwahaniaethu anuniongyrchol: triniaeth nad yw'n ymddangos ei bod yn gwahaniaethu rhwng pobl oherwydd eu rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd, ond sy'n eu rhoi o dan anfantais anghymesur
- Aflonyddu: ymddwyn mewn ffordd nas dymunir ar sail rhywedd, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd, sy'n amharu ar urddas rhywun arall neu'n creu amgylchedd gelyniaethus, diraddiol, sarhaus neu fychanol
- Erledigaeth: trin rhywun yn llai ffafriol am ei fod wedi cwyno am wahaniaethu, wedi dod ag achos ar sail gwahaniaethu, neu wedi bod yn gysylltiedig â chwyno neu ddwyn achos am wahaniaethu.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 (fel y'i diwygiwyd) yn cadarnhau pwysigrwydd y rhan hon o'r Cod. Mae'n gosod dyletswyddau cadarnhaol i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu ac i hyrwyddo cydraddoldeb. O dan gyfreithiau cydraddoldeb, gall eich Cyngor fod yn atebol am unrhyw weithredu gwahaniaethol rydych yn ei gyflawni. Bydd hyn yn gymwys os byddwch yn gwneud rhywbeth yn rhinwedd eich swydd mewn modd gwahaniaethol. Rhaid i chi fod yn ofalus i beidio â gweithredu mewn ffordd a all fod yn gyfystyr ag unrhyw un o'r mathau o wahaniaethu a waharddwyd, neu wneud rhywbeth sy'n atal eich Cyngor rhag cyflawni ei ddyletswyddau cadarnhaol o dan gyfreithiau cydraddoldeb. Gall ymddygiad o'r fath beri i'ch Cyngor dorri'r gyfraith, a gallech fod yn destun cwyn am dorri gofynion y paragraff hwn yn y Cod.
Rhaid i chi gofio bob amser, gan gynnwys adegau pan fyddwch yn gweithredu'n breifat, fod rhaid peidio ag ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n dwyn anfri ar eich Cyngor. Mae'n debygol y byddai ymddwyn mewn ffordd sy'n cael ei hystyried yn groes i'r Ddeddf Cydraddoldeb wrth weithredu'n breifat yn perthyn i'r categori hwn.

**Gall hawliau Erthygl 10 fod yn berthnasol i sylwadau gwleidyddol**

## Trin pobl eraill gyda pharch ac ystyriaeth
## Gweler paragraff 4(b)

Rhaid i chi ddangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill. Mae rhyddid mynegiant yn hawl sy'n berthnasol i syniadau a gwybodaeth o bob math, nid y rheini sy'n cael eu gweld yn ffafriol yn unig. Fodd bynnag, mae'n hawl y gellir cyfyngu arni o dan amgylchiadau penodol, er enghraifft, er mwyn gwarchod hawliau a buddiannau pobl eraill. Mae rhyddid mynegiant aelod yn cael ei amddiffyn ymhellach pan fydd y sylwadau o natur wleidyddol. Felly, mae beirniadu syniadau a barn gwrthwynebydd yn cael ei ystyried yn rhan o ddadl ddemocrataidd, ac nid yw'n debygol y byddai sylwadau o'r fath byth yn cael eu hystyried yn rhai sy'n torri'r Cod.

Nid sylwadau a wneir yng nghyfarfodydd y cyngor yn unig yw sylwadau "gwleidyddol". Er enghraifft, maent yn cynnwys sylwadau y gall aelodau eu gwneud yn gyffredinol am bolisïau eu Cyngor neu am eu gwrthwynebwyr gwleidyddol. Felly, os nad yw'r sylwadau'n sarhaus neu'n dramgwyddus iawn, nid yw'n debygol y byddwn yn ymchwilio i gwynion a wneir yn y cyd-destun hwn a byddwn yn dod i'r casgliad bod angen i'r aelod fod yn fwy "croendew". Mae'n bosibl hefyd y byddaf yn gwrthod ymchwilio i gŵyn lle mae'r aelod wedi codi materion "gwleidyddol" gyda swyddogion, er enghraifft, Clerc y cyngor. Fodd bynnag, ni fyddai hynny'n cynnwys bygythiadau i safle neu les swyddog. Mae cyfraith achosion diweddar wedi cadarnhau y dylai swyddogion cyngor gael eu hamddiffyn rhag sylwadau di-sail a all gael effaith niweidiol ar weinyddu da. Nodwyd ei bod yn bwysig, er lles y cyhoedd, na fydd swyddogion yn destun sylwadau di-sail sy'n tanseilio eu gallu i gyflawni eu dyletswyddau neu'n tanseilio hyder y cyhoedd yn y weinyddiaeth. Wedi dweud hynny, bydd disgwyl i swyddogion mewn swyddi uwch fod yn fwy cydnerth.

Rwyf yn disgwyl i aelodau ddangos yr un cwrteisi ac ystyriaeth at gydweithwyr, gwrthwynebwyr a swyddogion ag y maent yn eu dangos i bobl eraill yn eu bywyd pob dydd. Er fy mod yn cydnabod y gall dadlau gwleidyddol fod yn danbaid ar brydiau, ni ddylid defnyddio'r hawl i ryddid mynegiant yn esgus dros ymddwyn yn wael yn gyffredinol. Bydd ymddygiad gwael o'r fath yn sicr o ddwyn anfri ar rôl aelodau yng ngolwg y cyhoedd.

Wrth ystyried cwynion o'r fath, byddaf yn ystyried amgylchiadau penodol yr achos, a oedd hawl gan yr aelod, yn fy marn i, i gwestiynu'r swyddog dan sylw, a oedd ymgais i godi ofn ar y swyddog neu ei danseilio, a chynnwys a chyd-destun yr hyn a ddywedwyd.

**Enghraifft**

Roedd tribiwnlys apêl Panel Dyfarnu Cymru yn ystyried apêl gan Gynghorydd X yn erbyn penderfyniad gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor. Roedd y Pwyllgor Safonau wedi cael bod Cynghorydd X wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at aelod arall drwy ei wahardd rhag

anfon e-bost at y clerc a mynd ar wefan y Cyngor.  Hefyd roedd Cynghorydd X wedi gwneud sylwadau mewn neges e-bost i aelodau eraill ynghylch arferion ei gyd-aelod wrth gymryd cawod.  Am ei fod wedi gwneud hyn, penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod Cynghorydd X wedi dwyn anfri ar y Cyngor.

Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod sylwadau Cynghorydd X o natur wleidyddol ac yn cael eu hamddiffyn ymhellach gan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.  Cafodd penderfyniad y Pwyllgor Safonau ei wrthdroi a chafodd y sancsiwn ei ddiddymu.  Gellir gweld penderfyniad y Panel Dyfarnu yma.

**Enghraifft**
Roedd y Panel Dyfarnu wedi cadarnhau canfyddiad gan bwyllgor safonau fod cynghorydd wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill drwy wneud sylwadau ar-lein am gynghorwyr eraill a'r ffordd roedd y Cyngor yn cael ei redeg.  Gofynnodd yr aelod am adolygiad barnwrol o'r penderfyniad hwn.  Er bod Llys wedi cael bod y sylwadau'n wawdlyd ac yn watwarus a bod eu tôn yn bychanu ei gyd-aelodau, penderfynodd y Llys fod y sylwadau'n "Fynegiant Gwleidyddol" gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â'r ffordd roedd y Cyngor yn cael ei redeg, sut roedd ei benderfyniadau'n cael eu cofnodi a chymhwysedd y cynghorwyr.  Yn ôl y dyfarniad, ni roddwyd ystyriaeth i'r angen i wleidyddion fod yn fwy "croendew".  Wrth ystyried rhyddid mynegiant yr aelod a'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r sylwadau yn cyfeirio at gyd-gynghorwyr, roedd y casgliad bod gofynion wedi'u torri yn yr achos hwn yn ymyrryd yn anghymesur â hawliau'r aelod o dan Erthygl 10 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.  Felly cafodd penderfyniad y Pwyllgor Safonau i geryddu'r aelod ei roi o'r neilltu.

**Enghraifft**
Ysgrifennodd aelod o gyngor tref lythyr at un o Ddirprwy Weinidogion Llywodraeth Cynulliad Cymru am un o'r gweithwyr ("Mr Smith") a oedd yn gweithio mewn cyngor sir.  Anfonwyd copi o'r llythyr i'r Cyngor hefyd.  Yn y llythyr roedd yr aelod yn amau cymhwysedd a chymhelliant Mr Smith a gwnaeth nifer o sylwadau dilornus a phersonol ynghylch Mr Smith a phobl roedd yn ymwneud â nhw.  Cododd fater gwrywgydiaeth a chyfeirio ato fel "anabledd anfad" a bod "gwrywgydiaeth yn ddim ond cythraul y gellir ei fwrw allan".  Cyfeiriwyd yr aelod at Banel Dyfarnu Cymru.
Penderfynodd y Panel fod yr aelod wedi torri gofynion paragraff 4(b) o'r Cod gan ei fod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth at bobl eraill.  Cafodd hefyd fod y geiriau roedd wedi'u defnyddio wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod yn groes i baragraff 6(1)(a) o'r Cod.
Cafodd yr aelod ei anghymwyso am 12 mis rhag bod, na dod, yn aelod o awdurdod lleol.

## Bwlio ac aflonyddu

## Gweler paragraff 4(c)

Rhaid i chi beidio â bwlio nac aflonyddu ar neb, gan gynnwys cynghorwyr eraill, swyddogion y cyngor (y Clerc neu Swyddog Priodol) neu aelodau o'r cyhoedd.

Ystyr aflonyddu ("harasio") yw ymddygiad sy'n cael ei ailadrodd sy'n cynhyrfu neu'n gwylltio pobl. Mae bwlio'n gallu golygu ymddygiad tramgwyddus, bygythiol, maleisus, sarhaus neu fychanol. Gall ymddygiad o'r fath ddigwydd unwaith neu gall fod yn rhan o batrwm ymddygiad sydd wedi'i gyfeirio at rywun gwannach neu rywun y mae gennych ddylanwad gwirioneddol neu ymddangosiadol drosto. Y bwriad wrth fwlio yw tanseilio unigolyn neu grŵp o unigolion; mae'n niweidio eu hyder a'u galluogrwydd a gall amharu ar eu hiechyd.

Wrth ystyried honiadau o fwlio ac aflonyddu, byddaf yn ystyried safbwynt y dioddefwr honedig, ac a oedd yr aelod drwy ei weithredoedd yn bwriadu ei fwlio. Byddaf hefyd yn ystyried a oedd gan yr unigolyn le rhesymol i gredu ei fod yn cael ei fwlio. Mae bwlio'n digwydd wyneb yn wyneb yn aml, ond mae hefyd yn digwydd fwyfwy mewn print neu drwy ddefnyddio cyfryngau electronig. Yr un yw'r safonau ymddygiad a ddisgwylir, pa un a ydych yn eich mynegi'ch hun ar lafar neu'n ysgrifenedig.

**Enghraifft**

Roedd Cynghorydd Cymuned P yn anghytuno â threfniadau'r Cyngor Sir ar gyfer gorfodi rheolau parcio yn y dref. Roedd Cynghorydd P wedi defnyddio iaith sarhaus ac amharchus ac roedd wedi ymddwyn yn fygythiol ac wedi bwlio Swyddogion Gorfodi Sifil y Cyngor bedair gwaith. Roedd hefyd wedi ceisio defnyddio ei safle fel cynghorydd yn amhriodol mewn perthynas â thramgwydd parcio. Penderfynodd y Pwyllgor Safonau fod Cynghorydd P wedi torri gofynion paragraff 4(c) o'r Cod gan ei fod wedi ymddwyn yn fygythiol tuag at gyflogeion y Cyngor Sir. Roedd y Pwyllgor Safonau hefyd wedi penderfynu bod Cynghorydd P wedi torri gofynion paragraffau 4(b), 7(a) a 6(1)(a) o'r Cod. Cafodd ei atal rhag gweithredu fel Cynghorydd am 12 mis.

Bydd angen i chi sicrhau nad yw'ch ymddygiad yn croesi'r ffin o fod yn rymus i fod yn fwlio. Ni ellir cael rheolau pendant ar gyfer pob math o amgylchiadau ond bydd lefel awdurdod y swyddog yn ffactor mewn rhai achosion. Fel y nodwyd o dan baragraff 4(b) o'r Cod, gellir cael trafod plaen rhwng y swyddogion uchaf ac aelodau a bydd y swyddogion hynny'n gallu cyfleu eu safbwynt yn rymus. Nid yw'r un peth yn wir yng nghyswllt swyddogion is ac mae angen i aelodau fod yn ymwybodol o hyn. Nid yw hyn yn golygu fy mod yn goddef bwlio uwch swyddogion, ond po fwyaf yw'r gwahaniaeth rhwng pŵer y swyddog a phŵer yr aelod, mwyaf tebygol yw hi y bydd y swyddog yn ystyried bod yr ymddygiad yn fwlio.

Yn ddiweddar, penderfynodd yr Uchel Lys fod budd cyhoeddus mewn diogelu ymddiriedaeth y cyhoedd mewn gweision cyhoeddus anetholedig, a bod angen pwyso hyn yn erbyn y budd o gael trafodaeth agored ar faterion sy'n bwysig i'r cyhoedd. Penderfynodd hefyd y dylai pob aelod ddangos yr un parch at yr ymddiriedaeth sydd rhyngddo a'r swyddogion, gan fod hyn yn hanfodol i sicrhau gweinyddu da.

Mae gan awdurdodau lleol sianeli priodol ar gyfer mynegi pryder ynghylch perfformiad swyddogion ac mae'n bwysig eich bod yn codi materion ynghylch perfformiad gwael yn y ffordd gywir ac mewn fforwm priodol. Nid yw'n dderbyniol codi materion o'r fath mewn cyfarfod lle mae pobl eraill yn bresennol, yn enwedig os ydynt o gyrff allanol neu'n aelodau o'r cyhoedd. Nid yw ychwaith yn dderbyniol gwneud hynny yn y cyfryngau, yn eich cyhoeddiadau'ch hun neu drwy ddefnyddio blog, Twitter, Facebook nac unrhyw ddulliau electronig eraill. Os yw'ch beirniadaeth yn ymosodiad personol neu'n dramgwyddus, rydych yn debygol o groesi'r terfyn o ran yr hyn sy'n ymddygiad derbyniol.

**Enghraifft**

Cafodd aelod o gyngor sir ei anghymwyso o'i swydd am 2 flynedd a 6 mis gan Banel Dyfarnu Cymru yn dilyn honiadau o fwlio, aflonyddu, amarch a dwyn anfri ar swydd yr aelod. Roedd y digwyddiadau honedig wedi para dros gyfnod o ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd yr aelod wedi gwneud sylwadau bygythiol wrth swyddogion ar raddau is ac uwch. Er enghraifft, gwnaeth sylwadau i'r perwyl bod nifer o reolwyr y Cyngor wedi colli eu swyddi a bod mwy i fynd eto a "Fyddech chi ddim yn hoffi gweld sut un ydw i os na cha i fy ffordd ... Does dim angen i mi eich bygwth, rydych chi'n fenyw ddeallus ac rwy'n gwybod eich bod yn gwrando arnaf i".

Apeliodd yr aelod yn erbyn y penderfyniad a chyfeiriwyd y mater i'r Uchel Lys. Yno cadarnhawyd pob achos o dorri'r Cod heblaw tri. Gellir gweld y penderfyniad yma.

## Peryglu didueddrwydd swyddogion yr awdurdod

## Gweler paragraff 4(ch)

Rhaid i chi beidio â pheryglu na cheisio peryglu didueddrwydd unrhyw un sy'n gweithio i'ch Cyngor neu ar ei ran. Ni ddylech fynd at unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran gyda'r bwriad o bwyso arno i gyflawni ei ddyletswyddau mewn ffordd dueddol neu bleidiol. Rhaid iddo fod yn ddiduedd ac ni ddylid ei orfodi na'i berswadio i weithredu mewn ffordd a fyddai'n tanseilio ei allu i fod yn ddiduedd. Er enghraifft, ni ddylech gael swyddogion i'ch helpu i baratoi deunydd plaid wleidyddol, na'ch helpu gyda materion sy'n ymwneud â'ch busnes preifat. Ni ddylech roi na chynnig unrhyw gymhelliant na gwobr yn gyfnewid am weithredu mewn ffordd benodol neu wneud penderfyniad penodol, na bygwth neb os nad yw'n bwriadu gweithredu mewn ffordd benodol. Os bydd aelod yn datblygu perthynas

bersonol agos â swyddog, bydd hyn yn fuddiant personol o dan y Cod a gall fod yn fuddiant rhagfarnus.

**Sefyllfa Ddamcaniaethol**

Mae'r Clerc yn gyfrifol am ddyrannu rhandiroedd o restr aros.  Mae'r rhandiroedd yn boblogaidd dros ben a phur anaml y bydd rhai gwag ar gael.  Dywedodd y Clerc wrth y Cyngor fod rhandir ar gael ac y byddai'n edrych ar y rhestr ac yn dyrannu'r rhandir i'r person a oedd wedi bod yn aros hiraf yn unol â gweithdrefn dyrannu rhandiroedd y Cyngor.  Roedd tad Cynghorydd D wedi bod yn aros am randir am bron saith mlynedd.  Aeth Cynghorydd D at y Clerc ar ôl y cyfarfod a gofyn am gael gweld y rhestr.  Nododd fod un enw uwchben enw ei dad ac mai dim ond am fis yn hirach yr oedd hwnnw wedi disgwyl.  Gofynnodd Cynghorydd D i'r Clerc roi'r rhandir gwag i'w dad.  Dywedodd na fyddai'r person arall yn debygol o ofyn pwy oedd yn gyntaf gan fod cymaint o amser wedi mynd heibio ers i'w dad a'r person arall wneud cais a, beth bynnag, mater syml fyddai aildeipio'r rhestr.  Awgrymodd Cynghorydd D y byddai, yn gyfnewid am y ffafr hon, yn annog y Cyngor i edrych yn ffafriol ar yr elusen a awgrymwyd gan y Clerc wrth ystyried ble i ddyrannu'r arian a fyddai'n cael ei godi mewn diwrnod hwyl a oedd yn cael ei gynnal y mis canlynol.

## Datgelu gwybodaeth gyfrinachol

## Gweler paragraff 5(a)

Rhaid i chi beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol na gwybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heblaw mewn un o'r amgylchiadau canlynol:

- rydych wedi cael caniatâd gan y person sydd ag awdurdod i'w roi
- mae'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny.

Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau defnyddiol am y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Ddeddf Diogelu Data, ac maent ar gael ar ei wefan yn www.ico.gov.uk neu drwy ffonio 0303 123 1113.  Fel cynghorydd cymuned, mae'n bosibl y byddwch yn cael gweld gwybodaeth sensitif, er enghraifft gwybodaeth fasnachol.  Fel cynghorydd rhaid i chi gofio hefyd eich bod mewn safle o ymddiriedaeth a'i bod yn bosibl y bydd aelodau o'r cyhoedd yn darparu gwybodaeth i chi y byddai'n rhesymol ei hystyried yn wybodaeth gyfrinachol.  Dylech bob tro gadarnhau (a chael cytundeb ysgrifenedig pan fo'n bosibl) eich bod wedi cael caniatâd i ddatgelu gwybodaeth o'r fath cyn gwneud hynny.  Yn gyffredinol, dylech ystyried materion a drafodir yn y rhannau cyfrinachol o gyfarfodydd (eitemau esempt) yn rhai cyfrinachol.  Yn yr un modd, bydd cyngor cyfreithiol bron bob tro'n dod o dan fraint gyfreithiol ac ni ddylid ei ddatgelu.

**Enghraifft**

Cafodd Cynghorydd Cymuned S neges e-bost oddi wrth Gynghorydd arall (T) ynghylch cyflogaeth y gofalwr. Roedd y neges e-bost wedi cael ei marcio fel un gyfrinachol. Roedd Cynghorydd S wedi datgelu'r neges e-bost honno i wraig y gofalwr, ac wedyn cafodd y wybodaeth yn y negeseuon e-bost ei defnyddio yn erbyn y Cyngor mewn gwrandawiad tribiwnlys a oedd yn ymwneud â chyflogaeth y gofalwr. Roeddwn wedi dod i'r casgliad bod Cynghorydd S wedi torri gofynion paragraff 5(a) o'r Cod.

## Atal mynediad at wybodaeth

## Gweler paragraff 5(b)

Rhaid i chi beidio â rhwystro unrhyw berson rhag cael gwybodaeth y mae ganddo hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 neu gopïau o gofnodion, agendâu, adroddiadau a dogfennau eraill eich Cyngor y mae ganddo hawl i'w gweld. I gael gwybod mwy am y mathau o wybodaeth y mae gan y cyhoedd hawl i'w gweld, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i www.ico.gov.uk neu drwy ffonio 0303 123 1113 neu, os oes gennych ymholiad penodol, dylech holi'r Swyddog Monitro neu'r Clerc.

Mae'n bosibl y bydd gwybodaeth rydych yn ei chynhyrchu yn rhinwedd eich swydd yn rhwym wrth ofynion datgelu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a gallai fod yn ofynnol i'ch Cyngor ei rhyddhau mewn ymateb i gais. Os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth i'r Clerc ar ei gais, byddwch yn torri'r Cod.

Bydd yn rhaid i'ch Cyngor benderfynu a ddylid datgelu gwybodaeth ynteu a yw wedi'i hesemptio. Hyd yn oed os ydych yn meddwl bod y wybodaeth sydd gennych yn esempt, rhaid i chi ei darparu i'r Clerc ar ei gais er mwyn caniatáu i'r Cyngor wneud penderfyniad. Yn ogystal â bod yn groes i'r Cod, mae dinistrio gwybodaeth ar ôl cael cais Rhyddid Gwybodaeth yn drosedd.

**Enghraifft**

Roedd arweinydd cyngor sir wedi gwrthod rhoi llythyr i Swyddog Gwybodaeth y Cyngor a yrrwyd ganddo i Swyddfa Archwilio Cymru ar ran Gweithrediaeth y Cyngor. Oherwydd hynny, ni allai'r Cyngor ymateb yn briodol i gais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac, o ganlyniad, cyflwynwyd cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd yr aelod yn parhau i wrthod datgelu'r llythyr er iddo gael cyngor clir a diamwys gan y Swyddog Gwybodaeth. Arweiniodd hyn at ddyfarniad anffafriol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi torri gofynion paragraffau 5(b) a 6(1)(a) (dwyn anfri) yng nghyswllt y mater hwn a materion cysylltiedig eraill. Erbyn i'r achos gael ei ystyried gan y Panel, roedd yr aelod wedi ymddiswyddo. Cafodd ei anghymwyso rhag dal swydd am 12 mis.

Mae unrhyw ymddygiad sy'n annheilwng o aelod yn gallu dwyn anfri

## Anfri

## Gweler paragraff 6(1)(a)

Rhaid i chi beidio ag ymddwyn ar unrhyw adeg mewn ffordd y byddai'n rhesymol ystyried ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu awdurdod. Fel aelod, bydd mwy o graffu ar eich gweithredoedd a'ch ymddygiad nag yn achos aelodau cyffredin o'r cyhoedd. Dylech gofio y bydd eich gweithredoedd yn eich bywyd cyhoeddus a phreifat yn gallu cael effaith anffafriol ar eich Cyngor.

Bydd ymddygiad anonest a thwyllodrus yn dwyn anfri ar eich Cyngor, yn yr un modd ag ymddygiad sy'n arwain at gollfarn am drosedd, yn enwedig os yw'n ymwneud ag ymddygiad anonest, bygythiol neu dreisgar, hyd yn oed os yw'r ymddygiad yn digwydd yn eich bywyd preifat. Gellir ystyried bod beirniadu'ch Cyngor yn anghywir neu'n annheg yn gyhoeddus yn dwyn anfri ar eich Cyngor. Gall negeseuon e-bost amhriodol at etholwyr neu negeseuon amhriodol ar gyfryngau cymdeithasol ddwyn anfri ar swydd yr aelod.

**Enghraifft**

Roedd cynghorydd cymuned wedi bod yn sarhaus wrth berchennog siop a dau aelod o'i staff ac wedi ceisio cael disgownt ar rywbeth yr oedd yn ei brynu'n breifat drwy ddweud ei fod yn ei brynu ar ran y Cyngor Cymuned. Pan wrthodwyd ei gais am ddisgownt, gwnaeth fygythiadau yn erbyn y busnes. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod a chafodd ei atal am 9 mis.

**Enghraifft**

Roedd aelod o gyngor bwrdeistref sirol a oedd yn ysgrifennu erthygl reolaidd ar gyfer cyhoeddiad misol lleol wedi sôn yn ei erthygl am ddamwain traffig ffyrdd ddiweddar pan gafodd bachgen 10 oed ei anafu. Mam y bachgen a gafodd ei anafu a gyflwynodd y gŵyn. Ar ôl cyhoeddi'r erthygl, roedd wedi ffonio'r cynghorydd a ddywedodd hwnnw ei bod wedi bod yn sarhaus tuag ato yn ystod yr alwad. Mewn negeseuon e-bost a gafwyd wedyn rhwng y ddau dywedodd y cynghorydd wrthi ei bod wedi "methu â chymryd unrhyw gyfrifoldeb dros ei phlentyn drwy ganiatáu iddo fynd allan ar ei ben ei hun", mai ei mab "anwybodus am reolau'r ffordd fawr" oedd ar fai a dywedodd "peidiwch chi â beiddio rhoi'r bai arna i am eich diffygion chi fel rhiant".

Penderfynwyd bod yr aelod wedi torri gofynion paragraff 4(b) (parch ac ystyriaeth) a 6(1)(a) (anfri). Cyfeiriwyd y mater at Banel Dyfarnu Cymru. Er bod yr aelod wedi honni iddo ymddiheuro am ei ymddygiad, yr hyn a ddywedodd mewn gwirionedd oedd "Does gen i ddim i ymddiheuro amdano... Rwyf yn ymddiheuro os oeddwn wedi achosi gofid i chi am ryw reswm".

Penderfynodd y Panel fod yr aelod wedi torri gofynion paragraffau 4(b) (trin pobl eraill gyda pharch) a 6(1)(a) (anfri). Roedd y Panel wedi'i atal o'r blaen am 2 fis am anfon negeseuon e-bost amhriodol yn 2006. Cafodd ei atal am 12 mis yng nghyswllt yr achosion hyn.

## Rhoi gwybod am dorri gofynion y Cod
## Gweler paragraff 6(1)(c)

Os ydych yn credu'n rhesymol bod y Cod wedi cael ei dorri, rhaid i chi roi gwybod am hynny i Swyddog Monitro y prif Gyngor. Nid oes angen rhoi gwybod i mi am y mater bellach. Er mwyn credu'n rhesymol bod y Cod wedi cael ei dorri, bydd yn rhaid i chi gael tystiolaeth i gadarnhau hyn. Os nad ydych yn sicr a yw'r Cod wedi cael ei dorri ai peidio, dylech holi'r Swyddog Monitro ar y cyfle cyntaf. Os cafodd y Cod ei dorri mewn modd technegol neu fach, neu os nad oes tystiolaeth glir i'r Cod gael ei dorri, gall y Swyddog Monitro roi gwybod i chi am y trothwy rwyf yn debygol o'i osod. Yn yr achosion mwyaf difrifol, gall y Swyddog Monitro benderfynu, fel eithriad, y bydd yn cyfeirio materion ataf i'n uniongyrchol neu ar eich rhan. Yn y rhan fwyaf o achosion eraill, byddwch chi'n cael eich cynghori i wneud hynny.

Er hynny, fi sy'n gyfrifol am benderfynu a fyddaf yn ymchwilio i doriad. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch a yw'r Cod wedi'i dorri, dylid rhoi gwybod bob tro. Bydd o gymorth os gallwch nodi pa elfen o'r Cod rydych yn credu sydd wedi'i thorri.

Wrth benderfynu a fyddaf yn ymchwilio i gŵyn ynghylch torri'r Cod ai peidio, byddaf yn defnyddio'r prawf dau gam rwyf wedi'i amlinellu ar dudalennau 6 a 7 uchod. Dylech sicrhau'ch bod yn rhoi unrhyw dystiolaeth sydd gennych pan fyddwch yn cwyno, gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd, gohebiaeth, nodiadau a wnaed ar y pryd neu negeseuon e-bost. Os oes unigolion eraill sydd yn dystion i'r toriad honedig ar y Cod, dylech ddweud wrthym pwy ydynt. Mae'r pwynt olaf yn bwysig iawn oherwydd os wyf yn dibynnu ar air un person yn erbyn gair person arall, mae'n bosibl na fyddaf yn gallu dod i gasgliad sicr bod digon o dystiolaeth i gyfiawnhau ymchwilio i'r mater.
I roi gwybod am faterion o'r fath, gallwch gysylltu â'm swyddfa drwy ffonio 0845 6010987, drwy'r e-bost yn holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk neu drwy'r wefan yn http://www.ombwdsmon-cymru.org.uk Mae taflen arbennig am wneud cwynion am honiadau o dorri'r Cod ar gael ar gais neu ar y wefan.

## Cwynion blinderus
## Gweler paragraff 6(1)(ch)

Rhaid i chi beidio â chwyno yn erbyn aelodau eraill, aelodau staff neu bobl sy'n gweithio ar ran eich Cyngor os nad yw'r gŵyn yn seiliedig ar ffeithiau ac os yw wedi'i hysgogi gan falais (dymuniad i'w niweidio) neu gystadleuaeth wleidyddol. Gwaetha'r modd, cafwyd achosion lle mae aelodau wedi ceisio cyflwyno cwynion am gystadleuwyr gyda'r bwriad o'u rhoi dan anfantais, weithiau cyn etholiad, a lle nad oes tystiolaeth o dorri'r gofynion neu ddim ond tystiolaeth wan. Rwyf yn credu y dylid ystyried ymddygiad o'r fath drwy broses ddatrys leol

yr awdurdod perthnasol yn y lle cyntaf os oes un ar waith.

Os bydd manylion penodol am gwynion o'r fath yn cael eu trosglwyddo i'r wasg a'r cyfryngau lleol, gall hyn wneud niwed i ymchwiliad a gall hyn ynddo'i hun hefyd fod yn groes i'r Cod. Rhaid i chi roi gwybod i Swyddog Monitro y prif Gyngor am honiadau cadarn o dorri gofynion y Cod, nid i'r papur newydd neu orsaf radio leol. Bydd y wasg yn rhoi sylw priodol i fusnes unrhyw wrandawiadau a'u canlyniadau, ac ni ddylai aelodau sy'n gwneud honiadau greu unrhyw gyhoeddusrwydd cyn y rhain.

Ni ddylai aelodau ddefnyddio'r Cod i geisio ennill mantais yng nghyd-destun anghytundeb gwleidyddol neu breifat. Ni ddylech wneud cwynion ychwaith sydd heb ddim neu nemor ddim sylwedd (cwynion gwacsaw) sydd â'r prif amcan o wylltio'r person y maent yn cael eu gwneud yn ei erbyn. Yn y gorffennol, mae fy rhagflaenydd wedi gorfod gohebu â Chlerc cyngor ynghylch pryderon y ddwy ochr am nifer y cwynion a oedd yn dod i law mewn perthynas â'r aelodau. Fel rwyf wedi nodi eisoes, ers i mi gychwyn yn fy swydd, rwyf innau'n pryderu am nifer y cwynion lefel isel sy'n dod i law o hyd oddi wrth aelodau. Er ei bod yn ymddangos bod y cwynion hyn yn deillio o nifer bach o aelodau, gallant greu argraff negyddol o'r aelodau a'r cynghorau hynny a niweidio ffydd y cyhoedd yn ein haelodau etholedig yn gyffredinol. Os daw'n amlwg bod cwynion gan aelodau yn erbyn ei gilydd yn cael eu hailadrodd wrth fy swyddfa, byddwn yn annog y cynghorau hynny i ystyried y diwylliant sydd wedi arwain at y cwynion hyn a sut y byddai modd newid ymddygiad i osgoi cwynion o'r fath.

Os byddaf yn gweld tystiolaeth sy'n awgrymu bod cwyn wedi'i gwneud i'm swyddfa nad yw'n seiliedig ar ffeithiau a'i bod wedi'i hysgogi gan falais neu gystadleuaeth wleidyddol, byddaf yn ystyried bod hyn yn fater difrifol ac mae'n bosibl y byddaf yn ymchwilio i hyn. Mae gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn mynd yn groes i'r paragraff hwn ac mae'n bosibl hefyd ei fod yn mynd yn groes i'ch rhwymedigaethau eraill o dan y Cod fel y gofyniad i beidio â dwyn anfri ar eich swydd fel cynghorydd neu beidio â defnyddio'ch safle mewn modd amhriodol.

Cofiwch fod y Cod yn gymwys dim ond i'r rheini sydd wedi'u hethol, eu cyfethol neu eu penodi fel arall i gorff sy'n dod o dan y Cod. Nid yw'n gymwys i aelodau o'r cyhoedd. Er fy mod yn deall y gallech deimlo'n rhwystredig os bydd aelod o'r cyhoedd yn cwyno amdanoch droeon a'ch bod yn credu bod y cwynion hynny'n flinderus neu'n wacsaw, mae'n ofynnol i mi ystyried pob cwyn yn ôl ei rhinweddau ei hun. Fodd bynnag, mae'n debygol na fyddai cwynion o'r fath yn pasio'r prawf dau gam ac yn arwain at ymchwiliad.

## Cydweithredu ag ymchwiliadau
## Gweler paragraff 6(2)

Rhaid i chi gydweithredu ag unrhyw ymchwiliad sy'n cael ei gynnal gennyf i neu gan eich

Swyddog Monitro gan ddefnyddio ein pwerau statudol. Mae peidio â gwneud hynny'n torri gofynion y Cod. Mae hyn yn golygu y dylech ymateb yn brydlon i bob gohebiaeth a galwad ffôn, trefnu i fod ar gael ar gyfer cyfweliadau os oes angen a darparu copïau o unrhyw ddogfennau y gofynnir amdanynt. Byddai'n fuddiol pe gallech nodi unrhyw bryderon sydd gennych yn ystod yr ymchwiliad fel bod modd eu datrys yn ddi-oed. Bydd fy swyddfa a'ch Swyddog Monitro yn ystyried unrhyw bwysau brys sydd arnoch chi ac unrhyw drefniadau a wnaed o'r blaen, er enghraifft, ar gyfer gwyliau. Fodd bynnag, disgwylir i chi roi blaenoriaeth i'w hymchwiliadau, er mwyn peidio â llusgo materion yn ddiangen. Mae'r gofyniad i gydweithredu ag ymchwiliad yn gymwys pa un a ydych yn dyst neu'n destun yr ymchwiliad.

Rwyf yn gwybod am enghreifftiau lle mae aelodau sydd wedi'u cyhuddo o dorri'r Cod wedi ceisio rhoi pwysau ar yr unigolion sydd wedi gwneud y gŵyn neu ar dystion eraill. Rwyf yn ystyried bod ymddygiad o'r fath yn hollol annerbyniol. Rhaid i chi beidio â bygwth na cheisio codi ofn ar unrhyw un sydd, neu sy'n debygol o fod, yn achwynydd, yn dyst, neu'n ymwneud â gweinyddu unrhyw ymchwiliad neu achos sy'n ymwneud â methu â chydymffurfio â'r Cod. Ni waeth faint rydych yn pryderu am honiadau eich bod chi neu gynghorydd arall wedi methu â chydymffurfio â'r Cod, peth drwg bob amser yw bwlio, bygwth neu geisio codi ofn ar rywun sy'n ymwneud â'r ymchwiliad neu'r gwrandawiad. Hyd yn oed os nad ydych wedi torri'r Cod, cewch ddweud eich dweud yn ystod unrhyw wrandawiad neu ymchwiliad annibynnol, a dylech adael i'r prosesau hyn ddilyn eu cwrs naturiol.

Os byddwch yn bygwth tyst mewn ymchwiliad i'ch ymddygiad, er enghraifft, gallech fod yn destun cwyn arall am fynd yn groes i baragraff 4(c) o'r Cod ynghylch bwlio neu aflonyddu, neu baragraff 6(1)(a) ynghylch dwyn anfri ar swydd yr aelod.

## Camfanteisio ar eich swydd
## Gweler paragraff 7(a)

Rhaid i chi beidio â defnyddio na cheisio defnyddio'ch safle'n amhriodol i roi mantais neu anfantais i chi'ch hun nac i unrhyw un arall. **Mae'r paragraff hwn yn gymwys bob amser** ac nid pan ydych yn cyflawni'ch dyletswyddau fel aelod yn unig. Ni ddylech ddefnyddio na cheisio defnyddio'ch swydd gyhoeddus ychwaith er eich budd neu eich colled eich hun na budd na cholled eraill. Er enghraifft, byddai'ch ymddygiad yn amhriodol pe byddech yn ceisio hyrwyddo'ch buddiannau preifat eich hun drwy eich safle fel aelod. Mae hyn yn gymwys hefyd os ydych yn defnyddio'ch swydd i wella eich lles ar draul pobl eraill.

Os yw aelod yn berchen ar dir, neu os yw rhywun y mae ganddo gysylltiad personol agos ag ef yn berchen ar dir, rhaid iddo fod yn ofalus iawn yng nghyswllt materion sy'n ymwneud â chynllunio. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, dylech ofyn am gyngor. Mae hyn yr un mor gymwys i aelodau cynghorau cymuned pan ymgynghorir â'ch Cyngor ar faterion sy'n ymwneud â chynllunio. Yn yr un modd, er ei bod yn rhesymol disgwyl i aelodau helpu etholwyr i wneud cais i'r Cyngor, er enghraifft, ar gyfer tai, mae'n gwbl amhriodol ceisio

dylanwadu ar y penderfyniad a wneir gan y swyddogion.

Mae darpariaethau Deddf Llwgrwobrwyo 2010 yn gymwys i aelodau sy'n cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus. Os ceir aelod yn euog o drosedd o dan y Ddeddf hon, yna mae'n debygol y bydd hefyd wedi defnyddio ei safle'n amhriodol (yn groes i baragraff 7(a)) a dwyn anfri ar swydd yr aelod neu ar ei awdurdod gan dorri gofynion paragraffau 6(1)(a) a (b). Os caf unrhyw gŵyn sy'n ymwneud ag ymddygiad a all fod yn drosedd, yna rwyf yn debygol o gyfeirio'r mater at yr heddlu.

**Enghraifft**

Roedd Cynghorydd D yn 'gydlynydd ar y cyd' ar grŵp cymunedol. Ni ddywedodd Cynghorydd D wrth y Cyngor am ei swydd yn y grŵp hwn. Cymerodd ran yn y drafodaeth a phleidleisiodd ar y penderfyniad i negodi les newydd yng nghyswllt gweithdy a oedd yn cael ei ddefnyddio gan y grŵp cymunedol hwn. Daeth pwyllgor safonau i'r casgliad ei bod wedi defnyddio ei safle ar y Cyngor yn amhriodol gan fod y penderfyniad roedd hi wedi pleidleisio arno wedi bod o fudd i'r grŵp a'i bod yn amlwg bod ganddi fuddiant yn y grŵp hwnnw ac nad oedd wedi rhoi gwybod am hynny i'r Cyngor. Penderfynwyd ei bod wedi torri gofynion paragraff 7(a) o'r Cod, a chafodd ei hatal rhag gweithredu fel cynghorydd am bedair wythnos.

## Adnoddau'r awdurdod
## Gweler paragraff 7(b)

Dim ond yn unol â'i ofynion y cewch chi ddefnyddio adnoddau'r Cyngor neu awdurdodi pobl eraill i wneud hynny. **Mae'r paragraff hwn hefyd yn gymwys bob amser.** Os bydd eich Cyngor yn darparu adnoddau i chi (er enghraifft, ffôn, cyfrifiadur a chyfleusterau TG eraill), dim ond ar gyfer cyflawni'ch busnes Cyngor ac unrhyw weithgarwch arall y mae'r Cyngor wedi'ch awdurdodi i'w defnyddio ar eu cyfer y cewch ddefnyddio'r rhain.

Rhaid i chi fod yn gyfarwydd â'r rheolau ar gyfer defnyddio'r adnoddau hyn a wnaed gan eich Cyngor.

Mae methu â chydymffurfio â rheolau'ch Cyngor yn debygol o fod yn groes i'r Cod. Os byddwch yn awdurdodi rhywun (er enghraifft, aelod o'ch teulu) i ddefnyddio adnoddau'r Cyngor, rhaid i chi ofalu bod rheolau'r Cyngor yn caniatáu hyn.

## Defnyddio adnoddau at ddibenion priodol yn unig
## Gweler paragraffau 7(b)(v) a 7(b)(vi)

Rhaid i chi wneud yn siŵr mai dim ond at ddibenion priodol rydych chi'n defnyddio adnoddau'r Cyngor. Nid yw'n briodol defnyddio'r adnoddau at ddibenion gwleidyddol, gan gynnwys dibenion pleidiau gwleidyddol, nac awdurdodi pobl eraill i'w defnyddio yn y

fath fodd.  Wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor, rhaid i chi roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan eich Cyngor.

**Enghraifft**
Cafwyd bod aelod o gyngor sir wedi torri'r Cod ar ddefnyddio ei offer cyfrifiadurol, drwy ddefnyddio cyfrifiadur a roddwyd iddo gan y Cyngor yn amhriodol at ddibenion preifat drwy lawrlwytho delweddau pornograffig amhriodol o oedolion ac anfon nifer o lythyrau i bapur newydd lleol, gan honni'n anwir mai aelodau o'r cyhoedd oedd yn eu hanfon.  Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi camddefnyddio offer y Cyngor gan dorri'r Cod a'i fod wedi dwyn anfri ar swydd yr aelod.  Cafodd ei anghymwyso am 2 flynedd a 6 mis rhag bod, na dod, yn aelod o awdurdod lleol.

## Gwneud penderfyniadau'n wrthrychol
## Gweler paragraff 8(a)

Wrth gymryd rhan yng nghyfarfodydd eich Cyngor, neu wrth wneud penderfyniadau ynghylch busnes y Cyngor, rhaid i chi wneud hynny â meddwl agored ac yn wrthrychol.  Yn ystod y broses penderfynu rhaid i chi weithredu'n deg ac ystyried budd y cyhoedd yn briodol. Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan gyngor cymuned yn ymwneud â materion lleol ac ariannu prosiectau lleol.  Er bod maint yr arian sy'n cael ei wario'n llai nag ar lefel sirol, rhaid i'r holl benderfyniadau gael eu gwneud ar sail y ffeithiau sydd o'ch blaen, a rhaid i chi beidio â phenderfynu ymlaen llaw i'r graddau eich bod yn hollol anfodlon ystyried yr holl dystiolaeth a chyngor a gewch chi.  Rhagderfynu yw'r enw ar fod â meddwl hollol gaeedig.  Mae gennych hawl i fod â safbwynt ymlaen llaw ynghylch mater penodol cyn cyfarfod (rhagdueddiad) ar yr amod eich bod yn cadw meddwl agored a'ch bod yn fodlon ystyried rhinweddau'r holl ddadleuon a phwyntiau a wneir ynghylch y mater a drafodir cyn i chi wneud penderfyniad.  Mae rhagderfynu ar y llaw arall yn golygu'ch bod yn amlwg wedi penderfynu ar gwrs gweithredu cyn y cyfarfod ac yn gwbl amharod i ystyried y dystiolaeth a'r dadleuon a gyflwynir ar y mater hwnnw yn ystod y cyfarfod.  Gallai rhagderfynu wneud y penderfyniad yn annilys, a byddai hefyd yn torri gofynion y Cod.

## Ystyried cyngor a roddir i chi a rhoi rhesymau
## Gweler paragraff 8(b)

Rhaid i chi roi sylw i'r holl gyngor a gewch gan eich Clerc.  Fel arfer, y Clerc yw'r Swyddog Priodol hefyd ac mae ei rôl yn cynnwys ymchwilio i'r polisi, y canllawiau a'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r cyngor a roddir wrth wneud penderfyniadau.

Mae bob amser yn fuddiol cael cyngor mor gynnar â phosibl.  Os gallwch, gofynnwch am gyngor mewn da bryd cyn cyfarfod, yn hytrach nag yn y cyfarfod neu'n union cyn iddo ddechrau.  Gofalwch eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i'r Clerc wrth iddo roi cyngor i chi.

Os byddwch yn gofyn am gyngor, neu os cynigir cyngor i chi, er enghraifft, ynghylch a

ddylech gofrestru buddiant personol, dylech ystyried y cyngor hwn cyn i chi benderfynu. Gallai methu â gwneud hynny olygu'ch bod yn torri gofynion y Cod.

Fel mater o arfer da, os byddwch yn anghytuno ag argymhellion y Clerc wrth wneud penderfyniad, dylech roi rhesymau clir dros eich penderfyniad.  Os byddwch yn penderfynu pleidleisio'n groes i gyngor y Clerc, dylech sicrhau bod eich rhesymau dros wneud hynny'n cael eu cofnodi yn y cofnodion perthnasol.

**Treuliau**
**Gweler paragraff 9(a)**

Mae angen i chi ddilyn y gyfraith a gofynion eich Cyngor wrth hawlio treuliau a lwfansau. Os nad ydych yn sicr am eich hawliau, neu am y ffordd briodol o hawlio, dylech ofyn i'ch Clerc am gyngor.  Mae angen i chi gadw cofnodion priodol o wariant wedi'u hategu gan dderbynebau os yw'n briodol, er mwyn i chi allu cyflwyno tystiolaeth briodol o'ch hawliadau.

Hyd yn oed os nad yw cynllun penodol yn mynnu'ch bod yn cyflwyno derbynebau, fe'ch cynghorir yn gryf i gadw'r rhain er mwyn gallu profi faint rydych wedi'i wario ar yr eitemau rydych yn hawlio amdanynt.

**Rhoddion a lletygarwch**
**Gweler paragraff 9(b)**

Mae'n bwysig nad ydych yn derbyn unrhyw roddion na lletygarwch i chi'ch hun, nac ar ran pobl eraill, a fyddai'n eich rhoi o dan rwymedigaeth neu'n ymddangos ei fod yn gwneud hynny.  Gellid ystyried bod derbyn rhoddion neu letygarwch o'r fath yn tanseilio'ch gallu i fod yn wrthrychol wrth wneud penderfyniadau neu gyflawni gwaith y Cyngor.  Mae hyn yn wir hefyd am unrhyw wasanaethau neu roddion mewn nwyddau.

Nid yw hyn yn eich atal rhag mynd i ddigwyddiadau swyddogol fel derbyniadau dinesig neu giniawau gwaith os yw'r rhain wedi'u hawdurdodi gan eich Cyngor.

# 3. Buddiannau personol a rhagfarnus

Mae elfennau yn y Cod sy'n ymwneud â buddiannau personol a rhagfarnus yn arwain at nifer o gwestiynau gan aelodau. Pwrpas yr elfennau hyn yw diogelu egwyddorion anhunanoldeb a gwrthrychedd. Eu nod yw rhoi hyder i'r cyhoedd fod penderfyniadau'n cael eu gwneud er y lles pennaf iddyn nhw, nid er y lles pennaf i aelodau awdurdodau neu bobl y mae ganddynt gysylltiad personol agos â nhw.

Mae buddiannau personol yn ymwneud â materion lle mae gennych chi neu rywun y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef ryw gyswllt â mater sy'n cael ei drafod. Bydd y buddiannau hyn yn rhai rhagfarnus pan fyddai sylwedydd annibynnol gwybodus yn gallu dod i'r casgliad y byddai'r buddiant yn dylanwadu ar eich pleidlais, neu ar eich penderfyniad.

Yn fy mhrofiad i, y gwahaniaeth rhwng buddiant personol a buddiant rhagfarnus, a'r camau y dylai aelod eu cymryd yn ôl natur ei fuddiant, sy'n achosi'r anhawster mwyaf i aelodau.

Mae'r paragraffau isod yn cynnig canllawiau yn y maes hwn. Rwyf yn argymell yn gryf, os nad ydych yn sicr a oes gennych fuddiant personol neu ragfarnus, neu, os oes gennych fuddiannau o'r fath, pa gamau y dylech eu cymryd, y dylech ofyn i'ch Clerc am gyngor. Fodd bynnag, chi fydd yn penderfynu pa gamau y dylid eu cymryd.

Er mwyn rhoi mwy o gymorth i chi, rwyf wedi cynnwys siart llif mewn Atodiad i'r canllawiau hyn. Mae wedi'i seilio ar ddogfen a baratowyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'n mynd â chi drwy'r cwestiynau y dylech ofyn i chi'ch hun wrth benderfynu a oes gennych fuddiant. Mae'r siart llif yn un esboniadol yn unig ac nid yw'n un swyddogol.

Mae canllawiau ar gofrestru buddiannau yn Rhan 4.

**Oes gennych chi gyswllt neu gysylltiad agos â'r eitem dan sylw?**

## Buddiannau Personol

## Gweler paragraff 10

Wrth i chi gyflawni'ch dyletswyddau, bydd angen i chi benderfynu a oes gennych fuddiant personol ac, os felly, a oes angen i chi ei ddatgelu. Mae'r rhan fwyaf o aelodau'n gwybod bod angen datgelu buddiannau personol mewn cyfarfodydd, ond mae adegau eraill, er enghraifft, wrth siarad â'r Clerc am y mater dan sylw, pan fydd angen i chi wneud hynny hefyd. Mae rhagor o fanylion am hyn isod.

Isod mae rhestr o gwestiynau y dylech eu gofyn wrth benderfynu a oes gennych fuddiant.

### Oes gennyf i fuddiant personol?

Bydd gennych **fuddiant personol** mewn rhan o fusnes eich Cyngor, gan gynnwys penderfyniadau sydd i'w gwneud, pan fydd honno'n ymwneud â neu'n debygol o effeithio ar:

1. eich swydd neu'ch busnes

2. eich cyflogwr, neu unrhyw ffyrm rydych yn bartner neu'n gyfarwyddwr sy'n cael tâl ynddo

3. unrhyw un sydd wedi talu am gostau'ch ethol neu'ch treuliau fel aelod

4. unrhyw gwmni y mae gennych gyfrannau ynddo sydd â gwerth nominal o fwy na £25,000 neu lle mae'ch daliad yn fwy nag 1% o gyfanswm y cyfalaf cyfrannau a ddyroddwyd, sydd ag eiddo neu dir yn ardal eich Cyngor

5. unrhyw gontract y mae'ch Cyngor yn ei wneud â chwmni rydych yn bartner, yn gyfarwyddwr sy'n cael tâl neu'n dal cyfrannau ynddo fel y nodwyd yn 4

6. unrhyw dir y mae gennych fuddiant ynddo ac sydd yn ardal eich Cyngor (mae hyn yn bwysig iawn ym mhob mater cynllunio gan gynnwys cynlluniau strategol)

7. unrhyw dir a osodir gan eich Cyngor i gwmni rydych yn bartner neu'n gyfarwyddwr sy'n cael tâl ynddo neu gorff fel y nodwyd yn 4

8. unrhyw gorff rydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich Cyngor

9. unrhyw

- awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus
- cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen neu gorff a gyfarwyddir at ddibenion elusennol
- corff ac iddo'r brif swyddogaeth o ddylanwadu ar bolisi neu farn gyhoeddus
- undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol
- clwb neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu yn ardal eich Cyngor, yr ydych yn aelod ohono neu lle rydych mewn swydd reoli gyffredinol, neu

10. unrhyw dir yn ardal eich Cyngor y mae gennych drwydded i'w feddiannu am o leiaf 28 diwrnod.

Mae bob amser yn fwy diogel datgan buddiant.  Fodd bynnag, holwch eich Clerc neu Swyddog Monitro os nad ydych yn sicr.

**Materion sy'n effeithio ar eich lles neu'ch sefyllfa ariannol**

Os gellid ystyried bod penderfyniad yn effeithio ar eich lles neu'ch sefyllfa ariannol chi neu les neu sefyllfa ariannol unrhyw un sy'n byw gyda chi neu rywun y mae gennych **gysylltiad personol agos** ag ef, yn fwy na phobl eraill yn ardal eich Cyngor, mae gennych fuddiant personol.

Enghreifftiau o benderfyniadau o'r math hwn yw materion amlwg fel dyfarnu contractau i gwmni'ch partner, yn ogystal â materion sy'n ymwneud â lleoli datblygiadau, lle gallai hynny wneud gwahaniaeth mawr i le rydych chi neu bobl y mae gennych gysylltiad agos â nhw yn byw.  Un enghraifft a gafwyd oedd lleoli meysydd chwarae, lle mae aelodau etholedig wedi

gwrthwynebu eu lleoli ger eu tai oherwydd materion yn ymwneud â sŵn.

**Beth yw "corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus"?**

Mae'r ymadrodd "corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus" wedi cael ei ddehongli'n eang gan y llysoedd at nifer o ddibenion gwahanol. Er nad yw'n bosibl gwneud rhestr derfynol o gyrff o'r fath, dyma rai o'r meini prawf i'w hystyried wrth benderfynu a yw corff yn cwrdd â'r diffiniad hwnnw:

- A yw'r corff hwnnw'n cyflawni gwasanaeth cyhoeddus?
- A yw'r swyddogaeth yn cael ei harfer o dan ddeddfwriaeth neu'n unol â phŵer statudol?
- A ellir cael adolygiad barnwrol o'r corff?

Wrth gynnal busnes cyngor cymuned mae'n debygol y byddwch yn gweithredu ar gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus. Gallech wneud hyn hefyd os ydych wedi cael eich penodi i weithredu ar ran y Cyngor mewn grŵp buddiant neu brosiect cymunedol.

**Beth yw ystyr "effeithio ar lesiant neu sefyllfa ariannol"?**

Un diffiniad posibl o'r term 'llesiant' yw bod yn fodlon a hapus. Mae unrhyw beth sy'n effeithio ar eich ansawdd bywyd, yn gadarnhaol neu'n negyddol, yn debygol o effeithio ar eich llesiant. Gall buddiant personol effeithio yn gadarnhaol ac yn negyddol arnoch chi neu ar bobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw. Felly, os yw'n bosibl i chi neu iddyn nhw ennill neu golli oherwydd mater sy'n cael ei ystyried, mae angen i chi ddatgan buddiant personol yn y naill sefyllfa a'r llall.

**Mae pobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw'n cynnwys ffrindiau, perthnasau, rhai rydych yn ymwneud â nhw drwy fusnes a rhai rydych wedi bod mewn anghydfod â nhw**

**Beth yw'r diffiniad o rywun y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef?**

Mae pobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw yn cynnwys pobl fel ffrindiau agos, cydweithwyr y mae gennych gysylltiadau cryf iawn â nhw, pobl rydych yn ymwneud â nhw drwy fusnes a pherthnasau agos. Nid yw'n cynnwys cydnabod achlysurol, perthnasau pell neu bobl nad ydych ond yn dod i gysylltiad â nhw drwy'ch swydd fel aelod neu'ch gwaith yn y gymuned leol.

Gall pobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw hefyd olygu rhywun rydych wedi bod mewn anghydfod ag ef, neu rywun y gellid credu bod gennych fuddiant mewn achosi anfantais iddo. Er enghraifft, ni fyddai bod yn aelod o'r un clwb golff â rhywun arall ynddo'i hun yn golygu bod gennych gysylltiad personol agos ag ef ond, os oeddech yn bartner golff iddo bob wythnos, gallai hynny olygu bod gennych gysylltiad personol agos ag ef. Os nad ydych yn siŵr, holwch eich Clerc neu Swyddog Monitro.

**Aelodau sy’n ”gwisgo dwy het”**

Os ydych yn aelod o gyngor cymuned ac o gyngor sir, ni chewch eich atal rhag trafod yr un materion yn y ddau le. Er enghraifft, gallwch gymryd rhan mewn trafodaeth am gais cynllunio yr ymgynghorwyd â’ch Cyngor Cymuned yn ei gylch, a chymryd rhan wedyn mewn penderfynu ar y cais os ydych yn eistedd ar Bwyllgor Cynllunio eich Cyngor Sir.

Os byddwch yn gwneud hyn, fe’ch cynghorir yn gryf i ddweud yng nghyfarfod y Cyngor Cymuned y byddwch yn edrych ar y mater o’r newydd wrth ei ystyried yng nghyfarfod y Cyngor Sir, ac y byddwch yn ystyried yr holl wybodaeth a chyngor a roddir i chi. Yn y Pwyllgor Cynllunio, dylech ddweud yn glir nad ydych wedi cael eich rhwymo gan farn y Cyngor Cymuned. Mae’r cyngor ynghylch gwneud penderfyniadau gwrthrychol yng nghyd-destun paragraff 8 o’r Cod yn berthnasol yma hefyd.

Wrth gwrs, os oedd y cais wedi cael ei gyflwyno gan y Cyngor Cymuned, yna byddai gennych fuddiant personol a buddiant rhagfarnus, a byddai’n ofynnol i chi ei ddatgan a thynnu’n ôl yn unol â’r canllawiau isod ynghylch “beth i’w wneud os oes gennych fuddiant rhagfarnus”.

**Enghraifft**

Cafwyd bod aelod o Gyngor Cymuned wedi torri’r Cod drwy fethu â datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn cyfarfod a oedd yn trafod cydnabyddiaeth ariannol y Clerc; roedd yr aelod a’r Clerc mewn perthynas ac wedi dyweddïo ar y pryd. Penderfynodd y Panel Dyfarnu y dylai’r aelod fod wedi datgan buddiant personol yn yr eitem busnes oherwydd ei gysylltiad personol agos â’r Clerc. Penderfynwyd hefyd fod natur y berthynas rhwng yr aelod a’r Clerc yn achosi buddiant rhagfarnus gan ei fod yn golygu mantais sylweddol i’w ddarpar briod. Roedd y Panel Dyfarnu yn credu y byddai’r buddiant yn effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd o allu’r aelod i wneud penderfyniad er budd y cyhoedd.

Roedd y Panel Dyfarnu wedi nodi eto mai’r cwestiwn hanfodol oedd nid a oedd yr aelod wedi gwneud y penderfyniad heb ragfarn ond a oedd yn ymddangos ei fod wedi gwneud hynny. Cafodd yr aelod ei atal o’i swydd am 3 mis.

**Beth os nad ydw i’n gwybod am fy muddiant personol?**

Dim ond os ydych yn ymwybodol o fuddiant personol neu **os byddai’n rhesymol disgwyl i chi fod yn ymwybodol ohono** y bydd y ddyletswydd i ddatgan buddiant personol mewn cyfarfod yn gymwys. Wrth reswm, nid oes disgwyl i chi ddatgan rhywbeth nad ydych yn ymwybodol ohono. Ni fyddai’n ymarferol disgwyl i chi ymchwilio i gyflogaeth, buddiannau busnes a gweithgareddau eraill eich holl berthnasau a phawb y mae gennych gysylltiad agos â nhw. Fodd bynnag, ni ddylech anwybyddu bodolaeth buddiannau y dylech wedi bod yn ymwybodol ohonynt, o safbwynt sylwedydd rhesymol a gwrthrychol.

Ar ôl datgelu buddiant, cewch aros a chymryd rhan os nad yw'n fuddiant rhagfarnus

## Beth i'w wneud os oes gennych fuddiant personol

## Gweler paragraff 11

Os byddwch yn penderfynu bod gennych fuddiant personol, yna rhaid i chi gymryd y camau canlynol cyn i'r mater gael ei drafod neu cyn gynted ag y daw'n amlwg i chi ac eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig:

- Datgan bod gennych fuddiant personol, a natur y buddiant hwnnw
  - mewn cyfarfodydd
  - wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig (gan gynnwys negeseuon e-bost, ffacs etc.)
  - wrth wneud sylwadau ar lafar, hyd yn oed os yw'ch buddiant ar y gofrestr buddiannau.
- Cadarnhau'ch buddiant drwy neges e-bost neu mewn llythyr i'r swyddog cysylltiedig ac i'r Clerc cyn pen 14 diwrnod
- Ystyried a oes gennych fuddiant rhagfarnus (gweler isod).

Os ydych wedi cytuno â'r Clerc neu Swyddog Monitro fod y wybodaeth am eich buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yna dylech ddatgan bodolaeth y buddiant personol, a chadarnhau bod y Clerc neu Swyddog Monitro wedi cytuno bod y wybodaeth amdano'n sensitif. Mae rhagor o wybodaeth am hyn yn yr adran isod.

Os ydych yn datgan buddiant personol, cewch aros yn y cyfarfod, siarad a phleidleisio ar y mater, **oni bai fod eich buddiant personol hefyd yn fuddiant rhagfarnus**. Mae'r adran nesaf yn amlinellu'r hyn sy'n fuddiant rhagfarnus.

Peidiwch â phenderfynu ar sail eich barn eich hun yn unig - meddyliwch beth fyddai aelod o'r cyhoedd yn ei feddwl

## Buddiannau Rhagfarnus

## Gweler paragraff 12

### Oes gennyf i fuddiant rhagfarnus?

Bydd eich buddiant personol hefyd yn fuddiant rhagfarnus mewn mater os byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd, sy'n gwybod am y ffeithiau perthnasol, feddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o liwio'ch barn ynghylch budd y cyhoedd. Ceir esemptiadau i hyn ym mharagraff 12(2) o'r Cod er bod nifer o'r enghreifftiau'n annhebygol o fod yn berthnasol i fusnes cyngor cymuned.

### Beth sydd mor arwyddocaol fel ei fod yn debygol o liwio'ch barn?

Os byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd sy'n gwybod yr holl ffeithiau perthnasol yn meddwl y gallai'ch barn am y budd i'r cyhoedd fod wedi'i rhagfarnu, yna mae gennych fuddiant sy'n rhagfarnu. **Prawf gwrthrychol** yw hwn. Rhaid i chi benderfynu ar hyn - nid a fyddech yn gwneud y penderfyniad heb ragfarn, ond a ellid gweld eich bod yn gwneud hynny.

Rhaid i chi ofyn i chi'ch hun a fyddai **aelod o'r cyhoedd,** os oedd yn gwybod yr holl ffeithiau perthnasol, yn meddwl bod eich buddiant personol mor arwyddocaol fel y byddai'n debygol o liwio'ch barn. Mewn geiriau eraill, rhaid i'r buddiant ymddangos fel pe bai'n gallu niweidio neu amharu ar eich gallu i farnu budd y cyhoedd.

Fel arfer, ni fydd bodolaeth gwybodaeth leol, neu gysylltiadau o fewn y gymuned leol, yn ddigon ar eu pen eu hunain i fodloni'r prawf. Rhaid cael rhyw ffactor a all niweidio'ch gallu i farnu budd y cyhoedd yn wrthrychol. Mae natur y mater hefyd yn bwysig, gan gynnwys a yw'n effeithio ar nifer mawr o bobl yn yr un modd ynteu a oes effaith benodol arnoch chi neu ar grŵp llai.

Rhaid cofio egwyddorion cyffredinol wrth gymhwyso'r prawf hwn. Mae'n amlwg y dylech weithredu er budd y cyhoedd ac nid er budd pobl y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw. Rydych yn gwarchod y pwrs cyhoeddus a budd y cyhoedd a dylai'ch ymddygiad a'ch penderfyniadau adlewyrchu'r cyfrifoldeb hwn.

Byddai gennych fuddiant rhagfarnus mewn ystyried a phenderfynu ar gais cynllunio os oedd rhywun y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef (er enghraifft, eich mab neu gyfaill agos) yn byw y drws nesaf i'r safle dan sylw. Y rheswm am hyn yw y byddai'r cais yn debygol o gael mwy o effaith ar y sawl y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef nag ar y rhan fwyaf o'r bobl sy'n byw yn ardal eich Cyngor ac mae hyn yn golygu bod gennych fuddiant personol yn y mater. Mae bodolaeth y cyswllt personol agos yn golygu y byddai aelod rhesymol o'r cyhoedd yn gallu meddwl y byddai hyn yn lliwio'ch barn am fudd y cyhoedd wrth ystyried y cais cynllunio. **Nid oes gwahaniaeth a fyddai'n gwneud hynny mewn gwirionedd ai peidio**.

Mewn achosion eraill, lle cafwyd anghydfod rhyngoch chi ac unigolyn y byddai penderfyniad yn gallu bod o anfantais iddo, gallai aelod gwybodus rhesymol o'r cyhoedd gasglu y byddech yn tueddu i bleidleisio'n unol â hynny, boed hynny'n wir ai peidio.

Ni fydd buddiant rhagfarnus gan gynghorwyr cymuned mewn penderfyniadau gan eu Cyngor sy'n ymwneud â grantiau, benthyciadau neu gymorth ariannol arall i grwpiau cymunedol neu sefydliadau gwirfoddol os nad yw'n werth mwy na £500. Ar ben hynny, ni fydd gan gynghorwyr cymuned sydd wedi'u penodi i'r grŵp cymunedol neu'r sefydliad gwirfoddol dan sylw, e.e. bwrdd neuadd gymunedol, gan eu Cyngor Cymuned ddim buddiant sy'n rhagfarnu mewn penderfyniadau a wneir gan eu Cyngor yng nghyswllt unrhyw grantiau, benthyciadau neu gymorth ariannol arall. Ar y llaw arall, os ydych yn aelod o fwrdd o'r fath drwy'ch hawl eich hun a heb gael eich penodi gan eich Cyngor, yna bydd gennych fuddiant rhagfarnus.

## Beth i'w wneud os oes gennych fuddiant rhagfarnus

**Rhaid i chi ddatgan eich buddiant a gadael yr ystafell**

### Gweler paragraff 14

Os ydych yn credu bod gennych fuddiant rhagfarnus ym musnes eich Cyngor, rhaid i chi gymryd camau penodol.

Er hynny, hyd yn oed os oes gennych fuddiant rhagfarnus, mae'r Cod yn cefnogi'ch rôl fel

eiriolwr cymunedol ac yn eich galluogi, mewn rhai amgylchiadau, i gynrychioli'ch cymuned ac i siarad am faterion sy'n bwysig iddyn nhw ac i chi.

**Pwynt allweddol**: Os oes gennych fuddiant rhagfarnus mewn mater sy'n cael ei drafod mewn cyfarfod, ar ôl i chi ddatgan eich buddiant personol yn y mater, rhaid i chi adael yr ystafell (neu unrhyw leoliad arall lle mae'r cyfarfod yn cael ei gynnal gan gynnwys, er enghraifft, lleoliad cyfarfod safle).

**Mae hyn yn berthnasol oni bai fod aelodau o'r cyhoedd yn cael cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau am y mater,** drwy hawl statudol neu fel arall. Os felly, cewch chi hefyd ddod i'r cyfarfod i wneud hynny neu gyflwyno sylwadau drwy lythyr i'r cyfarfod cyhoeddus. Fodd bynnag, os byddwch yn dod i'r cyfarfod, rhaid i chi adael yr ystafell neu'r siambr ar unwaith wedi i'r cyfnod ar gyfer ystyried sylwadau ddod i ben, a chyn dechrau unrhyw drafodaeth am yr eitem, hyd yn oed os yw aelodau o'r cyhoedd yn cael aros. Ni chewch aros yn yr oriel gyhoeddus i wylio'r bleidlais ar y mater.

Ar ben hynny, rhaid i chi beidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad y mae gennych fuddiant rhagfarnus ynddo. Mae'r rheol hon yn debyg i'ch dyletswydd gyffredinol i beidio â defnyddio'ch safle fel aelod yn amhriodol i roi mantais neu anfantais i chi'ch hun neu i rywun arall. Felly, yn ogystal â gadael cyfarfodydd lle mae'r eitem yn cael ei thrafod, ni ddylech ysgrifennu na gwneud sylwadau ar lafar am y mater.

Nid yw'r Cod yn rhoi hawl gyffredinol i chi siarad mewn cyfarfod pan fydd gennych fuddiant rhagfarnus. Mae'r Cod yn ceisio sicrhau bod aelodau'n cael yr un hawliau ag aelodau cyffredin o'r cyhoedd i siarad ar faterion penodol mewn cyfarfodydd, er bod ganddynt fuddiant rhagfarnus. Fel arfer, mae'r hawliau hyn yn cael eu rheoli gan gyfansoddiad, rheolau gweithdrefn neu reolau sefydlog eich Cyngor, a gallent fod yn rhwym wrth amodau gan gynnwys terfynau amser neu'r ffaith mai dim ond yn ysgrifenedig y ceir cyflwyno sylwadau.

Pe byddai aelod cyffredin o'r cyhoedd yn cael siarad mewn cyfarfod am eitem benodol, dylech chi gael yr un cyfle. Byddwch yn gallu gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth, hyd yn oed os oes gennych fuddiant rhagfarnus yn yr eitem. Mae newidiadau diweddar yn y Cod hefyd yn darparu'r hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r cyfarfod cyhoeddus yn yr amgylchiadau hyn. Fodd bynnag, ni chewch gymryd rhan yn y drafodaeth na gwylio'r bleidlais.

### Pryd y bydd yn rhaid i mi adael man y cyfarfod?

Rhaid i chi adael ar unwaith wedi i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau ddod i ben, a chyn dechrau unrhyw drafodaeth.

### Beth mae dylanwadu ar benderfyniad yn ei olygu?

Rhaid i chi beidio â chyflwyno sylwadau na chymryd rhan mewn penderfyniadau y mae gennych fuddiant rhagfarnus ynddynt, ac eithrio lle mae gennych chi hawl i siarad fel yr eglurwyd

uchod.  Gallai'ch presenoldeb yn unig gael ei ystyried yn ffactor a allai ddylanwadu ar y broses penderfynu.

**Beth os na chaiff y cyhoedd siarad yn y cyfarfod am y mater?**

Os na chaiff aelod cyffredin o'r cyhoedd siarad am y mater, ni chewch chi wneud hynny na chyflwyno sylwadau ysgrifenedig os oes gennych fuddiant rhagfarnus. Rhaid i chi adael y man lle cynhelir y ddadl a rhaid i chi beidio â cheisio dylanwadu ar y drafodaeth mewn unrhyw ffordd.

Gall hyn ddigwydd, er enghraifft, pan fydd eich Cyngor yn trafod mater cyfrinachol mewn sesiwn gaeedig neu pan nad oes ganddo reolau gweithdrefn neu reolau sefydlog ar waith sy'n caniatáu i aelodau o'r cyhoedd siarad yn un o gyfarfodydd eich Cyngor.  Yn yr un modd â'r cyhoedd, ni chewch chi gymryd rhan os oes gennych fuddiant rhagfarnus.  Fodd bynnag, os yw'r cyhoedd yn cael eistedd yn yr oriel gyhoeddus i wylio'r cyfarfod, **bydd yn ofynnol i chi adael yr ystafell yn ystod y ddadl a'r bleidlais.**

**Enghraifft**

Cafwyd bod aelod o Gyngor Cymuned wedi torri'r Cod drwy fethu â datgan buddiant personol a rhagfarnus mewn cyfarfod a oedd yn ystyried cais cynllunio am fferm wynt ar dir cyfagos i fferm yr oedd yn berchen arni.  Roedd yr aelod wedi gwneud cytundeb Lesio Hawliau ar ei thir i hwyluso mynediad at y datblygiad arfaethedig.  Ar y dechrau, roedd yr aelod yn dibynnu ar y ffaith bod cymal cyfrinachedd yn y cytundeb hwn i egluro ei gweithredoedd.  Er hynny, roedd yr aelod wedi cymryd rhan mewn pleidlais gudd a gynhaliwyd i benderfynu a fyddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cais.

Yn union cyn y gwrandawiad gerbron y Panel Dyfarnu, derbyniodd yr aelod fod ganddi fuddiant personol yn yr eitem ac wedyn ei fod yn fuddiant rhagfarnus. Penderfynodd y Panel Dyfarnu fod yr aelod wedi methu â chydymffurfio â pharagraffau 11(1) a 14(1) o'r Cod.  Roedd o'r farn bod yr aelod wedi gadael i'w buddiannau personol gael y llaw uchaf a bod cadw'r buddiannau hynny'n breifat yn groes i'w dyletswyddau a chyfrifoldebau fel aelod etholedig.  Cafodd ei hatal o'i swydd am 3 mis.

## Goddefebau

**Os oes gennyf fuddiant rhagfarnus, a allaf gael goddefeb i ganiatáu i mi gymryd rhan yn y cyfarfod?**

Gallwch wneud cais ysgrifenedig i Bwyllgor Safonau eich Cyngor Sir am oddefeb ar un neu ragor o'r seiliau canlynol:

- y byddai o leiaf 50 y cant o aelodau'r Cyngor neu'r Pwyllgor yn cael eu hatal rhag cymryd rhan lawn mewn cyfarfod oherwydd buddiannau rhagfarnus

# 4. Cofrestru Buddiannau

## Gweler paragraff 15
## Pwyntiau allweddol

Mae'n ofynnol i gynghorau cymuned gadw a chyhoeddi cofnod o fuddiannau eu haelodau mewn cofrestr o fuddiannau a gyhoeddir yn electronig. Mae'r cofnod hwn yn cael ei gadw gan eich Clerc. Mae'r gofrestr yn ddogfen y gellir ei chwilio pan fydd mater yn codi (neu cyn hynny), ac felly mae'n gadael i bobl eraill wybod pa fuddiannau sydd gennych, ac a allent arwain at wrthdaro buddiannau posibl.

Mae'r gofrestr yn eich amddiffyn chi hefyd. Chi sy'n gyfrifol am benderfynu a fyddwch yn datgan buddiant mewn cyfarfod, ond gall fod o gymorth i chi wybod yn gynnar a yw pobl eraill yn credu y gellid cael gwrthdaro buddiannau. Mae hefyd yn bwysig bod y cyhoedd yn gwybod am unrhyw fuddiant y byddwch chi neu aelodau eraill yn gorfod ei ddatgan, fel bod y cyhoedd yn gallu gweld bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn ffordd agored a gonest. Mae hyn yn helpu i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn uniondeb llywodraethu lleol.

O ganlyniad i newidiadau diweddar yn y Cod, mae hefyd yn ofynnol, pan ddewch i wybod am newid mewn buddiant personol a gofrestrwyd, eich bod yn cofrestru'r newid hwnnw drwy hysbysu'ch Clerc drwy lythyr cyn pen 28 diwrnod. Mae hefyd yn ofynnol, wrth ddatgelu buddiant personol am y tro cyntaf, eich bod yn ei gofrestru yn y gofrestr buddiannau drwy hysbysu'r Clerc drwy lythyr.

## Rhoddion a lletygarwch
## Gweler paragraff 17
### Pwyntiau allweddol

Rhaid i chi hysbysu'ch Clerc am unrhyw roddion neu letygarwch sy'n werth mwy na'r swm a bennwyd gan eich Cyngor a gewch yng nghyswllt eich dyletswyddau swyddogol fel aelod, ynghyd â ffynhonnell y rhodd neu'r lletygarwch.

Yn yr un modd â buddiannau eraill yn eich cofrestr buddiannau, gall fod gennych **fuddiant personol** mewn mater sy'n cael ei ystyried os yw'n debygol o effeithio ar berson a roddodd rodd neu letygarwch i chi sydd wedi'i gofrestru. Os felly, rhaid i chi ddatgan bodolaeth a natur y rhodd neu'r lletygarwch, y person a'i rhoddodd i chi, sut y mae'r mater dan sylw yn berthnasol i'r person hwnnw ac wedyn penderfynu a yw'r buddiant hwnnw hefyd yn **fuddiant rhagfarnus.** Mae hefyd yn arfer da darparu nodyn am unrhyw gynigion o roddion rydych wedi'u gwrthod.

**A yw'r rhodd neu'r lletygarwch yn gysylltiedig â'm dyletswyddau swyddogol fel aelod?**
Dylech ofyn i chi'ch hun, a fyddwn i wedi cael y rhodd hon pe na bawn i ar y Cyngor? Os nad ydych chi'n siŵr o'r cymhelliant y tu ôl i rodd neu letygarwch, rwyf yn argymell eich bod yn ei gofrestru neu'n siarad â'ch Clerc.

Nid oes angen i chi hysbysu'r Clerc am roddion a lletygarwch nad ydynt yn berthnasol i'ch rôl fel aelod, fel anrhegion Nadolig gan eich ffrindiau a'ch teulu, na rhoddion nad ydych yn eu derbyn. Fodd bynnag, dylech bob amser hysbysu'r Clerc am rodd neu letygarwch os byddai modd i bobl ei weld yn rhywbeth a roddwyd i chi oherwydd eich safle neu os yw eich Cyngor yn mynnu eich bod yn gwneud hynny.

**Beth os nad wyf yn gwybod beth yw gwerth rhodd neu letygarwch?**
Yn gyffredinol, os nad ydych yn siŵr o werth rhodd neu letygarwch, dylech hysbysu'r Clerc amdano, fel mater o arfer da ac yn unol â'r egwyddorion o fod yn agored ac yn atebol mewn bywyd cyhoeddus.


Efallai y bydd yn rhaid i chi amcangyfrif gwerth y rhodd neu'r lletygarwch.  Hefyd, os ydych wedi cael nifer o roddion bach o'r un ffynhonnell dros gyfnod byr sydd, gyda'i gilydd, yn cyrraedd y gwerth a bennwyd gan eich Cyngor, dylech gofrestru hynny.

Mae'r Cod hefyd yn cyfeirio at fuddiant neu fantais faterol.  Y ffordd o fesur hyn yw meddwl a fyddai sylwedydd annibynnol gwybodus yn gallu dod i'r casgliad y gellid gweld eich bod ar eich ennill o ganlyniad.

# Atodiad 1

## Datganiad o fuddiannau personol a buddiannau sy'n rhagfarnu

**Cwestiynau i ofyn i chi'ch hun. Os nad ydych yn siŵr, holwch eich Clerc neu eich Swyddog Monitro.**



## Mwy o wybodaeth

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Medi, 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Nodyn Briffio i Aelodau - Newidiadau Statudol i'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd i'r Pwyllgor Safonau ar nodyn briffio arfaethedig i'r Aelodau ynghylch y newidiadau statudol i'r Côd Ymddygiad** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyfreithiwr - Llywodraethu Corfforaethol** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Mared Wyn Yaxley mwycs@ynysmon.gov.uk 01248 752566** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

A) Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a chynghorau cymuned / tref yng Nghymru fabwysiadu côd ymddygiad statudol sy'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau ac aelodau cyfetholedig.

B) Gwnaed newidiadau statudol i'r Côd Ymddygiad Enghreifftiol a gyflwynwyd yn 2008.

C) Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r Côd Ymddygiad diwygiedig ar 12 Mai 2016.

Ch) Mae **Atodiad 1** ynghlwm yn cynnwys Nodyn Briffio drafft i'r Aelodau yn rhoi gwybod iddynt am y newidiadau statudol i'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau.

## 2. ARGYMHELLIAD

A) Nodi cynnwys y Nodyn Briffio.

B) Cadarnhau y gellir dosbarthu'r Nodyn Briffio i'r Aelodau Etholedig yn enw'r Pwyllgor Safonau.

**Atodiad 1**

**NODYN BRIFFIO**
**Newidiadau Statudol i'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau**

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Rhaid i awdurdodau lleol a chynghorau cymuned lleol yng Nghymru fabwysiadu côd ymddygiad statudol sy'n nodi'r ymddygiad a ddisgwylir gan aelodau ac aelodau cyfetholedig. Fel aelod etholedig, rydych wedi darparu ymrwymiad ysgrifenedig i lynu wrth ofynion côd ymddygiad yr awdurdod lleol hwn yn ystod eich cyfnod yn y swydd.

Mae "Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol )(Cymru) (Diwygiad) 2016" a "Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygiad) 2016" wedi gwneud newidiadau i'r Côd Ymddygiad Enghreifftiol a gyflwynwyd yn 2008. Mabwysiadwyd y newidiadau hyn i'r Côd gan y Cyngor hwn ar 12 Mai 2016. Mae newidiadau eraill, sy'n dod i rym yn awtomatig ac nad oes angen i'r Cyngor eu mabwysiadu, wedi eu crynhoi isod.

## 2. CRYNODEB O'R NEWIDIADAU

I'ch cynorthwyo gyda'ch dyletswydd fel Aelod, mae'r canlynol yn grynodeb o'r newidiadau sy'n codi o'r ddeddfwriaeth newydd: -

### 2.1 COSBAU

Mae'r cyfnod gwaharddiad a bennir gan bwyllgor safonau wedi ei gyfyngu i gyfnod nad yw'n hwy na chwe mis, neu i weddill cyfnod yr Aelod yn y swydd os yw'n llai na 6 mis. Felly, os gwaherddir Aelod am 6 mis, ond dim ond 2 fis ar ôl o'r cyfnod yn y swydd, dim ond gwaharddiad o 2 fis a roddir i'r Aelod.

### 2.2 CANIATÂD I APELIO

Mae'n rhaid i chi ofyn am ganiatâd Llywydd Panel Dyfarnu Cymru er mwyn apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau.

### 2.3 RHOI GWYBOD AM ACHOS O DORRI'R CÔD

Os byddwch yn credu'n rhesymol bod y Côd wedi ei dorri, mae'n rhaid i chi roi gwybod am hynny i'r Swyddog Monitro. Mae'r rheidrwydd arnoch i roi gwybod am achos posib o dorri'r Côd i'r Ombwdsmon wedi ei ddileu, er y gall y Swyddogion Monitro barhau i'ch cynghori i wneud hynny.

### 2.4 DIDDORDEB PERSONOL – MATERION WARD AC AWDURDOD

Mae'r ddarpariaeth diddordeb personol ynghylch gwrthdaro ymddangosiadol rhwng rôl yr Aelod yn ei ward a'r penderfyniadau a wneir ar ran yr Awdurdod wedi cael ei dileu. Fodd bynnag, fe'ch atgoffir, o ran dod i benderfyniadau mewn ffordd wrthrychol, erys gofyniad i chi ddod i benderfyniadau gyda meddwl agored ac i wneud penderfyniadau ar sail y ffeithiau sydd o'ch blaen. Mae'r gofyniad i beidio â bod wedi penderfynu ymlaen llaw wedi ei ymestyn i gynnwys materion mewn perthynas â wardiau hefyd.

## 2.5 DIDDORDEB PERSONOL A DIDDORDEB SY'N RHAGFARNU - SYLWADAU YSGRIFENEDIG

Pan fydd gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu, gallwch barhau i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r cyfarfod mewn perthynas â'r busnes hwnnw ar yr amod bod y cyhoedd yn gyffredinol yn cael cyflwyno sylwadau, rhoi tystiolaeth neu ateb cwestiynau am y mater yn y cyfarfod hwnnw. Mae'r rheolau presennol yn dal i fod mewn grym o ran eich presenoldeb yn y cyfarfod; ar ôl gwneud cyflwyniadau rhaid i chi adael yr ystafell neu'r siambr cyn i unrhyw drafodaeth gychwyn ar yr eitem. Os nad yw'r cyhoedd yn cael siarad ar y mater rhaid i chi nodi na chewch chi wneud hynny 'chwaith na chyflwyno sylwadau ysgrifenedig.

## 2.6 CANIATADAU ARBENNIG

Mae categori caniatâd cyffredinol newydd wedi ei gyflwyno. Mae'r ddarpariaeth newydd yn rhoi grym i bwyllgor safonau roi caniatâd arbennig i adael i aelod gymryd rhan mewn cyfarfod os oes ganddo ef / hi ddiddordeb sy'n rhagfarnu os yw'r pwyllgor safonau yn ystyried bod hynny'n briodol o dan yr holl amgylchiadau.

## 2.7 COFRESTR O DDIDDORDEBAU

Mae'r gofynion ar gyfer cofrestru diddordebau yn cael eu hegluro, i'w gwneud yn ofynnol i gofnodi unrhyw ddiddordeb a ddatgelir am y tro cyntaf yn y gofrestr o ddiddordebau aelodau cyn pen 28 diwrnod. Mae'r gofyniad hwn yn ychwanegol at unrhyw newidiadau i ddiddordebau sydd eisoes wedi eu cofrestru; mae'n rhaid diweddaru 'rhain cyn pen 28 niwrnod i unrhyw newid hefyd.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau mewn perthynas â'r Nodyn Briffio hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda Mared Wyn Yaxley ar mwycs@ynysmon.gov.uk neu drwy ffonio 01248 752566

This page is intentionally left blank

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATE**

**PWYLLGOR SAFONAU – 14.09.2016 – STANDARDS COMMITTEE**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cynghorydd Sir / County Councillor | Prif Weithredwr / Chief Executive | (i )18858<br>(ii) 201505105 | 11.12.2015 | Canfyddiad wedi ei wneud, dim angen cymryd unrhyw gamau pellach a'r ymchwiliad wedi dod i ben. / Finding made, no further action required and investigation discontinued. |

This page is intentionally left blank

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON – "O" – AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO YNGHYLCH CYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" - REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS – UPDATE**

**PWYLLGOR SAFONAU – 14.09.2016 – STANDARDS COMMITTEE**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br><br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br><br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Dim / Nil | Dim / Nil | Dim / Nil | Dim / Nil | Dim / Nil |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Medi 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Canfyddiadau Panel Dyfarnu Cymru 2013-2014, 2014-2015 a 2015-2016** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu gwybodaeth ar y materion y rhoddwyd sylw iddynt gan Banel Dyfarnu Cymru** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyfreithiwr - Llywodraethu Corfforaethol** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Mared Wyn Yaxley, mwycs@ynysmon.gov.uk 01248 752566** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Sefydlwyd Panel Dyfarnu Cymru yn unol o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac mae iddo ddwy swyddogaeth statudol:-

- Ffurfio tribiwnlysoedd achos neu dribiwnlysoedd achos dros dro i ystyried adroddiadau gan yr Ombwdsmon yn dilyn ymchwiliadau i honiadau bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chôd ymddygiad eu hawdurdod; ac
- Ystyried apeliadau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau awdurdodau lleol eu bod wedi torri'r côd ymddygiad (yn ogystal â phenderfynu os y rhoddir caniatâd i apelio yn y lle cyntaf)

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys penderfyniadau a wnaed gan y Panel Dyfarnu am y cyfnod 2013-2014, 2014-2015 a 2015-2016 ac fe'i bwriedir fel crynodeb ffeithiol o'r materion sy'n dod gerbron y Panel Dyfarnu. Ni fydd yn disodli'r adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor pan fydd Panel Dyfarnu yn rhoi sylw I gwyn sy'n ymwneud â Chyngor Sir Ynys Môn.

## 2. 2013-2014

Nodwch gynnwys **Atodiad 1**.

### 2.1 Penderfyniadau a wnaed

12/07/2013 – Cyngor Sir Ceredigion – APW/008/2012-013/CT

19/07/2013 – Cyngor Sir y Fflint – APW/005/2010-011/CT

### 2.2 Apeliadau a ddyfarnwyd

15/05/2013 –Cyngor Cymuned Y Mwmbwls – APW/009/2012-013/AT

**3. 2014-2015**

Nodwch gynnwys **Atodiad 2.**

**3.1 Penderfyniadau a wnaed**

Dim

**3.2 Apeliadau a ddyfarnwyd**

22/01/2015 –Cyngor Cymuned Sully a Lavernock – APW/001/2014-015/AT

**4. 2015-2016**

Nodwch gynnwys **Atodiad 3**.

4.1 **Penderfyniadau a wnaed**

13/08/2015 – Cyngor Cymuned Llanfihangel ar Arth – APW/002/2014-015/CT

11/03/2016 – Cyngor Cymuned Magor ac Undy – APW/001/2015-016/CT

**4.2 Apeliadau a ddyfarnwyd**

10/09/2015 –Cyngor Sir Ynys Môn – APW/003/2014-15/AT

**ATODIAD / ENCLOSURE**

**1**

## Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achosion 2013-2014
## Summary of Cases in Tribunal 2013-2014



| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaeth Perthnasol o'r Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Darganfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyngh David Evans | Honiad fod y Cynghorydd Evans wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir Ceredigion drwy wneud cais am dreuliau nad oedd ganddo hawl iddynt a'i fod wedi elwa'n ariannol drwy orddweud ei hawliadau milltiroedd a chynhaliaeth dros gyfnod o 11 mlynedd.<br><br>Cynghorodd GEG yr Heddlu na ddylid cymryd unrhyw gamau pellach.<br><br>Yn unol â dymuniadau'r Cynghorydd Evans, ni wnaed unrhyw ddatganiad ar lafar i'r tribiwnlys a gwnaed y penderfyniad drwy gynrychioliadau ysgrifenedig. | Torri amodau paragraffau 6(1)(a), 7(a), 9(a) y Cod Ymddygiad. | Gwaharddiad am 3 mis. | Daeth y Tribiwnlys i benderfyniad unfrydol fod Mr Evans wedi methu â chydymffurfio â rheolau'r cynllun a'i fod wedi gorhawlio costau milltiroedd, wedi hawlio costau milltiroedd pan na ddefnyddiodd ei gerbyd, wedi hawlio costau milltiroedd er ei fod wedi defnyddio dull arall o deithio a'i fod wedi cynnwys costau bwyty ei wraig yng nghostau treuliau ei hun.<br><br>Mr Evans ei hun oedd yn gyfrifol am lenwi ei ffurflenni treuliau yn gywir. Roedd Mr Evans ond â hawl i gyflwyno hawliadau yn unol â rheolau'r cynllun a oedd mewn grym ar y pryd. |
| Cyngh Patrick Heesom | Honiad fod y Cynghorydd Heesom wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Sir y Fflint drwy fethu â dangos parch ac ystyriaeth tuag at Swyddogion y Cyngor; ymddwyn mewn ffordd a ystyriwyd yn fwlio neu'n aflonyddu, ceisio cyfaddawdu amhleidioldeb swyddogion a, drwy wneud hynny, ymddwyn mewn modd a oedd yn debygol o ddwyn gwarth ar ei swyddfa neu'r Cyngor. | Torri amodau paragraffau4(a), 4(b), 6(i)(b) Cod Ymddygiad 2001 a pharagraffau 4(b), 4(c) a 4(d) Cod Ymddygiad 2008 | Gwaharddiad am 2 flynedd a 6 mis *<br><br>(* apêl i'r Uchel Lys ac fe gwtogwyd y gwaharddiad i 18 mis) | Roedd y Cynghorydd Heesom wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill ac wedi ymddwyn mewn ffordd a ystyriwyd yn fwlio tuag at swyddogion eraill.<br><br>Fodd bynnag, apeliwyd yn erbyn penderfyniad y tribiwnlys i'r Uchel Lys. Gwrthododd yr Uchel Lys yr apêl o ran dyfarniadau'r tribiwnlys heblaw am ar 3 dyfarniad a gafodd eu dileu. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaeth Perthnasol o'r Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Darganfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | Bygwth swyddogion gan ddweud pethau fel "her days are numbered," bod yn wrthdrawiadol ac yn ymosodol; ceisio tanseilio swyddogion gan ddweud pethau fel "X is shit at her job."<br><br>Nodwyd yr achosion hyn o ymddygiad rhwng 14/02/2007 a 25/02/2009. | | | Bu'r Uchel Lys leihau'r gosb o waharddiad 2 flynedd a hanner i waharddiad 18 mis. |

Tudalen 126

## Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl 2013-2014
## Summary of Appeal Tribunals 2013-2014

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaeth Perthnasol o'r Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Darganfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyngh John Cooper | Cyflwynwyd apêl yn erbyn penderfyniad Is-bwyllgor Safonau Cyngor Tref a Chymuned Dinas a Sir Abertawe fod y Cynghorydd wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned y Mwmbwls ac y dylai gael ei wahardd am 18 wythnos.<br><br>Roedd yr achos yn ymwneud â honiadau fod y Cynghorydd wedi torri amodau paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad drwy wneud datganiadau camarweiniol am ei asedau personol i Dribiwnlys Cyflogaeth tra roedd y Tribiwnlys Cyflogaeth hwnnw yn ystyried ei atebolrwydd am gostau ac felly roedd wedi camarwain y Tribiwnlys Cyflogaeth ac o ganlyniad wedi dwyn gwarth ar y swyddfa neu'r awdurdod. | Torri amodau paragraff 6(1)(a) y Cod Ymddygiad | Penderfynodd y Tribiwnlys Apêl yn unfrydol i gadarnhau penderfyniad y Pwyllgor Safonau i wahardd y Cynghorydd am gyfnod o 18 wythnos. | Penderfynodd y Tribiwnlys Apêl fod y Cynghorydd Cooper wedi dwyn gwarth ar ei swyddfa a'i awdurdod drwy ei weithredoedd a bod gan y cyhoedd yr hawl i ddisgwyl safon uwch o ymddygiad gan aelodau etholedig. Roedd y Tribiwnlys Apêl yn ystyried y toriad yn un difrifol o ran bod y Cynghorydd wedi mynd ati i gamarwain Tribiwnlys Cyflogaeth ac fe aeth hyn i galon ei integriti.<br><br>Roedd yn berchennog eiddo a oedd yn cael ei ystyried yn ased ac fe ddylai fod wedi'i ddatgan, er bod yr eiddo mewn ecwiti negyddol.<br><br>Ni dderbyniwyd dadl y Cynghorydd Cooper nad oedd y Cod yn berthnasol gan fod y Tribiwnlys Cyflogaeth yn fater sifil nad oedd yn berthnasol i'w rôl fel Cynghorydd. |

## ATODIAD / ENCLOSURE

## 2

**Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achosion 2014-2015**
**Summary of Cases in Tribunal 2014-2015**

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaeth Perthnasol o'r Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Darganfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| Dim achosion mewn Tribiwnlysoedd | | | | |

# Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl 2014-2015
# Summary of Appeal Tribunals 2014-2015

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaeth Perthnasol o'r Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Darganfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cyngh Lino Scaglioni | Cyflwynwyd apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Bro Morgannwg fod y Cynghorydd wedi torri Cod Cyngor Cymuned Sully a Lavernock ac y dylid ei wahardd am gyfnod o chwe mis.<br><br>Roedd yr achos yn cynnwys honiadau bod y Cynghorydd wedi torri amodau paragraffau 4(b) a 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad drwy fethu â dangos parch ac ystyriaeth tuag at gynghorydd arall. Honnwyd fod y Cynghorydd Scaglioni wedi anfon negeseuon e-bost a oedd yn cyfeirio at y Cynghorydd arall mewn modd a oedd yn ei fychanu, at aelodau arall o'r cyngor cymuned ac aelod o'r cyhoedd. Honnwyd hefyd fod ei ymddygiad yn dwyn gwarth ar y swyddfa.<br><br>Yn unol â dymuniadau'r Cynghorydd Scaglioni, ni wnaed unrhyw gynrychioliadau ar lafar i'w Tribiwnlys a gwnaed penderfyniad drwy gynrychioliadau ysgrifenedig. | Torri amodau paragraffau 4(b) a 6(i)(a) o'r Cod Ymddygiad. | Penderfyniad unfrydol i wrthdroi penderfyniad Pwyllgor Safonau Bro Morgannwg; nid oedd methiant i gydymffurfio â chod ymddygiad y cyngor cymuned. | Roedd y Cynghorydd Scaglioni wedi anfon 4 e-bost a oedd yn cynnwys sylwadau am y Cynghorydd Mahoney<br>• Penderfynwyd bod E-bost gan y Cynghorydd Scaglioni i'r Cynghorydd Mahoney a oedd wedi'i farcio'n breifat ac a oedd yn dechrau 'Kevin' ac yn gorffen 'Lino'; a anfonwyd o gyfrif e-bost Cymdeithas Trigolion Sully, wedi'i anfon mewn capasiti preifat.<br>• Penderfynwyd fod e-bost arall a anfonwyd o gyfeiriad e-bost Cymdeithas Trigolion Sully ond a oedd yn dechrau 'Cynghorydd Mahoney' ac a arwyddwyd 'Lino Scaglioni' ac a oedd yn cyfeirio at fusnes y Cyngor ac a anfonwyd i aelodau eraill o'r cyngor, wedi'i anfon mewn capasiti swyddogol.<br><br>Ystyriodd y Tribiwnlys a oedd y negeseuon e-bost wedi'u gwarchod o dan Erthygl 10 o'r ECHR (sylwadau o fath gwleidyddol). Wrth drafod galluoedd y Cynghorydd Mahoney a'i gyflawniadau fel Cynghorydd ac ymddygiad y Cyngor, penderfynwyd mai sylwadau gwleidyddol oeddent. |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaeth Perthnasol o'r Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Darganfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Roedd y Cynghorydd Mahoney yn gynghorydd sir yn ogystal â chynghorydd cymunedol ac fe nododd y Tribiwnlys y dylai fod wedi arfer â gwrthdaro wrth gyfnewid safbwyntiau.<br><br>Nid oedd atal y Cynghorydd Mahoney rhag gallu cyfathrebu â chlerc y Cyngor yn fethiant i ddangos parch ond gan yr ystyriwyd y gallai'r Cynghorydd Mahoney fod yn 'anodd' ar adegau, penderfynwyd ei fod yn ymgais wirioneddol i geisio amddiffyn y clerc rhag negeseuon e-bost amhriodol. |

**ATODIAD / ENCLOSURE**

**3**

**Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Achosion 2015-2016**
**Summary of Cases in Tribunal 2015-2016**

| **Enw** | **Crynodeb o'r Ffeithiau** | **Darpariaeth Perthnasol o'r Cod** | **Crynodeb o'r Penderfyniad** | **Darganfyddiadau** |
|---|---|---|---|---|
| Cyngh Paul Cawley | Honiad fod y Cynghorydd Cawley wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned Magor ac Undy drwy beidio â datgan diddordeb neu adael y cyfarfodydd tra roedd pecyn tâl y Clerc yn cael ei ystyried. Roedd y Cynghorydd Cawley a'r Clerc mewn perthynas a gwnaethant briodi rhyw 6 mis yn ddiweddarach. | Torri amodau paragraffau 6(1)(a) a 14(1)(a) o'r Cod Ymddygiad | Penderfyniad unfrydol y dylai'r Cynghorydd Cawley gael ei wahardd am gyfnod o 3 mis.<br><br>Gwnaed argymhelliad i Gyngor Cymuned Magor ac Undy y dylai'r Cynghorydd Cawley dderbyn hyfforddiant pellach cyn dychwelyd. | Nid awgrymodd yr Ombwdsmon fod y Cynghorydd Cawley wedi camddefnyddio ei sefyllfa er mwyn cael mantais ond roedd y ffaith iddo aros yn y cyfarfod i drafod pecyn tâl y clerc, o gofio ei briodas a oedd ar y gorwel, yn niweidiol i hyder y cyhoedd yn y Cyngor.<br>Fe ddylai'r Cynghorydd fod wedi datgan diddordeb personol a rhagfarnus ac fe ddylai fod wedi gadael y cyfarfod.<br>Nid oedd y ffaith nad oedd y Cynghorydd a'r Clerc yn byw gyda'i gilydd ar y pryd yn berthnasol - roedd yn ffaith eu bod wedi bod mewn perthynas ers rhai misoedd a'u bod wedi dyweddïo.<br><br>Roedd y cyfarfod yn trafod pecyn tâl y Clerc a rhoddwyd ystyriaeth i godiad cyflog sylweddol. Roedd diddordeb y Cynghorydd Cawley yn un a fyddai'n effeithio ar farn y cyhoedd am ei allu i wneud penderfyniad gan fod codiad cyflog sylweddol yn cael ei ystyried, rhywbeth a fyddai'n elwa ei ddarpar wraig. |

Tudalen 132

CC-19486-MY/331906

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaeth Perthnasol o'r Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Darganfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Roedd gan y Cynghorydd Cawley ddiddordeb yn y mater a oedd yn cael ei drafod ac fe ddylai fod wedi gadael yr ystafell er mwyn sicrhau na ellid fod wedi beirniadu'r broses o gwbl.<br><br>Drwy aros yn y cyfarfod fe allai fod wedi rhoi'r argraff o amhriodoldeb i'r cyhoedd er unrhyw gwynion a wnaed . Y prawf yw, nid a fyddai'r Cynghorydd Cawley wedi gwneud y penderfyniad heb unrhyw ragfarn ond a fyddai'n cael ei weld i fod yn gwneud hynny. Mae'r gŵyn gan aelod o'r cyhoedd yn atgyfnerthu'r ffaith bod gweithredoedd y Cynghorydd Cawley wedi cael effaith negyddol ar yr awdurdod a'i uniondeb o ran y broses gwneud penderfyniadau. |
| Cynghorydd Haulwen Lewis | Honiad fod y Cynghorydd Lewis wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Cymuned Llanfihangel ar Arth drwy fethu â datgan diddordeb personol a rhagfarnus mewn cyfarfod o'r Cyngor Cymuned lle'r oedd cais cynllunio ar gyfer fferm wynt ar dir dros ffordd i fferm mae hi'n berchen arni yn cael ei ystyried. Roedd pleidlais gudd yn cael ei chynnal er mwyn penderfynu a fyddai'r Cyngor Cymuned yn cefnogi neu'n gwrthwynebu'r cais. | Torri amodau paragraffau 10(1), 10(2), 11(1), 14(1), 15(1) a 15(2) y Cod Ymddygiad. | Gwaharddiad am gyfnod o 3 mis. | Roedd y Cynghorydd Lewis wedi anwybyddu'r cyfle i ddatgan diddordeb ar dri achlysur gwahanol yn ystod y cyfarfod.<br><br>Ystyriwyd hyn yn gamgymeriad sylweddol ac fe ychwanegodd at hynny drwy fethu â derbyn ei hanawsterau yn "y ffordd gwbl afresymol y cynhaliodd ei hymateb i'r gŵyn, canfyddiadau'r Ombwdsman a'r gweithdrefnau cyn y Tribiwnlys". |

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaeth Perthnasol o'r Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Darganfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| | Roedd y Cynghorydd wedi arwyddo contract lle byddai'n derbyn swm o tua miliwn o bunnoedd dros y 30 mlynedd nesaf gan weithredwr y fferm wynt. Roedd y Cynghorydd a'i gŵr wedi derbyn £25,000 er mwyn arwyddo'r cytundeb cychwynnol.<br><br>Ni wnaeth y Cynghorydd ddatgan diddordeb. Ni wnaeth y Cynghorydd adael y cyfarfod, fe gymerodd ran yn y bleidlais drwy ddewis ymatal ei phleidlais.<br><br>Nid oedd cymal cyfrinachedd o fewn y Cytundeb yn ddigon o reswm iddi, fel Cynghorydd, i beidio â datgelu bodolaeth y cytundeb yn y cyfarfod. | | | Ystyriodd y Tribiwnlys y gellid cyfiawnhau gwaharddiad o 6 mis ond o ystyried hawliau'r Cynghorydd o dan Erthygl 10 ECHR,hanerwyd y gosb. |

# Crynodeb o'r Tribiwnlysoedd Apêl 2015-2016
# Summary of Appeal Tribunals 2015-2016

| Enw | Crynodeb o'r Ffeithiau | Darpariaeth Perthnasol o'r Cod | Crynodeb o'r Penderfyniad | Darganfyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Peter Rogers | Cyflwynwyd apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Ynys Môn ei fod wedi torri Cod Ymddygiad Cyngor Ynys Môn ac y dylid ei wahardd am gyfnod o fis.<br><br>Roedd yr achos yn cynnwys gwerthiant tir lle methodd y Cynghorydd Rogers a datgan perthynas bersonol agos â darpar brynwr y tir wrth gyfathrebu â Swyddogion y Cyngor ac fe gamddefnyddiodd ei sefyllfa fel aelod er mwyn sicrhau mantais i'r darpar brynwr.<br><br>Roedd Mr Rogers a Mr Geal yn nabod ei gilydd ers 40 mlynedd; maent yn ffrindiau a byddent yn gweld ei gilydd bron bob dydd gan eu bod yn byw ar ffermydd cyfagos a gan fod merch Mr Geal yn briod â mab Mr Rogers. | Torri amodau paragraffau 10(1), 11(1), 11(2)(a) a 11(4) y Cod Ymddygiad | Penderfyniad unfrydol y dylid cyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor Safonau gyda'r argymhelliad y dylid gwahardd y Cynghorydd Rogers am 3 mis. | Roedd perthynas Mr Rogers a Mr Geal yn un y gellid ei diffinio fel perthynas agos yn ôl ystyr y Cod.<br><br>Roedd Mr Rogers yn gweithredu yn ei gapasiti ffurfiol a gadarnhawyd gan ei ddatganiad "you will fully understand my role which is as a Councillor".<br><br>Golygodd tynnu'r cyfamod cyfyngu a gosod cyfamod gorswm, fel yr awgrymwyd gan Mr Rogers, fod Mr Geal wedi llwyddo i brynu'r tir heb unrhyw gyfyngiadau ar ei ddefnydd.<br><br>Torrwyd y Cod Ymddygiad dros gyfnod maith o amser rhwng Mawrth 2012 ac Awst 2013.<br><br>Roed y gwaharddiad gwreiddiol am gyfnod o fis. Yr argymhelliad oedd y dylid ymestyn y cyfnod hwnnw i 3 mis. |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Medi, 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru – Cyfarfod 17.10.16** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu manylion am gyfarfod nesaf Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyfreithiwr - Llywodraethu Corfforaethol** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Mared Wyn Yaxley; mwycs@ynysmon.gov.uk ; 01248 752566** |

## 1. RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Mae Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru yn cynnwys holl Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion pob Pwyllgor Safonau yng Ngogledd Cymru a'u cynrychiolwyr o awdurdodau unedol, y Gwasanaeth Tân ac Achub ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

## 2. CYFARFOD NESAF Y FFORWM

Mae cyfarfod nesaf Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru wedi ei drefnu ar gyfer dydd Llun 17 Hydref 2016 i'w gynnal yn Ystafell Bwyllgor 1 yn swyddfeydd Cyngor Sir Ynys Môn yn Llangefni. Trefnwyd i'r cyfarfod ddechrau am 11:00am a bydd te / coffi ar gael o 10:30am.

Bydd Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn bresennol yn y cyfarfod hwn. Bydd yn rhoi cyflwyniad ar 'Ddatrysiad Lleol' a bydd yn cymryd rhan wedyn mewn sesiwn holi ac ateb.

Yn wyneb y ffaith y bydd yr Ombwdsmon yn bresennol a bod y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Ynys Môn, mae aelodau eraill y Fforwm wedi cytuno bod y gwahoddiad i fynychu'r cyfarfod yn cael ei ymestyn i gynnwys pob aelod o Bwyllgor Safonau'r Awdurdod hwn.

## 3. GWAITH PARATOI

Os yw aelodau'r Pwyllgor Safonau'n dymuno mynychu'r cyfarfod ar 17 Hydref, cadarnhewch eich presenoldeb os gwelwch yn dda gyda Mared Yaxley drwy anfon e-bost at mwycs@ynysmon.gov.uk neu drwy ffonio 01248 752566.

Fel y nodwyd, bydd cyflwyniad yr Ombwdsmon ar 'Ddatrysiad Lleol'. Fel cefndir, ‘rwyf yn amgáu, yn **Atodiad 1,** Brotocol Datrysiad Lleol y Cyngor hwn. Datblygwyd y Protocol Datrysiad Lleol gan ddilyn canllawiau a gyhoeddwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Nododd yr Ombwdsmon ei fod yn disgwyl i holl Awdurdodau Lleol Cymru fabwysiadu gweithdrefn i fynd i'r afael â chwynion lefel isel ynghylch achosion o dorri'r Côd Ymddygiad. Nid oes Protocol safonol nac unrhyw ganllawiau sy'n rhoi unrhyw fanylion ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys yn y Protocol Datrysiad Lleol ac felly gall Protocol Datrysiad Lleol pob awdurdod lleol fod yn wahanol. Mae cydymffurfiaeth Aelodau â'r Protocol Hunanreoleiddiol yn wirfoddol.

Pe byddai aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn hoffi gofyn unrhyw gwestiynau i'r Ombwdsmon yn y cyfarfod, anfonwch nhw at Mared Yaxley erbyn dydd Mawrth 4 Hydref 2016 os gwelwch yn dda. Wrth gwrs, bydd unrhyw gwestiynau sy'n codi o'r cyflwyniad ar sail ad-hoc.

## 4. ARGYMHELLIAD

A. Nodi’r adroddiad hwn a'r gwahoddiad i fynychu cyfarfod nesaf Fforwm Pwyllgor Safonau Gogledd Cymru gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ddydd Llun 17 Hydref 2016 am 11:00am yn Ystafell Bwyllgor 1, Cyngor Sir Ynys Môn, Llangefni.

B. Cadarnhau presenoldeb yng nghyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ar 17.10.2016 gyda Mared Yaxley ar mwycs@ynysmon.gov.uk neu drwy ffonio 01248 752566 cyn gynted â phosib.

C. Anfon unrhyw gwestiynau ar gyfer yr Ombwdsmon yng nghyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ar 17.10.2016 at Mared Yaxley ar mwycs@ynysmon.gov.uk erbyn dydd Mawrth 4 Hydref 2016.

**ATODIAD / ENCLOSURE**

**1**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

**Cyffredinol**

1. Pwrpas y Protocol yw hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad, gyda golwg ar feithrin perthnasau gweithio cadarnhaol ymysg Aelodau, a rhwng Aelodau a Swyddogion, i osgoi cwynion annilys i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ac i ddiogelu enw da'r Cyngor.

2. Ni fydd y Protocol yn berthnasol ond mewn achosion o gamymddwyn gan Aelodau yn erbyn ei gilydd dan baragraffau 4(b) a 6(1)(d) y Côd Ymddygiad. Hynny yw, honiadau o fethu â dangos parch neu fod yn ystyriol o eraill, neu honiadau bod Aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu ddisylwedd yn erbyn Aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran.

3. Mae'r Protocol yn ceisio sicrhau cyfryngu a chymodi cyflym. Nid yw'n gosbol ond fe all fod yn berthnasol i gosbi os gwneir cwyn ffurfiol i'r OGCC mewn achos lle ceir patrwm o ymddygiad o'r fath.

4. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli nac ymyrryd â disgyblaeth grŵp neu blaid.

5. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli nac ymyrryd ag unrhyw hawliau statudol neu gontractyddol all fod gan Swyddogion.

6. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli Awdurdod yr OGCC ond, yn hytrach i ddelio â chategori cyfyngedig o achosion, lle gallai paragraffau 4(b) neu 6(1)(d) y Côd fod wedi eu torri, ond lle na fyddai casgliad o'r fath mae'n debyg yn golygu y byddai camau disgyblu'n cael eu cymryd. Ni fyddai achosion o'r fath, yn unigol o leiaf, yn bodloni prawf trothwy'r OGCC ar gyfer ymchwilio iddynt.

**Gweithdrefn**

7. Rhaid i Aelod neu Swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Protocol roi eu cwyn yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro, gan egluro pryd a lle yr honnwyd bod y côd wedi ei dorri, sut a phaham y torrwyd paragraff 4(b) ac / neu 6(1)(d) ynghyd â manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

8. Rhaid anfon unrhyw gwyn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro cyn pen 7 niwrnod gwaith o ddyddiad y digwyddiad sy'n destun y gŵyn, neu 7 niwrnod gwaith o'r dyddiad pan ddaeth yr achwynydd i wybod am y digwyddiad.

9. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei g / chynrychiolydd, yn anfon copi o'r gŵyn, ac unrhyw dystiolaeth gefnogol, i'r Aelod sy'n destun y gwyn. Bydd gan yr Aelod 7 niwrnod gwaith o'i dderbyn, ar gyfer anfon ateb ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro yn egluro eu hymateb ac yn rhoi manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

10. Yn dilyn derbyn ateb gan yr Aelod y gwneir y gŵyn amdano/amdani, neu pan fo'r amser ar gyfer derbyn ateb wedi mynd heibio, bydd y Swyddog Monitro yn :-

- rhoi copi o’r ymateb llawn i'r achwynydd;

- yn trefnu cyfarfod o Banel anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau i ystyried y gŵyn ar y dyddiad cyntaf hwylus sydd ar gael i bawb sydd yn ymwneud â’r mater.

11. Bydd cyfarfod o Banel y Pwyllgor Safonau yn cael ei gynnal yn breifat a bydd unrhyw waith papur y bydd yn ei dderbyn, neu y bydd yn ei gynhyrchu, yn parhau i fod yn gyfrinachol i'r Panel, ei ymgynghorwyr, ac i’r partïon. Mae hyn, fodd bynnag, yn amodol ar unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ddatgelu e.e. i'r OGCC pe bai materion yn dwysau/datblygu ymhellach.

12. Bydd unrhyw Banel anffurfiol o'r Bwyllgor Safonau yn cynnwys dau Aelod o'r Pwyllgor, yn eu tro, ond ni fydd yn cynnwys Aelod Cyngor Cymuned.

13. Gofynnir i’r partïon fynychu'r Panel a byddant yn gyfrifol am ddod gyda hwy unrhyw dystion y maent yn bwriadu dibynnu arnynt.

14. Os na fydd unrhyw barti neu dyst yn bresennol, mater i’r Panel fydd penderfynu a fyddant yn symud ymlaen â’r mater, neu’n aildrefnu.

15. Pe bai’r achwynydd, neu’r Aelod y gwneir cwyn amdano/amdani yn Aelod o grŵp gwleidyddol, yna fe all wahodd eu Harweinydd Grŵp i fynychu'r Panel. Nid oes rhaid i unrhyw Arweinydd Grŵp perthnasol fynychu, ond anogir hwy i wneud hynny.

16. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei g / chynrychiolydd, yn mynychu i gynghori'r Panel.

17. Bydd gweithdrefn unrhyw Banel yn un anffurfiol. Bydd y Panel yn gwneud pob ymdrech i fod yn deg a diduedd gyda’r ddau barti. Ni fydd unrhyw reolau tystiolaeth fel y cyfryw, ond ni fydd unrhyw dystion fydd yn cael eu galw ond yn mynychu i rannu eu gwybodaeth gyda’r Panel; ni fyddant yn 'eistedd i mewn' yn ystod y cyfarfod.

18. Ar ôl clywed gan y partïon, ac unrhyw dystion, ynghyd â'r Arweinyddion Grŵp (pe bai Arweinyddion Grŵp yn bresennol, a phe baent yn dymuno siarad gerbron y Panel,) bydd y Panel wedyn yn ymneilltuo i sesiwn breifat, ac yn dychwelyd i fynegi eu safbwynt a rhoi gerbron unrhyw argymhellion all fod ganddo ar gyfer datrys y sefyllfa. Nid oes gan y Panel unrhyw bwerau disgyblaethol ond fe all wneud argymhellion i'r Arweinyddion Grwpiau yn unigol, mewn perthynas ag Aelodau o'u grŵp ac, i'r Arweinyddion Grŵp gyda'i gilydd mewn perthynas ag unrhyw Aelod digyswllt.

19. Ni fydd unrhyw hawl i apelio dan y broses hon.

20. Bydd y partïon yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o gasgliadau'r Panel ac adroddir ar ganlyniad pob Panel, ond heb gynnwys enwau, i bob cyfarfod chwarterol o’r Pwyllgor Safonau.

21. Bydd canlyniad unrhyw Banel yn cael ei drafod hefyd fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd yr Arweinyddion Grŵp.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Medi 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Diwygio Cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Cymeradwyo'r ddogfen ddiwygiedig yn Atodiad 1** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyfreithiwr - Llywodraethu Corfforaethol** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Mared Wyn Yaxley - mwycs@ynysmon.gov.uk 01248 752566** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Yn ei gyfarfod ar 12 Mai 2016 penderfynodd y Pwyllgor Safonau ostwng nifer y cyfarfodydd arferol o 4 i 2 y flwyddyn.

Mae Cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau wedi cael ei adolygu. Nid oes unrhyw gyfeiriad ynddo at y nifer o gyfarfodydd o'r Pwyllgor Safonau a gynhelir mewn unrhyw un flwyddyn. Fodd bynnag, tybir y byddai'n ddymunol i Gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r trefniant hwn.

Mae **Atodiad 1** yn cynnwys Cyfansoddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn fel y'i sefydlwyd yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 gyda'r geiriau y bwriedir ei ychwanegu wedi'u hamlygu yn y testun coch.

## 2. GOFYNION STATUDOL

Y gofyniad statudol yw bod yn rhaid i Bwyllgorau Safonau gyfarfod o leiaf unwaith bob blwyddyn. Mae Pwyllgor Safonau'r Awdurdod yma o'r farn y byddai'n well defnydd o adnoddau i ostwng nifer cyfarfodydd arferol y Pwyllgor Safonau o 4 i 2 y flwyddyn, sydd yn parhau i fod yn fwy na'r lleiafswm statudol.

Yn ogystal, trefnir cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor Safonau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gydag unrhyw rwymedigaethau statudol a bydd cyfarfodydd anffurfiol yn parhau i gael eu cynnal yn unol â gofynion busnes.

## 3.GOFYNION CYFANSODDIADOL

Rhaid i unrhyw newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor gael eu gwneud gan y Cyngor. Fodd bynnag, oherwydd nad yw'r newidiadau yn **Atodiad 1** yn cynnwys diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor, nid oes angen caniatâd y Cyngor, er bod y cynnig wedi'i gyflwyno i'r Cyngor gan Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a'i gefnogi mewn cyfarfod o arweinyddion grwpiau'r Cyngor .

Gall y Pwyllgor Safonau ei hun wneud unrhyw newidiadau i'r ffordd y mae'n gweithio.

## 4. CAMAU GWEITHREDU ANGENRHEIDIOL

Diwygio Cyfansoddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn fel y'i sefydlwyd yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000, er mwyn cynnwys manylion am amlder y cyfarfodydd a diweddariadau a newidiadau eraill a gyfyd o ganlyniad ac a nodir yn **Atodiad 1**.

## 5. ARGYMHELLIAD

A. Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

B. Penderfynu mabwysiadu Cyfansoddiad Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ynys Môn fel y'i sefydlwyd yn unol â Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 gyda'r newidiadau sydd wedi eu hamlygu yn **Atodiad 1.**

C. Ystyried a oes angen unrhyw newidiadau / ychwanegiadau pellach i **Atodiad 1.**

D. Cyhoeddi Cyfansoddiad diwygiedig y Pwyllgor Safonau, ynghyd â'r holl atodiadau, ar wefan y Cyngor.

**ATODIAD / ENCLOSURE**

**1**

**CYFANSODDIAD PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR YNYS MÔN FEL Y CAFODD Y PWYLLGOR HWNNW EI SEFYDLU YN UNOL Â RHAN III DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000.**

## 1. DIFFINIADAU

Yn y cyfansoddiad hwn, onid yw'r cyd-destun angen ystyr gwahanol yr ystyr i'r geiriau a restrir uchod yw'r ystyron sydd gyferbyn â'r geiriau:-

'Awdurdod' - yr uned gorfforaethol sy'n wybyddus fel "Cyngor Sir Ynys Môn/The Isle of Anglesey County Council".

'Côd Ymddygiad' - côd ymddygiad y bydd yr Awdurdod yn ei fabwysiadu dan Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

'Achwynydd' - unigolyn sy'n cyflwyno cwyn yn erbyn Cynghorydd gan gynnwys Cynghorwyr eraill, aelodau o'r Pwyllgor Safonau, Swyddog yn gweithio i'r Awdurdod neu aelod o'r Cyhoedd.

'Aelod Cyngor Cymuned o'r Pwyllgor' - aelod o'r Pwyllgor Safonau sydd hefyd yn aelod o gyngor cymuned yn ardal yr Awdurdod, ac yn aelodau nad ydynt yn cael eu cyfrif fel 'Aelodau  Annibynnol'.

'Cyngor' – y corff sy'n cynnwys holl aelodau'r Awdurdod.

'Cynghorydd' - aelod etholedig o'r Awdurdod gan gynnwys yr aelodau cyfetholedig hynny a ddiffinnir dan Adran 49(7) Deddf Llywodraeth Leol 2000.

'Aelod Annibynnol' - Aelod o'r Pwyllgor Safonau nad yw'n aelod etholedig, yn swyddog, nac yn gymar i aelod nac i swyddog o'r Awdurdod neu unrhyw awdurdod perthnasol arall, neu gyngor cymuned fel y diffinnir hynny yn Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001.

'Aelod' - aelod o'r Pwyllgor Safonau.

'Swyddog Monitro' - y swyddog a benodwyd gan y Cyngor i ddibenion Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.  Yn ogystal, bydd y term hwn yn cynnwys unrhyw Ddirprwy Swyddog Monitro a benodir gan y Cyngor.

'Pwyllgor Safonau' - pwyllgor safonau Cyngor Sir Ynys Môn i ddibenion Adran 53 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

## 2. CYLCH GORCHWYL

### Yn Gyffredinol

2.1 Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Cynghorwyr.

2.2 Cynorthwyo Cynghorwyr i lynu wrth Gôd Ymddygiad yr Awdurdod.

2.3 Gweithredu ar y swyddogaethau uchod yng nghyswllt Cynghorau Cymuned ac aelodau o'r Cynghorau Cymuned yn ardal yr Awdurdod.

**Yn Benodol**

2.4 Cynghori'r Awdurdod ar fabwysiadu neu ar ddiwygio'r Côd Ymddygiad.

2.5 Monitro gweithrediad Côd Ymddygiad yr Awdurdod.

2.6 Cynghori, hyfforddi neu drefnu hyfforddiant i Gynghorwyr ar faterion sy'n ymwneud â Chôd Ymddygiad yr Awdurdod.

2.7 Ystyried adroddiadau neu argymhellion a gyflwynir gan y Swyddog Monitro - un ai yn gyffredinol neu yn sgil unrhyw ymholiadau a wnaed dan bwerau'r Swyddog Monitro neu oherwydd dyletswyddau penodol dan Ran III Deddf Llywodraeth Leol 2000 neu yn sgil unrhyw adroddiad y bydd ~~Comisiynydd Gweinyddiaeth Leol Cymru~~ Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ei anfon ato / ati.

2.8 Dilyn y Weithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau, y manylir arni yn **Atodiad 1** y Cyfansoddiad hwn.

2.~~9~~8 Rhoddi caniatâd arbennig dan Adran 81(4) Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn unol â Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Rhoddi Caniatâd Arbennig) Cymru 2001 a'r Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Caniatadau Arbennig ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygiad) 2016 fel bod aelod neu aelod cyfetholedig o'r Cyngor yn medru cymryd rhan mewn unrhyw fusnes sydd gan y Cyngor a'r unigolyn, ac a fyddai fel arall, yn cael ei wahardd rhag gwneud hynny dan Gôd Ymddygiad y Cyngor.

2.10~~9~~ Ystyried, (mewn ymgynghoriad gyda'r Swyddog Monitro) unrhyw faterion arall sydd yn briodol ac yn angenrheidiol i gynnal y safonau ymddygiad uchaf ymhlith Cynghorwyr.

2.11~~0~~ Derbyn adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar lwfansau ac ar dreuliau a dalwyd i unigolion sydd wedi c cynorthwyo'r Swyddog Monitro gyda'i ymholiadau.

2.12~~1~~ Gweithredu ar y swyddogaethau uchod yng nghyswllt cynghorau cymuned ac aelodau o'r cynghorau cymuned yn ardal yr Awdurdod.

~~2.12 Ystyried unrhyw gwynion a gyflwynwyd i hen Bwyllgor Safonau'r Cyngor a sefydlwyd cyn y daeth darpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 i rym yng nghyswllt Pwyllgorau Safonau, pan fo'r cyfryw gwynion heb eu datrys yn llawn gan yr hen Bwyllgor Safonau uchod. Wrth ystyried y cyfryw gwynion, dilyn y trefniadau a phryd bynnag y cred bod hynny'n briodol, mynd ar drywydd y cosbau hynny yng nghyfansoddiad yr hen Bwyllgor Safonau ac fel y cadarnhawyd y cyfryw gyfansoddiad gan y Cyngor ar 30 Tachwedd 1999.~~

2.13 Cydymffurfio gyda'r Protocol Datrysiad Lleol, y ceir manylion amdano yn **Atodiad 2** y Cyfansoddiad hwn.

~~**Adrodd**~~

Formatted: Indent: Hanging: 1 cm
Formatted: Font: Bold
Formatted: Font: Bold
Formatted: Indent: Hanging: 1 cm

2.13 I'r graddau y bydd raid i'r Pwyllgor Safonau gyflwyno argymhellion i'r Awdurdod yna bydd y cyfryw argymhellion yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i'r Cyngor.

3. **MAINT, CYFANSODDIAD, PENODI AELODAU ANNIBYNNOL, CYFNOD MEWN SWYDD, AILBENODI AELOD, CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD, PLEIDLEISIO, CWORWM, CYFARFODYDD, CANIATÁU I'R CYHOEDD FYNYCHU, COFNODION, TREFNIADAU DROS DRO.**

3.1 Penderfynir ar y materion uchod yn unol â darpariaethau Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001a Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006 (copïau ynghlwm yn Atodiadau 3 a 4 yn y drefn honnoyma) ond gyda'r newidiadau a ganlyn y cytunodd yr Awdurdod arnynt:

Rheoliad 3 — Maint y Pwyllgor Safonau
Aelodau Annibynnol (5)
Aelodau o Gynghorau Cymuned (2)

Rheoliad 15 — Panel Penodi Aelod Annibynnol
Person Lleyg (1)
Aelod Cyngor Cymuned o'r Pwyllgor (1)
Cynghorwyr (3)
Bydd Aelodau'r Panel yn gwasanaethu am gyfnod o 4 blynedd

Rheoliad 20 — Tymor Aelodau Annibynnol yn eu Swydd – Dau gyfnod olynol o 4 blynedd

Tymor Aelodau Cynghorau Cymuned yn eu swydd – Pedair blynedd (oni bai y cânt eu penodi am gyfnod olynol o bedair blynedd) neu'n peidio â bod yn Gynghorydd Cymuned

(Sylwer: Yn ogystal, mae'r Awdurdod wedi penderfynu y bydd Telerau Swydd Aelodau Cynghorau Cymuned y Pwyllgor Safonau yr fath â thelerau swydd Aelodau'r Cyngor Sir sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor, ond ni chânt Ni chaiff yr aelod Cyngor Cymuned ond wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau ond pan fydd yn cyflawni ei swyddogaethau yng nghysywllt Cynghorau Cymuned neu Aelodau Cynghorau Cymuned . Ni fedrir penodi Aelodau Cyngor Cymuned am dymor a fydd yn hwy na dau gyfnod olynol o bedair blynedd.

3.2 Bydd Pennaeth Gwasanaeth Taledig y Cyngor yn penderfynu pwy fydd clarc y Pwyllgor Safonau.

3.2 Amlder Cyfarfodydd

3.2.1 Cynhelir dau gyfarfod arferol o'r Pwyllgor Safonau bob blwyddyn.

3.2.2 Caiff cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor Safonau eu cynnal yn ychwanegol at y cyfarfodydd yn 3.2.1 er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gydag unrhyw ymrwymiadau statudol gan gynnwys cwynion ac/neu ganiatâd arbennig.

**Formatted:** Indent: Left: 0 cm, Hanging: 3.81 cm

4. **TREFNIADAU**

4.1 Y Pwyllgor Safonau ei hun fydd yn penderfynu ar ei drefniadau, gan ystyried yn llawn yr holl ddarpariaethau statudol perthnasol a phryd bynnag y bydd hynny'n bosib, bydd y trefniadau'n cydymffurfio gyda'r Egwyddorion Ymddygiad, y Côd Ymddygiad a Chyfansoddiad yr Awdurdod.

4.2 Ni all achwynydd na Chynghorydd y cyflwynir cwyn yn ei gylch ganfasio unrhyw Aelod ar unrhyw gyfrif. Os ydyw Aelod yn cael ei ganfasio, bydd raid iddo ddweud wrth y Swyddog Monitro ar unwaith.

4.3 Os ydyw Aelod neu unigolyn arall sy'n gysylltiedig ag Aelod yn cyflwyno cwyn, yna ni fydd yr Aelod penodol hwnnw yn medru cymryd rhan yn y trafodaethau ynglŷn â'r gŵyn.

4.4 Yn unol â Rheoliad 14 Rheoliadau Ymchwilio Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau) (Cymru) 2001, gall person sydd yn gwneud sylwadau ar lafar i'r Pwyllgor Safonau gael ei gynrychioli a gall hynny gynnwys cynrychiolaeth gyfreithiol.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL**

5. O leiaf unwaith ym mhob blwyddyn galendr, bydd y Pwyllgor Safonau yn cyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar ei waith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

**6. LWFANSAU A THREULIAU**

Bydd y lwfansau hynny a delir i Aelodau Annibynnol ac Aelodau Cynghorau Cymuned y Pwyllgor yn cael eu cymeradwyo o bryd i'w gilydd gan yr Awdurdod.

7. GOFYNION CYFANSODDIADAU YCHWANEGOL

7.1 Caiff manylion pellach ynghylch Cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau eu cynnwys ym Mharagraff 2.9 Cyfansoddiad Cyngor Sir Ynys Môn sydd wedi ei amgáu fel Atodiad 5 i'r Cyfansoddiad hwn.

**Formatted:** Indent: Left: 0 cm, Hanging: 2 cm

# ATODIAD / ENCLOSURE

# 1

# Cyngor Sir Ynys Môn

# Pwyllgor Safonau

# Gweithdrefn ar gyfer Gwrandawiadau Safonau Lleol

**************

## 1 Rhagarweiniad

Mae'r weithdrefn hon yn amlinellu sut y bydd y Cyngor Sir yn penderfynu cwynion am gamymddygiad aelodau.

## 2 Dehongliad

(a) Mae "Aelod" yn golygu'r aelod o'r awdurdod sy'n destun yr honiad sy'n cael sylw gan y Pwyllgor Safonau, ac eithrio lle dywedir yn wahanol. Mae hefyd yn cynnwys cynrychiolydd enwebedig yr Aelod.

(b) Mae "Swyddog Ymchwilio" yn golygu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon), ac mae'n cynnwys ei gynrychiolydd/chynrychiolydd enwebedig. Yn achos materion a gyfeiriwyd ar gyfer ymchwiliad lleol, mae cyfeiriadau at y Swyddog Ymchwilio yn golygu'r sawl a benodwyd gan y Swyddog Monitro i gynnal yr ymchwiliad.

(c) "Y Mater" yw pwnc adroddiad y Swyddog Ymchwilio.

(ch) Mae "Y Pwyllgor Safonau" yn cyfeirio at y Pwyllgor Safonau neu at unrhyw is-bwyllgor safonau y mae wedi dirprwyo'r gwrandawiad iddo.

(d) Mae "Swyddog Cymorth Pwyllgor" yn golygu Swyddog o'r Awdurdod sy'n gyfrifol am gynorthwyo'r Pwyllgor Safonau wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau ac am gofnodi penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau.

(dd) Mae "Ymgynghorydd Cyfreithiol" yn golygu'r swyddog sy'n gyfrifol am ddarparu cymorth cyfreithiol i'r Pwyllgor Safonau. Gall y swyddog hwnnw fod yn Swyddog Monitro, swyddog arall yn yr awdurdod â chymwysterau cyfreithiol, neu rywun a benodwyd i'r pwrpas o'r tu allan i'r awdurdod.

(e) Mae "Cadeirydd" yn cyfeirio at y person sy'n llywyddu yn y gwrandawiad.

(f) Mae "Achwynydd" yn golygu'r person neu'r personau a wnaeth yr honiad gwreiddiol yr ymchwiliwyd iddo.

## 3 Diwygio'r Weithdrefn

Gall y Cadeirydd gytuno i amrywio'r weithdrefn hon mewn unrhyw achos penodol os yw ef/hi o'r farn bod angen gwneud hynny er budd tegwch.

## 4 Cynrychiolaeth

Gall cyfreithiwr, cwnsler neu - gyda chaniatâd y Pwyllgor Safonau - berson arall gynrychioli'r Aelod ar unrhyw adeg yn y weithdrefn hon neu ddod i'r gwrandawiad gyda'r aelod. Noder mai'r aelod sy'n gyfrifol am gwrdd â chostau cynrychiolaeth o'r fath, ac eithrio lle mae'r Pwyllgor Safonau wedi cytuno'n benodol i gwrdd â'r cyfan o'r gost honno neu ran ohoni.

## 5 Penderfyniad i gynnal gwrandawiad lleol

(a) Ar ôl derbyn adroddiad yr Ombwdsmon, neu adroddiad Swyddog Ymchwilio, bydd y Swyddog Monitro yn cyfeirio'r adroddiad hwnnw i'r Pwyllgor Safonau a fydd yn penderfynu un ai –

(i) Bod tystiolaeth o fethiant gan yr Aelod i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad, neu
(ii) Y dylai'r mater fod yn destun gwrandawiad lleol.

(b) Os yw'r Pwyllgor Safonau yn penderfynu bod tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad, bydd y Swyddog Monitro yn rhoi gwybod i'r Aelod a'r Achwynydd am hynny.

(c) Os bydd y Pwyllgor Safonau yn penderfynu cynnal gwrandawiad lleol ar gyfer y mater, bydd y Swyddog Monitro yn cynnal y broses cyn-gwrandawiad fel y mae wedi ei hamlinellu isod.

## 6 Y Weithdrefn Cyn-Gwrandawiad

Yn dilyn penderfyniad gan y Pwyllgor Safonau i gynnal gwrandawiad lleol ar gyfer mater penodol, bydd y Swyddog Monitro yn:

(a) Trefnu dyddiad ar gyfer gwrandawiad y Pwyllgor Safonau fel y penderfynwyd arno gan y Cadeirydd;

(b) Anfon copi o'r adroddiad i'r Aelod a rhoi gwybod iddo am ddyddiad, amser a man cyfarfod y gwrandawiad;

(c) Anfon copi o'r adroddiad i'r Achwynydd a rhoi gwybod iddo am ddyddiad, amser a man cyfarfod y gwrandawiad;

(ch) Rhoi gwybod i'r Cyngor Cymuned am y mater ynghyd â dyddiad, amser a man cyfarfod y gwrandawiad (os yw'r mater yn ymwneud ag ymddygiad Cynghorydd Cymuned);

(d) Rhoi gwybod i'r Swyddog Ymchwilio am ddyddiad, amser a man cyfarfod y gwrandawiad;

(dd) Gofyn i'r Swyddog gwblhau a dychwelyd y ffurflenni cyn-gwrandawiad sydd wedi eu hatodi wrth y Weithdrefn hon cyn pen 14 diwrnod o'u derbyn;

(e) Yn wyneb unrhyw ffurflenni cyn-gwrandawiad a ddychwelwyd gan yr Aelod, bydd y Swyddog Monitro yn penderfynu a fydd y Pwyllgor Safonau angen i'r

Swyddog Ymchwilio ac unrhyw dystion[1] ychwanegol fod yn bresennol yn y gwrandawiad, gan gynnwys yr Achwynydd, fel bod modd i'r gwrandawiad ddod i gasgliad sydd wedi cael ystyriaeth briodol yn y gwrandawiad, a threfnu iddynt fynychu.

(f) Gofyn i'r Cadeirydd wneud y fath gyfarwyddiadau ynghylch cynnal y gwrandawiad ac y bydd eu hangen ar gyfer cynnal y gwrandawiad yn effeithiol, gyda'r fath gyfarwyddiadau yn rhoi sylw i faterion fel –

(i) Yr amser y bydd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod i gynnal y gwrandawiad;
(ii) Unrhyw faterion sy'n cael eu derbyn fel y maent ac nad oes angen tystiolaeth ar eu cyfer;
(iii) Y tystion a glywir a'r adegau pryd ddylent fod yn bresennol; a
(iv) Presenoldeb tystion pan nad ydynt yn rhoi tystiolaeth.

(ff) Paratoi Adroddiad Crynhoi Cyn-gwrandawiad yn amlinellu cwrs yr honiad, yr ymchwiliad a'r broses cyn-gwrandawiad ac yn dwyn sylw at y materion y bydd angen i'r Pwyllgor Safonau roi sylw iddynt, a

(g) Trefnu gyda'r Swyddog Cymorth Pwyllgor bod y rhaglen ar gyfer y gwrandawiad, ynghyd ag Adroddiad Crynhoi Cyn-gwrandawiad y Swyddog Monitro, adroddiad y Swyddog Ymchwilio ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill yn cael eu hanfon at:
(i) Pob aelod o'r Pwyllgor Safonau fydd yn cynnal y gwrandawiad;
(ii) Yr Aelod.
(iii) Y sawl a wnaeth yr honiad, a
(iv) Y Swyddog Ymchwilio

## 7 Cyngor Cyfreithiol

Gall y Pwyllgor Safonau gymryd cyngor cyfreithiol gan ei ymgynghorydd cyfreithiol ar unrhyw adeg yn ystod y gwrandawiad neu tra bydd yn ystyried y canlyniad. Dylid rhannu sylwedd unrhyw gyngor cyfreithiol a roddir i'r Pwyllgor Safonau gyda'r Aelod a'r Swyddog Ymchwilio os ydynt yn bresennol.

## 8 Paratoi ar gyfer y Cyfarfod

Ar gychwyn y gwrandawiad, bydd y Cadeirydd yn cyflwyno pob un o aelodau'r Pwyllgor Safonau, yr aelod (os yw'n bresennol), y Swyddog Ymchwilio (os yw'n bresennol) ac unrhyw swyddogion eraill sydd yn bresennol, ac yna bydd yn esbonio'r drefn y bydd y Pwyllgor Safonau yn ei dilyn wrth gynnal y gwrandawiad.

## 9 Materion trefniadol rhagarweiniol

Yna bydd y Pwyllgor Safonau yn delio gyda'r materion trefniadol rhagarweiniol isod yn y drefn ganlynol:

(a) Ymddiheuriadau am absenoldeb

[1] Os yw'r Aelod yn herio unrhyw ganfyddiad ffaith yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio, bydd angen i'r Pwyllgor Safonau glywed tystiolaeth gan dyst uniongyrchol, lle bynnag y mae hynny'n bosib.

(b) Datganiadau o ddiddordeb

Bydd y Cadeirydd yn gofyn i aelodau'r Pwyllgor Safonau ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol neu ddiddordebau sydd yn rhagfarnu a fo ganddynt yn y mater, ac yn gofyn iddynt dynnu'n ôl o ystyried y mater os oes angen.

(c) Cworwm

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau bod gan y Pwyllgor Safonau gworwm[2]

(ch) Trefn y gwrandawiad

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau bod pawb sy'n bresennol yn ymwybodol o'r drefn y bydd y Pwyllgor Safonau yn ei dilyn wrth benderfynu'r mater.

(d) Bwrw ymlaen yn absenoldeb yr aelod

Onid yw'r Aelod yn bresennol ar gychwyn y gwrandawiad;

(i) bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Swyddog Monitro a yw'r Aelod wedi dweud nad yw'n bwriadu dod i'r gwrandawiad;

(ii) bydd y Pwyllgor Safonau wedyn yn ystyried unrhyw resymau a roddwyd gan yr Aelod am beidio â dod i'r gwrandawiad a bydd yn penderfynu a yw'n fodlon bod digon o reswm am y fath fethiant i fynychu.

(iii) Os bydd y Pwyllgor Safonau yn fodlon gyda'r fath resymau, bydd yn gohirio'r gwrandawiad tan ddyddiad arall.

(iv) Onid yw'r Pwyllgor Safonau yn fodlon gyda'r fath resymau, neu onid yw'r aelod wedi rhoi unrhyw fath rhesymau, bydd y Pwyllgor Safonau yn penderfynu a ddylid ystyried y mater a gwneud penderfyniad yn absenoldeb yr Aelod ynteu ohirio'r gwrandawiad tan ddyddiad arall.

(dd) Cau allan y Wasg a'r Cyhoedd

Gall y Pwyllgor Safonau gau allan y wasg a'r cyhoedd o ran o'i drafodaethau ar y mater dan sylw neu o'r trafodaethau cyfan, os yw'n ymddangos yn debygol y bydd gwybodaeth gyfrinachol neu eithriedig yn cael ei datgelu yng nghwrs y trafodaethau.

Bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Aelod, y Swyddog Ymchwilio a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol i'r Pwyllgor Safonau a ydynt yn dymuno gofyn i'r Pwyllgor Safonau gau allan y wasg a'r cyhoedd o ran o'r gwrandawiad neu o'r cyfan ohono. Os bydd unrhyw aelod yn gwneud cais o'r fath, bydd y Cadeirydd yn gofyn iddynt

[2] Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau gworwm oni bai bod o leiaf 3 aelod o'r Pwyllgor Safonau yn bresennol ar gyfer y cyfarfod i gyd. Rhaid i'r Cadeirydd fod yn aelod Annibynnol, a rhaid i o leiaf hanner aelodau'r Pwyllgor sy'n bresennol fod yn aelodau Annibynnol. Pan fo'r Pwyllgor yn ystyried mater sy'n ymwneud ag ymddygiad aelod o Gyngor Cymuned, rhaid i o leiaf un aelod o'r Pwyllgor fod yn gynrychiolydd Cyngor Cymuned, ond oni fydd cynrychiolydd Cyngor Cymuned yn bresennol nid yw hynny'n golygu nad oes cworwm ar y Pwyllgor.

roi eu rhesymau dros wneud hynny ac yn gofyn am ymatebion gan y lleill, ac yna bydd y Pwyllgor Safonau yn penderfynu a ddylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o ran o'r gwrandawiad neu'r cyfan ohono.

Mewn achosion lle nad yw'r Pwyllgor Safonau yn penderfynu cau allan y wasg a'r cyhoedd, bydd y rhaglen ac unrhyw ddogfennau sydd ddim wedi cael eu rhyddhau i'r wasg a'r cyhoedd cyn y cyfarfod yn cael eu rhyddhau wedyn iddynt.

## 10 Methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad?

Yna, bydd y Pwyllgor Safonau yn rhoddi sylw i'r mater ynghylch a yw'r Aelod wedi methu cydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad yn y modd a nodir yn adroddiad y Swyddog sy'n Ymchwilio. [3]

(a) Crynodeb o'r Broses Cyn y Gwrandawiad

Bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Ymgynghorydd Cyfreithiol neu'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau gyflwyno'r Adroddiad Crynhoi Cyn-gwrandawiad y Swyddog Monitro, gan ddwyn sylw at unrhyw bwyntiau o wahaniaeth y mae'r Aelod wedi datgan ei fod ef/hi yn anghytuno gydag unrhyw ganfyddiad o ffaith yn adroddiad y Swyddog sy'n Ymchwilio. Yna, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Aelod gadarnhau bod hwn yn grynodeb cywir o'r materion, i gadarnhau ei fod ef/hi yn parhau i fod o'r un farn ag yr oedd yn y crynodeb cyn y gwrandawiad a gofyn i'r Aelod nodi unrhyw bwyntiau ychwanegol y mae ef/hi yn anghytuno gyda nhw o ran unrhyw ganfyddiad o ffaith yn adroddiad y Swyddog sy'n Ymchwilio.

(i) Os yw'r Aelod yn cyfaddef ei fod ef/hi wedi methu cydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad yn y modd a ddisgrifir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio, yna gall y Pwyllgor Safonau gymryd adroddiad y Swyddog Ymchwilio fel y mae a phenderfynu bod yr Aelod wedi methu cydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad yn y modd a ddisgrifir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio a symud ymlaen ar unwaith i ystyried a ddylid cymryd unrhyw gamau mewn perthynas â chamymddygiad yr Aelod.

(ii) Os yw'r Aelod yn nodi unrhyw bwyntiau ychwanegol o wahaniaeth, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Aelod egluro pam nad oedd ef/hi wedi nodi'r pwyntiau hyn fel rhan o'r broses cyn y gwrandawiad. Bydd ef/hi wedyn yn gofyn i'r Swyddog Ymchwilio (os ydyw'n bresennol) a yw ef/hi mewn sefyllfa i ddelio gyda'r pwyntiau ychwanegol hynny o

[3] Noder bod y ystyriaeth y Pwyllgor Safonau wedi gyfyngu i'r mater, o ran y set o ffeithiau, fel a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio. Mae'n bosibl y gall y Pwyllgor Safonau ganfod bod y ffeithiau hyn yn datgelu y torwyd rhan o'r Côd Ymddygiad ac eithrio'r achos a ganfuwyd gan y Swyddog Ymchwilio (er enghraifft, bod y ffeithiau yn gyfystyr â bwlio yn hytrach na dim ond methiant i drin person gyda pharch). Fodd bynnag, os bydd y Pwyllgor Safonau, yn ystod eu trafodaethau, o'r farn bod y dystiolaeth gerbron yn datgelu achos hollol wahanol o fethiant i gydymffufio gyda'r Côd Ymddygiad (er enghraifft lle mae'r gwyn yn un o fethiant i drin Swyddog A gyda pharch ond bod y dystiolaeth hefyd yn dangos methiant i drin Swyddog B gyda pharch), ni fydd methiant ychwanegol neu fethiant arall yn ran o faes gwaith y Pwyllgor Safonau. Ar yr adeg honno, ni fydd yr Aelod wedi cael rhybudd o'r ffaith bod y Pwyllgor Safonau yn ystyried methiant ychwanegol neu fethiant arall ac o'r herwydd, byddai'n annheg symud ymlaen i ystyried yr ail fater yn y gwrandawiad i'r methiant honedig cyntaf. Lle mae'r Pwyllgor Safonau o'r farn bod methiant ychwanegol neu fethiant arall o bosibl, methiant gan aelod gwahanol neu fethiant o ran Gôd Ymddygiad awdurdod arall, yna dylent gyfeirio'r ail fater i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus cymru fel honiad newydd.

wahaniaeth yn uniongyrchol neu drwy unrhyw dystion sy'n bresennol neu y gellir trefnu yn gyfleus iddynt fod yn bresennol yn y gwrandawiad. Mewn achosion lle nad yw'r Pwyllgor Safonau yn fodlon gyda rhesymau'r Aelod am fethu nodi pob pwynt ychwanegol o wahaniaeth fel rhan o'r broses cyn y gwrandawiad, gall benderfynu parhau gyda'r gwrandawiad ond heb ganiatáu i'r Aelod herio cywirdeb y canfyddiadau ffeithiol hynny a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio ond na wnaeth Aelod nodi pwynt o wahaniaeth yn eu cylch fel rhan o'r broses cyn y gwrandawiad neu gall benderfynu gohirio'r gwrandawiad i ganiatáu i'r Swyddog Ymchwilio ac/neu unrhyw dystion ychwanegol fynychu'r gwrandawiad.

(b) Cyflwyno adroddiad y Swyddog Ymchwilio

(i) Os yw'r Swyddog Ymchwilio yn bresennol, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Swyddog Ymchwilio gyflwyno ei adroddiad/ei hadroddiad gyda sylw arbennig i unrhyw bwyntiau o wahaniaeth a nodwyd gan yr Aelod a pham fod ef/hi, ar sail ei g(ch)anfyddiadau ffeithiol ef/hi, o'r farn bod yr Aelod wedi methu â chydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad. Gall y Swyddog Ymchwilio alw tystion fel sy'n angenrheidiol i drafod unrhyw bwyntiau o wahaniaeth.

(ii) Onid yw'r Swyddog Ymchwilio yn bresennol, ni fydd y Pwyllgor Safonau ond yn cynnal gwrandawiad os ydyw'n fodlon nad oes unrhyw bwyntiau sylweddol o wahaniaeth neu fod modd datrys yn foddhaol unrhyw bwyntiau o wahaniaeth yn absenoldeb y Swyddog Ymchwilio. Yn absenoldeb y Swyddog Ymchwilio, gall y Pwyllgor Safonau benderfynu, ar gais y Swyddog Monitro, pa dystion, os o gwbl i'w galw. Mewn achos lle caiff tystion o'r fath eu galw, bydd y Cadeirydd yn dwyn sylw'r tystion at unrhyw ran berthnasol o adroddiad y Swyddog Ymchwilio ac yn gofyn i'r tyst gadarnhau neu gywiro'r adroddiad a darparu unrhyw dystiolaeth berthnasol.

(iii) Ni chaniateir unrhyw groesholi ond wedi cyflwyno adroddiad y Swyddog Ymchwilio ac/neu wedi derbyn tystiolaeth pob tyst, bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r Aelod a oes unrhyw faterion y dylai'r Pwyllgor Safonau mofyn sylwadau gan y Swyddog Ymchwilio neu'r tyst yn eu cylch ac yna gall Aelodau'r Pwyllgor Safonau ofyn cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio neu'r tyst.

(c) Ymateb yr Aelod

(i) Bydd y Cadeirydd wedyn yn gwahodd yr Aelod i ymateb i adroddiad y Swyddog Ymchwilio a galw unrhyw dystion fel sy'n angenrheidiol i roi sylw i unrhyw bwyntiau o wahaniaeth.

(A) Gall yr Aelod drefnu i'w gynrychiolydd/chynrychiolydd wneud cyflwyniad ar ei ran/ei rhan ac/neu i gyflwyno'r Aelod ac unrhyw dystion ar ei ran/ei rhan.

(B) Nid oes rhaid i'r Aelod roi tystiolaeth neu ateb unrhyw gwestiynau ond gall y Pwyllgor Safonau yn rhesymol ddod i gasgliadau o unrhyw fethiant ar ei ran/rhan i roi tystiolaeth neu i ateb unrhyw gwestiwn.

(ii) Ni chaniateir unrhyw groesholi ond wedi i'r Aelod roi ei dystiolaeth/tystiolaeth ac wedi i bob tyst roddi eu tystiolaeth nhw, gall y Cadeirydd ofyn i'r Swyddog Ymchwilio a oes unrhyw faterion y dylai'r Pwyllgor Safonau ofyn am sylwadau'r Aelod neu'r tyst yn eu cylch ac yna gall Aelodau'r Pwyllgor Safonau ofyn cwestiynau i'r Aelod neu'r tyst.

(ch) Tystion

Bydd gan y Pwyllgor Safonau'r hawl i wrthod clywed tystiolaeth gan y Swyddog Ymchwilio, yr Aelod neu dyst oni bai ei fod yn fodlon bod y tyst yn debygol o roi tystiolaeth y mae angen ei chlywed er mwyn gallu penderfynu a fu methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad.

(d) Tystiolaeth Ychwanegol

(i) Wedi gorffen clywed y dystiolaeth, bydd y Cadeirydd yn siecio gydag Aelodau'r Pwyllgor Safonau a ydynt yn fodlon bod ganddynt ddigon o dystiolaeth i ddod i gasgliad ystyriol ar y mater.

(ii) Os bydd y Pwyllgor Safonau, ar unrhyw adeg, cyn penderfynu a fu methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad, o'r farn bod arno angen ychwaneg o dystiolaeth ar unrhyw bwynt er mwyn ei alluogi i ddod i gasgliad ystyriol ar y mater, gall y Pwyllgor Safonau (ond dim rhagor nag unwaith) ohirio'r gwrandawiad a gwneud cais i'r Swyddog Ymchwilio chwilio am a darparu'r fath dystiolaeth ychwanegol a gwneud gwaith ymchwil pellach ar unrhyw bwynt a bennwyd gan y Pwyllgor Safonau.

(dd) Bydd yr Aelod a'r Swyddog Ymchwiliad yn cael cyfle i wneud sylwadau i gloi.

(e) Penderfynu a oedd methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad.

(i) Oni bai bod y penderfyniad yn cadarnhau yn syml gyfaddefiad yr Aelod o fethiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad (fel y caiff ei nodi ym mharagraff 10(a)(i) uchod), bydd y Pwyllgor Safonau yn ymneilltuo i ystafell arall i ystyried yn breifat a fethodd yr Aelod â chydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad fel y nodir hynny yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio.

(ii) Bydd y Pwyllgor Safonau yn gwneud ei benderfyniad wedi pwyso a mesur y tebygolrwydd yn y dystiolaeth a gafodd yn y gwrandawiad.

(iii) Swyddogaeth y Pwyllgor Safonau yw gwneud penderfyniad ar y mater. Gall, ar unrhyw adeg, ddychwelyd i'r brif ystafell lle mae'r gwrandawiad er mwyn mofyn tystiolaeth ychwanegol gan y Swyddog Ymchwilio, yr Aelod neu'r tyst. Os oes angen ychwaneg o wybodaeth arno, gall ohirio a rhoi cyfarwyddyd i Swyddog neu ofyn i'r Aelod ddangos tystiolaeth bellach o'r fath i'r Pwyllgor Safonau.

(iv) Os oes angen Cyngor Cyfreithiol ar y Pwyllgor Safonau ar unrhyw bwynt, gall naill ai –

(A) Ofyn i'r Ymgynghorydd Cyfreithiol ymuno gyda'r Pwyllgor a darparu'r fath wybodaeth. Yn yr achos hwn, bydd yr Ymgynghorydd Cyfreithiol yn ailadrodd cyngor o'r fath yn agored pan fydd y Pwyllgor Safonau yn dychwelyd a gall cynrychiolydd cyfreithiol yr Aelod ymateb i gyngor o'r fath; neu

(B) Dychwelyd i'r fforwm agored a gofyn i'r Ymgynghorydd Cyfreithiol roi cyngor gan wahodd cynrychiolydd cyfreithiol yr Aelod i ymateb i unrhyw gyngor o'r fath.

(v) Wedi i'r Pwyllgor Safonau orffen ystyried y mater, gall y Pwyllgor Safonau ystyried a yw'n teimlo fel gwneud unrhyw argymhellion i'r awdurdod gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o ran ymddygiad ymysg aelodau.

(vi) Yna, bydd y Pwyllgor Safonau yn dychwelyd i brif ystafell y gwrandawiad a bydd y Cadeirydd yn datgan prif ganfyddiadau ffeithiol y Pwyllgor Safonau ynghyd â'i benderfyniad ynghylch a yw'r Aelod wedi methu â chydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad fel y nodir hynny yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio.

## 11 <u>Os nad yw'r Aelod wedi methu dilyn y Côd Ymddygiad</u>

Os bydd y Pwyllgor Safonau'n penderfynu na fethodd yr Aelod â dilyn y Côd Ymddygiad yn y modd a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio:

(a) Dylai'r Cadeirydd grynhoi canlyniadau'r Pwyllgor Safonau;

(b) Os yw'r Pwyllgor Safonau yn dod i'r casgliad, o'r dystiolaeth a gafodd yn ystod y gwrandawiad, bod Aelod wedi methu â chydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad (ar wahân i'r mater y mae'r Pwyllgor Safonau newydd wneud penderfyniad arno), bydd y Pwyllgor yn amlinellu pryderon y Pwyllgor Safonau ac yn dweud bod y Pwyllgor Safonau wedi cyfeirio'r methiant ychwanegol neu fethiant arall hwn i'r Swyddog Monitro gyda golwg ar gyflwyno haeriad pellach i Swyddfa'r Ombwdsmon Cyhoeddus yng Nghymru.

(c) Yna dylai'r Cadeirydd nodi unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Safonau yn bwriadu eu gwneud i'r awdurdod gyda golwg ar hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ymhlith aelodau a mofyn sylwadau'r Aelod, y Swyddog Ymchwilio a'r Ymgynghorydd Cyfreithiol cyn i'r Pwyllgor Safonau rhoddi trefn derfynol ar unrhyw argymhellion.

(ch) I gloi, dylai'r Cadeirydd ofyn i'r Aelod a ydyw ef/hi yn dymuno i'r Awdurdod beidio â chyhoeddi datganiad o'i ganfyddiad mewn papur newydd lleol.

## 12 <u>Camau gweithredu yn dilyn methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad</u>

Os yw'r Pwyllgor Safonau yn penderfynu bod yr Aelod wedi methu dilyn y Côd Ymddygiad yn y modd a nodir yn adroddiad y Swyddog Ymchwilio:

(a) Bydd y Cadeirydd yn crynhoi canfyddiadau'r Pwyllgor Safonau;

(b) Fe all y Cadeirydd wedyn nodi'r math o gosb y mae'n ei ystyried all fod yn briodol gan ofyn i'r Aelod neu ei gynrychiolydd cyfreithiol wneud sylwadau ar y

gosb.[4]

(c) Fe all y Cadeirydd ofyn i'r Swyddog Ymchwilio wneud sylwadau ynglŷn â chosb.

(ch) Bydd y Cadeirydd wedyn yn sicrhau bod pob Aelod o'r Pwyllgor Safonau yn fodlon bod ganddo ef/hi ddigon o wybodaeth i'w alluogi ef/hi i wneud penderfyniad ystyrlon ynghylch a ddylid pennu cosb ac (os yn briodol) beth fydd ffurf y gosb.

(d) Fe all unrhyw aelod o'r Pwyllgor Safonau ofyn cwestiynau i'r Swyddog Ymchwilio neu i'r aelod fel bo'r angen i'w alluogi ef/hi i wneud penderfyniad ystyrlon.

(dd) Bydd y Pwyllgor Safonau wedyn yn ymneilltuo i ystafell arall i ystyried yn breifat a ddylid pennu cosb (lle bwriedir pennu cosb) a pha gosb i'w rhoi a pha bryd y dylai'r gosb honno ddod i rym, ac unrhyw sylwadau y bydd y Pwyllgor Safonau'n eu rhoi i'r awdurdod.

(e) Ar ddiwedd ei ystyriaethau, bydd y Pwyllgor Safonau yn dychwelyd i brif ystafell y gwrandawiad a bydd y Cadeirydd yn datgan penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau gan ddweud a ddylid pennu cosb a (lle bwriedir cosb) beth yw natur y gosb, a pha bryd y dylai ddod i rym, ynghyd â'r prif resymau dros wneud y penderfyniadau hynny, ac unrhyw argymhellion y bydd y Pwyllgor Safonau am eu gwneud i'r awdurdod.

## 13 Cau'r gwrandawiad

(a) Bydd y Pwyllgor Safonau yn cyhoeddi ei benderfyniad ar ddiwrnod y gwrandawiad ac yn rhoi i Swyddog Cefnogi'r Pwyllgor ddatganiad ysgrifenedig byr o'u penderfyniad, a bydd y Swyddog Cefnogi'r Pwyllgor yn ei anfon i'r Aelod mor fuan ag sy'n ymarferol ar ôl cau'r gwrandawiad;

(b) Bydd y Cadeirydd yn diolch i bawb sydd yn bresennol sydd wedi cyfrannu tuag at drefn y gwrandawiad ac yn cau'r gwrandawiad yn ffurfiol;

---

4 Gall y Pwyllgor Safonau benderfynu ar unrhyw un o'r isod o ran y cosbau y gall fynnu arnynt :
"(i) dim angen gweithredu o gwbl
(ii) ceryddu'r Aelod;
(iii) atal yr Aelod yn rhannol am gyfnod a fydd ddim hwy na chwe mis;
(iv) Sgwahardd yr Aelod am gyfnod a fydd ddim hwy na chwe mis.

Nid yw Atal neu atal yn rhannol ond yn berthnasol i'r Aelod yn ei gapasiti fel aelod o'r awdurdod yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o.

Bydd unrhyw gosb a roddwyd yn cychwyn ar unwaith oni fydd y Pwyllgor Safonau yn rhoi cyfarwyddyd (yn achos unrhyw gosb ac eithrio cerydd) y bydd yn cychwyn ar ddyddiad penodol a bennwyd gan y Pwyllgor Safonau o fewn chwe mis o ddyddiad y gwrandawiad.

(c) Yn dilyn cau'r gwrandawiad, bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn cytuno ar rybudd ysgrifenedig ffurfiol o benderfyniad y Pwyllgor Safonau a bydd y Swyddog Monitro'n trefnu i'r rhybudd hwnnw gael ei ddosbarthu a'i gyhoeddi (neu grynodeb o'r rhybudd hwnnw, lle bo'r angen).

**14. Apeliadau**

Gall yr Aelod apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor Safonau trwy ysgrifennu at lywydd Panel Dyfarnu Cymru, gan sicrhau bod ei lythyr yn rhestru'r seiliau dros wneud yr apêl, ac yn cynnwys datganiad yn dweud a yw'n fodlon ai peidio i'r apêl gael ei gwrando ar ffurf sylwadau ysgrifenedig, ac yn cael ei derbyn gan y llywydd o fewn 21 diwrnod i ddyddiad y rhybudd ysgrifenedig o'r penderfyniad.

Manylion yr achos a rhif cyfeirnod ..........................................................................................

# FFURFLEN A

## Ymateb yr Aelod perthnasol i'r dystiolaeth sydd yn yr adroddiad ymchwilio

Rhowch rif unrhyw baragraff yn yr adroddiad ymchwilio lle yr ydych yn anghytuno gyda'r canfyddiad ffaith, a rhowch eich rhesymau a'r dewis arall yr ydych yn ei awgrymu, os gwelwch yn dda.

| Rhif y paragraff o'r adroddiad ymchwilio | Rhesymau dros anghytuno gyda'r canfyddiad ffaith a roddir yn y paragraff hwnnw | Awgrym o sut y dylai'r paragraff ddarllen |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |

Manylion yr achos a rhif cyfeirnod ..........................................................................................

# FFURFLEN B

## Tystiolaeth arall sy’n berthnasol i’r gwyn

Nodwch isod, os gwelwch yn dda, gan ddefnyddio’r paragraffau sydd wedi’u rhifo, unrhyw dystiolaeth yr ydych yn teimlo sy’n berthnasol i’r gwyn a wnaed amdanoch chi.



| Rhif paragraff | Manylion am y dystiolaeth |
|---|---|
| 1 | |
| 2 | |
| 3 | |

Manylion yr achos a rhif cyfeirnod ..........................................................................................

# FFURFLEN C

## Sylwadau i’w cymryd i ystyriaeth os gwelir bod Aelod wedi methu â dilyn y Côd Ymddygiad

**Cwblhewch y ffurflen hon ond os ydych yn cytuno gyda’r canfyddiadau yn adroddiad yr ymchwiliad eich bod wedi methu â chydymffurfio â’r Côd Ymddygiad.**

Nodwch isod, os gwelwch yn dda, gan ddefnyddio’r paragraffau sydd wedi’u rhifo, unrhyw ffactorau y dylai’r Pwyllgor Safonau eu cymryd i ystyriaeth os bydd yn dod i gasgliad eich bod wedi methu â dilyn y Côd Ymddygiad. Nodwch, os gwelwch yn dda, nad oes unrhyw ganfyddiad o’r fath wedi’i wneud hyd yn hyn.



| Rhif paragraff | Ffactorau i’r Pwyllgor Safonau eu cymryd i ystyriaeth pan yn penderfynu a ddylid cymeradwyo unrhyw rybudd, cyfyngu adnoddau neu lwfansau, atal neu atal rhannol. |
|---|---|
| **1** | |
| **2** | |
| **3** | |

Manylion yr achos a rhif cyfeirnod ..........................

# FFURFLEN D

## Trefniadau ar gyfer gwrandawiad y Pwyllgor Safonau

Ticiwch y blychau perthnasol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **1** | **Ydych chi'n bwriadu mynychu gwrandawiad y Pwyllgor Safonau ar y dyddiad a nodir yn y llythyr sydd ynghlwm?**<br><br>**Os 'Na', eglurwch pam os gwelwch yn dda.** | **Ydw** ☐<br><br>**Nac ydw** ☐ | **Rheswm:** |
| **2** | **A ydych chi'n mynd i gyflwyno eich achos eich hun?** | **Ydw** ☐<br><br>**Nac ydw** ☐ | |
| **3** | **Os nad ydych yn cyflwyno eich achos eich hun, a fydd cynrychiolydd yn ei gyflwyno ar eich rhan?**<br><br>**Os 'Bydd' rhowch enw eich cynrychiolydd o.g.y.dd** | **Bydd** ☐<br><br>**Na fydd** ☐ | **Enw:** |
| **4** | **A yw eich cynrychiolydd yn gyfreithiwr neu'n fargyfreithiwr gweithredol?**<br><br>**Os 'Ydi' rhowch eu cymwysterau cyfreithiol o.g.y.dd. Yna ewch i Gwestiwn 6.**<br><br>**Os 'Na' ewch i Gwestiwn 5 o.g.y.dd** | **Ydi** ☐<br><br>**Nac Ydi** ☐ | **Cymwysterau:** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **5** | **A oes gan eich cynrychiolydd unrhyw gysylltiad gyda'ch achos?**<br><br>**Os 'Oes' rhowch fanylion o.g.y.dd** | **Oes** ☐<br><br>**Nac Oes** ☐ | **Manylion:** |
| **6** | **A ydych chi'n mynd i alw unrhyw dystion?**<br><br>**Os 'Ydw', cwblhewch Ffurflen E o.g.y.dd** | **Ydw** ☐<br><br>**Nac Ydw** ☐ | |
| **7** | **A oes gennych chi, eich cynrychiolydd neu eich tystion unrhyw anawsterau mynediad neu anghenion eraill? (e.e. mynediad i gadair olwyn?)**<br><br>**Os 'Oes' rhowch fanylion o.g.y.dd** | **Oes** ☐<br><br>**Nac Oes** ☐ | **Manylion:** |
| **8** | **A oes angen cyfeithydd arnoch chi, eich cynrychiolydd neu dystion?**<br><br>**Os 'Oes' rhowch fanylion o.g.y.dd** | **Oes** ☐<br><br>**Nac Oes** ☐ | **Manylion:** |
| **9** | **Ydych chi eisiau i unrhyw ran o'r gwrandawiad gael ei gynnal yn breifat?**<br><br>**Os 'Oes' rhowch eich rhesymau o.g.y.dd** | **Oes** ☐<br><br>**Nac Oes** ☐ | **Rhesymau:** |
| **10** | **Ydych chi eisiau i unrhyw ran o'r dogfennau perthnasol gael eu cadw oddi wrth y cyhoedd?**<br><br>**Os 'Ydw rhowch eich rhesymau o.g.y.dd** | **Ydw** ☐<br><br>**Nac Ydw** ☐ | **Rhesymau:** |

Manylion yr achos a rhif cyfeirnod ...........................

# FFURFLEN E

## Manylion am y tystion yr ydych yn bwriadu eu galw:

<table>
<tr><td colspan="2">Enw’r tyst neu’r tystion</td><td>1<br><br>2<br><br>3</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="4">Tyst 1</td></tr>
<tr><td>a</td><td>Fydd y tyst yn rhoi tystiolaeth am yr honiad?<br><br>Os ‘Bydd’ rhowch amlinelliad o’r dystiolaeth y bydd y tyst yn ei rhoi os gwelwch yn dda</td><td>Bydd ☐<br><br>Na fydd ☐</td><td>Amlinelliad o’r dystiolaeth:</td></tr>
<tr><td>b</td><td>Fydd y tyst yn rhoi tystiolaeth ynglŷn â pha gamau y dylai’r Pwyllgor Safonau eu cymryd os bydd yn dod i’r casgliad nad yw’r Côd Ymddygiad wedi’i ddilyn?<br><br>Os ‘Bydd’, rhowch amlinelliad o’r dystiolaeth y bydd y tyst yn ei rhoi os gwelwch yn dda</td><td>Bydd ☐<br><br>Na fydd ☐</td><td>Amlinelliad o’r dystiolaeth:</td></tr>
</table>

| Tyst 2 | | | |
|---|---|---|---|
| **a** | **Fydd y tyst yn rhoi tystiolaeth am yr honiad?**<br><br>**Os 'Bydd' rhowch amlinelliad o'r dystiolaeth y bydd y tyst yn ei rhoi os gwelwch yn dda.** | **Bydd** ☐<br><br>**Na fydd** ☐ | **Amlinelliad o'r dystiolaeth:** |
| **b** | **Fydd y tyst yn rhoi tystiolaeth ynglŷn â pha gamau y dylai'r Pwyllgor Safonau eu cymryd os bydd yn dod i'r casgliad nad yw'r Côd Ymddygiad wedi'i ddilyn?**<br><br>**Os 'Bydd', rhowch amlinelliad o'r dystiolaeth y bydd y tyst yn ei rhoi os gwelwch yn dda** | **Bydd** ☐<br><br>**Na fydd** ☐ | **Amlinelliad o'r dystiolaeth:** |

| **Tyst 3** | | | |
|---|---|---|---|
| **a** | **Fydd y tyst yn rhoi tystiolaeth am yr honiad?**<br><br>**Os 'Bydd' rhowch amlinelliad o'r dystiolaeth y bydd y tyst yn ei rhoi os gwelwch yn dda.** | **Bydd** ☐<br><br>**Na fydd** ☐ | **Amlinelliad o'r dystiolaeth:** |
| **b** | **Fydd y tyst yn rhoi tystiolaeth ynglŷn â pha gamau y dylai'r Pwyllgor Safonau eu cymryd os bydd yn dod i gasgliad nad yw'r Côd Ymddygiad wedi'i ddilyn?**<br><br>**Os 'Bydd', rhowch amlinelliad o'r dystiolaeth y bydd y tyst yn ei rhoi os gwelwch yn dda** | **Bydd** ☐<br><br>**Na fydd** ☐ | **Amlinelliad o'r dystiolaeth:** |

**ATODIAD / ENCLOSURE**

**2**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

# PROTOCOL DATRYSIAD LLEOL

**Cyffredinol**

1. Pwrpas y Protocol yw hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad, gyda golwg ar feithrin perthnasau gweithio cadarnhaol ymysg Aelodau, a rhwng Aelodau a Swyddogion, i osgoi cwynion annilys i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ac i ddiogelu enw da'r Cyngor.

2. Ni fydd y Protocol yn berthnasol ond mewn achosion o gamymddwyn gan Aelodau yn erbyn ei gilydd dan baragraffau 4(b) a 6(1)(d) y Côd Ymddygiad. Hynny yw, honiadau o fethu â dangos parch neu fod yn ystyriol o eraill, neu honiadau bod Aelod wedi gwneud cwynion blinderus, maleisus neu ddisylwedd yn erbyn Aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran.

3. Mae'r Protocol yn ceisio sicrhau cyfryngu a chymodi cyflym. Nid yw'n gosbol ond fe all fod yn berthnasol i gosbi os gwneir cwyn ffurfiol i'r OGCC mewn achos lle ceir patrwm o ymddygiad o'r fath.

4. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli nac ymyrryd â disgyblaeth grŵp neu blaid.

5. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli nac ymyrryd ag unrhyw hawliau statudol neu gontractyddol all fod gan Swyddogion.

6. Nid yw'r Protocol wedi ei fwriadu i ddisodli Awdurdod yr OGCC ond, yn hytrach i ddelio â chategori cyfyngedig o achosion, lle gallai paragraffau 4(b) neu 6(1)(d) y Côd fod wedi eu torri, ond lle na fyddai casgliad o'r fath mae'n debyg yn golygu y byddai camau disgyblu'n cael eu cymryd. Ni fyddai achosion o'r fath, yn unigol o leiaf, yn bodloni prawf trothwy'r OGCC ar gyfer ymchwilio iddynt.

**Gweithdrefn**

7. Rhaid i Aelod neu Swyddog sy'n dymuno defnyddio'r Protocol roi eu cwyn yn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro, gan egluro pryd a lle yr honnwyd bod y côd wedi ei dorri, sut a phaham y torrwyd paragraff 4(b) ac / neu 6(1)(d) ynghyd â manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

8. Rhaid anfon unrhyw gwyn ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro cyn pen 7 niwrnod gwaith o ddyddiad y digwyddiad sy'n destun y gŵyn, neu 7 niwrnod gwaith o'r dyddiad pan ddaeth yr achwynydd i wybod am y digwyddiad.

9. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei g / chynrychiolydd, yn anfon copi o'r gŵyn, ac unrhyw dystiolaeth gefnogol, i'r Aelod sy'n destun y gwyn. Bydd gan yr Aelod 7 niwrnod gwaith o'i dderbyn, ar gyfer anfon ateb ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro yn egluro eu hymateb ac yn rhoi manylion am unrhyw dystion ac unrhyw ddogfennau perthnasol.

10. Yn dilyn derbyn ateb gan yr Aelod y gwneir y gŵyn amdano/amdani, neu pan fo'r amser ar gyfer derbyn ateb wedi mynd heibio, bydd y Swyddog Monitro yn :-

- rhoi copi o’r ymateb llawn i'r achwynydd;

- yn trefnu cyfarfod o Banel anffurfiol o'r Pwyllgor Safonau i ystyried y gŵyn ar y dyddiad cyntaf hwylus sydd ar gael i bawb sydd yn ymwneud â’r mater.

11. Bydd cyfarfod o Banel y Pwyllgor Safonau yn cael ei gynnal yn breifat a bydd unrhyw waith papur y bydd yn ei dderbyn, neu y bydd yn ei gynhyrchu, yn parhau i fod yn gyfrinachol i'r Panel, ei ymgynghorwyr, ac i’r partïon. Mae hyn, fodd bynnag, yn amodol ar unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i ddatgelu e.e. i'r OGCC pe bai materion yn dwysau/datblygu ymhellach.

12. Bydd unrhyw Banel anffurfiol o'r Bwyllgor Safonau yn cynnwys dau Aelod o'r Pwyllgor, yn eu tro, ond ni fydd yn cynnwys Aelod Cyngor Cymuned.

13. Gofynnir i’r partïon fynychu'r Panel a byddant yn gyfrifol am ddod gyda hwy unrhyw dystion y maent yn bwriadu dibynnu arnynt.

14. Os na fydd unrhyw barti neu dyst yn bresennol, mater i’r Panel fydd penderfynu a fyddant yn symud ymlaen â’r mater, neu’n aildrefnu.

15. Pe bai’r achwynydd, neu’r Aelod y gwneir cwyn amdano/amdani yn Aelod o grŵp gwleidyddol, yna fe all wahodd eu Harweinydd Grŵp i fynychu'r Panel. Nid oes rhaid i unrhyw Arweinydd Grŵp perthnasol fynychu, ond anogir hwy i wneud hynny.

16. Bydd y Swyddog Monitro, neu ei g / chynrychiolydd, yn mynychu i gynghori'r Panel.

17. Bydd gweithdrefn unrhyw Banel yn un anffurfiol. Bydd y Panel yn gwneud pob ymdrech i fod yn deg a diduedd gyda’r ddau barti. Ni fydd unrhyw reolau tystiolaeth fel y cyfryw, ond ni fydd unrhyw dystion fydd yn cael eu galw ond yn mynychu i rannu eu gwybodaeth gyda’r Panel; ni fyddant yn 'eistedd i mewn' yn ystod y cyfarfod.

18. Ar ôl clywed gan y partïon, ac unrhyw dystion, ynghyd â'r Arweinyddion Grŵp (pe bai Arweinyddion Grŵp yn bresennol, a phe baent yn dymuno siarad gerbron y Panel,) bydd y Panel wedyn yn ymneilltuo i sesiwn breifat, ac yn dychwelyd i fynegi eu safbwynt a rhoi gerbron unrhyw argymhellion all fod ganddo ar gyfer datrys y sefyllfa. Nid oes gan y Panel unrhyw bwerau disgyblaethol ond fe all wneud argymhellion i'r Arweinyddion Grwpiau yn unigol, mewn perthynas ag Aelodau o'u grŵp ac, i'r Arweinyddion Grŵp gyda'i gilydd mewn perthynas ag unrhyw Aelod digyswllt.

19. Ni fydd unrhyw hawl i apelio dan y broses hon.

20. Bydd y partïon yn derbyn cadarnhad ysgrifenedig o gasgliadau'r Panel ac adroddir ar ganlyniad pob Panel, ond heb gynnwys enwau, i bob cyfarfod chwarterol o’r Pwyllgor Safonau.

21. Bydd canlyniad unrhyw Banel yn cael ei drafod hefyd fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd yr Arweinyddion Grŵp.

**ATODIAD / ENCLOSURE**

**3**

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2283 (Cy.172)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ymddygiad aelodau a chyflogeion llywodraeth leol.

Mae adran 53(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod perthnasol, sydd, yng Nghymru, yn cynnwys cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau heddlu ond nid cynghorau cymuned, sefydlu pwyllgor safonau sydd i gael y swyddogaethau a roddir iddo gan neu o dan y Rhan honno o'r Ddeddf.

O dan adran 53(11) o'r Ddeddf, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau ynghylch (ymhlith pethau eraill) maint, aelodaeth a thrafodion pwyllgorau safonau awdurdodau perthnasol yng Nghymru, heblaw awdurdodau heddlu, a maint, aelodaeth a thrafodion unrhyw is-bwyllgorau a sefydlir o dan adran 56 o'r Ddeddf.

Mae rheoliadau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â maint ac aelodaeth pwyllgor ac is-bwyllgorau safonau ac mae rheoliad 12 yn darparu nad oes unrhyw ofyniad ynghylch cydbwysedd gwleidyddol i fod yn gymwys iddynt.

Mae rheoliadau 13, 14, 15, 16 a 17 yn darparu ar gyfer penodi aelodau annibynnol i bwyllgorau ac is-bwyllgorau safonau.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2283 (W.172)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Standards Committees (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

Part III of the Local Government Act 2000 ("the Act") makes provision with respect to the conduct of local government members and employees.

Section 53(1) of the Act requires every relevant authority, which in Wales includes county and county borough councils, fire authorities, National Park authorities and police authorities but not community councils, to establish a standards committee which is to have the functions conferred on it by or under that Part of the Act.

Under section 53(11) of the Act, the National Assembly for Wales may by regulations make provision as to (among other things) the size, composition and proceedings of standards committees of relevant authorities in Wales, other than police authorities, and of any sub-committees established under section 56 of the Act.

Regulations 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 and 11 make provision with respect to the size and composition of standards committees and sub-committees and Regulation 12 provides that no requirement of political balance is to apply to them.

Regulations 13, 14, 15, 16 and 17 provide for the appointment of independent members to standards committees and sub-committees.

Mae rheoliadau 18, 19, 20 ac 21 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyfnod swydd aelodau pwyllgorau ac is-bwyllgorau safonau a'u hailbenodi.

Regulations 18, 19, 20 and 21 make provision with respect to the term of office and re-appointment of members of standards committees and sub-committees.

Mae rheoliadau 22 a 23 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â swydd cadeirydd ac is-gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor safonau ac mewn perthynas â phleidleisio mewn cyfarfodydd.

Regulations 22 and 23 make provision with respect to the office of chairperson and vice-chairperson of a standards committee or sub-committee and with respect to voting at meetings.

Mae rheoliadau 24 a 25 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chworwm yng nghyfarfodydd pwyllgorau ac is-bwyllgorau safonau, mynychder y cyfarfodydd a phresenoldeb swyddog monitro'r awdurdod neu gynrychiolydd i'r swyddog monitro.

Regulations 24 and 25 make provision with respect to a Quorum at meetings of standards committees and sub-committees, the frequency of meetings and the attendance of the authority's monitoring officer or a representative of the monitoring officer.

Mae rheoliad 26 yn cymhwyso, gydag addasiadau, ddarpariaethau penodol Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 at bwyllgorau ac is-bwyllgorau safonau.

Regulation 26 applies, with modifications, certain provisions of Part VA of the Local Government Act 1972 to standards committees and sub-committees.

Mae rheoliadau 28 a 29 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chadw cofnod o'r trafodion ac mewn perthynas â chylch gwaith pwyllgorau ac is-bwyllgorau safonau.

Regulations 28 and 29 make provision with respect to the keeping of a record of the proceedings and with respect to terms of reference of standards committees and sub-committees.

Mae rheoliad 30 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â threfniadau trosiannol ynghylch penodi aelodau annibynnol i bwyllgorau ac is-bwyllgorau safonau.

Regulation 30 makes provision with respect to transitional arrangements regarding the appointment of independent members to standards committees and sub-committees.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2283 (Cy.172)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *21 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym* | *28 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 53(11) a (12), 56(5) a 105(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**).

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "aelod" (*"member"*), oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, yw -

(a) yn achos awdurdod lleol, aelod etholedig o'r awdurdod hwnnw, a

(b) yn achos awdurdod Parc Cenedlaethol neu awdurdod tân aelod a benodir i'r awdurdod hwnnw naill ai -

(i) o dan Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995, neu

(ii) o dan unrhyw un o'r Gorchmynion Gwasanaethau Tân;

ystyr "aelod annibynnol" (*"independent member"*) yw aelod o bwyllgor safonau nad yw -

(a) yn aelod,

(b) yn swyddog, neu

(c) yn briod ag aelod neu swyddog

(a) 2000 p.22.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2283 (W.172)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Standards Committees (Wales) Regulations 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *21st June 2001* |
| *Coming into force* | *28th July 2001* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred upon it by sections 53(11) and (12), 56(5) and 105(1) and (2) of the Local Government Act 2000(**a**).

**Citation, commencement and application**

**1.**-(1) These Regulations may be cited as the Standards Committees (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 28 July 2001.

(2) These Regulations apply to Wales only.

**Interpretation**

**2.** In these Regulations -

"the 1972 Act" (*"Deddf 1972"*) means the Local Government Act 1972(**b**);

"the 2000 Act" (*"Deddf 2000"*) means the Local Government Act 2000;

"alternative arrangements" (*"trefniadau amgen"*) means arrangements specified in regulations made by the National Assembly for Wales under section 32(1) of the 2000 Act;

"board" (*"bwrdd"*) has the meaning given to it by the Local Authorities (Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001(**c**);

"chairperson" (*"cadeirydd"*) for the purposes of regulation 8(3) includes -

(a) a chairman elected under paragraph 5 of Schedule 3 to the National Park Authorities (Wales) Order 1995(**d**), and

(a) 2000 c.22.

(b) 1972 c.70.

(c) S.I. 2001/2284 (W.173).

(d) S.I. 1995/2803.

o'r awdurdod perthnasol o dan sylw, unrhyw awdurdod pethnasol arall, na chyngor cymuned;

ystyr "aelod panel" (*"panel member"*) yw aelod o banel a sefydlwyd o dan reoliad 15;

ystyr "aelod panel lleyg" (*"lay panel member"*) yw aelod o banel a sefydlir o dan reoliad 15 -

(a) nad yw, ac nad yw wedi bod, yn aelod, yn aelod cyfetholedig nac yn swyddog, neu

(b) nad yw'n briod i aelod neu swyddog

o'r awdurdod perthnasol o dan sylw, unrhyw awdurdod perthnasol arall na chyngor cymuned;

ystyr "aelod pwyllgor cymunedol" (*"community committee member")* yw aelod o bwyllgor safonau sy'n aelod hefyd o gyngor cymuned yn ardal yr awdurdod perthnasol o dan sylw;

ystyr "awdurdod lleol" (*"local authority"*) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;

ystyr "awdurdod Parc Cenedlaethol " (*"National Park authority"*) yw awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**a**);

ystyr "awdurdod perthnasol" (*"relevant authority"*) yw -

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) awdurdod Parc Cenedlaethol, ac

(ch) awdurdod tân;

ystyr "awdurdod tân" (*"fire authority"*) yw awdurdod tân a gyfansoddwyd trwy gynllun cyfuno o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**b**);

mae i "bwrdd" (*"board"*) yr ystyr a roddir iddo gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001(**c**);

mae "cadeirydd" (*"chairperson"*), at ddibenion rheoliad 8(3), yn cynnwys -

(a) cadeirydd a etholir o dan baragraff 5 o Atodlen 3 i Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995(**ch**), a

(b) cadeirydd a etholir o dan baragraff 17 o Ran III o'r Atodlen i unrhyw un o'r Gorchmynion Gwasanaethau Tân;

ystyr "Deddf 1972" (*"the 1972 Act"*) yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**d**);

ystyr "Deddf 2000" (*"the 2000 Act"*) yw Deddf Llywodraeth Leol 2000;

mae "dirprwy gadeirydd" (*"deputy chairperson"*) yn

(a) 1995 p.25.

(b) 1947 p.41.

(c) O.S. 2001/2284 (Cy.173).

(ch) O.S. 1995/2803.

(d) 1972 p.70.

(b) a chairman elected under paragraph 17 of Part III of the Schedule to any of the Fire Services Orders;

"community committee member" (*"aelod pwyllgor cymunedol"*) means a member of a standards committee who is also a member of a community council within the area of the relevant authority concerned;

"deputy chairperson" (*"dirprwy gadeirydd"*) includes -

(a) a deputy chairman elected under paragraph 5 of Schedule 3 to the National Park Authorities (Wales) Order 1995, and

(b) a vice-chairman elected under paragraph 17 of Part III of the Schedule to any of the Fire Services Orders;

"executive arrangements" (*"trefniadau gweithrediaeth"*) means arrangements by a local authority -

(a) for and in connection with the creation and operation of an executive of the authority, and

(b) under which certain functions of the authority are the responsibility of the executive;

"fire authority" (*"awdurdod tân"*) means a fire authority constituted by a combination scheme under the Fire Services Act 1947(**a**);

"the Fire Services Orders" ("*y Gorchmynion Gwasanaethau Tân"*) means -

(a) The North Wales Fire Services (Combination Scheme) Order 1995(**b**),

(b) The Mid and West Wales Fire Services (Combination Scheme) Order 1995(**c**), and

(c) The South Wales Fire Services (Combination Scheme) Order 1995(**d**);

"independent member" (*"aelod annibynnol"*) means a member of a standards committee who is not -

(a) a member,

(b) an officer, or

(c) the spouse of a member or an officer

of the relevant authority concerned, any other relevant authority, or a community council.

"lay panel member" (*"aelod panel lleyg"*) means a member of a panel established under regulation 15 who-

(a) is not and has not been a member, co-opted member or officer, or

(b) is not the spouse of a member or an officer

(a) 1947 c.41.

(b) S.I. 1995/3218.

(c) S.I. 1995/3229.

(d) S.I. 1995/3230.

cynnwys -

(a) dirprwy gadeirydd a etholir o dan baragraff 5 o Atodlen 3 i Orchymyn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (Cymru) 1995, a

(b) is-gadeirydd a etholir o dan baragraff 17 o Ran III o'r Atodlen i unrhyw un o'r Gorchmynion Gwasanaethau Tân;

ystyr "y Gorchmynion Gwasanaethau Tân" (*"the Fire Service Orders"*) yw -

(a) Gorchymyn Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995(**a**),

(b) Gorchymyn Gwasanaethau Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995(**b**), ac

(c) Gorchymyn Gwasanaethau Tân De Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995(**c**);

ystyr "gweithrediaeth arweinydd a chabinet" (*"leader and cabinet executive"*) yw'r math o drefniadau gweithrediaeth a bennir yn adran 11(3) o Ddeddf 2000;

ystyr "gweithrediaeth maer a chabinet" (*"mayor and cabinet executive"*) yw'r math o drefniadau gweithrediaeth a bennir naill ai -

(a) yn adran 11(2), neu

(b) yn adran 11(4)o Ddeddf 2000;

ystyr "is-bwyllgor i bwyllgor safonau" (*"sub-committee of a standards committee"*) yw is-bwyllgor a benodir gan bwyllgor safonau awdurdod lleol o dan adran 56 o Ddeddf 2000;

ystyr "pwyllgor safonau" (*"standards committee"*), oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, yw pwyllgor safonau awdurdod perthnasol ac mae'n cynnwys is-bwyllgor i bwyllgor safonau;

mae i "swyddog priodol" yr ystyr a roddir i *"proper officer"* gan adran 270(3) o Ddeddf 1972;

ystyr "trefniadau amgen" (*"alternative arrangements"*) yw'r trefniadau a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 32(1) o Ddeddf 2000;

ystyr "trefniadau gweithrediaeth" (*"executive arrangements"*) yw trefniadau gan awdurdod lleol -

(a) ar gyfer creu a gweithredu gweithrediaeth i'r awdurdod ac mewn cysylltiad â hynny, a

(b) y mae swyddogaethau penodol i'r awdurdod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth o danynt.

(a) O.S. 1995/3218.

(b) O.S. 1995/3229.

(c) O.S. 1995/3230.

of the relevant authority concerned, any other relevant authority or a community council;

"leader and cabinet executive" (*"gweithrediaeth arweinydd a chabinet"*) means the form of executive arrangements specified in section 11(3) of the 2000 Act;

"local authority" (*"awdurdod lleol"*) means a county or county borough council;

"mayor and cabinet executive" (*"gweithrediaeth maer a chabinet"*) means the form of executive arrangements specified in either -

(a) section 11(2), or

(b) section 11(4)

of the 2000 Act;

"member" (*"aelod"*), unless the context otherwise requires, means -

(a) in the case of a local authority, an elected member of that authority, and

(b) in the case of a National Park authority or fire authority a member appointed to that authority under either -

(i) the National Park Authorities (Wales) Order 1995, or

(ii) any of the Fire Services Orders;

"National Park authority" (*"awdurdod Parc Cenedlaethol"*) means a National Park authority established under section 63 of the Environment Act 1995(**a**);

"panel member" (*"aelod panel"*) means a member of a panel established under regulation 15.

"proper officer" (*"swyddog priodol"*) has the meaning given by section 270(3) of the 1972 Act;

"relevant authority" (*"awdurdod perthnasol"*) means -

(a) a county council,

(b) a county borough council,

(c) a National Park authority, and

(d) a fire authority;

"standards committee" (*"pwyllgor safonau"*), unless the context otherwise requires, means a standards committee of a relevant authority and includes a sub-committee of a standards committee;

"sub-committee of a standards committee" (*"is-bwyllgor i bwyllgor safonau"*) means a sub-committee appointed by a standards committee of a local authority under section 56 of the 2000 Act.

(a) 1995 c.25.

**Maint pwyllgorau safonau**

3. Rhaid i bwyllgor safonau gynnwys nid llai na phump ac nid mwy na naw o aelodau.

**Aelodaeth pwyllgorau safonau**

4. Rhaid i aelodaeth pwyllgor safonau beidio â chynnwys personau heblaw -

(a) personau sy'n aelodau o'r awdurdod perthnasol o dan sylw,

(b) aelodau annibynnol, neu

(c) aelodau pwyllgor cymunedol.

5.-(1) Os yw cyfanswm aelodau pwyllgor safonau yn eilrif, rhaid i o leiaf hanner y rhif hwnnw fod yn aelodau annibynnol.

(2) Os yw cyfanswm aelodau pwyllgor safonau yn odrif, rhaid i'r mwyafrif o'r rhif hwnnw fod yn aelodau annibynnol.

6.-(1) Rhaid i berson sydd wedi bod yn aelod o un neu ragor o awdurdodau perthnasol, ond nad yw'n aelod mwyach, beidio â bod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau unrhyw awdurdod perthnasol yr oedd y person hwnnw yn aelod ohono.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliad 16(2), caiff person sydd wedi bod yn aelod o un neu ragor o awdurdodau perthnasol, ond nad yw'n aelod mwyach, ar ôl y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau gyda'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â bod yn aelod o unrhyw awdurdod perthnasol, fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau i awdurdod perthnasol nad yw'r person hwnnw wedi bod yn aelod ohono.

7.-(1) Rhaid i berson sydd wedi bod yn swyddog o un neu ragor o awdurdodau perthnasol, ond nad yw'n aelod mwyach, beidio â bod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau i unrhyw awdurdod perthnasol yr oedd y person hwnnw yn swyddog ohono.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliad 16(2), caiff person sydd wedi bod yn swyddog o un neu ragor o awdurdodau perthnasol, ond nad yw'n aelod mwyach, ar ôl y cyfnod o ddeuddeng mis sy'n dechrau gyda'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â bod yn swyddog o unrhyw awdurdod perthnasol, fod yn aelod annibynnol o bwyllgor safonau i awdurdod perthnasol nad yw'r person hwnnw wedi bod yn swyddog ohono.

8.-(1) Os yw awdurdod perthnasol yn awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth, rhaid i'r canlynol, sef -

(a) maer etholedig awdurdod o'r fath sy'n gweithredu gweithrediaeth maer a chabinet, a

(b) arweinydd gweithrediaeth awdurdod o'r fath sy'n gweithredu gweithrediaeth arweinydd a chabinet,

**Size of standards committees**

3. A standards committee shall consist of not less than five nor more than nine members.

**Composition of standards committees**

4. The membership of a standards committee shall not consist of persons other than -

(a) persons who are members of the relevant authority concerned,

(b) independent members, or

(c) community committee members.

5.-(1) Where the total number of members of a standards committee is an even number at least half that number shall be independent members.

(2) Where the total number of members of a standards committee is an odd number a majority of that number shall be independent members.

6.-(1) A person who has been but is no longer a member of one or more relevant authorities shall not be an independent member of the standards committee of any relevant authority of which that person was a member.

(2) Subject to regulation 16(2), a person who has been but is no longer a member of one or more relevant authorities may, after the period of twelve months commencing with the date on which that person ceased to be a member of any relevant authority, be an independent member of a standards committee of a relevant authority of which that person has not been a member.

7.-(1) A person who has been but is no longer an officer of one or more relevant authorities shall not be an independent member of the standards committee of any relevant authority of which that person was an officer.

(2) Subject to regulation 16(2), a person who has been but is no longer an officer of one or more relevant authorities may, after the period of twelve months commencing with the date on which that person ceased to be an officer of any relevant authority, be an independent member of a standards committee of a relevant authority of which that person has not been an officer.

8.-(1) Where a relevant authority is a local authority operating executive arrangements, neither -

(a) the elected mayor of such an authority which is operating a mayor and cabinet executive, nor

(b) the executive leader of such an authority which is operating a leader and cabinet executive,

beidio â bod yn aelod o bwyllgor safonau'r awdurdod perthnasol hwnnw.

(2) Os yw awdurdod perthnasol yn awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen, rhaid i gadeirydd bwrdd yr awdurdod hwnnw beidio â bod yn aelod o bwyllgor safonau'r awdurdod hwnnw.

(3) Os yw awdurdod perthnasol yn awdurdod Parc Cenedlaethol neu'n awdurdod tân, rhaid i'r canlynol, sef -

(a) cadeirydd, a

(b) dirprwy gadeirydd (os oes un)

awdurdod o'r fath beidio â bod yn aelod o bwyllgor safonau'r awdurdod hwnnw.

**9.**-(1) Ni chaiff aelodaeth pwyllgor safonau awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth gynnwys mwy nag un aelod sy'n aelod hefyd o weithrediaeth yr awdurdod hwnnw.

(2) Ni chaiff aelodaeth pwyllgor safonau awdurdod lleol sy'n gweithredu trefniadau amgen gynnwys mwy nag un aelod sy'n aelod hefyd o fwrdd yr awdurdod hwnnw.

**10.** Rhaid i aelodaeth pwyllgor safonau sydd i gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â'r canlynol, sef -

(a) cynghorau cymuned sydd wedi'u lleoli yn ardal yr awdurdod perthnasol hwnnw, a

(b) aelodau'r cynghorau cymuned hynny,

gynnwys o leiaf un aelod pwyllgor cymunedol.

**11.** Rhaid i aelod o awdurdod lleol sydd hefyd yn aelod o gyngor cymuned sydd wedi'i leoli yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw beidio â bod yn aelod pwyllgor cymunedol i bwyllgor safonau'r awdurdod hwnnw.

**Dyrannu seddau i grwpiau Gwleidyddol**

**12.** Nid yw pwyllgor safonau i gael ei ystyried yn gorff y mae adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**a**) yn gymwys iddo.

**Penodi aelodau annibynnol i bwyllgorau safonau**

**13.**-(1) Pan fydd lle gwag yn codi ar gyfer swydd fel aelod annibynnol o bwyllgor safonau, rhaid i'r awdurdod perthnasol o dan sylw gyhoeddi hysbyseb mewn nid llai na dau bapur newydd (nad ydynt yn cael eu cyhoeddi gan yr awdurdod perthnasol hwnnw) sy'n cylchredeg yn ei ardal.

(2) Rhaid i'r hysbyseb y cyfeirir ati ym mharagraff (1) uchod hysbysu'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod perthnasol fod yr awdurdod perthnasol yn ceisio penodi aelod annibynnol i'w

(a) 1989 p.42.

shall be a member of the standards committee of that relevant authority.

(2) Where a relevant authority is a local authority operating alternative arrangements, the chairperson of the board of that authority shall not be a member of that authority's standards committee.

(3) Where a relevant authority is a National Park authority or a fire authority, neither -

(a) the chairperson, nor

(b) the deputy chairperson (if any)

of such an authority shall be a member of the standards committee of that authority.

**9.**-(1) The membership of a standards committee of a local authority operating executive arrangements may not include more than one member who is also a member of the executive of that authority.

(2) The membership of a standards committee of a local authority operating alternative arrangements may not include more than one member who is also a member of the board of that authority.

**10.** The membership of a standards committee which is to discharge functions in relation to -

(a) community councils which are situated in that relevant authority's area, and

(b) the members of those community councils,

shall include at least one community committee member.

**11.** A member of a local authority who is also a member of a community council situated in that local authority's area shall not be a community committee member of that authority's standards committee.

**Allocation of seats to Political groups**

**12.** A standards committee is not to be regarded as a body to which section 15 of the Local Government and Housing Act 1989(**a**) applies.

**Appointment of independent members to standards committees**

**13.**-(1) Where a vacancy arises for a post as an independent member of a standards committee the relevant authority concerned shall publish an advertisement in not less than two newspapers (which are not published by that relevant authority) circulating in its area.

(2) The advertisement referred to in paragraph (1) above shall notify the local government electors for the relevant authority's area that the relevant authority is seeking to appoint an independent member to its

(a) 1989 c.42.

bwyllgor safonau.

(3) Caiff awdurdod perthnasol gyhoeddi hysbyseb mewn cysylltiad ag unrhyw le gwag ar gyfer swydd fel aelod annibynnol ar bwyllgor safonau'r awdurdod perthnasol hwnnw mewn unrhyw bapur newydd y mae'n ei gyhoeddi.

**14**. Rhaid i awdurdod perthnasol -

(a) sefydlu meini prawf ar gyfer penodi aelodau annibynnol i'w bwyllgor safonau, a

(b) cyhoeddi'r meini prawf hynny yn yr hysbyseb y cyfeirir ati yn rheoliad 13(1) uchod.

**15**.-(1) Rhaid i awdurdod perthnasol sefydlu panel a fydd yn cynnwys nid mwy na phum aelod panel.

(2) Rhaid i un aelod panel fod yn aelod panel lleyg.

(3) Rhaid i banel a sefydlir o dan baragraff (1) gan awdurdod lleol gynnwys un aelod panel sy'n aelod o gyngor cymuned sydd wedi'i leoli yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw.

**16**.-(1) Rhaid i banel a sefydlir o dan reoliad 15 uchod -

(a) ystyried pob cais a ddaw i law'r awdurdod perthnasol mewn perthynas â lle gwag ar gyfer aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r awdurdod hwnnw;

(b) cymhwyso'r meini prawf a sefydlwyd gan yr awdurdod perthnasol o dan sylw o dan reoliad 14 uchod pan fydd yn ystyried ceisiadau am swydd fel aelod annibynnol o bwyllgor safonau'r awdurdod hwnnw; ac

(c) gwneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw geisiadau o'r fath i'r awdurdod perthnasol.

(2) Rhaid i benodiadau aelodau annibynnol o bwyllgor safonau awdurdod perthnasol gael eu gwneud gan yr awdurdod perthnasol y mae'n rhaid iddo roi sylw i argymhellion y panel.

**17**. Os yw'r awdurdod perthnasol o dan sylw yn barnu ei bod yn briodol, caiff hysbyseb a gyhoeddir o dan reoliad 13(1)-

(a) hysbysu'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod perthnasol hwnnw fod cadeirydd ac is-gadeirydd ei bwyllgor safonau yn cael eu hethol o blith aelodau annibynnol y pwyllgor hwnnw; a

(b) hysbysu'r etholwyr hynny ynghylch y nodweddion a'r profiad y gallai fod yn ofynnol i aelodau annibynnol sy'n dal swyddi o'r fath feddu arnynt.

standards committee.

(3) A relevant authority may publish an advertisement in connection with any vacancy for a post as an independent member on that relevant authority's standards committee in any newspaper that it publishes.

**14**. A relevant authority shall -

(a) establish criteria for the appointment of independent members to its standards committee, and

(b) publish those criteria in the advertisement referred to in regulation 13(1) above.

**15**.-(1) A relevant authority shall establish a panel which shall consist of not more than five panel members.

(2) One panel member must be a lay panel member.

(3) A panel established under paragraph (1) by a local authority must include one panel member who is a member of a community council situated in that local authority's area.

**16**.-(1) The panel established under regulation 15 above shall -

(a) consider every application that the relevant authority receives in relation to a vacancy for an independent member of that authority's standards committee;

(b) apply the criteria established by the relevant authority concerned under regulation 14 above when it considers applications for a post as an independent member of that authority's standards committee; and

(c) make recommendations in relation to any such applications to the relevant authority.

(2) Appointments of independent members of a relevant authority's standards committee shall be made by the relevant authority which shall have regard to the recommendations of the panel.

**17**. An advertisement published under regulation 13(1) may, if the relevant authority concerned considers appropriate -

(a) notify local government electors for that relevant authority's area that the chairperson and vice-chairperson of its standards committee are elected from the independent members of that committee; and

(b) notify those electors of the qualities and experience that may be required of independent members holding such positions.

**Cyfnod swydd aelodau pwyllgorau safonau**

**18**.-(1) Rhaid i gyfnod swydd aelod o bwyllgor safonau i awdurdod sy'n aelod o'r awdurdod hwnnw beidio â bod yn fwy -

(a) na phedair blynedd, neu

(b) na'r cyfnod tan yr etholiadau llywodraeth leol cyffredin i'r awdurdod lleol hwnnw sy'n dod nesaf ar ôl penodi'r person hwnnw yn aelod o bwyllgor safonau'r awdurdod hwnnw,

p'un bynnag yw'r byrraf.

(2) Rhaid i aelod o'r fath roi'r gorau i fod yn aelod o'r pwyllgor safonau hwnnw os yw'r aelod hwnnw'n rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r awdurdod lleol o dan sylw.

**19**.-(1) Os yw awdurdod perthnasol yn awdurdod Parc Cenedlaethol neu'n awdurdod tân, rhaid i gyfnod swydd aelod o bwyllgor safonau'r awdurdod hwnnw sy'n aelod o awdurdod o'r fath beidio â bod yn fwy -

(a) na phedair blynedd, neu

(b) na'r cyfnod tan y bydd penodiad yr aelod hwnnw yn aelod o'r awdurdod hwnnw yn dod i ben,

p'un bynnag yw'r byrraf.

(2) Rhaid i aelod o'r fath roi'r gorau i fod yn aelod o'r pwyllgor safonau hwnnw os yw'r aelod hwnnw'n rhoi'r gorau i fod yn aelod o'r awdurdod perthnasol o dan sylw.

**20.** Rhaid i gyfnod swydd aelod o bwyllgor safonau sy'n aelod annibynnol o'r pwyllgor hwnnw beidio â bod yn llai na phedair blynedd nac yn fwy na chwe blynedd.

**Ailbenodi aelodau o bwyllgorau safonau**

**21**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) o reoliad 18 a pharagraff (2) o reoliad 19 uchod, gall aelod o bwyllgor safonau awdurdod perthnasol sy'n aelod o'r awdurdod hwnnw gael ei ailbenodi am un tymor olynol pellach.

(2) Rhaid i aelod annibynnol o bwyllgor safonau awdurdod perthnasol beidio â gwasanaethu am fwy nag un cyfnod fel aelod o'r fath.

**Cadeiryddion ac is-gadeiryddion pwyllgorau safonau**

**22**.-(1) Rhaid i aelodau pwyllgor safonau ethol cadeirydd ac is-gadeirydd o blith aelodau annibynnol y pwyllgor hwnnw.

(2) Ethol cadeirydd ac is-gadeirydd yw'r busnes cyntaf y mae'n rhaid ei drafod yng nghyfarfod cyntaf pwyllgor safonau.

**Term of office of members of standards committees**

**18**.-(1) The term of office of a member of a local authority standards committee who is a member of that authority shall be no more than -

(a) four years, or

(b) the period until the ordinary local government elections for that local authority next following the appointment of that person as a member of that authority's standards committee,

whichever is the shorter.

(2) Such a member shall cease to be a member of that standards committee if that member ceases to be a member of the local authority concerned.

**19**.-(1) Where a relevant authority is a National Park authority or fire authority, the term of office of a member of that authority's standards committee who is a member of such an authority shall be no more than -

(a) four years, or

(b) the period until that member's appointment as a member of that authority ceases,

whichever is the shorter.

(2) Such a member shall cease to be a member of that standards committee if that member ceases to be a member of the relevant authority concerned.

**20**. The term of office of a member of a standards committee who is an independent member of that committee shall be not less than four nor more than six years.

**Re-appointment of members of standards committees**

**21**.-(1) Subject to paragraph (2) of regulation 18 and paragraph (2) of regulation 19 above, a member of the standards committee of a relevant authority who is a member of that authority may be re-appointed for one further consecutive term.

(2) An independent member of the standards committee of a relevant authority shall serve no more than one term of office as such a member.

**Chairpersons and vice-chairpersons of standards committees**

**22**.-(1)The members of a standards committee shall elect a chairperson and a vice-chairperson from amongst the independent members of that committee.

(2) The election of a chairperson and a vice-chairperson shall be the first business to be transacted at the first meeting of a standards committee.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) uchod, y cadeirydd fydd yn llywyddu mewn cyfarfodydd pwyllgor safonau.

(4) Os yw'r cadeirydd yn absennol o gyfarfod pwyllgor safonau, yna is-gadeirydd y pwyllgor, os yw'n bresennol, fydd yn llywyddu.

(5) Os bydd cadeirydd ac is-gadeirydd pwyllgor safonau yn absennol o un o gyfarfodydd y pwyllgor hwnnw, rhaid i'r aelod annibynnol o'r pwyllgor safonau hwnnw y bydd aelodau'r pwyllgor hwnnw yn ei ddewis lywyddu.

(6) Yn ddarostyngedig i baragraffau (8) a (9), rhaid i gadeirydd pwyllgor safonau gael ei ethol am ba un bynnag yw'r byrraf o'r cyfnodau canlynol -

(a) cyfnod heb fod yn llai na phedair blynedd nac yn fwy na chwe blynedd, neu

(b) tan fydd tymor swydd y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r pwyllgor safonau yn dod i ben.

(7) Yn ddarostyngedig i baragraffau (8) a (9), rhaid i is-gadeirydd pwyllgor safonau gael ei ethol am ba un bynnag yw'r byrraf o'r cyfnodau canlynol -

(a) cyfnod heb fod yn llai na phedair blynedd nac yn fwy na chwe blynedd, neu

(b) tan fydd cyfnod swydd y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r pwyllgor safonau yn dod i ben.

(8) Gall person a etholir yn gadeirydd neu is-gadeirydd ymddiswyddo ar unrhyw bryd drwy roi hysbysiad ysgrifenedig i swyddog priodol yr awdurdod perthnasol o dan sylw.

(9) Pan fydd lle gwag yn swydd y cadeirydd neu'r is-gadeirydd yn cael ei lenwi, rhaid i'r person a benodir felly ddal ei swydd am ba un bynnag yw'r byrraf o'r cyfnodau canlynol -

(a) tan y dyddiad y byddai cyfnod swydd y person y mae'r person hwnnw wedi'i ethol yn ei le wedi dod i ben, neu

(b) tan y bydd cyfnod swydd y person hwnnw fel aelod annibynnol o'r pwyllgor safonau hwnnw yn dod i ben.

**Pleidleisio**

**23**.-(1) Mae gan aelod o bwyllgor safonau nad yw'n aelod o'r awdurdod perthnasol o dan sylw hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y pwyllgor hwnnw.

(2) Rhaid i gwestiwn y mae pwyllgor safonau i benderfynu arno gael ei benderfynu drwy fwyafrif o'r pleidleisiau sy'n cael eu bwrw gan yr aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod ac yn pleidleisio arno.

(3) Os yw nifer y pleidleisiau yn gyfartal, bydd gan y person sy'n cadeirio cyfarfod y pwyllgor safonau ail bleidlais, sef pleidlais fwrw.

(3) Subject to paragraph (2) above, the chairperson shall preside at meetings of a standards committee.

(4) If the chairperson is absent from a meeting of a standards committee then the vice-chairperson of the committee, if present, shall preside.

(5) If both the chairperson and the vice-chairperson of a standards committee are absent from a meeting of that committee, such independent member of that standards committee as the members of that committee present shall choose shall preside.

(6) Subject to paragraphs (8) and (9) the chairperson of a standards committee shall be elected for whichever is the shorter of the following periods -

(a) a period of not less than four nor more than six years, or

(b) until the term of office of that person as an independent member of that standards committee comes to an end.

(7) Subject to paragraphs (8) and (9) the vice-chairperson of a standards committee shall be elected for whichever is the shorter of the following periods -

(a) a period of not less than four nor more than six years, or

(b) until the term of office of that person as an independent member of that standards committee comes to an end.

(8) A person elected as a chairperson or vice-chairperson may at any time resign from office by notice in writing to the proper officer of the relevant authority concerned.

(9) Where a casual vacancy in the office of chairperson or vice-chairperson is filled, the person so appointed shall hold office for whichever is the shorter of the following periods -

(a) until the date upon which the term of office of the person in whose place that person is elected would have expired, or

(b) until the term of office of that person as an independent member of that standards committee comes to an end.

**Voting**

**23**.-(1) A member of a standards committee who is not a member of the relevant authority concerned is entitled to vote at meetings of that committee.

(2) A question to be decided by a standards committee shall be decided by a majority of the votes cast by the members present at the meeting and voting thereon.

(3) In the case of an equality of votes, the person presiding at the meeting of the standards committee shall have a second, casting vote.

**Cworwm**

**24.** Rhaid peidio â thrafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod pwyllgor safonau oni bai -

(a) bod o leiaf dri aelod o'r pwyllgor hwnnw yn bresennol, gan gynnwys y cadeirydd, a

(b) bod o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

**Cyfarfodydd pwyllgorau safonau**

**25.**-(1) Rhaid i bob pwyllgor safonau gynnal o leiaf un cyfarfod yn ystod pob cyfnod o 12 mis ar ôl 31 Rhagfyr 2001.

(2) Rhaid i bob pwyllgor safonau gynnal o leiaf un cyfarfod ar 31 Rhagfyr 2001 neu cyn hynny.

(3) Rhaid i swyddog monitro awdurdod perthnasol neu gynrychiolydd swyddog monitro awdurdod perthnasol fod yn bresennol ym mhob cyfarfod o bwyllgor safonau'r awdurdod hwnnw.

**Darpariaethau cymwysadwy Rhan VA o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972**

**26.**-(1) Yn ddarostyngedig i'r addasiadau a nodir ym mharagraffau (2) i (9) isod, bydd darpariaethau canlynol Deddf 1972, sef -

(a) adran 100A,

(b) adran 100B,

(c) adran 100C,

(ch) adran 100D

(d) adran 100F,

(dd) adran 100H,

(e) adran 100I,

(f) adran 100K, ac

(ff) Atodlen 12A

yn gymwys fel petai pwyllgor safonau yn brif gyngor at ddibenion y darpariaethau hynny.

(2) Yn is-adran (3)(a) o adran 100A ac is-adran (1) o adran 100B, yn lle "council" rhowch "relevant authority".

(3) Yn is-adran (4)(b) o adran 100B, yn lle "chairman" rhowch "chairperson".

(4) Yn -

(a) is-adran (6)(a) o adran 100A,

(b) is-adran (1) o adran 100C, ac

(c) is-adran (1)(b) o adran 100D,

yn lle "offices of the council", rhowch "offices of the relevant authority".

**Quorum**

**24.** No business shall be transacted at a meeting of a standards committee unless -

(a) at least three members are present, including the chairperson, and

(b) at least half the members present (including the chairperson) are independent members.

**Meetings of standards committees**

**25.**-(1) Every standards committee shall hold at least one meeting during every period of 12 months after 31 December 2001.

(2) Every standards committee shall hold at least one meeting on or before 31 December 2001.

(3) The monitoring officer or a representative of the monitoring officer of a relevant authority shall attend every meeting of that authority's standards committee.

**Applicable provisions of Part VA of the Local Government Act 1972**

**26.**-(1) Subject to the modifications set out in paragraphs (2) to (9) below, the following provisions of the 1972 Act, that is to say -

(a) section 100A,

(b) section 100B,

(c) section 100C,

(d) section 100D,

(e) section 100F,

(f) section 100H,

(g) section 100I,

(h) section 100K, and

(i) Schedule 12A

shall apply as if for the purposes of those provisions a standards committee were a principal council.

(2) In sub-section (3)(a) of section 100A and sub-section (1) of section 100B, for "council" substitute "relevant authority".

(3) In sub-section (4)(b) of section 100B, for "chairman" substitute "chairperson".

(4) In -

(a) sub-section (6)(a) of section 100A,

(b) sub-section (1) of section 100C, and

(c) sub-section (1)(b) of section 100D,

for "offices of the council", substitute "offices of the relevant authority".

(5) Yn -

(a) is-adran (1) o adran 100F, a

(b) is-adran (6) o adran 100H,

hepgorwch "committee or".

(6) Yn is-adran (3) o adran 100H, yn lle "principal council" rhowch "relevant authority".

(7) Yn is-adran (1) o adran 100K, hepgorwch -

(a) ""committee or sub-committee of a principal council" shall be construed in accordance with section 100E(3) above;",

(b) ""constituent principal council" shall be construed in accordance with section 100E(4) above;", ac

(c) ""principal council" shall be construed in accordance with section 100J above".

(8) Hepgorwch is-adran (2) o adran 100K.

(9) Addasir paragraff (2) o Ran III o Atodlen 12A fel a ganlyn -

(a) yn lle "principal council" rhowch "relevant authority",

(b) yn lle "committee or sub-committee" rhowch "standards committee or sub-committee of that committee",

(c) hepgorwch "and includes a reference", ac

(ch) hepgorwch is-baragraffau (a), (b) ac (c).

(5) In -

(a) sub-section (1) of section 100F, and

(b) sub-section (6) of section 100H,

omit "committee or".

(6) In sub-section (3) of section 100H, for "principal council" substitute "relevant authority".

(7) In sub-section (1) of section 100K, omit -

(a) ""committee or sub-committee of a principal council" shall be construed in accordance with section 100E(3) above;",

(b) ""constituent principal council" shall be construed in accordance with section 100E(4) above;", and

(c) ""principal council" shall be construed in accordance with section 100J above".

(8) Omit sub-section (2) of section 100K.

(9) Paragraph (2) of Part III of Schedule 12A is modified as follows -

(a) for "principal council" substitute "relevant authority",

(b) for "committee or sub-committee" substitute "standards committee or sub-committee of that committee",

(c) omit "and includes a reference", and

(d) omit sub-paragraphs (a),(b) and (c).

**27**.-(1) Caiff awdurdod lleol, os gwêl yn dda, osod unrhyw hysbysiad ynghylch un o gyfarfodydd ei bwyllgor safonau y mae'n ofynnol ei osod yn ei swyddfeydd yn rhinwedd adran 100A o Ddeddf 1972, fel y'i haddaswyd gan reoliad 26, yn swyddfeydd y cynghorau cymuned sydd wedi'u lleoli yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw.

(2) Caiff awdurdod lleol, os gwêl yn dda, ddarparu bod unrhyw agendâu ac adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd ei bwyllgor safonau y mae, neu y gall fod, yn ofynnol iddynt fod yn agored i aelodau'r cyhoedd eu harchwilio yn ei swyddfeydd yn rhinwedd adran 100B o Ddeddf 1972, fel y'i haddaswyd gan reoliad 26, yn agored i'w harchwilio gan aelodau'r cyhoedd yn swyddfeydd y cynghorau cymuned sydd wedi'u lleoli yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw.

(3) Caiff awdurdod lleol, os gwêl yn dda, ddarparu bod unrhyw gofnodion o gyfarfodydd ei bwyllgor safonau ac unrhyw ddogfennau eraill y mae, neu y gall fod, yn ofynnol iddynt fod yn agored i aelodau'r cyhoedd eu harchwilio yn ei swyddfeydd yn rhinwedd adran 100C o Ddeddf 1972, fel y'i haddaswyd gan reoliad 26, yn agored i'w harchwilio gan aelodau'r cyhoedd yn swyddfeydd y cynghorau cymuned sydd wedi'u lleoli yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw.

**27**.-(1) A local authority may, if it thinks fit, post such notice of a meeting of its standards committee as may be required to be posted at its offices by virtue of section 100A of the 1972 Act, as modified by regulation 26, at the offices of community councils situated in that local authority's area.

(2) A local authority may, if it thinks fit, provide for such agendas and reports for meetings of its standards committee as are, or may be, required to be open to inspection by members of the public at its offices by virtue of section 100B of the 1972 Act, as modified by regulation 26, to be open to inspection by members of the public at the offices of community councils situated in that local authority's area.

(3) A local authority may, if it thinks fit, provide for such minutes of its meetings of its standards committee and other documents as are, or may be, required to be open to inspection by members of the public at its offices by virtue of section 100C of the 1972 Act, as modified by regulation 26, to be open to inspection by members of the public at the offices of community councils situated in that local authority's area.

(4) Yn ddarostyngedig i adran 100A o Ddeddf 1972, fel y'i haddaswyd gan reoliad 26, caiff awdurdod perthnasol fabwysiadu unrhyw ddulliau eraill i roi hysbysiad cyhoeddus ynghylch cyfarfodydd ei bwyllgor safonau y mae'n credu eu bod yn briodol.

**Cofnod trafodion pwyllgorau safonau**

**28**.-(1) Rhaid llunio cofnodion trafodion pwyllgor safonau a'u rhoi mewn llyfr a ddarperir at y diben hwnnw gan swyddog priodol yr awdurdod perthnasol o dan sylw a rhaid iddynt gael eu llofnodi gan gadeirydd y pwyllgor ar ddiwedd y cyfarfod hwnnw neu yn y cyfarfod o'r pwyllgor sy'n dilyn nesaf.

(2) Rhaid i gofnodion trafodion pwyllgor safonau gynnwys -

- (a) cofnod o unrhyw benderfyniad a wnaed gan y pwyllgor;
- (b) y rheswm dros y penderfyniad hwnnw; ac
- (c) cofnod o unrhyw ddatganiad o fuddiant sydd gan aelod o'r pwyllgor sy'n berthnasol i unrhyw fater y penderfynwyd arno gan y pwyllgor hwnnw yn ystod y trafodion penodol hynny.

**Cylch gwaith pwyllgorau safonau**

**29**.-(1) Rhaid i bob awdurdod perthnasol baratoi yn ddi-oed datganiad sy'n nodi cylch gwaith ei bwyllgor safonau.

(2) Rhaid i bob awdurdod perthnasol anfon y datganiad y cyfeirir ato ym mharagraff (1) uchod i'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru.

**Trefniadau trosiannol**

**30**.-(1) Os yw awdurdod perthnasol -

- (a) wedi sefydlu pwyllgor safonau cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, a
- (b) bod aelodaeth y pwyllgor hwnnw ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym yn cynnwys un neu ragor o aelodau annibynnol

bydd y paragraffau canlynol yn gymwys.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) isod, caiff awdurdod perthnasol o'r fath ganiatáu i aelod annibynnol o'r fath barhau i fod yn aelod am ba un bynnag yw'r byrraf o'r cyfnodau canlynol -

- (a) pum mlynedd o'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, neu
- (b) tan y daw cyfnod swydd yr aelod annibynnol hwnnw i ben.

(3) Ni fydd paragraff (2) uchod yn gymwys -

- (a) os nad yw'r awdurdod perthnasol yn barnu bod y broses benodi ar gyfer unrhyw aelod

(4) Subject to section 100A of the 1972 Act, as modified by regulation 26, a relevant authority may adopt such other methods to provide public notice of meetings of its standards committee as it considers appropriate.

**Minute of proceedings of standards committees**

**28**.-(1) Minutes of the proceedings of a standards committee shall be drawn up and entered in a book provided for the purpose by the proper officer of the relevant authority concerned and shall be signed by the chairperson of the committee at the conclusion of that meeting or at the next following meeting of the committee.

(2) The minutes of the proceedings of a standards committee shall include -

- (a) a record of any decision made by the committee;
- (b) the reasons for that decision; and
- (c) a record of any declaration of interest by a member of the committee which is relevant to any matter decided upon by that committee during those particular proceedings.

**Terms of reference of standards committees**

**29**.-(1) Every relevant authority shall forthwith prepare a statement which sets out the terms of reference of its standards committee.

(2) Every relevant authority shall send to the Commission for Local Administration in Wales the statement referred to in paragraph (1) above.

**Transitional arrangements**

**30**.-(1) Where a relevant authority has -

- (a) established a standards committee before the date on which these Regulations come into force, and
- (b) the membership of that committee at the date on which these Regulations come into force includes one or more independent members

the following paragraphs shall apply.

(2) Subject to paragraph (3) below, such a relevant authority may allow such an independent member to continue as a member for whichever is the shorter of the following periods -

- (a) five years from the date on which these Regulations come into force, or
- (b) until the term of office of that independent member comes to an end.

(3) Paragraph (2) above shall not apply where -

(a) a relevant authority does not consider that the

annibynnol o'r fath yn ddigon i warantu annibyniaeth yr aelod hwnnw, neu

(b) os na fyddai unrhyw aelod annibynnol o'r fath yn bodloni gofynion diffiniad aelod annibynnol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

21 Mehefin 2001

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

appointment process for any such independent member was sufficient to guarantee the independence of that member, or

(b) any such independent member would not meet the requirements of the definition of an independent member for the purposes of these Regulations.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

21st June 2001

*D.Elis Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

**2001 Rhif 2283 (Cy.172)**

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

**2001 No. 2283 (W.172)**

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

The Standards Committees (Wales) Regulations 2001

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090288-2

9 780110 902883

**£3.00**

W/326/07/01

ON

# ATODIAD / ENCLOSURE

# 4

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1849 (Cy.192)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf") yn gwneud darpariaeth o ran ymddygiad aelodau a chyflogeion llywodraeth leol.

Mae adran 53(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod pob awdurdod perthnasol, sy'n cynnwys yng Nghymru gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau heddlu ond nad ydynt yn cynnwys cynghorau cymuned, yn sefydlu pwyllgor safonau a chanddo'r swyddogaethau a roddir iddo gan Ran III o'r Ddeddf neu oddi tani.

O dan adran 53(11) o'r Ddeddf, caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaeth o ran (ymhlith pethau eraill) maint, cyfansoddiad a thrafodion pwyllgorau safonau awdurdodau perthnasol yng Nghymru, ac eithrio awdurdodau heddlu, ac unrhyw is-bwyllgorau a sefydlir o dan adran 54A neu adran 56 o'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 ("Rheoliadau 2001").

Mae rheoliad 3 yn rhoi diffiniad newydd ("is-bwyllgor adran 54A") yn rheoliad 2 o Reoliadau 2001. Mewnosodwyd adran 54A o'r Ddeddf gan adran 113 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae adran 54A o'r Ddeddf yn rhoi'r hawl i bwyllgor safonau awdurdod perthnasol i benodi un neu fwy o is-bwyllgorau at ddibenion cyflawni unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r pwyllgor (ac eithrio swyddogaethau o dan adran 55 neu adran 56 o'r Ddeddf).

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1849 (W.192)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Standards Committees (Wales) (Amendment) Regulations 2006

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Part III of the Local Government Act 2000 ("the Act") makes provision with respect to the conduct of local government members and employees.

Section 53(1) of the Act requires every relevant authority, which in Wales includes county and county borough councils, fire and rescue authorities, National Park authorities and police authorities but not community councils, to establish a standards committee which is to have the functions conferred on it by or under Part III of the Act.

Under section 53(11) of the Act, the National Assembly for Wales may by regulations make provision as to (among other things) the size, composition and proceedings of standards committees of relevant authorities in Wales, other than police authorities, and of any sub-committees established under section 54A or section 56 of the Act.

These Regulations amend the Standards Committees (Wales) Regulations 2001 ("the 2001 Regulations").

Regulation 3 introduces a new definition ("section 54A sub-committee") into regulation 2 of the 2001 Regulations. Section 54A of the Act was inserted by section 113 of the Local Government Act 2003. Section 54A of the Act entitles a standards committee of a relevant authority to appoint one or more sub-committees for the purpose of discharging any of the committee's functions (other than functions under section 55 or section 56 of the Act).

Mae rheoliad 4 yn rhoi rheoliad 3 newydd yn Rheoliadau 2001 sy'n gwneud darpariaeth newydd o ran maint is-bwyllgor a benodir o dan adran 54A o'r Ddeddf (is-bwyllgor adran 54A).

Mae rheoliad 5 yn rhoi rheoliad 10 newydd yn Rheoliadau 2001. Mae'r rheoliad 10 newydd hwnnw'n darparu, o ran penodi "aelod pwyllgor cymunedol" yn aelod o bwyllgor safonau awdurdod lleol, mai'r awdurdod lleol hwnnw sydd i'w benodi. Cyn gwneud penodiad o'r fath, mae'n rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â'r cyrff a bennir yn rheoliad 10(3)(a) a (b).

Mae rheoliad 6 yn mewnosod rheoliad 18A newydd yn Rheoliadau 2001. Mae'r rheoliad 18A newydd hwnnw'n gwneud darpariaeth o ran hyd tymor swydd "aelod pwyllgor cymunedol" o bwyllgor safonau awdurdod lleol.

Mae rheoliad 7 yn rhoi paragraffau (2), (3) a (4) newydd yn rheoliad 21 o Reoliadau 2001. Mae'r paragraffau newydd hynny'n gwneud darpariaeth o ran ailbenodi aelod annibynnol o bwyllgor safonau.

Mae rheoliad 8 yn mewnosod rheoliad 21A newydd yn Rheoliadau 2001. Mae'r rheoliad 21A newydd hwnnw'n gwneud darpariaeth o ran ailbenodi "aelod pwyllgor cymunedol" o bwyllgor safonau awdurdod lleol. Mae rheoliad 21A(2) yn darparu bod yn rhaid i awdurdod lleol, cyn iddo wneud ailbenodiad o'r fath, ymgynghori â'r cyrff a bennir yn rheoliad 21A(2)(a) a (b).

Mae rheoliad 9 yn mewnosod paragraff (10) newydd yn rheoliad 22 o Reoliadau 2001. Mae'r paragraff newydd hwnnw'n cadarnhau y caniateir ethol aelod annibynnol o bwyllgor safonau sydd wedi'i ailbenodi i bwyllgor safonau am dymor olynol arall yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd y pwyllgor hwnnw.

Mae Rheoliad 10 yn gosod rheoliad 24 newydd yn Rheoliadau 2001. Mae'r rheoliad 24 newydd hwnnw'n darparu mai dau aelod (gan gynnwys cadeirydd yr is-bwyllgor hwnnw) yw'r cworwm ar gyfer cyfarfod o is-bwyllgor adran 54A. Mae'r rheoliad newydd hwnnw hefyd yn gwneud yn glir ystyr y term "cadeirydd" yn rheoliad 24(1) a (2).

Regulation 4 substitutes a new regulation 3 into the 2001 Regulations which makes new provision as to the size of a sub-committee appointed under section 54A of the Act (a section 54A sub-committee).

Regulation 5 substitutes a new regulation 10 into the 2001 Regulations. That new regulation 10 provides that the appointment of a "community committee member" to a standards committee of a local authority is to be made by that local authority. Before making such an appointment, the local authority is obliged to consult the bodies specified in regulation 10(3)(a) and (b).

Regulation 6 inserts a new regulation 18A into the 2001 Regulations. That new regulation 18A makes provision as to the term of office of a "community committee member" of a standards committee of a local authority.

Regulation 7 substitutes new paragraphs (2), (3) and (4) into regulation 21 of the 2001 Regulations. Those new paragraphs make provision as to the reappointment of an independent member of a standards committee.

Regulation 8 inserts a new regulation 21A into the 2001 Regulations. That new regulation 21A makes provision as to the reappointment of a "community committee member" of the standards committee of a local authority. Regulation 21A(2) provides that before making such a reappointment the local authority must consult the bodies specified in regulation 21A(2)(a) and (b).

Regulation 9 inserts a new paragraph (10) into regulation 22 of the 2001 Regulations. That new paragraph confirms that an independent member of a standards committee who has been reappointed to a standards committee for a further consecutive term may be elected as a chairperson or a vice-chairperson of that committee.

Regulation 10 substitutes a new regulation 24 into the 2001 Regulations. That new regulation 24 provides that the quorum for a meeting of a section 54A sub-committee is two members (including the chairperson of that sub-committee). That new regulation also clarifies the meaning of the term "chairperson" in regulation 24(1) and (2).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1849 (Cy.192)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *11 Gorffennaf 2006* |
| *Yn dod i rym* | *14 Gorffennaf 2006* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 53(11), 54A(5)(a) a 56(5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**), drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006 a daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Gorffennaf 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "Rheoliadau 2001" ("*the 2001 Regulations*") yw Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001(**2**).

**Diwygiadau i Reoliadau 2001**

**2**. Diwygir Rheoliadau 2001 fel a ganlyn.

**3**. Yn rheoliad 2-

(a) yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder-

"ystyr "is-bwyllgor cymunedol" ("*community sub-committee*") yw is-bwyllgor a benodwyd gan bwyllgor safonau awdurdod lleol o dan adran 56 o Ddeddf 2000;";

(b) yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder-

(**1**) 2000 p.22; diwygiwyd adran 53(11) gan adran 35, Atodlen 4, paragraffau 1 a 4 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 (p.10); a mewnosodwyd adran 54A gan adran 113 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (p.26).

(**2**) O.S. 2001/2283 (Cy.172), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2005/2929 (Cy.214).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1849 (W.192)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The Standards Committees (Wales) (Amendment) Regulations 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *11 July 2006* |
| *Coming into force* | *14 July 2006* |

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by sections 53(11), 54A(5)(a) and 56(5) of the Local Government Act 2000(**1**) hereby makes the following Regulations:

**Title, commencement, application and interpretation**

**1**.-(1) The title of these Regulations is the Standards Committees (Wales) (Amendment) Regulations 2006 and these Regulations come into force on 14 July 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) In these Regulations-

"the 2001 Regulations" ("*Rheoliadau 2001*") means the Standards Committees (Wales) Regulations 2001(**2**).

**Amendments to the 2001 Regulations**

**2**. The 2001 Regulations are amended as follows.

**3**. In regulation 2-

(a) in the appropriate place in alphabetical order insert-

""community sub-committee" ("*is-bwyllgor cymunedol*") means a sub-committee appointed by a standards committee of a local authority under section 56 of the 2000 Act;";

(b) in the appropriate place in alphabetical order insert-

(**1**) 2000 c.22; section 53(11) was amended by section 35, Schedule 4, paragraphs 1 and 4 of the Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (c.10); and section 54A was inserted by section 113 of the Local Government Act 2003 (c.26).

(**2**) S.I. 2001/2283 (W.172) as amended by S.I. 2005/2929 (W.214).

"ystyr "is-bwyllgor adran 54A" ("*section 54A sub-committee*") yw is-bwyllgor a benodir gan bwyllgor safonau awdurdod perthnasol o dan adran 54A(1) o Ddeddf 2000;";

(c) yn y diffiniad o "pwyllgor safonau", yn lle "mae'n cynnwys is-bwyllgor i bwyllgor safonau;" rhodder "mae'n cynnwys is-bwyllgor adran 54A ac is-bwyllgor cymunedol."; ac

(ch) hepgorer y diffiniad o "is-bwyllgor i bwyllgor safonau".

**4**. Yn lle rheoliad 3, rhodder-

"**3**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) rhaid i bwyllgor safonau fod yn bwyllgor a chanddo nid llai na phum aelod na mwy na naw.

(2) Rhaid i is-bwyllgor adran 54A fod yn bwyllgor a chanddo nid llai na thri aelod.".

**5**. Yn lle rheoliad 10, rhodder-

"**10**.-(1) Rhaid i aelodaeth pwyllgor safonau awdurdod lleol sydd i gyflawni swyddogaethau mewn perthynas ag-

(a) cynghorau cymuned sydd wedi'u lleoli yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw; a

(b) aelodau'r cynghorau cymuned hynny,

gynnwys o leiaf un aelod pwyllgor cymunedol.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), rhaid i benodiad aelod pwyllgor cymunedol yn aelod o bwyllgor safonau awdurdod lleol sydd i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn is-baragraffau (1)(a) a (b) gael ei wneud gan yr awdurdod lleol hwnnw.

(3) Cyn gwneud penodiad o dan baragraff (2) rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori-

(a) â'r cynghorau cymuned sydd wedi'u lleoli o fewn ei ardal; a

(b) â chymdeithasau cynghorau cymuned a sefydlwyd (os o gwbl) ar gyfer yr ardal honno, ac sy'n gweithredu oddi mewn iddi.".

**6**. Ar ôl rheoliad 18, mewnosoder-

"**18A**.-(1) Ni fydd tymor swydd aelod o bwyllgor safonau awdurdod lleol sy'n aelod pwyllgor cymunedol yn hwy nag-

(a) pedair blynedd; neu

(b) y cyfnod hyd at yr etholiadau cyffredin ar gyfer y cyngor cymuned y mae'r aelod pwyllgor cymunedol yn aelod ohono, sef yr etholiadau nesaf ar ôl i'r person hwnnw gael ei benodi'n aelod pwyllgor cymunedol o'r pwyllgor hwnnw,

pa gyfnod bynnag fo'r byrraf.

""section 54A sub-committee" ("*is-bwyllgor adran 54A*") means a sub-committee appointed by a standards committee of a relevant authority under section 54A(1) of the 2000 Act;";

(c) in the definition of "standards committee", for "includes a sub-committee of a standards committee;" substitute "includes a section 54A sub-committee and a community sub-committee."; and

(d) omit the definition of "sub-committee of a standards committee".

**4**. For regulation 3, substitute-

"3.-(1) Subject to paragraph (2) a standards committee shall consist of not less than five nor more than nine members.

(2) A section 54A sub-committee shall consist of not less than three members.".

**5**. For regulation 10, there is substituted-

"**10**.-(1) The membership of a standards committee of a local authority which is to discharge functions in relation to-

(a) community councils which are situated in that local authority's area; and

(b) the members of those community councils,

shall include at least one community committee member.

(2) Subject to paragraph (3) the appointment of a community committee member to a standards committee of a local authority which is to discharge the functions described in sub-paragraphs (1)(a) and (b) shall be made by that local authority.

(3) Before making an appointment under paragraph (2) the local authority shall consult-

(a) community councils which are situated within its area; and

(b) community council associations established for and operating within that area (if any).".

**6**. After regulation 18, insert-

"**18A**.-(1) The term of office of a member of a local authority standards committee who is a community committee member shall be no more than-

(a) four years; or

(b) the period until the ordinary elections for the community council of which the community committee member is a member next following the appointment of that person as a community committee member of that committee,

whichever is the shorter.

(2) Rhaid i aelod pwyllgor cymunedol roi'r gorau i fod yn aelod o bwyllgor safonau awdurdod lleol os yw'r aelod hwnnw'n peidio â bod yn aelod o gyngor cymuned o fewn ardal yr awdurdod lleol o dan sylw.".

7. Yn lle paragraff (2) o reoliad 21, rhodder-

"(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (4) caniateir i aelod annibynnol o bwyllgor safonau awdurdod perthnasol gael ei ailbenodi gan yr awdurdod perthnasol hwnnw am un tymor olynol arall.

(3) Wrth iddo ailbenodi aelod annibynnol o dan baragraff (2), nid oes raid i'r awdurdod perthnasol gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan reoliadau 13 i 17.

(4) Os ailbenodir aelod annibynnol o dan baragraff (2), rhaid i'r tymor olynol arall hwnnw beidio â bod yn fwy na phedair blynedd.".

**8**. Ar ôl rheoliad 21, mewnosoder-

"**21A**.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2) o reoliad 18A, caniateir i aelod pwyllgor cymunedol o bwyllgor safonau awdurdod lleol gael ei ailbenodi gan yr awdurdod lleol hwnnw am un tymor olynol arall.

(2) Cyn ailbenodi aelod pwyllgor cymunedol o dan baragraff (1) rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori-

(a) â'r cynghorau cymuned sydd wedi'u lleoli o fewn ei ardal; a

(b) â chymdeithasau cynghorau cymuned a sefydlwyd (os o gwbl) ar gyfer yr ardal honno, ac sy'n gweithredu oddi mewn iddi.".

**9**. Ar ôl paragraff (9) o reoliad 22, mewnosoder-

"(10) Nid oes dim yn y Rheoliadau hyn yn rhwystro aelodau pwyllgor safonau rhag ethol cadeirydd neu is-gadeirydd sy'n aelod annibynnol o'r pwyllgor hwnnw ac sydd-

(a) wedi'i ailbenodi'n aelod o'r fath o dan reoliad 21(2); a

(b) wedi'i ethol yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd y pwyllgor hwnnw yn ystod tymor swydd cyntaf yr aelod.".

**10**.Yn lle rheoliad 24, rhodder-

"**24**.-(1) Ni chaiff unrhyw fusnes ei drin mewn cyfarfod o bwyllgor safonau, ac eithrio is-bwyllgor adran 54A-

(a) onid oes tri aelod o leiaf yn bresennol, gan gynnwys y cadeirydd; a

(b) onid yw o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

(2) Ni chaiff unrhyw fusnes ei drin mewn cyfarfod o is-bwyllgor adran 54A-

(2) A community committee member shall cease to be a member of a local authority standards committee if that member ceases to be a member of a community council within the area of the local authority concerned.".

7. For paragraph (2) of regulation 21, substitute-

"(2) Subject to paragraph (4) an independent member of the standards committee of a relevant authority may be reappointed by that relevant authority for one further consecutive term.

(3) In reappointing an independent member under paragraph (2), the relevant authority is not obliged to comply with the requirements imposed by regulations 13 to 17.

(4) Where an independent member is reappointed under paragraph (2), that further consecutive term shall not exceed four years.".

**8**. After regulation 21, insert-

"**21A**.-(1) Subject to paragraph (2) of regulation 18A, a community committee member of the standards committee of a local authority may be reappointed by that local authority for one further consecutive term.

(2) Before making a reappointment of a community committee member under paragraph (1) the local authority shall consult-

(a) community councils which are situated within its area; and

(b) community council associations established for and operating within that area (if any).".

**9**. After paragraph (9) of regulation 22, insert-

"(10) Nothing in these Regulations prevents the members of a standards committee electing a chairperson or a vice-chairperson who is an independent member of that committee and who-

(a) has been reappointed as such a member under regulation 21(2); and

(b) was elected as chairperson or vice-chairperson of that committee during that member's first term of office.".

**10**. For regulation 24, substitute-

"**24**.-(1) No business shall be transacted at a meeting of a standards committee, other than a section 54A sub-committee, unless-

(a) at least three members are present, including the chairperson; and

(b) at least half the members present (including the chairperson) are independent members.

(2) No business shall be transacted at a meeting of a section 54A sub-committee unless-

(a) onid oes dau aelod o leiaf yn bresennol, gan gynnwys y cadeirydd; a

(b) onid yw o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

(3) At ddibenion paragraff (1) a (2) mae'r term "cadeirydd" yn cynnwys-

(a) is-gadeirydd sy'n llywyddu'n unol â pharagraff (4) o reoliad 22; a

(b) aelod annibynnol sy'n llywyddu'n unol â pharagraff (5) o reoliad 22.".

(a) at least two members are present, including the chairperson; and

(b) at least half the members present (including the chairperson) are independent members.

(3) For the purposes of paragraphs (1) and (2) the term "chairperson" includes-

(a) a vice-chairperson presiding in pursuance of paragraph (4) of regulation 22; and

(b) an independent member presiding in pursuance of paragraph (5) of regulation 22.".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**1**)

11 Gorffennaf 2006

11 July 2006

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(**1**) 1998 p.38.

(**1**) 1998 c.38.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2006 Rhif 1849 (Cy.192)**

**2006 No. 1849 (W.192)**

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006

The Standards Committees (Wales) (Amendment) Regulations 2006

©℗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W372/07/06 ON

**ATODIAD / ENCLOSURE**

**5**

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

# Cyfansoddiad: rhan 2 - 2.9 erthygl 9 – y pwyllgor safonau

**2.9.1 Pwyllgor Safonau**

Bydd y Cyngor yn sefydlu Pwyllgor Safonau.

**2.9.2 Cyfansoddiad**

**2.9.2.1 Aelodaeth**

Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, bydd y Pwyllgor Safonau yn cynnwys y rhai a ganlyn:

2 Gynghorydd Sir

5 aelod annibynnol

2 aelod o gyngor cymuned (nad ydynt, i bwrpas y Cyfansoddiad hwn, yn cael eu hystyried yn aelodau annibynnol).

**2.9.2.2 Tymor mewn swydd**

2.9.2.2.1 Penodir yr aelodau annibynnol am ddau gyfnod olynol o bedair blynedd.

2.9.2.2.2 Oni bai y cânt eu hail-ethol, penodir yr aelodau cyngor cymuned cyfredol am gyfnod o bedair blynedd neu hyd oni fyddant yn peidio â bod yn aelod o gyngor cymuned o fewn ardal awdurdod lleol Cyngor Sir Ynys Môn neu tan yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodiad, pun bynnag yw'r cyfnod byrraf. Gellir ail-benodi aelod o gyngor cymuned am gyfnod olynol pellach o bedair blynedd ar yr amod fod Cyngor Sir Ynys Môn a'r Cynghorau Cymuned wedi penderfynu ar y cyd i ddewis aelod(au) cyfredol o gyngor cymuned fel enwebai ar gyfer y penodiad.

2.9.2.2.3 Bydd Cynghorwyr Sir sy'n aelodau o'r Pwyllgor Safonau yn gwasanaethu am gyfnod na fydd yn hwy na phedair blynedd neu tan yr etholiad llywodraeth leol arferol nesaf yn dilyn eu penodiad, p'un bynnag sydd fyrraf.

**2.9.2.3 Cworwm**

Ni fydd gan gyfarfod o'r Pwyllgor Safonau gworwm oni bai fod:

2.9.2.3.1 o leiaf dri aelod, gan gynnwys y cadeirydd, yn bresennol; a bod

2.9.2.3.2 o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol (gan gynnwys y cadeirydd) yn aelodau annibynnol.

**2.9.2.4 Pleidleisio**

Bydd gan Aelodau o'r Cyngor Sir aelodau annibynnol a'r aelodau o gyngor cymuned hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

**2.9.2.5 Aelodau Cyngor Cymuned**

2.9.2.5.1 Ni fydd yr aelodau o gyngor cymuned yn cymryd rhan yn nhrafodion y Pwyllgor Safonau pan fo unrhyw fater yn ymwneud â'i gyngor cymuned yn cael ei ystyried.

2.9.2.5.2 Bydd yr aelodau cyngor cymuned ond yn cymryd rhan mewn gwrandawiadau/ceisiadau sydd gerbron y Pwyllgor Safonau pan fydd yn cyflawni deletswyddau'r dyletswyddau hynny sy'n ymwneud â chynghorau cymuned ac aelodau cynghorau cymuned yn unig.

**2.9.2.6 Cadeirio'r Pwyllgor**

2.9.2.6.1 Dim ond aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau all fod yn gadeirydd.

2.9.2.6.2 Bydd y cadeirydd yn cael ei ethol gan aelodau'r Pwyllgor Safonau am gyfnod na fydd yn hwy na phedair blynedd neu am y cyfnod hwnnw y bydd yr unigolyn yn dal i fod yn aelod o'r Pwyllgor, pa gyfnod bynnag sydd fyrraf o'r ddau.

**2.9.3 Rôl a Swyddogaeth**

Bydd gan y Pwyllgor Safonau y rolau a'r swyddogaethau canlynol:

2.9.3.1 hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr;

2.9.3.2 cynorthwyo'r Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni-lywodraethwyr i gadw Côd Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.3 cynghori'r Cyngor ynglyn â mabwysiadu neu ddiwygio Côd Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.4 monitro gweithrediad Côd Ymddygiad yr Aelodau (5.1);

2.9.3.5 cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr eglwysig a rhieni lywodraethwyr ar faterion yn ymwneud â Chôd Ymddygiad Aelodau (5.1);

2.9.3.6 rhyddhau Cynghorwyr, aelodau cyfetholedig a chynrychiolwyr yr eglwys a rhieni lywodraethwyr o ofynion yn ymwneud â diddordebau a nodir yng Nghôd Ymddygiad yr Aelodau;

2.9.3.7 ymdrin ag unrhyw adroddiadau o dribiwnlys achos neu o dribiwnlys achos amodol, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a drosglwyddwyd i'r swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

2.9.3.8 ymarfer 2.9.3.1 i 2.9.3.7 uchod mewn perthynas â'r cynghorau cymuned sy'n gyfan gwbl neu gan mwyaf yn ei ardal ac aelodau'r cynghorau cymuned hynny.

| CYNGOR SIR YNYS MON / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Medi, 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Mabwysiadu Côd Ymddygiad diwygiedig** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Rhoi gwybod i'r aelodau am fabwysiadu Côd Ymddygiad diwygiedig a gofynion hysbysebu** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyfreithiwr - Llywodraethu Corfforaethol** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Mared Wyn Yaxley, mwycs@ynysmon.gov.uk 01248 752566** |

## 1.RHAGARWEINIAD A CHEFNDIR

Mae Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygiad) 2016 yn diwygio is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ran III Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, o ganlyniad i ddarpariaeth yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Daeth y Gorchymyn i rym ar 1 Ebrill 2016.

Roedd gan bob awdurdod yr oedd y Côd yn berthnasol iddynt tan 26 Gorffennaf (6 mis) i fabwysiadu'r Côd diwygiedig.

## 2. CYNGOR SIR YNYS MÔN

Mabwysiadodd y Cyngor hwn y Côd Ymddygiad diwygiedig ar 12.05.16

## 3.CYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Anfonwyd e-bost ar ran y Pwyllgor Safonau at glerc pob cyngor tref a chymuned ar 25 Mai 2016 yn gofyn am gopi o'r cofnod perthnasol o gofnodion cyfarfodydd y Cynghorau sy'n cadarnhau mabwysiadu'r Côd fel y'i diwygiwyd.

Gofynnwyd am ymatebion erbyn diwedd Awst 2016.

## 4.GOFYNION PELLACH

Unwaith y bydd wedi'i fabwysiadu, mae'n rhaid, yn unol â gofyniad yn Adran 51 (6) Deddf Llywodraeth Leol 2000, cyhoeddi hysbyseb mewn un neu ragor o bapurau newydd yn yr ardal leol yn cadarnhau bod y Côd diwygiedig wedi ei fabwysiadu ac yn dweud pryd a ble mae'r Côd ar gael i'w archwilio. Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda ddyfyniad o'r gofyniad dan y ddeddfwriaeth hon yn **Atodiad 1.**

## 5. HYSBYSEB

Cafwyd peth trafodaeth gyda rhai cynghorau cymuned ynghylch a ellid defnyddio un hysbyseb ar gyfer y Cyngor Sir a phob Cyngor Tref a Chymuned. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r ddeddfwriaeth bod yn rhaid i'r hysbyseb gynnwys manylion am ble y gellir archwilio'r Côd diwygiedig a pha bryd, ac felly nid yw'n ymarferol bosib cyfuno'r wybodaeth hon mewn un hysbyseb ar gyfer 41 o gyrff unigol ac annibynnol.

Rhoddwyd hysbyseb ar ran CSYM yn y 'Chronicle' ar 18 Awst 2016. Mae copi o'r hysbyseb wedi'i atodi yn **Atodiad 2.**

## 6.CAMAU PELLACH

Mae'r dyddiad cau ar gyfer ymateb wedi mynd heibio ac mae **Atodiad 3** yn egluro statws presennol mabwysiadu'r Côd trwy ymatebion gan gynghorau tref a chymuned.

Gofynnwn am arweiniad ar sut mae Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn dymuno bwrw ymlaen:

> a) Beth mae'r Pwyllgor Safonau yn dymuno ei wneud mewn perthynas â chynghorau tref a chymuned nad ydynt wedi ymateb i'r e-bost dyddiedig 25 Mai 2016?
>
> b) Awgrymir ein bod yn cysylltu â'r cynghorau tref a chymuned hynny sy'n cadarnhau eu bod wedi mabwysiadu'r Côd Ymddygiad diwygiedig a'u cynghori i hysbysebu yn unol â'r ddeddfwriaeth ac i gadarnhau i'r Cyngor hwn pan fyddant wedi gwneud hynny. Oes cytundeb i hynny?

## 7. ARGYMHELLIAD

Nodi cynnwys yr adroddiad hwn a thrafod sut mae'r Pwyllgor Safonau yn dymuno symud ymlaen mewn perthynas â'r gofyniad ar gynghorau tref a chymuned i fabwysiadu Côd Ymddygiad diwygiedig ac i hysbysebu eu bod wedi gwneud hynny.

**ATODIAD / ENCLOSURE**

**1**

# Local Government Act 2000

**2000 CHAPTER 22**

## PART III

CONDUCT OF LOCAL GOVERNMENT MEMBERS AND EMPLOYEES

### CHAPTER I

CONDUCT OF MEMBERS

*Standards of conduct*

**51 Duty of relevant authorities to adopt codes of conduct.**

(1) It is the duty of a relevant authority, before the end of the period of six months beginning with the day on which the first order under section 50 which applies to them is made, to pass a resolution adopting a code as regards the conduct which is expected of members and co-opted members of the authority (referred to in this Part as a code of conduct).

(2) It is the duty of a relevant authority, before the end of the period of six months beginning with the day on which any subsequent order under section 50 which applies to them is made, to pass a resolution—

- (a) adopting a code of conduct in place of their existing code of conduct under this section, or
- (b) revising their existing code of conduct under this section.

(3) A relevant authority may by resolution—

- (a) adopt a code of conduct in place of their existing code of conduct under this section, or
- (b) revise their existing code of conduct under this section.

(4) A code of conduct or revised code of conduct—

***Changes to legislation:** There are outstanding changes not yet made by the legislation.gov.uk editorial team to Local Government Act 2000. Any changes that have already been made by the team appear in the content and are referenced with annotations. (See end of Document for details)*

(a) must incorporate any mandatory provisions of the model code of conduct which for the time being applies to that authority,

(b) may incorporate any optional provisions of that model code, and

(c) may include other provisions which are consistent with that model code.

(5) Where a relevant authority fail to comply with the duty under subsection (1) or (2) before the end of the period mentioned in that subsection—

(a) they must comply with that duty as soon as reasonably practicable after the end of that period, and

(b) any mandatory provisions of the model code of conduct which for the time being applies to the authority are to apply in relation to the members and co-opted members of the authority for so long as the authority fail to comply with that duty.

(6) As soon as reasonably practicable after adopting or revising a code of conduct under this section, a relevant authority must—

(a) ensure that copies of the code or revised code are available at an office of the authority for inspection by members of the public at all reasonable hours,

(b) publish in one or more newspapers circulating in their area a notice which—

(i) states that they have adopted or revised a code of conduct,

(ii) states that copies of the code or revised code are available at an office of the authority for inspection by members of the public at such times as may be specified in the notice, and

(iii) specifies the address of that office, and

(c) send a copy of the code or revised code—

(i) in the case of a relevant authority in England or a police authority in Wales, to the Standards Board for England,

(ii) in the case of a relevant authority in Wales, to the **[**[F1]Public Services Ombudsman for Wales **]**.

(7) Where a relevant authority themselves publish a newspaper, the duty to publish a notice under subsection (6)(b) is to be construed as a duty to publish that notice in their newspaper and at least one other newspaper circulating in their area.

(8) A relevant authority may publicise their adoption or revision of a code of conduct under this section in any other manner that they consider appropriate.

(9) A relevant authority's function with respect to the passing of a resolution under this section may be discharged only by the authority (and accordingly, in the case of a relevant authority to which section 101 of the [M1]Local Government Act 1972 applies, is not to be a function to which that section applies).

**Annotations:**

**Amendments (Textual)**

**F1** Words in s. 51(6)(c)(ii) substituted (1.4.2006) by Public Services Ombudsman (Wales) Act 2005 (c. 10), s. 40, Sch. 4 para. 3; S.I. 2005/2800, art. 5(1)(3) (with transitional provisions in S.I. 2006/362, art. 4)

**Modifications etc. (not altering text)**

**C1** Pt. III applied (24.3.2005) by New Forest National Park Authority (Establishment) Order 2005 (S.I. 2005/421), art. 1, Sch. 4 para. 9(3)

***Changes to legislation:** There are outstanding changes not yet made by the legislation.gov.uk editorial team to Local Government Act 2000. Any changes that have already been made by the team appear in the content and are referenced with annotations. (See end of Document for details)*

**C2** S. 51 modified (24.3.2005) by New Forest National Park Authority (Establishment) Order 2005 (S.I. 2005/421), art. 1, **Sch. 4 para. 10**

**Commencement Information**

**I1** S. 51 wholly in force at 28.7.2001; s. 51 not in force at Royal Assent see s. 108; s. 51 in force at 19.12.2000 in relation to England and to police authorities in Wales by S.I. 2000/3335, **art. 2**; s. 51 in force at 28.7.2001 in so far as not already in force see s. 108(4)-(6)

**Marginal Citations**

**M1** 1972 c. 70.

# ATODIAD / ENCLOSURE

# 2

# Public Notices

## HYSBYSIAD O FABWYSIADU CÔD YMDDYGIAD NEWYDD

Mae'n rhaid i bob Cyngor fabwysiadu côd ymddygiad yn seiliedig ar fodel cenedlaethol a bennwyd mewn deddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae'r model cenedlaethol wedi newid yn ddiweddar ac mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi diweddaru ei gôd ymddygiad yn unol â hynny. Gellir gweld copi o'r côd diweddaraf ar wefan y Cyngor yn http://www.ynysmon.gov.uk/cyngor-a-democratiaeth/cynghorwyr-democratiaeth-ac-etholiadau/cyfansoddiad/cyfansoddiad-rhan-5-codau-a-phrotocolau/cyfansoddiad-51-cd-ymddygiad-i-aelodau/ neu yn bersonol yng Nghyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW trwy gysylltu efo'r Swyddog Monitro yn ystod oriau swyddfa.

Cyhoeddir yr hysbysiad yn unol ag Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 a Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Côd Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) (Diwygiadau) 2016.

## NOTICE OF ADOPTION OF NEW CODE OF CONDUCT

All councils must adopt a code of conduct based on a national model laid down in legislation by Welsh Government. The national model has recently changed and The Isle of Anglesey County Council has updated its code of conduct accordingly. A copy of the updated code can be viewed on the Council's website at http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/constitution/constitution-part-5-codes-and-protocols/constitution-51-members-code-of-conduct/ or in person at The Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW by contacting the Monitoring Officer during office hours.

Notice issued in accordance with Section 51 Local Government Act 2000 and the Local Authorities (Model Code of Conduct) (Wales) (Amendments) Order 2016.

Lynn Ball
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro /
Head of Function (Council Business) and Monitoring Officer

CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
SWYDDFA'R SIR/COUNTY OFFICES, LLANGEFNI, YNYS MÔN LL77 7TW

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg.
Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.
You are welcome to deal with the Council in Welsh or English.
You will receive the same standard of service in both languages.

## RHYBUDD DAN ADRAN 25(6) DEDDF PRIFFYRDD 1980

Rhoddir yma rybudd fod cytundeb creu llwybr troed cyhoeddus ar gyfer defnydd gan y cyhoedd wedi e'i chwblhau rhwng Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council a Dŵr Cymru Cyf yn y safle canlynol :-

Tir i'r de o Lyn Alaw yn gyffredinol ar ymyl y gronfa dŵr mewn tri rhan rhwng Cyfeiriad Grid SH4047386758 yng nghymuned Llannerchymedd a SH3764585241 yng nghymuned Tref Alaw.

Mae copi o'r Cytundeb a'r cynlluniau a gynhwysir ynddo ar gael i'w harchwilio yn rhad ag am ddim yn ystod oriau agor arferol yn Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn.

## NOTICE PURSUANT TO S 25(6) HIGHWAYS ACT 1980

Notice is hereby given that a footpath has been created for use by the public at large by agreement between Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council and D r Cymru Cyf at the following location:-

Land to the south of Llyn Alaw generally at the edge of the reservoir in three sections between Grid Reference SH4047386758 in the Community of Llanerchymedd and SH3764585241 in the Community of Tref Alaw.

A copy of the Agreement and maps may be inspected free of charge at the Council Offices, Llangefni, Anglesey during normal opening hours.

Dyddiedig 18/8/2016 Dated

Robyn W. Jones
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Legal Services Manager
Cyngor Sir Ynys Mon/Isle of Anglesey County Council
Swyddfeydd y Cyngor/Council Offices
Llangefni
Ynys Mon LL77 7TW

Am fwy o wybodaeth ynglŷn a'r uchod cysylltwch a'r Adran Gyfreithiol ar Llangefni 01248 752591. HT-18947-SMJ

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

For further information regarding the above please telephone the Legal Section on Llangefni 01248 752591. HT-18947-SMJ

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.

## RHYBUDD GWNEUD

### DEDDF RHEOLI TRAFNIDIAETH FFYRDD,1984 ADRAN 14(1) FEL Y'I DIWYGIWYD GAN DDEDDF TRAFNIDIAETH FFYRDD (CYFYNGIADAU DROS DRO), 1991

### GORCHYMYN CYNGOR SIR YNYS MôN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL (CAU LLWYBR TROED DROS DRO) (LLWYBR RHIF 4, CAERGYBI) 2016

**RHODDIR DRWY HYN RYBUDD** fod Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council wedi gwneud Gorchymyn fydd yn cau llwybr rhif 4 yn Nhref Caergybi. Mae'r llwybr yn rhedeg o South Stack Road yn SH2392182600 ac yn mynd yn ei flaen mewn cyfeiriad gogleddol ar hyd y trac mynediad i Tyddyn Bach (nawr wedi'i ddymchwel), yna troi mewn cyfeiriad gogledd ddwyreinol a parhau drwy gae i derfynu ble mae'n ymuno gyda Llwybrau Troed rhif 2 & 3 Caergybi ger y parc cyhoeddus yn SH2406982893. Cyfanswm hyd y llwybr i'w gau yw 400M.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn galluogi gwaith adeiladu cylchfan a ffyrdd stad.

Y ffordd arall ar gyfer yr uchod yw o gyffordd llwybrau rhif 2, 3 a 4 yn SH2406982893 cario 'mlaen mewn cyfeiriad deheuol o fewn y parc cyhoeddus ac ymuno gyda South Stack Road rhwng y Lawntiau Bowlio a Cyrtiau Tenis yn SH2403482613.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 18fed Awst 2016 a bydd

## NOTICE OF MAKING

### ROAD TRAFFIC REGULATION ACT, 1984 SECTION 14(1) AS AMENDED BY THE ROAD TRAFFIC (TEMPORARY RESTRICTIONS) ACT, 1991

### CYNGOR SIR YNYS MôN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL (TEMPORARY FOOTPATH CLOSURE) (FOOTPATH NO.4, HOLYHEAD) ORDER 2016

**NOTICE IS HEREBY GIVEN** that Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council has made an Order, the effect of which will temporarily close footpath no.4 in the Town of Holyhead. The path runs from South Stack road at SH2392182600 and proceeds north along the access track to Tyddyn Bach (now demolished), then turning north east and proceeding through a field to end where it joins Footpaths nos. 2 & 3 Holyhead by the public park at SH2406982893. The total length of path to be closed is 400M.

The Order is necessary in order to facilitate the construction of roundabout and estate roads.

The alternative route for the above will be from the junction of paths nos. 2,3 and 4 at SH2406982893 proceeding in a southerly direction within the public park and joining South Stack Road between the Bowling Greens and Tennis Courts at SH2403482613.

The Order comes into effect on 18th August 2016

## Licensing Act 2003
### Application for a Premises Licence

Name of Applicant: Robert Alan Evans

Postal Address of Premises: 34, Beach Road, Y Felinheli, Gwynedd LL56 4RQ

Proposed Licensable Activities: Supply alcohol by retail consumption off the premises Monday to Sunday 07:00hr to 22:00hr

Representations must be made in writing to the Licensing Authority by: 06.09.16

The postal address of the Licensing Authority where the register is kept, where the record of the application may be inspected and where representations should be sent to: Licensing Section, Public Protection Service, Gwynedd Council, Mona Building, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.

## Terms & Conditions

NWN MEDIA LTD TERMS AND CONDITIONS OF ADVERTISING are available on display at all front counter locations, on request from your Sales Representative or on-line at *www.nwnmedia.co.uk*

YourNotices
www.yournotices.co.uk Bangor 01248 387400
Save Time and Book Your Notices Online at www.bookads.co.uk

## In Memoriam

**Harrison**

**In Loving Memory of Peter.**

*Husband, brother, brother in law and uncle.*

Passed away 18th August, 2000.
Thought of with fond memories.

Edyth and family x



*Wedding Anniversary coming up?*

Why not let your friends and family know about it, by placing an announcement on this page.



r Boot Sales
LEY CAR BOOT MARKET
Now Open
very Tuesday
& Thursday
ughout The Year
741097905
valleymarket.co.uk
ys to advertise
01248 387400
ERNARFON
something
l recently?
ell your friends
family about it
announcement
on this page.
our sales team
r more details
Sports
WEEKEND
FAST CLUB
0.30am - 1pm

**ATODIAD / ENCLOSURE**

**3**

| Cyngor Tref a Chymuned / <br><br><br>**Town and Community Council** | **Ymateb wedi ei dderbyn /** <br><br>**Response Received** | **Dyddiad mabwysiadu'r Côd /** <br><br>**Date Code adopted** |
|---|---|---|
| Cyngor Cymdeithas<br>**Aberffraw**<br>Community Council | Do / Yes | 20/7/2016 |
| Cyngor Tref<br>**Amlwch**<br>Town Council | Do / Yes | 28/6/2016 |
| Cyngor Tref<br>**Biwmares / Beaumaris**<br>Town Council | Do / Yes | 6/6/2016 |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Bodedern**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Bodffordd**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Bodorgan**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Bryngwran**<br>Community Council | Do / Yes | 8/6/2016 |
| Cyngor Tref<br>**Caergybi / Holyhead**<br>Town Council | Do / Yes | 9/5/2016 |
| Cyngor Bro<br>**Cwm Cadnant**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Bro<br>**Cylch y Garn**<br>Community Council | Do / Yes | 27/6/2016 |
| Cyngor Cymuned<br>**Llanbadrig**<br>Community Council | Do / Yes | 20/6/2016 |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llanddaniel-Fab**<br>Community Council | Do / Yes | 20/6/2016 |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llanddona**<br>Community Council | Do / Yes | Dyddiad i'w gadarnhau / Date to be confirmed |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llanddyfnan**<br>Community Council | Do / Yes | 21/6/2016 |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llaneilian** | Do / Yes | 9/6/2016 |

| **Cyngor Tref a Chymuned /**<br><br>**Town and Community Council** | **Ymateb wedi ei dderbyn /**<br><br>**Response Received** | **Dyddiad mabwysiadu'r Côd /**<br><br>**Date Code adopted** |
|---|---|---|
| Community Council | | |
| Cyngor Cymuned<br>**Llanerchymedd**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Cymuned<br>**Llaneugrad**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llanfachraeth**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llanfaelog**<br>Community Council | Do / Yes | 22/6/2016 |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llanfaethlu**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Cymuned<br>**Llanfair Mathafarn Eithaf**<br>Community Council | Do / Yes | Mawrth 2016 / March 2016 |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llanfair yn Neubwll**<br>Community Council | Do / Yes | 17/5/2016 |
| Cyngor Cymuned<br>**Llanfairpwll**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llanfihangelesceifiog**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Tref<br>**Llangefni**<br>Town Council | Na / No | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llangoed a Phenmon /**<br>**Llangoed and Penmon**<br>Community Council | Do / Yes | Dyddiad i'w gadarnhau / Date to be confirmed |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llangristiolus**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Llanidan**<br>Community Council | Do / Yes | 31/5/2016 |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Mechell**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Cymuned<br>**Moelfre** | Na / No | |

| **Cyngor Tref a Chymuned /**<br><br><br>**Town and Community Council** | **Ymateb wedi ei dderbyn /**<br><br>**Response Received** | **Dyddiad mabwysiadu'r Côd /**<br><br>**Date Code adopted** |
|---|---|---|
| Community Council | | |
| Cyngor Cymuned<br>**Penmynydd a Star / Penmynydd and Star**<br>Community Council | Do / Yes | 1/6/2016 |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Pentraeth**<br>Community Council | Do / Yes | 27/4/2016 |
| Cyngor Tref<br>**Porthaethwy / Menai Bridge**<br>Town Council | Do / Yes | 21/3/2016 |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Rhoscolyn**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor Cymuned<br>**Rhosybol**<br>Community Council | Na / No | |
| Cyngor<br>**Rhosyr**<br>Council | Na / No | |
| Cyngor Bro<br>**Trearddur**<br>Community Council | Do / Yes | 28/6/2016 |
| Cyngor Cymdeithas<br>**Tref Alaw**<br>Community Council | Do / Yes | 14/6/2016 |
| Cyngor Bro<br>**Trewalchmai**<br>Community Council | Do / Yes | 4/4/2016 |
| Cyngor Cymuned<br>**Y Fali / Valley**<br>Community Council | Do / Yes | 20/7/2016 |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Medi, 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Cynghorau Cymuned dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2015** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I adrodd ar y gofynion presennol o ran datgan diddordebau gan Gynghorwyr Cymuned** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyfreithiwr - Llywodraethu Corfforaethol** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Mared Yaxley; mwycs@ynysmon.gov.uk ; Ffôn: 01248 752566** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2015 wedi egluro'r sefyllfa o ran cofrestru buddiannau diddordebau gan gynghorwyr tref a chymuned. Cyn yr adolygiadau a ddisgrifir yn eitem 12 ar y rhaglen, mae angen i'r Pwyllgor Safonau fod yn ymwybodol o'r disgwyliadau statudol gan mai'r rhain yw'r safonau y byddir yn asesu cydymffurfiaeth yn eu herbyn yn yr adolygiadau a gynhelir yn y man.

## 2. GOFYNION O RAN CYNGHORWYR TREF A CHYMUNED

Ynghlwm yn **Atodiad 1,** ceir dyfyniad o gyngor a anfonodd Un Llais Cymru allan i'w aelodau, dyddiedig 10.8.2015. Mae’n esbonio nad oes unrhyw ofyniad i gynghorwyr tref a chymuned gwblhau cofrestr "sefydlog" o ddiddordebau.

Mae'n amlwg o’r cyngor y bu peth dryswch ynglŷn â’r mater hwn, gyda chyngor amrywiol yn cael ei gyhoeddi ar wahanol adegau gyda disgwyliadau a oedd yn gwrthdaro. Cytunir bod y wybodaeth a gynhwysir yn **Atodiad 1** yn esbonio yn gywir y sefyllfa bresennol.

Yn ogystal, mae canllawiau dyddiedig 2 Mawrth 2016 gan yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol yn Llywodraeth Cymru hefyd yn cadarnhau: **"bod cynghorwyr cymuned yn parhau i fod wedi eu heithrio o’r gofyniad i gofrestru rhai diddordebau ariannol a diddordebau eraill ymlaen llaw ".**

Felly, mae'r gofynion cofrestru o dan y côd ymddygiad ar gyfer cynghorwyr tref a chymuned yn cael eu crynhoi isod: -

a) Mae'n rhaid i Gynghorwyr ddatgelu ar lafar, unrhyw ddiddordebau personol ac, os yn briodol, ddiddordebau sy'n rhagfarnu, fel a phan fydd y diddordeb hwnnw'n berthnasol i'r mater dan ystyriaeth.

b) Pan fydd Cynghorwyr yn datgelu diddordeb am y tro cyntaf mewn cyfarfod, rhaid iddynt roi cadarnhad ysgrifenedig o'r diddordeb hwnnw i'r clerc cyn diwedd y cyfarfod neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod ddod i ben.

Mae'n rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig gynnwys yr isod o leiaf: -
- Manylion am y diddordeb personol / rhagfarnus;
- Manylion y busnes y mae'r diddordeb yn berthnasol iddo;
- Llofnod yr aelod.

Os yw'r diddordeb yn un rhagfarnus, dylai'r aelod gadarnhau ei fod/bod wedi gadael y cyfarfod a heb gymryd rhan yn y mater.

c) Dylai'r clerc gofnodi'r diddordebau a ddatgelwyd am y tro cyntaf mewn cyfarfod, yn y gofrestr o ddiddordebau. Nid yw'n ymddangos fod ffurf benodol ar gyfer gwneud hyn ond mae'n rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd ar bob adeg resymol a **rhaid iddi fod ar gael yn electronig ar wefan y Cyngor.**

d) Dylai'r gofrestr gael ei diweddaru os oes angen, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl bob cyfarfod pan gaiff diddordebau eu datgan.

e) Oni fydd aelod yn darparu hysbysiad ysgrifenedig o'r diddordeb, yna fe ystyrir nad yw'r diddordeb personol / rhagfarnus wedi cael ei ddatgan.

f) Mae'r gofyniad i ddatgan diddordebau personol a rhagfarnus hefyd yn cynnwys rhoddion a lletygarwch os ydynt yn berthnasol i'r mater dan ystyriaeth. Nid oes unrhyw ofyniad i gadw cofrestr ar wahân ar gyfer rhoddion a lletygarwch.

g) Mae Un Llais Cymru yn argymell y dylai unrhyw ddatganiadau a wneir mewn cyfarfodydd gael eu cofnodi yng nghofnodion y cyfarfodydd hynny.

h) Ni fydd gan unrhyw Gynghorwyr nad ydynt wedi datgan diddordeb unrhyw ffurflenni wedi eu cwblhau yn 'y Gofrestr'; mater i'r cyngor cymuned / tref perthnasol yw penderfynu a fydd yn cyflwyno unrhyw ffurflenni 'gwag' ar wefan y Cyngor ar gyfer yr aelodau hynny.

i) Os bydd unrhyw newidiadau i’r diddordebau a gofrestrwyd gan y Cynghorwyr, bydd raid iddo ef / iddi hi anfon hysbysiad ysgrifenedig at y clerc o fewn 28 diwrnod o'r newid hwnnw.

Mae angen i gynghorwyr hefyd gadw mewn cof bod yn rhaid iddynt ddatgan diddordebau personol a rhagfarnus mewn cyfarfodydd anffurfiol ac y tu allan i'r Cyngor. Gall y datganiad fod yn un ar lafar yn unig, ac nid oes unrhyw system ar gyfer cofnodi datganiadau o'r fath. Ni ddylai Cynghorwyr geisio defnyddio eu statws i ddylanwadu ar unrhyw benderfyniadau; ni ddylai aelodau gymryd rhan os oes ganddynt ddiddordeb sy'n rhagfarnu.

## 3. ARGYMHELLIAD

A. Nodi'r gofynion o ran y Gofrestr o Ddiddordebau y mae’n rhaid i glercod ei chadw wedi i aelodau o’r Cyngor Tref / Cymuned ddatgan diddordeb.

B. Ystyried y gofynion hyn pan fydd y Pwyllgor Safonau’n cynnal yr adolygiadau o Gofrestrau Diddordebau sampl o Gynghorau Tref a Chymuned , a drafodir yn fanylach yn eitem 12 ar y rhaglen.

# ATODIAD / ENCLOSURE

# 1

Cofrestr Buddiannau Aelodau

Mae cofrestr buddiannau a ddatganwyd gan aelodau yn gysyniad a gynhwyswyd mewn sawl darn o ddeddfwriaeth llywodraeth leol, ac yn enwedig felly ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn ystod y ganrif hon. Mae'r cysyniad hwn yn gydnaws â llywodraethu agored a thryloyw. Ceir cysyniad tebyg ar gyfer cofnodi unrhyw roddion neu letygarwch a dderbyniwyd gan aelodau etholedig. Fodd bynnag, yn gyffredinol, cyfyngwyd gweithredu gofynion o'r fath i'r cyrff sector cyhoeddus mwy megis awdurdodau unedol. Yn fwy diweddar, mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru wedi cadarnhau fod angen hefyd i gynghorau cymuned a thref yng Nghymru gadw "cofrestr" o'r fath a bod rhaid i'r gofrestr honno gael ei harddangos yn electronaidd ar wefan y cyngor, cyfleuster y mae'n rhaid i bob cyngor lleol ei gael o 2015/2016 ymlaen.

Yn rhwystredig iawn, cafwyd dryswch a gwahaniaethau barn a heriau ar y mater yma, o ran beth yn union sydd ei angen. Mae Un Llais Cymru yn barnu mai ystyr "cofrestr" yw dogfennaeth mewn unrhyw fformat sy'n dangos buddiannau aelodau (a byddai'r un peth yn wir ar gyfer unrhyw roddion neu letygarwch a dderbyniwyd gan aelodau). Nid yw gweision sifil Llywodraeth Cymru yn awgrymu unrhyw fformatau penodol i'r perwyl hwn yn y canllawiau a gyhoeddwyd ganddynt. Datblygodd Un Llais Cymru ffurflen enghreifftiol ar gyfer diben o'r fath (gweler isod).

Beth mae angen i gynghorau ei wneud:

Yn dilyn trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru, daeth yn amlwg nad yw'r cyfrifoldeb newydd i gyhoeddi'r gofrestr buddiannau ar-lein yn cynnwys llenwi'r ffurflen yr oedd Un Llais Cymru wedi'i dosbarthu i aelod gynghorau ar yr 28ain Mai 2015. Credwyd yn wreiddiol y cafodd y ddarpariaeth i eithrio cynghorwyr cymuned a thref o ofynion paragraff 15(1) y model god ymddygiad i gofrestru rhai buddiannau ariannol ac o fathau eraill o fewn 28 diwrnod i dderbyn eu swyddi ei dileu gan Ddeddf 2013. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau gyda swyddog perthnasol Llywodraeth Cymru, gwelwn nad yw hynny'n wir. Mae'r swyddog yn deall efallai y bu dryswch ar y mater hwn, ac fe gadarnhaodd nad yw Deddf 2013 yn effeithio o gwbl ar ofynion y cod ymddygiad sy'n ymwneud â datgelu a chofrestru buddiannau. Yn fyr, mae gofynion y cod ymddygiad, fel y mae'n berthnasol i gynghorau cymuned a thref, fel a ganlyn:

a) Rhaid i gynghorwyr ddatgan buddiant personol ac, os yn briodol, fuddiant rhagfarnol sy'n gysylltiedig â materion perthnasol pan maent yn bresennol mewn cyfarfodydd.
b) Pan mae cynghorwyr yn datgan buddiant personol am y tro cyntaf, rhaid iddynt roi cadarnhad ysgrifenedig o'r buddiant i'r Swyddog Priodol, cyn neu'n union wedi diwedd y cyfarfod. Mae'n arfer da i'r Swyddog Priodol gofnodi'r datganiadau hyn yng nghofnodion y cyfarfod.
c) Dylai'r Swyddog Priodol gofnodi buddiannau a ddatganwyd mewn cyfarfodydd am y tro cyntaf yn y gofrestr buddiannau yn unol ag adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'w harchwilio gan

y cyhoedd ar unrhyw adeg resymol ac, yn dilyn dyfodiad Deddf 2013, rhaid iddi gael ei gosod ar wefan y cyngor.
d) Dylid diweddaru'r gofrestr cyn gynted ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol yn dilyn pob cyfarfod pan gaiff buddiannau newydd eu datgan.

Pa ddatganiadau i'w cofnodi:

Dylid gwneud datganiadau o fuddiannau yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru (trowch at y Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer aelodau cynghorau cymuned – sydd ar gael ar lecyn aelodau gwefan Un Llais Cymru). Mae'r canllawiau yn cynnwys manylion am fuddiannau personol a rhagfarnol ac maent yn cyfeirio hefyd at roddion a lletygarwch. Yn y pendraw, mater i'r aelodau yw penderfynu a ydynt yn gwneud datganiad o fuddiant ai peidio, gan ddibynnu ar amgylchiadau eu sefyllfa. Mae gan eraill (trydydd partïon) wastad yr hawl i herio unrhyw fethiant i ddatgan buddiant, ac mae'n bwysig felly fod aelodau'n cael eu hatgoffa i gymryd materion o'r fath o ddifrif.

Templed ar gyfer cofrestr/datganiadau:

Mae Un Llais Cymru wedi paratoi "templed" i'w ddefnyddio gan aelod gynghorau at ddibenion gweithredu cofrestr o'r fath, a chafodd ei ddosbarthu i aelod gynghorau. Mae copïau o'r templed hwn ar gael ar lecyn aelodau gwefan Un Llais Cymru, os oes angen. Os ydych yn defnyddio'r ffurflenni hyn (neu unrhyw rai eraill) ar gyfer cofnodi datganiadau o fuddiannau yn swyddogol, y "gofrestr" fel y cyfryw fydd y casgliad o'r holl ffurflenni yn cael eu cyflwyno gyda'i gilydd. Gellir cyflwyno'r rhain mewn unrhyw ddull cyfleus, efallai wedi'u trefnu yn ôl enw aelod neu ddyddiad. Yn naturiol, ni fydd aelodau nad ydynt wedi datgan unrhyw fuddiannau wedi llenwi unrhyw ffurflenni i'r perwyl hwnnw, sy'n golygu y bydd eu cofnodion yn wag (hynny yw, ni fydd ganddynt unrhyw gofnodion). Nid yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol  dangos unrhyw ffurflenni "gwag" o'r fath ar wefan y cyngor, ond nid yw'n anghywir gwneud hynny os mynnwch.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD:** | **14 Medi, 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adolygiad y Pwyllgor Safonau o'r Cofrestrau Diddordeb a gedwir gan Gynghorau Tref a Chymuned** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar yr adolygiad arfaethedig a'r ymatebion a gafwyd gan y Cynghorau Tref a Chymuned** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cyfreithiwr - Llywodraethu Corfforaethol** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **Mared Wyn Yaxley; mwycs@ynysmon.gov.uk ; 01248 752566** |

## 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Fel rhan o'i raglen waith, mae'r Pwyllgor Safonau wedi penderfynu cynnal adolygiad o'r diddordebau a ddatganwyd gan Gynghorwyr Cynghorau Tref a Chymuned. Bydd yr adolygiad hwn yn cynnwys sampl yn unig.

## 2. TREFNIADAU COFNODI

Ar 27 Mehefin 2016, anfonwyd gohebiaeth at Glercod y 40 Cyngor Tref a Chymuned i holi a yw'r cofnodion ar gyfer y cyfnod o fis Mai 2013 ar gael ar wefan y Cynghorau Tref / Cymuned neu ar bapur yn unig, fel y gellir gwneud trefniadau (a) i'w hadolygu o bell, neu (b) i adolygu'r cofnodion perthnasol yn y lleoliad priodol.

Yn **Atodiad 1**, ceir matrics sy'n dangos sut y mae pob Cyngor Tref a Chymuned wedi ymateb. Yn yr ohebiaeth gan y Pwyllgor Safonau, gofynnwyd am ymatebion erbyn diwedd mis Gorffennaf 2016.

## 3. DIM YMATEBION

Ni chafwyd ymateb gan 10 o'r 40 Cyngor Tref a Chymuned.

Awgrymir bod y Pwyllgor Safonau yn ysgrifennu at Gadeirydd pob Cyngor Cymuned sydd heb ymateb, gyda chopi i'r Clerc, yn dweud y gofynnwyd am wybodaeth ac i ofyn pam na chafwyd ymateb a phryd y gellir disgwyl ymateb.

Fel arall, bod y Pwyllgor Safonau yn gofyn i Aelod Etholedig Cyngor Sir Ynys Môn sy'n mynychu cyfarfodydd y Cynghorau Cymuned sydd heb ymateb, i godi'r mater yng nghyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned ac i adrodd yn ôl i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau.

## 4. PENODIADAU AR GYFER YR ADOLYGIADAU

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn cynnig y dylid cynnal adolygiad o'r Cynghorau canlynol:

1. Cyngor Tref Amlwch
2. Cyngor Tref Biwmares
3. Cyngor Tref Caergybi
4. Cyngor Tref Llangefni
5. Cyngor Tref Porthaethwy
6. Cyngor Cymuned Llanbadrig

Mae'r Cynghorau Tref a Chymuned a enwir uchod i gyd wedi ymateb i ohebiaeth y Pwyllgor Safonau, fel y gwelir yn **Atodiad 1.**

Bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal gan Gadeirydd neu Is-gadeirydd y Pwyllgor Safonau, ynghyd ag un aelod arall o'r Pwyllgor Safonau. Bydd y Swyddog Monitro neu'r Cyfreithiwr Llywodraethu Corfforaethol hefyd yn bresennol.

Mae'r trefniadau eto i'w cadarnhau, ond cynigir y canlynol:

1. Cyngor Tref Amlwch - Islwyn Jones (Is-Gadeirydd) a Denise Harris Edwards (Aelod Lleyg)
2. Cyngor Tref Biwmares - Michael Wilson (Cadeirydd) a John Chorlton (cynrychiolydd y Cynghorau Cymuned)
3. Cyngor Tref Caergybi - Michael Wilson a Dilys Shaw (Aelod Lleyg)
4. Cyngor Tref Llangefni - Islwyn Jones a Leslie Lord (Aelod Lleyg)
5. Cyngor Tref Porthaethwy - Islwyn Jones a John Roberts (cynrychiolydd y Cynghorau Cymuned)
6. Cyngor Cymuned Llanbadrig - Michael Wilson a Dilys Shaw

## 5. ARGYMHELLIAD

A. Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau nodi cynnwys yr adroddiad hwn a'r matrics ar **Atodiad 1.**

B. I gadarnhau sut y mae'r Pwyllgor Safonau yn dymuno delio gyda'r Cynghorau hynny nad ydynt wedi ymateb i'r cais am wybodaeth mewn perthynas â'u cofrestr o ddiddordebau.

C. Gofynnir i'r Pwyllgor Safonau gadarnhau'r trefniadau a nodir uchod mewn perthynas â'r adolygiad o'r gofrestr o ddiddordebau a hynny o ran amserlen, y cynghorau a fydd yn cael eu hadolygu a chan bwy.

Ch. I gadarnhau sut y mae'r Pwyllgor Safonau yn dymuno adrodd yn ôl ar y gofynion a nodir yn unol â'r adroddiad sydd wedi ei gynnwys yn eitem 13 mewn perthynas â'r gofynion sydd ar Gynghorau Tref a Chymuned i gofrestru diddordebau; i benderfynu ar y canlyniadau a pha fformat y dylid ei ddefnyddio.

**Atodiad 1 /**
***Enclosure 1***

## A. Ymatebion a dderbyniwyd / *Responses received*

| **Cygnor**<br>***Council*** | **Ymateb**<br>***Response*** | **Dyddiad ymateb**<br>***Date of Response*** |
|---|---|---|
| Cyngor Cymdeithas Aberffraw /<br>*Aberffraw Community Council* | Papur yn unig /<br>*Paper only* | 06.09.2016 |
| Cyngor Tref Amlwch /<br>*Amlwch Town Council* | Papur yn unig. Cofnodion ac agenda arlein /<br>*Paper only. Minutes and agenda online* | 27.06.2016 |
| Cyngor Tref Biwmares /<br>*Beaumaris Town Council* | Rhannol bapur, rhannol arlein /<br>*Partially paper, partially online* | 28.06.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Bodedern /<br>*Bodedern Community Council* | Papur yn unig. Yn sefydlu gwefan /<br>*Paper only. Currently establishing website* | 18.07.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Bodffordd /<br>*Bodffordd Community Council* | Papur yn unig /<br>*Paper only* | 15.07.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Bodorgan /<br>*Bodorgan Community Council* | Papur yn unig /<br>*Paper only* | 06.09.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Bryngwran /<br>*Bryngwran Community Council* | Papur yn unig /<br>*Paper only* | 27.07.2016 |
| Cyngor Tref Caergybi /<br>*Holyhead Town Council* | Cofnodion arlein, papur hefyd /<br>*Minutes online, paper as well* | 15.07.2016 |
| Cyngor Bro Cylch y Garn /<br>*Cylch y Garn Community Council* | Ionawr 2015 – electronig, papur hefyd /<br>*January 2015 – electronic, paper as well* | 22.07.2016 |
| Cyngor Cymuned Llanbadrig /<br>*Llanbadrig Community Council* | Papur yn unig /<br>*Paper only* | 27.06.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Llanddaniel-Fab /<br>*Llanddaniel-Fab Community Council* | Arlein /<br>*Online* | 29.06.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Llanddona /<br>*Llanddona Community Council* | Wedi anfon y cofrestrau drwy ebost /<br>*Sent copies of the registers by email* | 25.07.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Llanddyfnan /<br>Llanddyfnan Community Council | Papur yn unig /<br>*Paper only* | 27.07.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Llaneilian /<br>*Llaneilian Community Council* | Rhannol ar bapur (cofnodion arlein ers 2014/15 – popeth arall ar bapur) /<br>*Partially online (minutes online since 2014/15 – everything else on paper* | 27.06.2016 |
| Cyngor Cymuned Llanerchymedd /<br>*Llanerchymedd Community Council* | Papur yn unig – arlein maes o law /<br>*Paper only – online in near future* | 27.07.2016 |
| Cyngor Cymuned Llaneugrad /<br>*Llaneugrad Community Council* | Papur yn unig /<br>*Paper only* | 27.06.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Llanfachraeth /<br>*Llanfachraeth Community Council* | Papur yn unig /<br>*Paper only* | 15.07.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Llanfaelog /<br>*Llanfaelog Community Council* | Papur yn unig /<br>*Paper only* | 27.06.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Llanfaethlu /<br>*Llanfaethlu Community Council* | Papur yn unig /<br>*Paper only* | 19.07.2016 |
| Cyngor Cymuned Llanfair Mathafarn Eithaf /<br>*Llanfair Mathafarn Eithaf Community Council* | Rhannol bapur (2013/14 & 2014/15). Rhannol arlein (2015/16 & 2016/17) /<br>*Partially paper (2013/14 & 2014/15). Partially online (2015/16 & 2016/17)* | 27.06.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Llanfair yn Neubwll /<br>*Llanfair yn Neubwll Community Council* | Cofrestr a chofnodion yn electronig, datganidau ar bapur /<br>*Registers and minutes electronic,* | 18.07.2016 |

**Atodiad 1 /**
***Enclosure 1***

## A. Ymatebion a dderbyniwyd / *Responses received*

| | | |
|---|---|---|
| | *declarations in paper* | |
| Cyngor Tref Llangefni / *Llangefni Town Council* | Aros i'r aelodau lenwi (erbyn diwedd mis Gorffennaf 2016) / *Waiting for the members to complete (before end of July 2016)* | 18.07.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Llangoed a Penmon / *Llangoed & Penmon Community Council* | Wedi anfon copiau / *Sent copies* | 30.07.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Llangristiolus / *Llangristiolus Community Council* | Papur yn unig / *Paper only* | 06.09.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Llanidan / *Llanidan Community Council* | Papur yn unig / *Paper only* | 28.06.2016 |
| Cyngor Cymuned Moelfre / *Moelfre Community Council* | Papur yn unig – proses o baratoi gwefan / *Paper only – in process of preparing website* | 03.07.2016 |
| Cyngor Cymuned Penmynydd a Star / *Penmynydd & Star Community Council* | Papur yn unig / *Paper only* | 27.07.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Pentraeth / *Pentraeth Community Council* | Dim cofrestr ffurfiol, cael ei gofnodi yn y cofnodion / *No official register, noted in the minutes* | 28.07.2016 |
| Cyngor Tref Porthaethwy / *Menai Bridge Town Council* | Papur yn unig / *Paper only* | 04.7.2016 |
| Cyngor Rhosyr / *Rhosyr Council* | Papur yn unig – proses o baratoi gwefan / *Paper only – process of preparing a website* | 18.07.2016 |
| Cyngor Cymdeithas Treardd / *Trearddur Community Council* | Ar ôl Mawrth 2016 – electronig, cyn Mawrth 2016 – papur yn unig / *Post March 2016 – electronic, pre March 2016 – paper only* | 18.07.2016 |
| Cyngor Bro Tregwalchmai / *Tregwalchmai Community Council* | Papur yn unig / *Paper only* | 17.07.2016 |
| Cyngor Cymuned Y Fali / *Valley Community Council* | Rhannol bapur (cofrestrau diddordeb), rhannol arlein (cofnodion) / *Partially paper (registers of interest), partially online (minutes)* | 27.06.2016 |

**Atodiad 1 /**
***Enclosure 1***

B. Dim ymateb wedi ei dderbyn / No r*esponse received*

1. Cyngor Bro Cwm Cadnant / *Cwm Cadnant Community Council*
2. Cyngor Cymuned Llanfairpwllgwyngyll / *Llanfairpwllgwyngyll Community Council*
3. Cyngor Cymdeithas Llanfihangelesceifiog / *Llanfihangelesceifiog Community Council*
4. Cyngor Cymdeithas Mechell / *Mechell Community Council*
5. Cyngor Cymdeithas Rhoscolyn / *Rhoscolyn Community Council*
6. Cyngor Cymuned Rhosybol / *Rhosybol Community Council*
7. Cyngor Cymdeithas Tref Alaw / *Tref Alaw Community Council*

This page is intentionally left blank